



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 24 Tachwedd 2010  
Wednesday, 24 November 2010**

**Cynnwys**  
**Contents**

- |     |   |
|-----|---|
| 4   | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Questions to the Minister for Health and Social Services  |
| 24  | Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidaeth<br>Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport  |
| 46  | Atal Rheolau Sefydlog<br>Suspension of Standing Orders  |
| 46  | Cynnig i Gymeradwyo Gwelliant i Reol Sefydlog Dros Dro Rhif 27.9A ynghylch Amserlen y Gyllideb Flynyddol<br>Motion to Agree an Amendment to Temporary Standing Order No. 27.9A in relation to the Annual Budget Timetable |
| 47  | Dadl Cyfnod 1 ar Fesur Arfaethedig Ann Jones, sef Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)<br>Stage 1 Debate on Ann Jones's Proposed Fire Safety (Wales) Measure  |
| 71  | Penderfyniad Ariannol ynghylch Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)<br>Financial Resolution in relation to the Proposed Fire Safety (Wales) Measure   |
| 72  | Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc 'Cyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru'<br>The Children and Young People Committee's Report 'Children's Budgeting in Wales'   |
| 91  | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol<br>Welsh Conservatives Debate: The National Health Service   |
| 118 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time   |
| 118 | Dadl Fer: Yr Hawl i Chwarae<br>Short Debate: The Right to Play  |
| 125 | Dadl Fer Wedi'i Gohirio ers 3 Tachwedd 2010: Amddiffyn Gwasanaethau Iechyd Gwledig<br>Short Debate Postponed from 3 November 2010: Protecting Rural Health Services   |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services**

**Ysbyty Llanfrechfa Grange, Cwmbrân**

**Llanfrechfa Grange Hospital, Cwmbran**

**1. Trish Law:** *Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ddatblygu'r Ganolfan arfaethedig ar gyfer Gofal Critigol ac Arbenigol yn Ysbyty Llanfrechfa Grange, Cwmbrân. OAQ(3)1764(HSS)*

**1. Trish Law:** *What progress is being made towards the development of the proposed Specialist and Critical Care Centre at Llanfrechfa Grange Hospital, Cwmbran. OAQ(3)1764(HSS)*

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** The Aneurin Bevan Local Health Board was asked earlier in the year to commence detailed consideration of the potential to phase this scheme and the practical implications of such a phased approach. When this exercise is completed, the LHB will report back to me with its findings.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Gofynnwyd i Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn gynharach yn y flwyddyn i ddechrau ystyried yn fanwl y potensial i gyflwyno'r cynllun hwn fesul cam a goblygiadau ymarferol gwneud hyn fesul cam. Pan gaiff yr ymarfer hwn ei gwblhau, bydd y BIL yn adrodd ei ganfyddiadau yn ôl imi.

**Trish Law:** I was concerned to see in Monday's *South Wales Argus* that uncertainty now surrounds this project. This project is central to Gwent's clinical strategy programme, 'Clinical Futures'. I can understand the uncertainty, given that the capital cost is around £270 million, but I would hope, as the Minister has indicated, that the centre can be developed in phases. Will the Minister give an assurance that this centre will be built, even as a phased development, because new local hospitals, including Ysbyty Aneurin Bevan in my constituency, are being designed to support a single specialist and critical care centre?

**Trish Law:** Roeddwn yn bryderus o weld yn rhifyn dydd Llun o'r *South Wales Argus* fod ansicrwydd ynghylch y prosiect hwn erbyn hyn. Mae'r prosiect hwn yn ganolog i raglen strategaeth glinigol Gwent, 'Dyfodol Clinigol'. Gallaf ddeall yr ansicrwydd, o gofio bod y gost cyfalaf oddeutu £270 miliwn, ond byddwn yn gobeithio, fel y mae'r Gweinidog wedi'i nodi, bod modd datblygu'r ganolfan mewn camau. A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd y bydd y ganolfan hon yn cael ei hadeiladu, hyd yn oed fel datblygiad fesul cam, gan fod ysbytai lleol newydd, gan gynnwys Ysbyty Aneurin Bevan yn fy etholaeth, yn cael eu cynllunio i gefnogi canolfan gofal critigol ac arbenigol sengl?

**Edwina Hart:** How we would manage capital was one of the issues raised with me in scrutiny in the Health and Social Services Committee this morning, given the vast cuts in the capital budget. As I indicated to the committee, this has absolute clinical engagement, and every other proposal within Gwent is dependent upon the delivery of this

**Edwina Hart:** Roedd sut y byddem yn rheoli cyfalaf yn un o'r materion a godwyd gyda mi yn y broses graffu yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bore yma, o gofio'r toriadau helaeth yn y gyllideb gyfalaf. Fel y dywedais wrth y pwyllgor, mae gan hyn ymgysylltiad clinigol llwyr, ac mae pob cynnig arall yng Ngwent yn dibynnu ar gael

specialist centre. Therefore, I very much hope that we will be able to continue with that development. I know that that is what the LHB wishes, and I hope to make an early decision on it when I look at the overall capital issues.

**Lynne Neagle:** Minister, I am grateful for the assurances that you have given on this project so far, and recognise the very significant difficulties that you face in handling your capital budget because of the hand that you have been dealt by the Westminster Government. I know, too, that you recognise the huge support that there is for this project in Gwent. Are you able to offer any assurances in relation to timescale, and when we may be able to expect a further announcement on this issue so that we can end this uncertainty and go forward on this?

**Edwina Hart:** I am looking at all my capital projects and whether I need to delay them and what will happen with them. Gwent does feature in that, and I have asked the LHB to do some current work on it. I do not want to announce delays too soon, but you would accept that the position across Wales is very complicated. I reiterate what I said: this has the makings of an excellent project. It has total clinical buy-in, and, importantly, with the developments that we have seen with the likes of the Gwent frailty project, with the involvement of the local authorities and the local health board, it is integral to taking developments forward in Gwent.

**William Graham:** Minister, thank you for your assurances this afternoon. We appreciate the difficulties, which, so far, you have countered very well. As part of your consideration for the implementation of this widely supported scheme, can you give any assurances with regard to the site in Newport, which is again integral to the whole scheme, bearing in mind that alternative proposals for that site are likely to come forward? The longer it takes, the more pressure there will be on that site. Also, have you given any consideration to alleviating some of the health problems within the city of Newport

y ganolfan arbenigol hon. Felly, rwyf yn gobeithio'n fawr y byddwn yn gallu parhau â'r datblygiad hwnnw. Gwn mai dyna yw dymuniad y BILl, ac rwyf yn gobeithio gwneud penderfyniad cynnar ar hyn pan fyddaf yn edrych ar y materion cyfalaf cyffredinol.

**Lynne Neagle:** Weinidog, rwyf yn ddiolchgar am y sicrwydd rydych wedi'i roi ar gyfer y prosiect hwn hyd yn hyn, ac yn cydnabod yr anawsterau sylweddol iawn sydd yn eich wynebu wrth drafod eich cyllideb gyfalaf oherwydd yr hyn rydych wedi'i gael gan Lywodraeth San Steffan. Gwn, hefyd, eich bod yn cydnabod y gefnogaeth enfawr sydd i'r prosiect hwn yng Ngwent. A ydych yn gallu cynnig unrhyw sicrwydd o ran amserlen, a phryd y byddwn yn gallu disgwyl cyhoeddiad pellach ar y mater hwn er mwyn inni allu rhoi terfyn ar yr ansicrwydd hwn a bwrw ymlaen â hyn?

**Edwina Hart:** Rwyf yn edrych ar bob un o'm prosiectau cyfalaf ac yn gweld a oes angen imi eu gohirio a beth fydd yn digwydd iddynt. Mae Gwent yn rhan o hynny, ac rwyf wedi gofyn i'r BILl wneud rhywfaint o waith arno ar hyn o bryd. Nid wyf am gyhoeddi gohiriadau yn rhy fuan, ond byddech yn derbyn bod y sefyllfa ar draws Cymru yn gymhleth iawn. Ailadroddaf yr hyn a ddywedais: gall y prosiect hwn fod yn un ardderchog. Mae ganddo'r gallu llwyr i brynu gweithwyr clinigol i mewn, ac, yn bwysig, gyda'r datblygiadau rydym wedi'u gweld gyda phrosiectau tebyg i brosiect eiddilwch Gwent, a chyfranogiad yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol, mae'n hanfodol bwrw ymlaen â datblygiadau yng Ngwent.

**William Graham:** Weinidog, diolch am eich sicrwydd y prynhawn yma. Rydym yn gwerthfawrogi'r anawsterau yr ydych wedi'u goresgyn yn dda iawn, hyd yma. Fel rhan o'ch ystyriaeth i weithredu'r cynllun hwn sydd â chefnogaeth eang iddo, a allwch roi unrhyw sicrwydd o ran y safle yng Nghasnewydd, sydd unwaith eto yn hanfodol i'r cynllun cyfan, gan gadw mewn cof ei bod hi'n debygol y cyflwynir cynigion eraill ar gyfer y safle hwnnw? Po hwyaf y mae'n ei gymryd, y mwyaf o bwysau a fydd ar y safle hwnnw. Hefyd, a ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i liniaru rhai o'r problemau iechyd

with regard to the super-healthcentre that is proposed in Ringland?

**Edwina Hart:** With regard to Ringland, it is another key investment required in the area. I understand that there is a discussion around the location, with various parties for and against it. I have asked my officials to look at that, because we do not want to delay important projects that are integral to the whole. You are quite right in saying that every part of this is part of the jigsaw, from the Gwent critical care centre to the improvements that need to be made in Newport, to what is happening elsewhere. I am very mindful of that, and at the earliest opportunity, Presiding Officer, I will advise Members of the conclusions of the discussions.

#### **Blaenoriaethau Darparu Gofal Iechyd**

**2. Andrew R.T. Davies:** *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog o ran darparu gofal iechyd ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad. OAQ(3)1790(HSS)*

**Edwina Hart:** My priorities for the remainder of the third Assembly are laid out in the five-year service, work and financial strategic framework. This will help and support the NHS to deliver its reform agenda and, I hope, realise the savings that it is required to make over the next few years.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer. Of critical importance is the pressure that clinicians face, and also patients' experiences when they present for treatment. There are recent increases in waiting times and referral times for patients waiting to start treatment. The figures per month show a dramatic increase in waiting times. For waits of 26 weeks to 36 weeks, there was a 287 per cent increase, and 1,774 patients waited over 36 weeks. Why is this happening now in the Welsh NHS, and what action are you taking to address this increase in waiting times?

**Edwina Hart:** In responding to previous

o fewn dinas Casnewydd yng nghyswllt y ganolfan iechyd arbennig a gynigir ar gyfer Ringland?

**Edwina Hart:** O ran Ringland, mae'n fuddsoddiad allweddol arall y mae ei angen yn yr ardal. Rwyf ar ddeall bod trafodaeth ynghylch y lleoliad, gyda charfannau amrywiol o'i blaid ac yn ei erbyn. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych ar hynny, gan nad ydym am ohirio prosiectau pwysig sy'n hanfodol i'r cyfan. Rydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod pob rhan o hyn yn rhan o'r jig-so, o'r ganolfan gofal critigol yng Ngwent i'r gwelliannau y mae angen eu gwneud yng Nghasnewydd, i'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill. Rwyf yn ymwybodol o hynny, ac ar y cyfle cyntaf, Lywydd, byddaf yn hysbysu'r Aelodau o gasgliadau'r trafodaethau.

#### **Priorities for the Delivery of Healthcare**

**2. Andrew R.T. Davies:** *What are the Minister's priorities for the delivery of healthcare for the remainder of the third Assembly. OAQ(3)1790(HSS)*

**Edwina Hart:** Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad wedi'u nodi yn y fframwaith gwasanaeth, gweithlu ac ariannol strategol pum mlynedd. Bydd hyn yn helpu ac yn cefnogi'r GIG i gyflawni ei agenda diwygio ac i sicrhau'r arbedion, gobeithio, y mae'n ofynnol iddo eu gwneud dros y blynyddoedd nesaf.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi am yr ateb. Mae'r pwysau y mae clinigwyr yn eu hwynebu yn allweddol bwysig, a phrofiadau cleifion hefyd pan fyddant yn dod i gael triniaeth. Yn ddiweddar gwelwyd cynnydd yn yr amseroedd aros ac yn yr amseroedd atgyfeirio ar gyfer cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth. Mae'r ffigurau fesul mis yn dangos cynnydd dramatig mewn amseroedd aros. Ar gyfer amseroedd aros rhwng 26 wythnos a 36 wythnos, gwelwyd cynnydd o 287 y cant, a bu 1,774 o gleifion yn aros dros 36 wythnos. Pam mae hyn yn digwydd yn awr yn GIG Cymru, a pha gamau rydych yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynnydd hwn mewn amseroedd aros?

**Edwina Hart:** Wrth ymateb i gwestiynau a

questions and debates, I have acknowledged the problems in Cardiff and Vale University Local Health Board, and with the Aneurin Bevan Local Health Board. We have looked at both these boards and at what they are undertaking. They are now, hopefully, working to successfully get back on target; there have been issues around clinicians and specialisms, but we are working collectively to try to resolve these issues. I appreciate that it is distressing for patients if they have to wait longer than they had anticipated.

**Andrew R.T. Davies:** Are you confident, because this problem has not just come about overnight, that the actions that you and the health boards have put in place—and you identified Cardiff and Vale University Local Health Board and the Aneurin Bevan Local Health Board as two organisations that are having particular issues—will not exacerbate the situation, but will decrease the wait that many patients face, given that we are going into the winter months? As I said in my opening remarks, it also causes great distress to the clinicians who deal with the patients daily.

**Edwina Hart:** You make an excellent point in your supplementary question, because we are going into the winter period. I cannot guess what will happen with regard to weather conditions, and the further pressures that that may put on the NHS. We are discussing the issues with the LHBs. I am fairly confident that they will see this through, but I am more than happy to update Members on progress on these issues.

**Helen Mary Jones:** Can you confirm that one of your major priorities for the remainder of this Assembly will be to ensure that the new mental health legislation can be delivered effectively, and that the funding, particularly for children and young people's mental health services, and the developments that are planned, will not be too adversely affected by the current economic climate?

**Edwina Hart:** Mental health remains a key priority, as does the development of mental health facilities. We have a good track record

thrafodaethau blaenorol, rwyf wedi cydnabod y problemau sydd gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan. Rydym wedi edrych ar y ddau fwrdd hyn ac ar yr hyn y maent yn ei gyflawni. Gobeithio eu bod yn gweithio yn awr i fynd yn ôl ar y trywydd iawn yn llwyddiannus; cododd materion yn ymwneud â chlinigwyr ac arbenigeddau, ond rydym yn gweithio ar y cyd i geisio datrys y materion hyn. Rwyf yn sylweddoli ei bod yn peri gofid i gleifion os oes yn rhaid iddynt aros yn hwy nag yr oeddent wedi'i ddisgwyl.

**Andrew R.T. Davies:** A ydych yn hyderus, oherwydd nid yw'r broblem hon wedi codi dros nos, na fydd y camau rydych chi a'r byrddau iechyd wedi'u rhoi ar waith—a nodwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan gennych fel dau sefydliad sy'n wynebu materion penodol—yn gwaethygu'r sefyllfa, ond yn gostwng yr amser aros i lawer o gleifion, o gofio bod misoedd y gaeaf ar ein gwarthaf? Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, mae hefyd yn achosi gofid mawr i'r clinigwyr sy'n trin a thrafod cleifion bob dydd.

**Edwina Hart:** Mae gennych bwynt ardderchog yn eich cwestiwn atodol, oherwydd mae misoedd y gaeaf ar ein gwarthaf. Ni allaf ddyfalu beth fydd yn digwydd o ran y tywydd, a'r pwysau pellach y gall hynny ei roi ar y GIG. Rydym yn trafod y materion gyda'r Byrddau Iechyd Lleol. Rwyf yn eithaf hyderus y byddant yn gweld hyn drwyddo, ond rwyf yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y cynnydd yn y materion hyn.

**Helen Mary Jones:** A allwch gadarnhau mai un o'ch prif flaenoriaethau ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn fydd sicrhau bod y ddeddfwriaeth iechyd meddwl newydd yn gallu cael ei chyflwyno'n effeithiol, ac na fydd yr hinsawdd ariannol bresennol yn effeithio er gwaeth ar yr arian, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, a'r datblygiadau sydd yn yr arfaeth?

**Edwina Hart:** Mae iechyd meddwl yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, fel y mae datblygu cyfleusterau iechyd meddwl.

on delivering capital projects in that area. As I indicated to the Health, Wellbeing and Local Government Committee this morning, it will be a question of looking at priorities, and seeing whether we can keep the momentum up in this area. However, ring fencing, and the robust approach that we have taken to mental health expenditure, will make a difference. As I indicated when we took the mental health legislation through, it was a joy to take it through, and we had excellent cross-party support for it. That means that the outside world will be watching to ensure that the resource is in place to make the legislation a reality.

**Veronica German:** You say that you want to run a transparent and accountable department and NHS. Will you commit to routinely publishing all departmental spend within your portfolio of over £25,000, as currently happens in Scotland and England? I am not talking about long, overly bureaucratic freedom of information requests.

**Edwina Hart:** I am not sure what you are getting at. There is an information statement on every submission that I sign that indicates what is happening with matters. However, I will look at these issues, because I am transparent with regard to issues that arise, and I would not want Members to go through a lot of FOI requests. If there is an issue that you want to raise with me, please simply write to me. I must say that I have a good record in answering written questions on time.

**Veronica German:** Many people were astonished that the work of McKinsey cost over £0.5 million, and that only came to light after intense pressure from the Welsh Liberal Democrats. Given that you have the largest departmental budget, do you not believe that the people of Wales have a right to know about every spend made under your department, not just those that you want us to know about? I will ask you again: will you commit to ensuring that the information is published regularly, and that we do not have to ask for that information more than once?

Mae gennym record dda o gyflawni prosiectau cyfalaf yn y maes hwnnw. Fel y dywedais wrth y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y bore yma, bydd hyn yn gwestiwn o edrych ar flaenoriaethau, a gweld a allwn gynnal y momentwm yn y maes hwn. Fodd bynnag, bydd clustnodi arian a'r agwedd gadarn rydym wedi'i defnyddio o ran gwariant ar iechyd meddwl, yn gwneud gwahaniaeth. Fel y dywedais yn ystod taith y ddeddfwriaeth iechyd meddwl, roedd yn bleser mynd â'r ddeddfwriaeth drwy'r broses honno, a chawsom gefnogaeth drawsbleidiol ragorol iddi. Mae hynny'n golygu y bydd y byd mawr y tu allan yn gwyllo i sicrhau bod yr adnodd yn ei le i wireddu'r ddeddfwriaeth.

**Veronica German:** Rydych yn dweud eich bod yn awyddus i redeg adran a GIG tryloyw ac atebol. A wnewch chi addo cyhoeddi fel mater o drefn yr holl wariant adrannol o fewn eich portffolio sydd dros £25,000, fel sy'n digwydd yn yr Alban a Lloegr ar hyn o bryd? Nid wyf yn sôn am geisiadau hir a gorffwrocrataidd yn ymwneud â rhyddid gwybodaeth.

**Edwina Hart:** Nid wyf yn siŵr am beth rydych yn sôn. Mae datganiad o wybodaeth ar bob cyflwyniad a lofnodaf sy'n dangos yr hyn sy'n digwydd gyda materion. Fodd bynnag, gwnaf edrych ar y materion hyn, oherwydd rwyf yn glir o ran materion sy'n codi, ac ni fyddwn am weld Aelodau yn mynd drwy lawer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Os oes mater yr hoffech ei godi gyda mi, ysgrifennwch ataf. Rhaid imi ddweud fy mod wedi bod yn dda yn ateb cwestiynau ysgrifenedig yn brydlon.

**Veronica German:** Roedd llawer o bobl yn synnu bod gwaith McKinsey wedi costio dros £0.5 miliwn, ac mai dim ond ar ôl pwysau mawr gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru y daeth hynny i'r amlwg. O ystyried bod gennych y gyllideb adrannol fwyaf, onid ydych yn credu bod gan bobl Cymru yr hawl i wybod am bob gwariant a wneir o dan eich adran, nid dim ond y rheini rydych am inni wybod amdanynt? Gofynnaf i chi eto: a wnewch chi addo sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi yn rheolaidd, ac nad oes yn rhaid inni ofyn am y wybodaeth honno fwy nag unwaith?

**Edwina Hart:** I am always interested when McKinsey gets raised in the Chamber. I am not sure whether you should not be singing a jingle to it as an advertisement for McKinsey, because of the interest of the Welsh Liberal Democrats in it. I have already explained the issue on McKinsey, and what its role and function is, and I do not intend to go into it further.

**Alun Davies:** On your priorities for the rest of this Assembly, Minister, I hope that you will continue to protect health spending and ensure that it is spent on front-line services. We know that the Conservatives in Government in London have cut health spending by £500 million. We do not know what they would do in Wales, because Nick Bourne has two policies a day, and Andrew R.T. Davies has three and a half—he does not understand the half. On what we are doing in Government, will you give us a guarantee that health spending will go to the front line and protect vital services?

1.40 p.m.

**Edwina Hart:** Yes. The Government's budget has indicated that we are there to protect front-line services and I have only one policy a day on that.

### Diabetes

**3. Jeff Cuthbert:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg hunanreolaeth ar gyfer cleifion â diabetes. OAQ(3)1748(HSS)*

**Edwina Hart:** Promoting effective self-care is a key part of the national service framework for diabetes and our efforts to improve the management of chronic conditions more generally.

**Jeff Cuthbert:** Thank you for that response, Minister. As you know, I have written to you several times about self-management education for patients and you have been supportive, particularly in the case of children suffering from type 1 diabetes at school. Compared to other regions, we now know that, unfortunately, the take-up rates for education, courses and training for those living with, or affected by, diabetes, are

**Edwina Hart:** Mae gennyf ddiddordeb bob amser pan fydd McKinsey yn cael ei godi yn y Siambr. Nid wyf yn siŵr a ddylech gael cân fach i hyn fel hysbyseb ar gyfer McKinsey, oherwydd diddordeb Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ynddo. Rwyf eisoes wedi egluro'r mater ynghylch McKinsey, a beth yw ei rôl a'i swyddogaeth, ac nid wyf yn bwriadu manylu mwy ar hyn.

**Alun Davies:** Ynghylch eich blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn, Weinidog, rwyf yn gobeithio y byddwch yn parhau i ddiogelu gwariant ar iechyd ac yn sicrhau ei fod yn cael ei wario ar wasanaethau rheng flaen. Gwyddom fod y Ceidwadwyr yn y Llywodraeth yn Llundain wedi torri £500 miliwn oddi ar y gwariant ar iechyd. Nid ydym yn gwybod beth y byddent yn ei wneud yng Nghymru, gan fod gan Nick Bourne ddau bolisi y dydd, ac mae gan Andrew R.T. Davies dri a hanner—nid yw'n deall yr hanner. O ran yr hyn rydym yn ei wneud yn y Llywodraeth, a wneuch chi roi sicrwydd y bydd y gwariant ar iechyd yn mynd i'r rheng flaen ac yn diogelu gwasanaethau hanfodol?

**Edwina Hart:** Gwnaf. Mae cyllideb y Llywodraeth wedi nodi ein bod ni yno i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen a dim ond un polisi y dydd sydd gennyf ar hynny.

### Diabetes

**3. Jeff Cuthbert:** *Will the Minister make a statement on self-management education for patients with diabetes. OAQ(3)1748(HSS)*

**Edwina Hart:** Mae hyrwyddo hunanofal effeithiol yn rhan allweddol o'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes a'n hymdrechion i wella rheolaeth ar gyflyrau cronig yn fwy cyffredinol.

**Jeff Cuthbert:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, rwyf wedi ysgrifennu atoch sawl gwaith am addysg hunanreolaeth ar gyfer cleifion ac rydych wedi bod yn gefnogol, yn enwedig yn achos plant sy'n dioddef o ddiabetes math 1 yn yr ysgol. O'i gymharu â rhanbarthau eraill, rydym yn gwybod erbyn hyn fod y nifer sy'n manteisio ar addysg, cyrsiau a hyfforddiant i'r rheini sy'n byw gyda diabetes, neu'r rheini y



particularly low. We do not know the exact figure, but we assume that it is about 2 per cent. Clearly, improvements in provision and access are needed, as self-management is an important element in reducing life-threatening complications and in controlling the spiralling cost of diabetes in Wales. I am aware that local health boards have been tasked with the delivery of self-management education. Therefore, Minister, will you tell me what support the Welsh Assembly Government is providing to LHBs to ensure that they can deliver the education, and what, if any, financial support LHBs receive to assist them in organising the take-up of education?

**Edwina Hart:** As you indicated, this is a matter for LHBs to deal with, and they have significant discretionary resources available to them. However, I take the points that you make, because I do not think that we have got some of these issues right on the broader public health agenda. Yesterday, I met a world expert on diabetes and how to deal with it more effectively within the public health agenda. He indicated to me that he is willing to work with the Welsh Assembly Government to look at a far more structured approach of dealing with a person with diabetes, with others in the family who might not have diabetes, and with lifestyle issues, and at whether we can have more public health focus in that way. That work will commence in the new year and I will then expect the LHBs to look at implementation. You could look at working with a population base of 100,000 and get to the core issue. That will involve getting the children of diabetics to understand some of the broader health issues, because diabetes can lead to other chronic conditions, and we need to take a different line, perhaps, that really sells how serious diabetes is.

**Mohammad Asghar:** Minister, Diabetes UK Cymru estimates that the rising levels of diabetes will cost the NHS an additional £20 million over the next year. Professor Rhys Williams of Swansea University has warned

mae diabetes yn effeithio arnynt, yn arbennig o isel, yn anffodus. Nid ydym yn gwybod beth yw'r union ffigur, ond rydym yn tybio ei fod oddeutu 2 y cant. Yn amlwg, mae angen gwelliannau yn y ddarpariaeth a'r mynediad, gan fod hunanreolaeth yn elfen bwysig wrth leihau cymhlethdodau sy'n peryglu bywyd ac wrth reoli cost gynyddol diabetes yng Nghymru. Rwyf yn ymwybodol bod byrddau iechyd lleol wedi cael y dasg o gyflwyno addysg hunanreolaeth. Felly, Weinidog, a wnewch chi ddweud wrthyf pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i Fyrddau Iechyd Lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu'r addysg, a pha gymorth ariannol, os o gwbl, y mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn ei gael i'w cynorthwyo i wneud yn siŵr bod pobl yn manteisio ar yr addysg?

**Edwina Hart:** Fel y dywedoch, mae hwn yn fater i'r Byrddau Iechyd Lleol, ac mae cryn dipyn o adnoddau dewisol ar gael iddynt. Fodd bynnag, derbynias y pwyntiau a wnewch, oherwydd nid wyf yn credu ein bod wedi llwyddo gyda rhai o'r materion hyn ar yr agenda ehangach sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Ddoe, cyfarfûm ag arbenigwr byd-eang ar ddiabetes a sut mae ymdrin â hyn yn fwy effeithiol o fewn yr agenda iechyd y cyhoedd. Dywedodd wrthyf ei fod yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i edrych ar ddulliau llawer mwy strwythuredig o ymdrin â pherson sydd â diabetes, gyda phobl eraill yn y teulu nad ydynt o bosibl yn dioddef o ddiabetes, a chyda materion sy'n ymwneud â ffyrdd o fyw, ac i weld a allwn gael mwy o ffocws ar iechyd y cyhoedd fel hyn. Bydd y gwaith hwnnw'n dechrau yn y flwyddyn newydd a byddaf yn disgwyl i'r Byrddau Iechyd Lleol edrych wedyn ar weithredu hyn. Gallech edrych ar weithio gyda sail poblogaeth o 100,000 a mynd at wraidd y mater. Bydd hynny'n golygu cael plant pobl â diabetes i ddeall rhai o'r materion iechyd ehangach, oherwydd gall diabetes arwain at gyflyrau cronig eraill, ac mae angen inni fabwysiadu agwedd wahanol, o bosibl, sy'n cyfleu go iawn pa mor ddirifol yw diabetes.

**Mohammad Asghar:** Weinidog, mae Diabetes UK Cymru yn amcangyfrif y bydd y lefelau cynyddol o ddiabetes yn costio £20 miliwn ychwanegol i'r GIG dros y flwyddyn nesaf. Mae'r Athro Rhys Williams o

that type 2 diabetes is becoming increasingly prevalent in adolescents and children. This worrying trend should be setting off alarm bells, particularly as Wales has one of the world's highest rates of childhood obesity. As Jeff said, self-management education for patients with diabetes is essential, as are any steps linked to lifestyle that can be taken to prevent type 2 diabetes from developing in the first place. What steps is the Welsh Assembly Government taking to ensure that young people and parents are aware that, from an early age, poor lifestyle habits can lead to type 2 diabetes?

**Edwina Hart:** In answer to Jeff Cuthbert's question, I indicated where we were going with further work on this agenda, which will, hopefully, help to tackle some of the issues that you raise. It is well known that if one parent has type 2 diabetes and there are lifestyle issues involved those habits are passed on to the children. Therefore, it is important that we give advice on diet and other issues at a much earlier stage. I am commissioning further work in that area.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, over the last 12 months, we have seen an increase in the prevalence of diabetes among the residents of Powys. It is particularly concerning to see the increase in the prevalence of diabetes in children under the age of five. Developments of better treatments can mean that complications arising out of diabetes and hospital admissions can be prevented. Do you see a role for the Welsh Assembly Government in contributing to research and development of better treatments for type 1 diabetes and, if so, will you outline your priorities in this area?

**Edwina Hart:** This question is fairly opportune, given discussions yesterday. One of the issues that I was talking about was drug treatments for diabetes and the need for GPs to be more engaged in some of these discussions: not for information to be coming from the drugs companies about what they

Brifysgol Abertawe wedi rhybuddio bod diabetes math 2 yn dod yn fwyfwy cyffredin ymysg pobl ifanc a phlant. Dylai'r duedd hon sy'n peri pryder fod yn rhybudd, yn enwedig gan fod gan Gymru un o'r cyfraddau uchaf yn y byd o ran gordewdra ymysg plant. Fel y dywedodd Jeff, mae addysg hunanreolaeth ar gyfer cleifion â diabetes yn hanfodol, yn ogystal ag unrhyw gamau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw y gellir eu cymryd i atal diabetes math 2 rhag datblygu yn y lle cyntaf. Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod pobl ifanc a rhieni yn ymwybodol, o oedran cynnar, y gall arferion gwael o ran ffordd o fyw arwain at ddiabetes math 2?

**Edwina Hart:** Wrth ateb cwestiwn Jeff Cuthbert, nodais i ba gyfeiriad yr oeddem yn mynd gyda gwaith pellach ar yr agenda hon, a fydd, gobeithio, yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godir gennych. Mae'n wybyddus os bydd un rhiant yn dioddef o ddiabetes math 2 a bod materion yn codi ynghylch ffordd o fyw, yna mae'r arferion hynny yn cael eu trosglwyddo i'r plant. Felly, mae'n bwysig ein bod yn rhoi cyngor ar ddeiet a materion eraill yn llawer cynharach. Rwyf yn comisiynu rhagor o waith yn y maes hwnnw.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o ddiabetes ymhlith trigolion Powys. Mae'n destun pryder eithriadol i weld cynnydd yn nifer yr achosion o ddiabetes mewn plant o dan bump oed. Gall datblygu triniaethau gwell olygu bod modd atal cymhlethdodau sy'n deillio o ddiabetes ac atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty. A ydych yn gweld rôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran cyfrannu at ymchwil a datblygu triniaethau gwell ar gyfer diabetes math 1 ac, os felly, a wnewch chi amlinellu eich blaenoriaethau yn y maes hwn?

**Edwina Hart:** Mae'r cwestiwn hwn yn eithaf amserol, o ystyried trafodaethau ddoe. Un o'r materion roeddwn yn sôn amdano oedd triniaeth gyffuriau ar gyfer diabetes a'r angen i feddygon teulu fod yn fwy o ran o rai o'r trafodaethau hyn: nid i gael gwybodaeth oddi wrth y cwmnïau cyffuriau am yr hyn y

can do, but a professional discussion for clinicians to look at how they use drugs, and how they can be used more successfully. We need to look at the encouragement of research in this area, and I will be looking at this with a group that I hope to establish, because we have to tackle this issue. The figures now on diabetes are startling. There also seems to be a myth around diabetes, that diabetes type 2 is just something that occurs. However, it is highly preventable and we have to focus on it more, because the long-term impact on the NHS is enormous. You can rest assured that I will be more than happy, once I have established the group and we undertake the work, to give a report to the National Assembly.

gallant ei wneud, ond trafodaeth broffesiynol ar gyfer clinigwyr i edrych ar sut y maent yn defnyddio cyffuriau, a sut y gellir eu defnyddio'n fwy llwyddiannus. Mae angen inni edrych ar annog ymchwil yn y maes hwn, a byddaf yn edrych ar hyn gyda grŵp yr wyf yn gobeithio ei sefydlu, oherwydd mae'n rhaid inni fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r ffigurau a geir yn awr ar ddiabetes yn frawychus. Ymddengys hefyd fod myth ynghylch diabetes, mai rhywbeth sy'n digwydd yw diabetes math 2. Fodd bynnag, gellir ei atal yn hawdd iawn ac mae'n rhaid inni ganolbwyntio mwy ar hyn, oherwydd mae'r effaith hirdymor ar y GIG yn enfawr. Gallwch fod yn sicr y byddaf yn fwy na pharod, ar ôl imi sefydlu'r grŵp ac inni ymgymryd â'r gwaith, i roi adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

#### Gwastraffu Meddyginiaethau

**4. Jonathan Morgan:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o feddyginiaethau sy'n cael eu gwastraffu yng Nghymru. OAQ(3)1787(HSS)*

**Edwina Hart:** Sadly, over 250 tonnes of medicines are returned each year in Wales at an estimated cost of between £15 million and £50 million to NHS Wales. In September 2010, I launched a medicines waste reduction campaign to highlight this to patients, carers and health professionals and to show what individuals can do to reduce this.

**Jonathan Morgan:** I am grateful to the Minister for that reply. I certainly join her in her concern that 250 tonnes of medicines are wasted each year. As you rightly said, Minister, it is estimated that the cost is close to £50 million a year, which is a staggering amount of money to be lost to the health service. We know that waste occurs for several reasons. We have seen less than optimal ordering of medicines by patients or their carers, waste caused by inefficiencies in the prescribing process, and waste caused by usage and compliance problems with prescribed medicines. While I welcome the campaign to raise awareness of the wastage of medicines, I ask the Government to do more to consider how we can improve health

#### Medicines Wasted

**4. Jonathan Morgan:** *Will the Minister make a statement on the amount of medicines wasted in Wales. OAQ(3)1787(HSS)*

**Edwina Hart:** Yn anffodus, mae dros 250 tonnell o feddyginiaethau yn cael eu dychwelyd bob blwyddyn yng Nghymru ar amcan gost o rhwng £15 miliwn a £50 miliwn i GIG Cymru. Ym mis Medi 2010, lansiwyd ymgyrch i leihau gwastraffu meddyginiaethau er mwyn tynnu sylw cleifion, gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol at hyn ac i ddangos yr hyn y gall unigolion ei wneud i leihau hyn.

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Rwyf finnau'n pryderu hefyd fod 250 tonnell o feddyginiaethau yn cael eu gwastraffu bob blwyddyn. Fel y dywedoch, Weinidog, amcangyfrifir bod y gost yn agos at £50 miliwn y flwyddyn, sy'n swm syfrdanol o arian i'r gwasanaeth iechyd ei golli. Rydym yn gwybod bod gwastraffu yn digwydd am sawl rheswm. Rydym wedi gweld cleifion neu eu gofalwyr yn archebu meddyginiaethau mewn modd sy'n bell o fod y ffordd orau, wedi gweld gwastraff yn cael ei achosi gan aneffeithlonrwydd yn y broses rhoi presgripsiwn, a gwastraff yn cael ei achosi gan broblemau defnyddio a chydymffurfio â meddyginiaethau sydd ar bresgripsiwn. Er fy

literacy among clinicians and the public. We need to ensure that people are aware of prescribing quantities, and that patients understand what medicines they are taking, why they are taking them and how long they should be taking them for. Unless we tackle that, then this scandal will continue. In addition to improving the level of waste in Wales, improving health literacy will also reduce harm to patients.

**Edwina Hart:** We have examples of patients who are not sure how many drugs they are taking or why—it has not been adequately explained to them. Your points are well made and I will ask Chris Martin, who will chair this group, to look at the issues around health literacy and patients understanding the medication that they are taking. There is a big issue with the way that GPs explain to people why they are on these drugs and how they need to take them, and we will have to look at an overall review to perhaps stop some of the prescribing in the first place rather than just encouraging patients not to be wasteful.

**Brian Gibbons:** The cost to the NHS of wasted drugs depends on the price of the drug, and you will be aware, Minister, that the price is determined by the prescription pricing regulation scheme, which is a pretty obscure process even on a clear day. Would you give consideration to the recommendation of the Office of Fair Trading from several years ago to look at value-based pricing, that is, pricing based on the clinical effectiveness of a particular treatment to the NHS? This has reappeared on the agenda as part of the review of the National Institute for Health and Clinical Excellence. While I am not saying at this stage that we should commit ourselves one way or the other to value-based pricing, it may have something to offer compared to the present scheme.

mod yn croesawu'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r gwastraff meddyginiaethau, gofynnaf i'r Llywodraeth wneud mwy i ystyried sut y gallwn wella llythrennedd ym maes iechyd ymysg clinigwyr a'r cyhoedd. Mae angen inni sicrhau bod pobl yn ymwybodol o feintiau a roddir mewn presgripsiwn, a bod cleifion yn deall pa feddyginiaethau y maent yn eu cymryd, pam eu bod yn eu cymryd ac am ba mor hir y dylid eu cymryd. Oni bai ein bod yn mynd i'r afael â hynny, yna bydd y sgandal hwn yn parhau. Yn ogystal â gostwng lefel y gwastraff yng Nghymru, bydd gwella llythrennedd ym maes iechyd hefyd yn lleihau'r niwed i gleifion.

**Edwina Hart:** Mae gennym enghreifftiau o gleifion nad ydynt yn siŵr faint o gyffuriau y maent yn eu cymryd neu pam—nid yw hyn wedi cael ei esbonio'n ddigon da iddynt. Mae'ch pwyntiau wedi cael eu cyfleu'n dda a byddaf yn gofyn i Chris Martin, a fydd yn cadeirio'r grŵp hwn, edrych ar y materion sy'n ymwneud â llythrennedd ym maes iechyd a chleifion yn deall y feddyginiaeth y maent yn ei chymryd. Mae problem fawr gyda'r ffordd y mae meddygon teulu yn esbonio i bobl pam eu bod yn cymryd y cyffuriau hyn a sut y mae angen iddynt eu cymryd, a bydd yn rhaid inni edrych ar adolygiad cyffredinol, efallai, i atal rhoi rhai o'r presgripsiynau yn y lle cyntaf yn hytrach na dim ond annog cleifion i beidio â bod yn wastraffus.

**Brian Gibbons:** Mae'r gost i'r GIG yn sgîl cyffuriau sy'n cael eu gwastraffu yn dibynnu ar bris y cyffur, a byddwch yn gwybod, Weinidog, fod y pris yn cael ei bennu gan y cynllun rheoleiddio prisiau presgripsiynau, sy'n broses eithaf aneglur hyd yn oed ar ddiwrnod clir. A fydddech yn ystyried argymhellid y Swyddfa Masnachu Teg ers sawl blwyddyn yn ôl i edrych ar brisio ar sail gwerth, hynny yw, prisio yn seiliedig ar effeithiolrwydd clinigol triniaeth benodol i'r GIG? Mae hyn wedi ailymddangos ar yr agenda fel rhan o'r adolygiad o'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. Er nad wyf yn dweud yn awr y dylem ymrwymo ein hunain naill ffordd neu'r llall i brisio ar sail gwerth, gall hyn gynnig rhywbeth o'i gymharu â'r cynllun presennol.

**Edwina Hart:** It is important that we look at all options. It is very much on the agenda, and we welcome the discussions on this. My officials are having discussions with the Department for Health on this, and I certainly wish to look at this.

**Edwina Hart:** Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar yr holl ddewisiadau. Mae lle blaenllaw i hyn ar yr agenda, ac rydym yn croesawu'r trafodaethau arno. Mae fy swyddogion yn cynnal trafodaethau ar hyn gyda'r Adran Iechyd, ac rwyf yn sicr yn awyddus i edrych arno.

1.50 p.m.

**Peter Black:** At one end of the scale there is huge wastage of medicines, as you have outlined, but at the other end of the scale we need the Welsh NHS to co-operate in the development of new treatments. I understand that it is Welsh Government policy that patients should be given the opportunity to enter approved clinical trials for which they fulfil the entry criteria. I have a constituent who fulfilled the entry criteria for a pioneering skin cancer project in England, but was refused entry to the trial even though no extra cost would be incurred by the NHS in Wales. Can you assure me that patients are given the opportunity to enter approved clinical trials, as stated in your standards, and that the people of Wales are not being disadvantaged by NHS Wales not allowing them to cross the border for treatment?

**Peter Black:** Ar un pen y raddfa mae gwastraff enfawr o feddyginiaethau, fel rydych wedi'i amlinellu, ond ar ben arall y raddfa mae angen i GIG Cymru gydweithredu wrth ddatblygu triniaethau newydd. Rwyf yn deall ei bod yn bolisi gan Lywodraeth Cymru y dylai cleifion gael cyfle i ymuno â threialon clinigol a gymeradwywyd y maent yn bodloni'r meini prawf mynediad ar eu cyfer. Mae gennyf etholwr sy'n bodloni'r meini prawf mynediad ar gyfer prosiect canser y croen arloesol yn Lloegr, ond gwrthodwyd mynediad iddo i'r treial er na fyddai dim cost ychwanegol i'r GIG yng Nghymru. A allwch fy sicrhau bod cleifion yn cael cyfle i ymuno â threialon clinigol a gymeradwywyd, fel y nodwyd yn eich safonau, ac nad yw pobl Cymru o dan anfantais wrth i GIG Cymru beidio â chaniatáu iddynt groesi'r ffin i gael triniaeth?

**Edwina Hart:** The case that you raised with me did cause me some concern and I have asked officials to look into this matter. We have to be clear on the issues that you raised.

**Edwina Hart:** Gwnaeth yr achos a godwyd gennych gyda mi achosi cryn bryder imi ac rwyf wedi gofyn i swyddogion ymchwilio i'r mater hwn. Mae'n rhaid inni fod yn glir ar y materion a godwyd gennych.

**David Lloyd:** Minister, further to the questions already fielded on medicines wasted, you will be aware that 70 per cent of all prescriptions are, in fact, repeat prescriptions for which patients will not necessarily have seen their GP each time. There is certainly scope for improving and tightening up on the management of repeat prescriptions. One idea is to have the whole repeat prescription process led by the pharmacist in conversation with the GP, but obviously that would depend on the pharmacy computer being in conversation with the GP's computer, which does not happen nowadays. There have been ongoing discussions about this for many years. Could you outline the latest on compatible computer

**David Lloyd:** Weinidog, yn dilyn y cwestiynau sydd eisoes wedi'u gofyn ar wastraffu meddyginiaethau, byddwch yn ymwybodol bod 70 y cant o'r holl bresgripsiynau, mewn gwirionedd, yn bresgripsiynau sy'n cael eu rhoi dro ar ôl tro ac na fydd cleifion o reidrwydd wedi gweld eu meddyg teulu bob tro. Yn sicr mae lle i wella a thynhau ar reoli presgripsiynau sy'n cael eu rhoi dro ar ôl tro. Un syniad yw bod y fferylllydd, yn dilyn sgwrs gyda'r meddyg teulu, yn rheoli'r broses gyfan o roi presgripsiynau dro ar ôl tro, ond byddai hynny, yn amlwg, yn dibynnu ar gyswllt rhwng cyfrifiadur y fferyllfa a chyfrifiadur y meddyg teulu, nad yw'n digwydd y dyddiau hyn. Bu trafodaethau parhaus am hyn ers

systems so that we can tackle this problem once and for all?

**Edwina Hart:** My pharmacy strategic delivery group is working with us to develop a good practice guide on this and is looking at the issues that you raised. We need the computers to talk to each other, and pharmacists play a very valuable role in looking at the drugs that are being prescribed.

### Amseroedd Aros

**5. Jenny Randerson:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros yn Ysbyty Athrofaol Cymru. OAQ(3)1797(HSS)*

**Edwina Hart:** I appreciate your concern, because you have raised this issue with me previously. I take this opportunity to congratulate you publicly on your elevation to the House of Lords, where I am sure you will contribute in many debates and take an interest in many areas.

The large majority of patients within the Cardiff and Vale University Local Health Board area are seen within 26 weeks. However, I am aware that there are currently problems within the trauma and orthopaedics specialty, and the LHB is working hard to resolve these. Of course, that is of no comfort to your constituents who are affected.

**Jenny Randerson:** Thank you, Minister, for your kind words. I have already raised with you the issue of the increasing waiting times for orthopaedic surgery in Cardiff and the Vale, and Andrew R.T. Davies talked about this issue this morning. It has now been reported to the community health council that there are problems with cardiology services and neurosurgery as well. There are particularly long waiting times for hand surgery and spinal surgery. Reports to the community health council say that the health board used the waiting list initiative to achieve waiting time targets, but it stopped commissioning the service in January

blynyddoedd lawer. A allech amlinellu'r wybodaeth ddiweddaraf am systemau cyfrifiadurol cydnaws er mwyn inni allu mynd i'r afael â'r broblem hon unwaith ac am byth?

**Edwina Hart:** Mae fy ngrŵp cyflenwi strategol fferyllol wrthi'n gweithio gyda ni i ddatblygu canllaw arfer da ar hyn ac mae'n edrych ar y materion a godwyd gennych. Mae angen i'r cyfrifiaduron allu cysylltu â'i gilydd, ac mae fferyllwyr yn chwarae rôl werthfawr iawn o ran edrych ar y cyffuriau sy'n cael eu rhoi ar bresgripsiwn.

### Waiting Times

**5. Jenny Randerson:** *Will the Minister make a statement on waiting times at the University Hospital Wales. OAQ(3)1797(HSS)*

**Edwina Hart:** Rwyf yn gwerthfawrogi eich pryder, oherwydd rydych wedi codi'r mater hwn gyda mi o'r blaen. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i'ch llongyfarch yn gyhoeddus ar eich dyrchafiad i Dŷ'r Arglwyddi, ac rwyf yn siŵr y byddwch yn cyfrannu yno mewn nifer o ddadleuon ac yn cymryd diddordeb mewn sawl maes.

Mae'r mwyafrif helaeth o gleifion yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cael eu gweld o fewn 26 wythnos. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol bod problemau ar hyn o bryd o fewn arbenigedd orthopedeg a thrawma, ac mae'r BILI yn gweithio'n galed i ddatrys y rhain. Wrth gwrs, nid yw hynny'n gysur o gwbl i'ch etholwyr yr effeithir arnynt.

**Jenny Randerson:** Diolch am eich geiriau caredig, Weinidog. Rwyf eisoes wedi codi gyda chi y mater yn ymwneud â'r amseroedd aros cynyddol am lawdriniaeth orthopedig yng Nghaerdydd a'r Fro, a bu Andrew R.T. Davies yn siarad am y mater hwn y bore yma. Erbyn hyn mae'r cyngor cymuned iechyd wedi cael gwybod bod problemau gyda'r gwasanaethau cardioleg a niwrolawdriniaeth yn ogystal. Mae'r amseroedd aros yn hir iawn ar gyfer llawdriniaeth dwylo a llawdriniaeth asgwrn y cefn. Mewn adroddiadau i'r cyngor iechyd cymuned, dywedwyd bod y bwrdd iechyd wedi defnyddio'r cynllun rhestr aros i

because it cost too much. You said earlier this afternoon that you are in touch with the health board on this issue. Can you tell us exactly what you are saying to the board, what its response has been and will it, once again, be engaging with the money for the waiting times initiative? Can you tell us when we can expect to see an improvement in waiting times generally, in what has been a rapidly deteriorating situation?

**Edwina Hart:** Thank you for that. Presiding Officer, in the light of the interest in this matter, it might be useful if I were to issue a detailed written statement on the issues that have been raised with Members over the last few weeks.

**Chris Franks:** Minister, thank you for that offer; it will save me from repeating what has already been said today—

**The Presiding Officer:** Order. You would not have been able to do that anyway. [*Laughter.*]

**Chris Franks:** Thank you—not that that would ever happen in this Chamber, of course.

Minister, I think that you have got the message that there is deep concern in the community about this matter, so we will await your reply with interest. Do you agree that the vast majority of patients in the Cardiff and Vale local health board area are seen and treated within the waiting time targets, but that the impact of the UK Government's budget is bound to put further strain on health provision in Wales?

**Edwina Hart:** The vast majority of patients are seen within those targets, but that is of no comfort to those who are not and are still waiting, and I think that we have to recognise that there have been considerable issues in that regard. There have been recruitment issues and issues on the payments side and so on. I think that it would be very helpful if I were to set out for Members the response that I have received from Cardiff and Vale health

gyflawni targedau amseroedd aros, ond ei fod wedi rhoi'r gorau i gomisiynu'r gwasanaeth ym mis Ionawr gan ei fod yn costio gormod. Dywedoch yn gynharach y prynhawn yma eich bod mewn cysylltiad â'r bwrdd iechyd ar y mater hwn. A allwch ddweud wrthym yn union beth rydych yn ei ddweud wrth y bwrdd, beth yw ei ymateb, ac a fydd, unwaith eto, yn defnyddio'r arian ar gyfer y cynllun amseroedd aros? A allwch ddweud wrthym pryd y gallwn ddisgwyl gweld gwelliant mewn amseroedd aros yn gyffredinol, mewn sefyllfa sydd wedi dirywio'n gyflym?

**Edwina Hart:** Diolch ichi am hynny. Lywydd, yn sgîl y diddordeb yn y mater hwn, efallai y byddai'n fuddiol pe bawn yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig manwl ar y materion a godwyd gan Aelodau dros yr wythnosau diwethaf.

**Chris Franks:** Weinidog, diolch ichi am y cynnig hwnnw, bydd yn fy arbed rhag gorfod ailadrodd yr hyn a ddywedwyd eisoes heddiw—

**Y Llywydd:** Trefn. Ni fyddech wedi gallu gwneud hynny beth bynnag. [*Chwerthin.*]

**Chris Franks:** Diolch—dim na fyddai hynny'n digwydd yn y Siambr hon byth, wrth gwrs.

Weinidog, rwyf yn meddwl eich bod wedi deall y neges fod pryder mawr yn y gymuned am y mater hwn, felly disgwyliwn yn eiddgar am eich ymateb. A ydych yn cytuno bod y mwyafrif llethol o gleifion yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro yn cael eu gweld a'u trin o fewn y targedau amser aros, ond bod effaith cyllideb Llywodraeth y DU yn sicr o roi straen pellach ar ddarpariaeth iechyd yng Nghymru?

**Edwina Hart:** Mae'r mwyafrif llethol o gleifion yn cael eu gweld o fewn y targedau hynny, ond nid yw hynny'n gysur o gwbl i'r rheini nad ydynt yn cael eu gweld ac sy'n dal i aros, ac rwyf yn credu bod yn rhaid inni sylweddoli bod problemau sylweddol wedi bod yn hynny o beth. Bu problemau recriwtio a phroblemau yn ymwneud â'r ochr taliadau ac yn y blaen. Rwyf yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol iawn pe bawn yn cyflwyno i'r

board.

**Jonathan Morgan:** Minister, my colleague, Andrew R.T. Davies, has raised on several occasions the issue of the number of patients who have been waiting longer than 26 and 36 weeks for treatment. However, according to the local health board papers that were published in November, at the end of September, there were almost 1,000 patients waiting more than 36 weeks for specific orthopaedic treatment. In the past, the health boards have been able to contract with the independent sector to provide extra capacity so that those patients waiting the longest could receive NHS treatment delivered by an independent contractor. How will the situation get any better before the end of this third Assembly if you decide to follow through on your promise to stop the independent sector from contracting with the public sector to provide NHS services? Surely the situation will get far worse.

**Edwina Hart:** At the end of the day, I am fairly confident that the measures put in place by the Cardiff and Vale University Local Health Board will help to resolve the situation. You are quite right that Cardiff and the Vale has the highest number of orthopaedic patients waiting more than 36 weeks for treatment, hence its being placed under special measures as an organisation.

### Cam-drin Cyffuriau

**6. Leanne Wood:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin cyffuriau. OAQ(3)1795(HSS)*

**Edwina Hart:** Our approach to tackling substance misuse in Wales is clearly set out in our 10-year strategy. In the current year, the delivery of the strategy is supported by £52.6 million.

**Leanne Wood:** In some parts of Wales, people who seek treatment for problematic substance use can wait anything up to 12 months before receiving support. I have been told by those working in the field that that can lead some patients to commit crimes so that they get treatment earlier, either through

Aelodau yr ymateb a gefais gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

**Jonathan Morgan:** Weinidog, mae fy nghyd-Aelod, Andrew R.T. Davies, wedi codi ar sawl achlysur y mater ynghylch nifer y cleifion sydd wedi bod yn aros hwy na 26 wythnos a 36 wythnos am driniaeth. Fodd bynnag, yn ôl papurau'r bwrdd iechyd lleol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, ar ddiwedd mis Medi, roedd bron i 1,000 o gleifion yn aros mwy na 36 wythnos am driniaeth orthopedig benodol. Yn y gorffennol, mae'r byrddau iechyd wedi gallu contractio gyda'r sector annibynnol i ddarparu capasiti ychwanegol fel bod y cleifion hynny sy'n aros hwyaf yn gallu cael triniaeth y GIG gan gontractwr annibynnol. Sut y bydd y sefyllfa yn gwella cyn diwedd y trydydd Cynulliad hwn os ydych yn penderfynu cadw at eich addewid i atal y sector annibynnol rhag contractio gyda'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau'r GIG? Siawns mai gwaethygu y gwnaiff y sefyllfa.

**Edwina Hart:** Ar ddiwedd y dydd, rwyf yn weddol hyderus y bydd y camau a roddwyd ar waith gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn helpu i ddatrys y sefyllfa. Rydych yn llygad eich lle bod gan Gaerdydd a'r Fro y nifer uchaf o gleifion orthopedig sy'n aros mwy na 36 wythnos am driniaeth, a dyna pam ei fod wedi'i roi o dan fesurau arbennig fel sefydliad.

### Drug Abuse

**6. Leanne Wood:** *Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's strategy to tackle drug abuse. OAQ(3)1795(HSS)*

**Edwina Hart:** Mae ein dull o fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn cael ei nodi'n glir yn ein strategaeth 10 mlynedd. Yn y flwyddyn gyfredol, rhoddir £52.6 miliwn i weithredu'r strategaeth.

**Leanne Wood:** Mewn ambell ran o Gymru, gall pobl sy'n ceisio triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau problematig aros hyd at 12 mis cyn cael cymorth. Rwyf ar ddeall gan bobl sy'n gweithio yn y maes y gall hynny arwain at rai cleifion yn troseddu fel eu bod yn cael triniaeth yn gynt, naill ai



the prison system or through community rehabilitation orders. Professionals have told me that the resources available now are about sufficient as they stand, but a more joined-up approach is needed between the various agencies involved, both in the public and voluntary sectors, to ensure that people receive the support that they require straight away, and not months down the line when their problems have spiralled out of control. There are concerns about the impact of cuts in this regard. Minister, could you please tell us what plans the Welsh Assembly Government has to improve the treatment offered to problematic drug users who are outside the criminal justice system?

**Edwina Hart:** I must first say that waiting times have reduced significantly. In 2009-10, almost 80 per cent of people seeking treatment were assessed within four weeks of their referral, with 93 per cent assessed within 12 weeks. More than 87 per cent of the people who received an assessment were then able to start their treatment programme within our key performance indicator target of 10 working days. Therefore, there have been considerable improvements because of the investment that we, the Welsh Assembly Government, have made, but there is still much more to do. When I was visiting a new Kaleidoscope project recently, the staff were talking about some of the problems, with people entering the criminal justice system simply to get quick treatment. I must look at what emerges from policy direction changes elsewhere to see what impact they will have on Welsh services, but tackling substance misuse is a key issue for us in Wales, and we really have to deliver on it. When people make that first decision to seek help and advice, if they cannot get the help that they need quickly, they change their minds because they are the victims of circumstance. Therefore, the issues that you have raised today are important.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** I am pleased to hear the Minister making that commitment about the

drwy'r system carchardai neu drwy orchmynion adsefydlu cymunedol. Mae gweithwyr proffesiynol wedi dweud wrthyf fod yr adnoddau sydd ar gael yn awr fwy neu lai yn ddigonol fel y maent, ond mae angen dull mwy cydgysylltiedig rhwng y gwahanol asiantaethau sy'n gysylltiedig, yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt yn syth, ac nid misoedd yn ddiweddarach pan fydd eu problemau wedi mynd y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae pryderon am effaith y toriadau yn y cyswllt hwn. Weinidog, a wnewch chi ddweud wrthym pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r driniaeth a gynigir i ddefnyddwyr cyffuriau problematig sydd y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol?

**Edwina Hart:** Yn gyntaf, rhaid imi ddweud bod amseroedd aros wedi gostwng yn sylweddol. Yn 2009-10, roedd bron i 80 y cant o bobl a oedd yn disgwyl am driniaeth yn cael eu hasesu o fewn pedair wythnos i'w cyfeirio, gyda 93 y cant yn cael eu hasesu o fewn 12 wythnos. Roedd mwy na 87 y cant o'r bobl a gafodd asesiad yn gallu dechrau eu rhaglen triniaeth wedyn o fewn ein targed dangosydd perfformiad allweddol o 10 diwrnod gwaith. Felly, bu gwelliannau sylweddol oherwydd y buddsoddiad yr ydym ni, Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi'i wneud, ond mae llawer mwy i'w wneud. Wrth ymweld â phrosiect Kaleidoscope newydd yn ddiweddar, roedd y staff yn sôn am rai o'r problemau, gyda phobl yn mynd i'r system cyfiawnder troseddol dim ond er mwyn cael triniaeth gyflym. Mae'n rhaid imi edrych ar beth a ddaw o newid cyfeiriad polisi mewn mannau arall i weld pa effaith a gânt ar wasanaethau Cymru, ond mae mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn fater allweddol inni yng Nghymru, ac mae'n rhaid inni gyflawni hyn o ddifrif. Pan fydd pobl yn gwneud y penderfyniad cyntaf hwnnw i ofyn am gymorth a chyingor, os na allant gael yr help y mae ei angen arnynt yn gyflym, maent yn newid eu meddwl oherwydd eu bod yn dioddef yn sgîl amgylchiadau. Felly, mae'r materion a godwyd gennych heddiw yn bwysig.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Rwyf yn falch o glywed y Gweinidog yn gwneud yr ymrwymiad hwnnw am

importance of this issue. She is aware of the position of Rhosserchan in the area in which I live, just outside Aberystwyth, because I have raised it with her before. It does marvellous work but it is no longer in receipt of core funding and there is therefore a problem with its long-term funding. I am sure that she will agree with me about the important role that Rhosserchan fulfils by providing in-patient treatment for detoxification and drug abuse. Therefore, given what she has said, and given the immense impact that Rhosserchan has on individuals' lives and its contribution to our agenda on crime, homelessness and other major issues, will she take a look at the funding position there and come back to me on that?

**Edwina Hart:** The time is opportune for my officials to look at all our relationships with organisations across the piece. We have our budget, such as it is, and we have to be innovative in our approach to, and relationship with, the voluntary sector. I will certainly ask my officials to look again at that issue.

2.00 p.m.

**Eleanor Burnham:** Minister, we all know what a dreadfully difficult—almost impossible—situation a lot of people find themselves in when they get into this spiral. I believe that, in the 2008-18 substance misuse strategy, you had a delivery programme that included partner organisations. What monitoring evidence do you have on the key performance indicators on young people and their experiences within the assessment, referral and treatment system that you are obviously trying so hard to engage with?

**Edwina Hart:** The very humane way in which you put that question indicates some of the difficulties experienced by the individuals with whom we are dealing. We must accept that there are also some treatment quality issues, which are also very important. Our first annual report on treatment outcome profile data is due in December, so we are getting to grips with the qualitative agenda. I am more than happy to share that with

bwysigrwydd y mater hwn. Mae hi'n ymwybodol o sefyllfa canolfan Rhosserchan yn yr ardal lle rwyf yn byw, y tu allan i Aberystwyth, oherwydd fy mod wedi codi hyn gyda hi o'r blaen. Mae'n gwneud gwaith rhagorol, ond nid yw bellach yn derbyn cyllid craidd ac felly mae problem gyda'i chyllid hirdymor. Rwyf yn siŵr y bydd yn cytuno â mi am y rôl bwysig y mae Rhosserchan yn ei chwarae drwy ddarparu triniaeth i gleifion mewmol ar gyfer dadwenwyno a cham-drin cyffuriau. Felly, o ystyried yr hyn y mae wedi'i ddweud, ac o ystyried yr effaith aruthrol y mae Rhosserchan yn ei chael ar fywydau unigolion a'i chyfraniad i'n hagenda ar drosedd, digartrefedd a materion pwysig eraill, a wnaiff hi edrych ar y sefyllfa ariannu yno a dod yn ôl ataf ar hynny?

**Edwina Hart:** Mae'r amser yn gyfleus i'm swyddogion edrych ar bob perthynas sydd rhyngom â sefydliadau yn gyffredinol. Mae gennym ein cyllideb, o ryw fath, ac mae'n rhaid inni fod yn arloesol yn ein ffordd, a'n perthynas, gyda'r sector gwirfoddol. Byddaf yn sicr yn gofyn i'm swyddogion edrych eto ar y mater hwnnw.

**Eleanor Burnham:** Weinidog, mae pob un ohonom yn gwybod sefyllfa mor ofnadwy o anodd—bron yn amhosibl—y mae llawer o bobl yn eu cael eu hunain ynddi pan fydd pethau'n mynd yn waeth ac yn waeth iddynt. Yn strategaeth camddefnyddio sylweddau 2008-18, roeddwn yn credu bod gennych raglen gyflawni a oedd yn cynnwys sefydliadau partner. Pa dystiolaeth monitro sydd gennych ar y dangosyddion perfformiad allweddol ar bobl ifanc, a'u profiadau o fewn y system asesu, atgyfeirio a thriniaeth, yr ydych yn amlwg yn ceisio mor galed i ymgysylltu â hwy?

**Edwina Hart:** Mae'r ffordd sensitif iawn yr ydych yn gofyn y cwestiwn hwnnw yn dangos rhai o'r anawsterau a brofir gan yr unigolion yr ydym yn ymdrin â hwy. Rhaid inni dderbyn bod rhai materion yn codi hefyd ynghylch ansawdd triniaeth, sydd hefyd yn bwysig iawn. Disgwylir cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar ddata proffil canlyniadau triniaeth ym mis Rhagfyr, felly rydym yn mynd i'r afael â'r agenda ar

Members by way of a written statement, perhaps, in the new year to explain what is going on with this agenda. I do not think that Members understand the seriousness of this until they are confronted with it, when families turn up at their constituency surgeries begging for help for their loved ones—we do not understand what pain it causes families and how it breaks them up.

ansawdd. Rwyf yn fwy na pharod i rannu hynny gyda'r Aelodau ar ffurf datganiad ysgrifenedig, efallai, yn y flwyddyn newydd i esbonio beth sy'n digwydd gyda'r agenda hon. Nid wyf yn credu bod yr Aelodau yn deall difrifoldeb hyn nes eu bod yn dod wyneb yn wyneb â hyn, pan fo teuluoedd yn dod i'w cymorthfeydd yn eu hetholaeth yn erfyn am gymorth i'w hanwyliaid—nid ydym yn deall y boen y mae hyn yn ei achosi i deuluoedd a sut y mae'n eu rhwygo.

### Gwasanaethau Deintyddol

**7. Rhodri Glyn Thomas:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau deintyddol yn y Gorllewin. OAQ(3)1783(HSS)*

**Edwina Hart:** The ability of patients to access NHS dental services in west Wales has improved since the dental contract was introduced. Hywel Dda Local Health Board area has seen significant growth in access to NHS dental services since 2006, with well over 40,000 additional NHS patients regularly accessing care.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol fy mod wedi codi cwestiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth yn ardal Castellnewydd Emlyn ers peth amser. Cysylltais â chi, fel Gweinidog, a chysylltoch chi â bwrdd iechyd Hywel Dda. Yn dilyn hynny, cawsom ymrwymiad gan y bwrdd iechyd y byddai gwasanaeth deintyddol llawn yn cael ei adfer i ardal Castellnewydd Emlyn erbyn diwedd mis Hydref. Erbyn hyn, mae'n ddiwedd mis Tachwedd ac nid yw'r gwasanaeth wedi'i sefydlu. Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf? Os nad yw'n bosibl rhoi'r diweddariad hwnnw, a wnewch bwyso unwaith yn rhagor ar y bwrdd iechyd i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael cyn gynted ag y bo modd?

**Edwina Hart:** You have not only raised this issue with me in the Chamber, but you raise it all the time in correspondence. Replacing a dental service is not always a quick matter, as we have to put someone in place, ensuring that they are prepared to enter into new business arrangements. A contract to provide a replacement service in Newcastle Emlyn

### Dental Services

**7. Rhodri Glyn Thomas:** *Will the Minister make a statement on the provision of dental services in West Wales. OAQ(3)1783(HSS)*

**Edwina Hart:** Mae gallu cleifion i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG yn y gorllewin wedi gwella ers cyflwyno'r contract deintyddol. Mae ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi gweld twf sylweddol yn y mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG er 2006, gydag ymhell dros 40,000 o gleifion GIG ychwanegol yn cael mynediad at ofal yn rheolaidd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, you will know that I have been raising questions about provision in the Newcastle Emlyn area for some time. I contacted you as Minister and you contacted the Hywel Dda health board. Following that, we received a commitment from the health board that a full dental service would be secured for the Newcastle Emlyn area by the end of October. It is now the end of November and the service has not been established. What is the latest situation? If it is not possible to give an update today, will you again put pressure on the health board to ensure that provision is available as soon as possible?

**Edwina Hart:** Nid ydych wedi codi'r mater hwn gyda mi yn y Siambr, ond rydych yn ei godi drwy'r amser mewn gohebiaeth. Nid yw cael gwasanaeth deintyddol yn lle un arall yn fater cyflym bob tro, gan fod yn rhaid inni gael rhywun i wneud y gwaith, gan sicrhau eu bod yn barod i gychwyn ar drefniadau busnes newydd. Mae contract i ddarparu

has now been awarded, following a full and open tendering exercise. The preferred provider is currently negotiating a suitable rental rate for the dental surgery. We hope that the service will be in place by February 2011; if it is not, please ask me another question on the issue.

**Paul Davies:** I am pleased to hear that reply, as that has an enormous impact on my constituents in north Pembrokeshire. As the Minister is aware, there is also a vast shortfall in the provision of orthodontic services in west Wales. Some patients are experiencing very lengthy waits and are frequently forced to travel considerable distances to access treatment. We have recently heard how orthodontic services at Withybush hospital have been transferred to Morriston. Will the Minister detail what discussions she has had with the local health board and the dental services advisory group on this issue? What steps is the Welsh Assembly Government taking to support the local health board in bringing dental and orthodontic services back to Pembrokeshire?

**Edwina Hart:** Orthodontic services are widely available, but there are considerable regional variations, to which you alluded. Consideration is now being given to the development of a managed clinical network for orthodontics, which I think will be useful. The orthodontic review highlighted the complexities of this issue. In some instances, list sizes are inflated through early, duplicate or inappropriate referrals. That is why the managed clinical networks will be used. I appreciate that Carmarthenshire and Pembrokeshire signed off plans for the secondary orthodontic service to be provided by the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board in the summer of 2009, following a failure to permanently recruit a consultant at Withybush hospital. I am more than happy to raise this issue again during one of my regular meetings with the Chair, as your constituents are obviously expressing some considerable concerns, and I will reply to you in a letter.

gwasanaeth newydd yng Nghastellnewydd Emlyn wedi cael ei ddyfarnu erbyn hyn, yn dilyn ymarfer tendro agored a llawn. Ar hyn o bryd mae'r darparwr a ddewiswyd yn trafod cyfradd rhent addas ar gyfer y feddygfa ddeintyddol. Rydym yn gobeithio y bydd y gwasanaeth ar waith erbyn mis Chwefror 2011; os nad yw, cofiwch ofyn cwestiwn arall imi ar y mater.

**Paul Davies:** Rwyf yn falch o glywed yr ateb hwnnw, gan fod hynny'n cael effaith enfawr ar fy etholwyr yng ngogledd sir Benfro. Fel y gŵyr y Gweinidog, mae diffyg mawr hefyd yn narpariaeth y gwasanaethau orthodontig yn y gorllewin. Mae rhai cleifion yn gorfod aros yn hir iawn ac yn aml yn gorfod teithio cryn bellter i gael triniaeth. Rydym wedi clywed yn ddiweddar sut y mae gwasanaethau orthodontig yn Ysbyty Llwynhelyg wedi cael eu trosglwyddo i Dreforys. A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r bwrdd iechyd lleol a'r grŵp cynghori ar wasanaethau deintyddol ynghylch y mater hwn? Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r bwrdd iechyd lleol i ddod â gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau orthodontig yn ôl i sir Benfro?

**Edwina Hart:** Mae gwasanaethau orthodontig ar gael yn eang, ond mae amrywiadau sylweddol yn rhanbarthol, yr ydych wedi cyfeirio atynt. Rhoddir ystyriaeth yn awr i ddatblygu rhwydwaith clinigol rheoledig ar gyfer orthodonteg, a chredaf y bydd hyn yn ddefnyddiol. Roedd yr adolygiad ar orthodonteg yn tynnu sylw at gymhlethdodau'r mater hwn. Mewn rhai achosion, mae maint rhestrau yn chwyddo yn sgîl cyfeirio achosion yn gynnar, eu cyfeirio fwy nag unwaith neu gyfeirio amhriodol. Dyna pam y defnyddir y rhwydweithiau clinigol rheoledig. Rwyf yn sylweddoli bod sir Gaerfyrddin a sir Benfro wedi cytuno ar gynlluniau i'r gwasanaethau orthodontig eilaidd gael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ystod haf 2009, yn dilyn methiant i recriwtio ymgynghorydd yn barhaol yn ysbyty Llwynhelyg. Rwyf yn fwy na pharod i godi'r mater hwn eto yn ystod un o fy nghyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cadeirydd, gan fod eich etholwyr yn amlwg yn mynegi

pryderon sylweddol, ac anfonaf yr ymateb atoch mewn llythyr.

**Joyce Watson:** My question is along the same lines as that of Paul Davies. I have been made aware of the extreme difficulties that people face as a result of the removal of orthodontic services at Withybush hospital and the consequential need to travel. Most people find it extremely challenging to be able to travel those distances, particularly when they have less money in their pockets. I was pleased to hear the assurances that you gave to Paul Davies, and I will watch that space with interest. Am I right to believe, Minister, that we have put the investment in place, but that those people are being prevented from having that treatment by a particular problem in a particular place, which is Withybush hospital, and the need to recruit?

**Edwina Hart:** Yes; you are perfectly correct in your analysis, but there is a wider issue. If we are unable to recruit in a specific area to provide those services, why can those who provide such services in a neighbouring health board area not go in to provide them on a basis such as that which is used for clinics or other specialities? That is the issue that I now intend to pursue. We are having difficulties with recruitment and so on, particularly in rural areas. Perhaps clinicians should go out to those people on a regular basis. It might not be absolutely suitable; some may still prefer to go elsewhere, but we must look at these types of issues in these times.

#### **Mynediad at Feddygfeydd Teulu**

**8. Rosemary Butler:** *A wnaiiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella mynediad at bractisau meddygon teulu yn ardal Casnewydd. OAQ(3)1768(HSS)*

**Edwina Hart:** Our approach to primary care, including GP access, is set out in 'Setting the Direction', our strategic delivery programme. I understand that significant improvements have been made in Newport since the Gwent mystery-shopper report in 2008.

**Joyce Watson:** Mae fy nghwestiwn yn debyg i'r hyn a ofynnwyd gan Paul Davies. Rwyf wedi cael gwybod am yr anawsterau enbyd sy'n wynebu pobl o ganlyniad i symud y gwasanaethau orthodontig yn ysbyty Llwynhelyg a'r angen i deithio yn sgîl hynny. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei chael yn anodd dros ben i allu teithio'r pellteroedd hynny, yn enwedig pan mae ganddynt lai o arian yn eu pocedi. Roeddwn yn falch o glywed y sicrwydd a roesoch i Paul Davies, a byddaf yn cadw golwg i weld beth fydd yn digwydd. A wyf yn iawn i gredu, Weiniidog, ein bod wedi buddsoddi, ond bod y bobl hynny yn cael eu hatal rhag cael y driniaeth honno gan broblem benodol mewn man penodol, sef ysbyty Llwynhelyg, a'r angen i recriwtio?

**Edwina Hart:** Ydych; mae eich dadansoddiad yn berffaith gywir, ond mae mater ehangach yn codi. Os na allwn recriwtio mewn ardal benodol i ddarparu'r gwasanaethau hynny, pam na all y rheini sy'n darparu gwasanaethau o'r fath mewn ardal bwrdd iechyd cyfagos eu darparu ar yr un sail ag a ddefnyddir ar gyfer clinigau neu arbenigeddau eraill? Dyna'r broblem yr wyf yn bwriadu ymchwilio iddi'n awr. Rydym yn cael anawsterau recriwtio ac yn y blaen, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Efallai y dylai clinigwyr fynd allan at y bobl hynny yn rheolaidd. Efallai nad yw hynny'n gwbl addas; efallai y byddai'n well gan rai fynd i rywle arall, ond rhaid inni edrych ar faterion o'r math y dyddiau hyn.

#### **Access to GP Practices**

**8. Rosemary Butler:** *Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government initiatives to improve access to GP practices in the Newport area. OAQ(3)1768(HSS)*

**Edwina Hart:** Mae ein dull gweithredu gyda gofal sylfaenol, gan gynnwys mynediad at feddygon teulu, wedi'i nodi yn 'Gosod y Cyfeiriad', ein rhaglen cyflawni strategol. Rwyf ar ddeall bod gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud yng Nghasnewydd ers adroddiad cwsmer cudd Gwent yn 2008.

**Rosemary Butler:** Thank you for that, Minister. A constituency survey, which I am currently carrying out, shows that people generally feel that the national health service is doing a good job. However, there is concern about access to GP services. As you say, since the mystery-shopper initiative in 2008, the Welsh Assembly Government has tried to persuade doctors to extend their surgery hours, but a significant number of those who responded to my survey feel that practices should do more to open their doors in the evening and at weekends. How can you ensure that surgeries become more patient-friendly, and at the same time what can you do about the thousands of patients who undermine the system by failing to turn up for their appointments?

**Edwina Hart:** This business of missed appointments in GP practices is very frustrating for the practice and is certainly frustrating for the other individuals who are trying to make appointments. I know that many GP practices display the number of missed appointments on the wall, and there are people who think that persistent offenders should be looked at in a different way. This is very difficult because GPs would not want to stop those people from making appointments in case they made an appointment one day, took it up and it was actually needed.

On the wider issue on opening hours, we negotiated an extended opening hours DES with the British Medical Association in 2008 as an option for local health boards to put the funding in place. We need to do more on this particular agenda. One of the frustrations that I have found, particularly for those people who work, is that if GP practices are not open between 8 a.m. to 6.30 p.m. as they should be, you cannot get an appointment before you go to work or you cannot have an appointment at the end of the day. There must be more flexibility. In other areas, there has been a great deal of flexibility about changes to working practices. People must realise that we are in a new century, and there are different patterns of work, to which people must respond.

**Rosemary Butler:** Diolch ichi am hynny, Weinidog. Mewn arolwg etholaeth, yr wyf yn ei gynnal ar hyn o bryd, dangosir bod pobl yn teimlo, ar y cyfan, fod y gwasanaeth iechyd gwladol yn gwneud gwaith da. Fodd bynnag, mae pryder ynghylch mynediad at wasanaethau meddyg teulu. Fel y dywedwch, ers y fenter cwsmer cudd yn 2008, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio dwyn perswâd ar feddygon i ymestyn oriau eu meddygfeydd, ond mae nifer sylweddol o'r rheini a ymatebodd i'm harolwg yn teimlo y dylai practisau wneud mwy i agor eu drysau gyda'r nos ac ar benwythnosau. Sut y gallwch sicrhau bod meddygfeydd yn fwy hwylus i gleifion, ac ar yr un pryd beth y gallwch chi ei wneud am y miloedd o gleifion sy'n tanseilio'r system drwy beidio â mynychu eu hapwyntiadau?

**Edwina Hart:** Mae'r busnes o golli apwyntiadau mewn practisau meddygon teulu yn rhwystredig iawn i'r practis, ac yn sicr yn rhwystredig i'r unigolion eraill sy'n ceisio gwneud apwyntiad. Gwn fod llawer o bractisau meddygon teulu yn dangos nifer yr apwyntiadau a gollwyd ar y wal, ac mae rhai pobl yn credu y dylid edrych mewn ffordd wahanol ar y rheini sy'n gwneud hyn yn gyson. Mae hyn yn anodd iawn gan na fyddai meddygon teulu am atal y bobl hynny rhag gwneud apwyntiadau rhag ofn y byddent yn gwneud apwyntiad un diwrnod, yn dod i'r apwyntiad hwnnw a bod gwir angen yr apwyntiad hwnnw arnynt.

O ran y mater ehangach yn ymwneud ag oriau agor, buom yn trafod Gwasanaethau Ychwanegol dan Gyfarwyddyd ar gyfer oriau agor estynedig gyda Chymdeithas Feddygol Prydain yn 2008 fel opsiwn i fyrddau iechyd lleol roi'r cyllid ar ei gyfer. Mae angen inni wneud mwy ar yr agenda benodol hon. Un o'r rhwystredigaethau rwyf wedi'i gweld, yn enwedig i'r bobl hynny sy'n gweithio, yw os nad yw meddygfeydd ar agor rhwng 8 a.m. a 6.30 p.m. fel y dylent fod, ni allwch gael apwyntiad cyn ichi fynd i weithio neu ni allwch gael apwyntiad ar ddiwedd y dydd. Rhaid cael mwy o hyblygrwydd. Mewn meysydd eraill, gwelwyd llawer iawn o hyblygrwydd o ran newidiadau i arferion gweithio. Rhaid i bobl sylweddoli ein bod mewn canrif newydd, a bod patrymau

gweithio gwahanol, y mae'n rhaid i bobl ymateb iddynt.

**William Graham:** You will be well aware, Minister, of the success of the small cost-effective transient ischaemic attack units that have been established at clinics at St Woolos Hospital, and also at Nevill Hall Hospital. As you know, they make a quick assessment and offer treatment quickly to people who have suffered a minor stroke, and are able, hopefully, to prevent a more serious stroke. Would the Minister consider adopting the scheme on a wider basis throughout south-east Wales, and perhaps similar schemes targeting heart disease?

**William Graham:** Byddwch yn ymwybodol iawn, Weinidog, o lwyddiant unedau bach cost-effeithiol ar gyfer pyliau o isgemia dros dro a sefydlwyd mewn clinigau yn Ysbyty Gwynllyw, a hefyd yn Ysbyty Nevill Hall. Fel y gwyddoch, maent yn gwneud asesiad cyflym ac yn cynnig triniaeth gyflym i bobl sydd wedi dioddef o strôc fach, ac maent, gobeithio, yn gallu atal strôc fwy difrifol. A fyddai'r Gweinidog yn ystyried mabwysiadu'r cynllun yn ehangach ledled y de-ddwyrain, a chynlluniau tebyg efallai sy'n targedu clefyd y galon?

**Edwina Hart:** When you have a successful scheme, William, it is good to sell best practice elsewhere. I know that my specialist officials in this area are aware of this, and it is certainly a matter that I will take up with them.

**Edwina Hart:** Pan mae gennych gynllun llwyddiannus, William, mae'n beth da gwerthu arferion gorau mewn mannau eraill. Rwyf yn gwybod bod fy swyddogion arbenigol yn y maes hwn yn ymwybodol o hyn, ac mae'n sicr yn fater y byddaf yn ei drafod gyda hwy.

## **Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidaeth**

### **Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport**

#### **Cefnogi Busnesau Bach**

#### **Supporting Small Businesses**

*1. Paul Davies: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau bach yn y Gorllewin. OAQ(3)1724(ECT)*

*1. Paul Davies: What is the Welsh Assembly Government doing to support small businesses in West Wales. OAQ(3)1724(ECT)*

2.10 p.m.

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae ein cefnogaeth ar gyfer busnesau bach yng ngorllewin Cymru yn parhau drwy 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'. Un o'r blaenoriaethau dros y misoedd nesaf yw annog busnesau newydd drwy ein hymgyrch entrepreneuriaeth newydd a lanswyd yr wythnos diwethaf.

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** Our support for small businesses in west Wales is continuing through 'Economic Renewal: a new direction'. One of our priorities over the next three months is to encourage new businesses through the entrepreneurship campaign that we launched last week.

**Paul Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Brif Weinidog am yr ateb hwnnw. Cyfarfûm â grŵp o bobl busnes o'm hetholaeth i siarad am ffyrdd o gefnogi

**Paul Davies:** I am grateful to the Deputy First Minister for that answer. I met a group of business people from my constituency to talk about ways of supporting small local

busnesau bach lleol. Un o broblemau'r busnesau bach yn yr ardal yr wyf yn ei chynrychioli yw'r ffaith nad ydynt yn cael eu talu ar amser oherwydd eu bod yn gweithio i gwmnïau mawr ar ran cyrff cyhoeddus sy'n methu â'u talu nhw. Er bod cytundeb gan y cyngor lleol i dalu'r cwmnïau mawr gwreiddiol ar amser, nid yw'r cwmnïau mawr yn gallu talu'r cwmnïau bach ar amser gan nad ydyw hynny wedi'i nodi mewn unrhyw gytundeb rhyngddynt. Mae hyn yn creu problemau ariannol i'r busnesau bach hynny. O dan yr amgylchiadau hynny, a wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddweud wrthym a yw Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu canllawiau yn y maes hwn i gyrff cyhoeddus sydd yn is-gontractio gwaith drwy gwmnïau mawr, oherwydd gwn fod y Llywodraeth wedi annog gyrff cyhoeddus i dalu ar amser yn y gorffennol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Do. Un o'r pethau a godwyd gyda ni yn yr uwchgynadleddau economaidd oedd sicrhau fod busnesau bach, yn arbennig, yn cael eu talu ar amser. Fel Llywodraeth, gwnaethom ymrwymiad y byddem yn prysuro'r taliadau hynny, ac mae awdurdodau lleol wedi gwneud yr un fath. Mae'n anos gwneud hynny pan fo cwmnïau preifat yn gysylltiedig â'r mater, ond os oes cyfle i ni annog cwmnïau'n gryfach i dalu ar amser o fewn contractau cyhoeddus, yr wyf yn hapus i edrych ar y pwynt yr ydych yn ei wneud.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, daeth perchennog cwmni adeiladu i'm gweld yn ddiweddar yn cwyno fod cytundeb wedi ei roi i gwmni o Loegr i wneud gwaith adeiladu gan yr awdurdod lleol, a hynny heb broses dendro. Yr wyf yn cael cwynion cyson gan gwmnïau bach yn fy etholaeth nad ydynt yn cael y cyfle hyd yn oed i dendro am gytundebau gyda'r awdurdod lleol, a bod llawer o'r cytundebau hyn yn mynd ar draws y ffin i Loegr. Byddai'r awdurdod lleol yn dadlau fod yn rhaid iddo weithredu ar sail gwerth gorau, ond a fydddech yn cytuno nad y pris isaf yw'r gwerth gorau bob amser, bod gan gwmnïau bach gyfraniad mawr i'w wneud i'r economi leol, ac y dylid ystyried hynny wrth osod cytundebau?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae hwn yn

businesses. One of the problems facing small business in the area that I represent is that they are not paid on time because they work for large companies on behalf of public bodies that cannot pay them. Although the local council has agreed to pay those large companies on time, the large companies cannot pay the small companies on time because that is not noted in any agreement between them. That creates financial problems for those small businesses. Under the circumstances, can the Deputy First Minister tell us whether the Assembly Government has provided guidelines in this field for public bodies that sub-contract work through large companies, because I know that the Government has encouraged public bodies to pay on time in the past?

**The Deputy First Minister:** Yes. One matter raised with us in the economic summits was ensuring that small businesses, in particular, are paid on time. As a Government, we made a commitment that we would speed up the payments, and local authorities have done the same. It is more difficult to do that when private companies are involved, but if there is any way for us to urge companies more strongly to pay on time within public contracts, I am happy to look at the point that you make.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, the owner of a construction company came to see me recently complaining that a contract had been awarded to a company from England to undertake local authority construction work without a tendering process. I receive complaints regularly from small companies in my constituency that they are not given the opportunity even to tender for local authority contracts, and that many of these contracts go over the border to England. The local authority would argue that it must operate on the basis of best value, but would you agree that the lowest price is not always best value, that small companies have a big contribution to make to the local economy, and that that should also be taken into consideration when awarding contracts?

**The Deputy First Minister:** This is an issue



fater a godwyd yn gyson yn ystod y cyfnod diweddar, yn arbennig mewn cyfnod o ddirwasgiad pan fydd contractau cyhoeddus yn rhan bwysig o geisio cynnal yr economi, ac yn arbennig economïau lleol. Mae llawer o waith wedi ei wneud yn y 18 mis diwethaf ar y polisi caffael er mwyn ei gwneud yn haws i gwmnïau brodorol ymgeisio am y gwaith hwn. Byddwn yn amheus iawn a oes unrhyw awdurdod lleol yn gosod contract heb dendro. Yr hyn sy'n digwydd yn aml yw nad yw cwmnïau lleol yn teimlo eu bod yn gallu tendro oherwydd y ffordd mae rhai awdurdodau lleol yn dehongli'r rheolau caffael. Felly, yr ydym wedi ceisio cael cysondeb yn y broses honno, er ei fod yn faes anodd oherwydd y rheoliadau Ewropeaidd. Sefydlodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb grŵp llywio adeiladu ar 26 Hydref sydd â'r bwriad o weld sut y gall cwmnïau o Gymru fod yn fwy cystadleuol yn y maes hwn. Yr wyf yn gobeithio y bydd hynny'n help. Er bod enghreifftiau yn parhau i fodoli lle mae cwmnïau wedi methu ag ennill y contractau, bu newid yn nifer y cwmnïau o Gymru sydd wedi llwyddo i ennill y contractau hyn yn ddiweddar. Fodd bynnag, yr wyf yn derbyn fod angen inni wneud mwy hefyd.

### **Mewnfuddsoddi yng Nghymru**

**2. Brian Gibbons:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fewnfuddsoddi yng Nghymru. OAQ(3)1696(ECT)*

**The Deputy First Minister:** 'Economic Renewal: a new direction' sets out a new role for the whole of the Assembly Government in shaping the conditions in which a dynamic economy flourishes. Attracting quality inward investment across our six priority sectors and opportunities of strategic importance outside the sectors is a fundamental part of the new direction.

**Brian Gibbons:** This week's *The Economist* magazine reports that, despite the desperate economic travails of the Irish republic, foreign direct investment is 'flooding in' to that country. The low rate of corporation tax gives the Irish Republic a distinct competitive advantage. What sort of proposals will emerge from the economic

that has been raised regularly in recent times, particularly in the recession, when public contracts are an important part of maintaining the economy, particularly at a local level. A great deal of work has been done in the past 18 months on procurement policy in order to make it easier for indigenous companies to bid for this work. I would doubt very much that any local authority would award a contract without tendering. What often happens is that local companies do not feel able to tender because of the way that some local authorities interpret procurement rules. Therefore, we have tried to ensure consistency in the process, although it is a difficult area because of European regulations. The Minister for Business and Budget established a construction steering group on 26 October with the aim of ascertaining how we can get Welsh companies to be more competitive in this area. I hope that that will be of assistance. Although there continue to be examples of companies failing to win contracts, we have seen a shift in the number of Welsh companies succeeding in winning these contracts recently. However, I accept that there is more to be done.

### **Inward Investment in Wales**

**2. Brian Gibbons:** *Will the Minister make a statement on inward investment in Wales. OAQ(3)1696(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' yn gosod rôl newydd ar gyfer Llywodraeth gyfan y Cynulliad o ran llunio'r amodau y mae economi ddeinamig yn ffynnu ynddynt. Mae denu buddsoddiad o ansawdd o'r tu allan ar draws ein chwe sector blaenoriaeth a chyfleodd sydd o bwysigrwydd strategol y tu allan i'r sectorau yn rhan sylfaenol o'r cyfeiriad newydd.

**Brian Gibbons:** Yn rhifyn yr wythnos hon o'r cylchgrawn *The Economist* dywedir, er gwaethaf trafferthion economaidd enbyd gweriniaeth Iwerddon, mae buddsoddiad uniongyrchol o dramor yn llifo i'r wlad honno. Mae cyfradd isel y dreth gorfforaeth yn rhoi mantais gystadleuol amlwg i Weriniaeth Iwerddon. Pa fath o gynigion a

renewal programme to make some effort to provide Wales with a level playing field in this market?

**The Deputy First Minister:** As you will know, Brian, we do not have the opportunity to lower our corporation tax, although many countries and regions have applied for that. Northern Ireland was one and it was one issue that we asked the Holtham commission to look at in its review. We do not have those instruments, but we have a reshaped business focus. We have made it clear that we will look not only at the key sectors to drive forward value in the Welsh economy, but also at the opportunities for us to attract inward investment outside those key sectors, where they exist. We will continue to do so where that represents good value for money. The expertise that we will have within the department will make it easier for us to capture inward investment. Another point that I want to make is that we want to bring together the teams that are working on projects. Instead of having one team to attract investment and another to handle the application, we want to take an holistic approach so that the whole department is behind each scheme. Under those circumstances, I believe that we can secure more inward investment in the future.

**David Melding:** Deputy First Minister, you will know that, even in these difficult times, we are still attracting over our quota, as it were, given our population, of inward investment jobs. It was about 6.4 per cent in the last figures, which is not quite up to 1980s levels, and is still an area that needs to be properly developed. When you announced the economic renewal programme, many of us were confused about where International Business Wales's functions would be located. The document says in some places that they will be centrally located in your department and, in others, that you will rely on expertise in the key sectors. We need to know how this will work, strategically, because there is a danger that it will be left to fall between two stools. Have you given any further thought to how you can clarify where IBW's functions will be located?

fydd yn deillio o'r rhaglen adnewyddu'r economi i wneud rhyw ymdrech i sicrhau bod gan Gymru yr un amodau â phawb yn y farchnad hon?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fel y gwyrddoch, Brian, nid oes gennym y cyfle i ostwng ein treth gorfforaeth, er bod llawer o wledydd a rhanbarthau wedi gwneud cais am hynny. Roedd Gogledd Iwerddon yn un ohonynt ac roedd hyn yn un mater y gofynnwyd i gomisiwn Holtham edrych arno yn ei adolygiad. Nid oes gennym yr offerynnau hynny, ond mae gennym ffocws busnes ar ei newydd wedd. Rydym wedi ei gwneud yn glir y byddwn yn edrych ar y sectorau allweddol i ysgogi gwerth yn economi Cymru, ond byddwn yn edrych hefyd ar y cyfleoedd inni ddenu buddsoddiad o'r tu allan y tu allan i'r sectorau allweddol hynny, lle maent yn bodoli. Byddwn yn parhau i wneud hynny lle mae hyn yn cynrychioli gwerth da am arian. Bydd yr arbenigedd a fydd gennym yn yr adran yn ei gwneud yn haws inni gael buddsoddiad o'r tu allan. Pwynt arall yr hoffwn ei wneud yw ein bod am ddwyn ynghyd y timau sy'n gweithio ar brosiectau. Yn hytrach na chael un tîm i ddenu buddsoddiad ac un arall i drafod y cais, rydym am ddefnyddio dull cyfannol fel bod yr adran gyfan y tu ôl i bob cynllun. O dan yr amgylchiadau hynny, credaf y gallwn sicrhau mwy o fuddsoddiad o'r tu allan yn y dyfodol.

**David Melding:** Ddirprwy Brif Weinidog, byddwch yn gwybod, hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn, ein bod yn dal i ddenu dros ein cwota, fel petai, o swyddi buddsoddi o'r tu allan, o ystyried ein poblogaeth. Roedd hyn tua 6.4 y cant yn y ffigurau diwethaf, nad yw cystal â lefelau'r 1980au, ac mae'n dal yn faes y mae angen ei ddatblygu yn iawn. Pan wnaethoch gyhoeddi'r rhaglen adnewyddu'r economi, roedd llawer ohonom yn ansicr ynghylch lleoliad swyddogaethau Busnes Rhyngwladol Cymru. Mae'r ddogfen yn dweud mewn ambell le y byddant yn cael eu lleoli'n ganolog yn eich adran ac, mewn llefydd eraill, y byddwch yn dibynnu ar arbenigedd yn y sectorau allweddol. Mae angen inni wybod sut y bydd hyn yn gweithio, yn strategol, oherwydd mae perygl y gadewir hyn i syrthio rhwng dwy stôl. A ydych wedi ystyried mwy sut y gallwch egluro lle bydd lleoliad swyddogaethau

## Busnes Rhyngwladol Cymru?

**The Deputy First Minister:** Our difficulty with the former system was that the IBW team based in Wales was working on specific projects in addition to IBW staff in international locations, while another team of staff worked on the applications once an inward investment project had been identified. There was a danger, under the old system, of our falling between two stools. We have now integrated all that so that there is one team within the sector that will be able to identify projects. The person who identifies a project will have the responsibility of ensuring that it is seen through from beginning to end, so it is a much more holistic approach. The other point is that, by creating sector teams within which there will be greater intelligence gathering, we will be able to identify projects much earlier than we currently can.

**David Melding:** You may be aware that some commentators have expressed concern that we may lack the capacity in the future to undertake this work effectively, that Wales could be the only region or nation of the UK without a dedicated inward investment agency or a similar capacity, and that we could become overreliant on UK departments, riding on their coattails to try to make up for the lack of expertise in Cardiff. Can you guarantee that that will not be allowed to happen and that we will be punching above our weight in future when it comes to attracting inward investment?

2.20 p.m.

**The Deputy First Minister:** The important thing for us to recognise is that these changes were designed to improve our performance. There are two areas in which we can do so: one is to punch above our weight in inward investment terms, as you pointed out; the second is to secure re-investment by those with whom we have already been successful in securing inward investment. We have been unable to attract our fair share of re-investment in recent years. By having integrated teams, better intelligence and a better understanding of the market, and by involving specialists in the sectors rather than generalists, we can achieve that aim

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ein hanhawster â'r system flaenorol oedd bod tîm Busnes Rhyngwladol Cymru a leolir yng Nghymru yn gweithio ar brosiectau penodol yn ogystal â staff Busnes Rhyngwladol Cymru mewn lleoliadau rhyngwladol, tra bod tîm arall o staff yn gweithio ar y ceisiadau ar ôl i brosiect buddsoddi o'r tu allan gael ei nodi. Roedd perygl, o dan yr hen system, y byddem yn syrthio rhwng dwy stôl. Erbyn hyn, rydym wedi integreiddio hynny i gyd fel bod un tîm o fewn y sector a fydd yn gallu nodi prosiectau. Bydd y person sy'n nodi prosiect yn gyfrifol am sicrhau taith y prosiect o'r dechrau i'r diwedd, felly mae'n ddull llawer mwy cyfannol. Y pwynt arall yw y byddwn, drwy greu timau sector lle bydd mwy o wybodaeth ar gael, yn gallu nodi prosiectau yn llawer cynt nag y gallwn ei wneud ar hyn o bryd.

**David Melding:** Efallai eich bod yn ymwybodol bod rhai sylwebyddion wedi mynegi pryder na fydd gennym y gallu yn y dyfodol i wneud y gwaith hwn yn effeithiol, y gallai Cymru fod yr unig ranbarth neu wlad yn y DU heb asiantaeth benodol ar gyfer buddsoddiad o'r tu allan neu gapasiti tebyg, ac y gallem fod yn or-ddibynnol ar adrannau'r DU, yn manteisio arnynt i geisio gwneud iawn am y diffyg arbenigedd yng Nghaerdydd. A allwch warantu na chaniateir i hynny ddigwydd, ac y byddwn yn cyflawni'n well na'r disgwyl yn y dyfodol pan ddaw i ddenu buddsoddiad o'r tu allan?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Y peth pwysig inni ei gydnabod yw bod y newidiadau hyn wedi'u cynllunio i wella ein perfformiad. Gallwn wneud hynny mewn dau faes: un yw gwneud yn well na'r disgwyl o ran buddsoddiad o'r tu allan, fel y nodwyd gennych; yr ail yw sicrhau ail-fuddsoddiad gan y rheini yr ydym eisoes wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad o'r tu allan ganddynt. Nid ydym wedi llwyddo i ddenu ein cyfran deg o ail-fuddsoddiad yn y blynyddoedd diwethaf. Drwy gael timau integredig, gwell gwybodaeth a gwell dealltwriaeth o'r farchnad, a thrwy gynnwys arbenigwyr yn y sectorau yn hytrach na chyffredinolwyr,

successfully. The point of the review of our international presence that I am currently undertaking is to strengthen our arm and not to weaken it.

**Helen Mary Jones:** Deputy First Minister, I know that you will agree that the Huntsman Corporation in Llanelli, which we visited together a couple of weeks ago, is a good example of a limited amount of Assembly Government finance serving to lever in major inward investment. That investment has protected more than 40 good-quality jobs, with an opportunity for more to be created. I am sure that you will also agree that decisions on finance sometimes need to be made in a timely manner, because investment opportunities could otherwise be lost. In this case, the opportunity was not lost, but we are all aware of examples in which the need for due diligence to allow Assembly Government investment to be leveraged in has taken so long that the opportunity to attract a multinational company is lost. What assurances can you give us, through the economic renewal programme, that your department will be able to respond in a timely way to the opportunities that arise, to ensure that we have many more successes like Huntsman to report in future?

**The Deputy First Minister:** You make an important point. Sometimes, the decision-making processes within the private sector happen at a much quicker pace, and we need to recognise that. On the other hand, we need to remember that this is public money and we need to be accountable for it. However, there are ways in which we can speed up the process. One area that we have identified in the economic renewal programme is the need to simplify the process. We will make it easier for businesses to find out what offer of support we can make and to get that support in a timely fashion. I agree very much with the point that you made.

**Mick Bates:** Deputy First Minister, you will have heard the sad and disappointing news that the Siemens factory in Newtown in my constituency is set to close. That is a major blow for the economy of Montgomeryshire

gallwn gyflawni'r nod hwnnw yn llwyddiannus. Diben yr adolygiad rwyf yn ei gynnal ar hyn o bryd ar ein presenoldeb rhyngwladol yw cryfhau ein braich ac nid ei gwanhau.

**Helen Mary Jones:** Ddirprwy Brif Weinidog, rwyf yn gwybod y byddwch yn cytuno bod y Gorfforaeth Huntsman yn Llanelli, yr aethom ein dau i'w gweld gwpl o wythnosau yn ôl, yn enghraifft dda o swm cyfyngedig o gyllid Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei ddefnyddio i ddenu buddsoddiad mawr o'r tu allan. Mae'r buddsoddiad hwnnw wedi diogelu mwy na 40 o swyddi o ansawdd da, gyda chyfle i fwy gael eu creu. Rwyf yn siŵr y byddwch hefyd yn cytuno bod yn rhaid gwneud penderfyniadau am gyllid mewn modd amserol weithiau, oherwydd gellid colli'r cyfleoedd buddsoddi fel arall. Yn yr achos hwn, ni chollwyd y cyfle, ond mae pob un ohonom yn ymwybodol o enghreifftiau lle mae'r angen am ddyfalbarhad i ganiatáu i fuddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad gael ei ddefnyddio wedi cymryd mor hir fel bod y cyfle i ddenu cwmni rhyngwladol wedi'i golli. Pa sicrwydd y gallwch ei roi inni, drwy'r rhaglen adnewyddu'r economi, y bydd eich adran yn gallu ymateb mewn pryd i'r cyfleoedd sy'n codi, er mwyn sicrhau bod gennym sawl llwyddiant arall fel Huntsman i adrodd amdano yn y dyfodol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rydych yn gwneud pwynt pwysig. Weithiau, mae'r prosesau penderfynu yn y sector preifat yn digwydd yn llawer cyflymach, ac mae angen inni sylweddoli hynny. Ar y llaw arall, mae angen inni gofio mai arian cyhoeddus yw hyn ac mae angen inni fod yn atebol amdano. Fodd bynnag, gallwn gyflymu'r broses mewn sawl ffordd. Un maes yr ydym wedi'i nodi yn y rhaglen adnewyddu'r economi yw'r angen i symleiddio'r broses. Byddwn yn ei gwneud yn haws i fusnesau gael gwybod pa fath o gymorth y gallwn ei gynnig ac i gael y cymorth hwnnw mewn pryd. Rwyf yn cytuno'n fawr iawn â'r pwynt a wnaethoch.

**Mick Bates:** Ddirprwy Brif Weinidog, byddwch wedi clywed y newyddion trist a siomedig y bwriedir cau ffatri Siemens yn y Drenewydd yn fy etholaeth. Mae hynny'n ergyd fawr i economi sir Drefaldwyn a'r

and mid Wales, and for the 40 skilled employees at the factory, particularly at this time of year. It is also a big setback for the renewable energy industry in Wales. The current lack of infrastructure development is a factor forcing companies to relocate to other parts of the United Kingdom, draining critical jobs and inward investment from Wales. Will you ensure that the Welsh Assembly Government offers all possible support to the employees of Siemens to help them through the difficult months ahead? Can you also tell me what your department is doing to focus on energy development in Wales through your economic renewal programme to stimulate this market so that we do not lose more jobs and potential inward investment for Wales?

**The Deputy First Minister:** Let me begin by saying how sorry I was to hear the news that you have just given us, Mick. I will ensure that my officials give all possible support following that announcement, to ensure that employees are fully aware of what we can offer them. We will hold discussions with the company to find out whether there is anything that we can do to assist. You also made a wider point about energy developments, and you will know that, under the economic renewal programme, one of the sector teams that we are setting up covers energy. There will be a sector panel working alongside the energy sector team, which will include representatives from outside Government, from the private sector, giving us better information about what developments there might be in the sector. I fully understand the importance of energy. It is one of our key sectors, and I assure you that we will do everything that we can to attract other industries in this sector to Wales.

**Val Lloyd:** One excellent example of inward investment is the Swansea to Cork ferry. The ferry itself was funded mainly by private investors from Cork, Kerry and south Wales, and the service is run by Fastnet Line, which is a subsidiary of the West Cork Tourism Co-operative. Since the re-introduction of the service in March, more than 78,000 people have used it. That figure shows the popularity

canolbarth, ac i'r 40 o weithwyr medrus yn y ffatri, yn enwedig yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae hefyd yn ergyd fawr i'r diwydiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae'r diffyg presennol o ran datblygu seilwaith yn ffactor sy'n gorfodi cwmnïau i symud i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, gan dynnu swyddi allweddol o Gymru a buddsoddiad o'r tu allan. A wneuch chi sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig pob cymorth posibl i weithwyr Siemens i'w helpu drwy'r misoedd anodd sydd o'u blaenau? A allwch ddweud wrthyf hefyd beth y mae eich adran yn ei wneud i ganolbwyntio ar ddatblygiadau ynni yng Nghymru drwy'ch rhaglen adnewyddu'r economi i ysgogi'r farchnad hon fel nad ydym yn colli mwy o swyddi a buddsoddiad posibl o'r tu allan i Gymru?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gadewch imi ddechrau drwy ddweud mor flin yr oeddwn i glywed y newyddion rydych newydd ei roi inni, Mick. Byddaf yn sicrhau bod fy swyddogion yn rhoi pob cymorth posibl yn dilyn y cyhoeddiad hwnnw, i sicrhau bod gweithwyr yn gwbl ymwybodol o'r hyn y gallwn ei gynnig iddynt. Byddwn yn cynnal trafodaethau gyda'r cwmni i weld a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i gynorthwyo. Gwnaethoch bwynt ehangach hefyd am ddatblygiadau ynni, a byddwch yn gwybod, o dan y rhaglen adnewyddu'r economi, y bydd un o'r timau sector yr ydym yn eu sefydlu yn rhoi sylw i ynni. Bydd panel sector yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm sector ynni, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tu allan i'r Llywodraeth, o'r sector preifat, gan roi gwell gwybodaeth inni am ba ddatblygiadau a allai fod yn y sector. Rwyf yn deall pwysigrwydd ynni yn llwyr. Mae'n un o'n sectorau allweddol, a gallaf eich sicrhau y byddwn yn gwneud popeth a allwn i ddenu diwydiannau eraill yn y sector hwn i Gymru.

**Val Lloyd:** Un enghraifft ragorol o fuddsoddiad o'r tu allan yw'r fferi o Abertawe i Gorc. Cafodd y fferi ei hun ei ariannu'n bennaf gan fuddsoddwyr preifat o Gorc, Kerry a de Cymru, ac mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan Fastnet Line, sy'n is-gwmni West Cork Tourism Co-operative. Ers ailgyflwyno'r gwasanaeth ym mis Mawrth, mae mwy na 78,000 o bobl wedi ei

of the service, which has also brought a number of other economic benefits to the city of Swansea in the form of tourism and trade. I know that the Assembly Government assisted financially with this project. Such a partnership is mutually beneficial to Wales and the Republic of Ireland. Would you agree that such projects are to be commended, and is there any prospect of further such developments?

**The Deputy First Minister:** Thank you for the question, Val. It is pleasing to know that the ferry service has already attracted that many passengers, and we wish it every success in the future. It is a competitive marketplace, and we understand the challenges that the company faces. We are pleased that we were able to support that project. I am not aware of any other projects in the pipeline but, if any arise, I will write to you and give you an update.

### Cloddio Glo Brig

**3. William Graham:** *Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o fanteision economaidd cloddio glo brig. OAQ(3)1729(ECT)*

**The Deputy First Minister:** I have made no such assessment. Opencast mining directly employs some 500 workers in Wales and a similar number indirectly.

**William Graham:** Thank you for your answer, Deputy First Minister. I am sure that you will join with me and the Assembly generally in regretting the loss of life of the miners in New Zealand, as announced this morning.

Have you had discussions regarding the economic criteria for a buffer zone of less than 500m around opencast mining operations? I ask with particular regard to the proposal to extract 50,000 tonnes of coal from the Vivian tip at Six Bells. Have you also considered the global trend for the increasing use of coal as an energy source? How is your Government working with businesses to encourage the development and

ddefnyddio. Mae'r ffigur hwnnw'n dangos poblogrwydd y gwasanaeth, sydd hefyd wedi dod â nifer o fanteision economaidd eraill i ddinas Abertawe ar ffurf twristiaeth a masnach. Gwn fod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth ariannol i'r prosiect hwn. Mae partneriaeth o'r fath yn fuddiol i Gymru a Gweriniaeth Iwerddon fel ei gilydd. A fydech yn cytuno bod prosiectau o'r fath i'w canmol, ac a oes unrhyw obaith o ddatblygiadau pellach o'r fath?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch am y cwestiwn Val. Mae'n braf gwybod bod y gwasanaeth fferi eisoes wedi denu cynifer o deithwyr â hynny, a dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol. Mae'n farchnad gystadleuol, ac rydym yn deall yr heriau y mae'r cwmni yn eu hwynebu. Rydym yn falch ein bod wedi gallu cefnogi'r prosiect hwnnw. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw brosiectau eraill ar y gweill, ond, os bydd rhai'n codi, ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

### Opencast Mining

**3. William Graham:** *What assessment has the Minister made of the economic benefits of opencast mining. OAQ(3)1729(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf wedi gwneud asesiad o'r fath. Mae cloddio glo brig yn cyflogi tua 500 o weithwyr yn uniongyrchol yng Nghymru a nifer tebyg yn anuniongyrchol.

**William Graham:** Diolch am eich ateb, Ddirprwy Brif Weinidog. Rwyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi a'r Cynulliad yn gyffredinol i ddatgan ein tristwch am fywydau'r glowyr a gollwyd yn Seland Newydd, fel y cyhoeddwyd y bore yma.

A ydych wedi cael trafodaethau ynghylch y meini prawf economaidd ar gyfer parth clustogi o lai na 500m o amgylch gwaith cloddio glo brig? Gofynnaf gan roi sylw arbennig i'r bwriad i echdynnu 50,000 tunnell o lo o domen Vivian yn Six Bells. A ydych wedi ystyried hefyd y duedd fyd-eang i ddefnyddio glo fwyfwy fel ffynhonnell ynni? Sut y mae eich Llywodraeth yn gweithio gyda busnesau i annog datblygu a defnyddio

use of carbon-capture technologies?

**The Deputy First Minister:** I concur with the comments that you made about the incident in New Zealand. I am sure that the whole Assembly will share those sentiments, showing that, although the coal industry in recent years has become a much safer one, accidents still happen from time to time. I am sure that those of us in Wales with family members who have been in the coal industry will sympathise even more with those families in New Zealand in the trauma that they are going through.

I regret that I am not in a position to respond to the issue that you raised about buffer zones, as that is essentially a planning matter, which is in the portfolio of my colleague, Jane Davidson. However, I will ensure that you receive a reply to that question. I can tell you that the development of clean-coal technologies and carbon capture are priorities for the Welsh Assembly Government, and we recognise that we must keep under review the need for fossil-fuel plants as part of the overall security of supply. We are in transition to a low-carbon energy system, but in the meantime we still have significant means of energy production through the use of coal.

**Chris Franks:** Deputy First Minister, I am grateful for your comments on this important matter. We are all aware of the pollution and environmental problems that such activities can cause for local communities. I am sure that you are aware of the plans for opencast mining at Tower colliery, potentially involving seven years of mining. Unfortunately, to date, there are no firm commitments to provide opportunities once opencast mining is finished at the site. Many consider that, without clear plans for job creation following mining, these proposals are unacceptable. Will you discuss them with the applicant in Rhondda Cynon Taf to see what opportunities exist to ensure that the community enjoys a long-term benefit in the event of the scheme going ahead?

technolegau dal carbon?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn cytuno â'r sylwadau a wnaethoch am y digwyddiad yn Seland Newydd. Rwyf yn siŵr y bydd y Cynulliad cyfan yn rhannu'r teimladau hynny, ac mae hyn yn dangos, er bod y diwydiant glo wedi dod yn llawer mwy diogel yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae damweiniau yn dal i ddigwydd o dro i dro. Rwyf yn siŵr y bydd y rheini ohonom yng Nghymru a chanddynt aelodau o'r teulu sydd wedi bod yn y diwydiant glo yn cydymdeimlo mwy fyth gyda'r teuluoedd hynny yn Seland Newydd yn y trawma y maent yn ei wynebu.

Rwyf yn gresynu nad wyf mewn sefyllfa i ymateb i'r mater a godwyd gennych am y parthau clustogi, gan mai mater cynllunio yw hyn yn y bôn, sydd ym mhortffolio fy nghyd-aelod, Jane Davidson. Fodd bynnag, byddaf yn sicrhau eich bod yn cael ateb i'r cwestiwn hwnnw. Gallaf ddweud wrthyfch fod datblygu technolegau glo glân a thechnolegau dal carbon yn flaenoriaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac rydym yn cydnabod bod yn rhaid inni barhau i adolygu'r angen am weithfeydd tanwydd ffosil fel rhan o ddiogelu cyflenwad yn gyffredinol. Rydym mewn cyfnod o newid i system ynni carbon isel, ond yn y cyfamser mae gennym fodd sylweddol o hyd o gynhyrchu ynni drwy ddefnyddio glo.

**Chris Franks:** Ddirprwy Brif Weinidog, rwyf yn ddiolchgar am eich sylwadau ar y mater pwysig hwn. Mae pob un ohonom yn ymwybodol o'r problemau llygredd a'r problemau amgylcheddol y mae gweithgareddau o'r fath yn gallu eu hachosi i gymunedau lleol. Rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r cynlluniau ar gyfer cloddio glo brig yng nglofa'r Tŵr sydd, o bosibl, yn golygu saith mlynedd o fwyngloddio. Yn anffodus, hyd yma, nid oes dim ymrwymadau cadarn i roi cyfleoedd ar ôl gorffen cloddio glo brig ar y safle. Mae llawer yn ystyried bod y cynlluniau hyn yn annerbyniol, heb fwriadau clir i greu swyddi ar ôl y mwyngloddio. A wnewch chi eu trafod gyda'r ymgeisydd yn Rhondda Cynon Taf i weld pa gyfleoedd sy'n bodoli i sicrhau bod y gymuned yn cael budd hirdymor os bydd y cynllun yn mynd rhagddo?

**The Deputy First Minister:** It is a bit difficult to comment on Tower because I understand that it has now submitted a planning application to the local authority. It would therefore not be appropriate for me to comment on that case. However, as I understand it, the proposal by Tower colliery is linked to the regeneration of the site following extraction, and if there is any further information relating to that proposal, I will write to you, Chris, to explain.

#### Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU

**4. David Lloyd:** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU. OAQ(3)1712(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf wedi cynnal trafodaethau gyda nifer o Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch llawer o faterion gwahanol, fel band eang a seilwaith y rheilffyrdd, ers i Lywodraeth y glymblaid yn Llundain gael ei sefydlu ym mis Mai.

2.30 p.m.

**David Lloyd:** I thank you for that answer. I will just explore further the vexed issue of the electrification of the main railway line between London and Swansea. It is a particularly vexed issue for us in Swansea, as we have been awaiting some sort of decision for several months now. Obviously, this part of the rail infrastructure is not devolved to us, so we are dependent on the doubtless vigorous efforts of the Secretary of State for Wales in this matter. What discussions have you had with the Secretary of State? Have you been making it plain that the electrification of the main London line as far as Bristol would be wholly unacceptable and a slap in the face for Wales? Similarly, electrification of the line as far as Cardiff and an expectation that the Assembly then funds the rest of the electrification to Swansea is unacceptable, because this is a non-devolved issue. Will you give us an update on discussions on the electrification of the line all the way from London to Swansea?

**The Deputy First Minister:** You make your

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae braidd yn anodd rhoi sylwadau ar lofa'r Tŵr oherwydd rwyf ar ddeall ei fod erbyn hyn wedi cyflwyno cais cynllunio i'r awdurdod lleol. Ni fyddai'n briodol felly imi roi sylwadau ar yr achos hwnnw. Fodd bynnag, yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'r cynllun gan lofa'r Tŵr yn gysylltiedig ag adfywio'r safle ar ôl cloddio, ac os oes unrhyw wybodaeth bellach sy'n ymwneud â'r cynllun hwnnw, ysgrifennaf atoch, Chris, i egluro.

#### Discussions with the UK Government

**4. David Lloyd:** *What recent discussions has the Minister had with the UK Government. OAQ(3)1712(ECT)*

**The Deputy First Minister:** I have undertaken discussions with a number of United Kingdom Government Ministers on a broad range of issues, such as broadband and rail infrastructure, since the coalition Government in London was formed in May.

**David Lloyd:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Rhoddaf sylw yn unig i'r mater dadleuol o drydaneiddio'r brif reilffordd rhwng Llundain ac Abertawe. Mae'n fater dadleuol iawn inni yn Abertawe, gan ein bod wedi bod yn disgwyl rhyw fath o benderfyniad ers sawl mis erbyn hyn. Yn amlwg, nid yw'r rhan hon o'r seilwaith rheilffyrdd wedi cael ei datganoli inni, felly rydym yn dibynnu ar ymdrechion egni'ol diau Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y mater hwn. Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol? A ydych wedi bod yn ei gwneud yn glir y byddai trydaneiddio prif lein Llundain cyn belled â Bryste yn gwbl annerbyniol ac yn ergyd i Gymru? Yn yr un modd, byddai trydaneiddio'r lein cyn belled â Chaerdydd a disgwyl bod y Cynulliad wedyn yn ariannu gweddill y trydaneiddio i Abertawe yn annerbyniol, gan fod hwn yn fater heb ei ddatganoli. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau ar drydaneiddio'r lein yr holl ffordd o Lundain i Abertawe?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rydych yn



case very well, if I may so. The issue here is one of ensuring that the announcement about electrification is made in a timely fashion and confirms the original plan announced by the previous Westminster Government to take it to Swansea. Nothing less would be acceptable to Assembly Members; I suspect that that would be the case for all parties here. I have raised the issue with the new Secretary of State for Transport and with his junior Minister for rail, and I also have raised it with the Secretary of State for Wales. It has also been raised with the Prime Minister and Deputy Prime Minister, so representations have been made at the highest level. Any decision to stop short of Swansea would be a slap in our face. Let us be honest: this is the time for us to push for the line to be electrified all the way to Swansea, and nothing less will be acceptable to this Government or to the Assembly.

**Darren Millar:** I heard your response on rail infrastructure, Deputy First Minister. Another improvement needed on UK rail infrastructure in order to improve transport links into north Wales and with the commercial centre of Liverpool is the upgrade of the Halton Curve, on which I have corresponded with you in the past. Have you taken this matter up with UK Government Ministers in the Department for Transport? An upgrade would only take a small amount of investment, and would provide a very important, direct rail link between the extremely important commercial centre of Liverpool and areas along the whole north Wales, Holyhead to Chester line. Will you look at what you can do on that and assure me that you will take it up with UK Government Ministers?

**The Deputy First Minister:** Where major infrastructure works are concerned, such as the electrification of the line, High Speed 2 Ltd and so on, we raise those with the UK Government. With regional schemes, the tendency is to discuss them with Railtrack and the partners responsible for delivering the scheme. Discussions have been continuing around future investment, but there have been a number of slippages in the

cyflwyno'ch achos yn dda iawn, os caf ddweud hynny. Y mater dan sylw yma yw sicrhau bod y cyhoeddiad am drydaneiddio yn cael ei wneud mewn modd amserol ac yn cadarnhau'r cynllun gwreiddiol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth flaenorol yn San Steffan i fynd â'r lein i Abertawe. Ni fyddai Aelodau'r Cynulliad yn derbyn dim byd llai; rwyf yn amau mai hynny fyddai barn pob plaid yma. Rwyf wedi codi'r mater gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Drafnidiaeth a chyda'i is-weinidog dros reilffyrdd, ac rwyf hefyd wedi ei godi gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Fe'i codwyd hefyd gyda'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog, felly mae sylwadau wedi'u cyflwyno ar y lefel uchaf. Byddai unrhyw benderfyniad i beidio â mynd yr holl ffordd i Abertawe yn ergyd inni. Gadewch inni fod yn onest: dyma'r amser inni wthio am i'r lein gael ei thrydaneiddio yr holl ffordd i Abertawe, ac ni fyddai'r r Llywodraeth hon na'r Cynulliad yn derbyn dim byd llai.

**Darren Millar:** Clywais eich ymateb ar seilwaith y rheilffyrdd, Ddirprwy Brif Weinidog. Un o'r gwelliannau eraill sydd ei angen ar seilwaith rheilffyrdd y DU er mwyn gwella'r cysylltiadau trafndiaeth i ogledd Cymru a chanolfan fasnachol Lerpwl yw uwchraddio Halton Curve. Rwyf wedi anfon gohebiaeth atoch am hyn yn y gorffennol. A ydych wedi codi'r mater hwn gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yn yr Adran Drafnidiaeth? Dim ond ychydig bach o fuddsoddiad a fyddai ei angen ar gyfer uwchraddio, a byddai'n darparu cyswllt rheilffordd uniongyrchol pwysig iawn rhwng canolfan fasnachol bwysig iawn Lerpwl ac ardaloedd ar hyd lein gyfan gogledd Cymru, o Gaergybi i Gaer. A wnewch chi edrych ar beth y gallwch ei wneud am hynny a fy sicrhau y byddwch yn ei godi gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Lle bo gwaith seilwaith mawr yn y cwestiwn, megis trydaneiddio'r lein, High Speed 2 Ltd ac yn y blaen, rydym yn codi'r rheini gyda Llywodraeth y DU. Gyda chynlluniau rhanbarthol, y duedd yw eu trafod gyda Railtrack a'r partneriaid sy'n gyfrifol am gyflwyno'r cynllun. Mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt ynghylch buddsoddi yn y dyfodol, ond cafwyd sawl llithriad yn y

schemes promoted by Railtrack in recent months, which makes life a little bit difficult. What I will do, however, is update myself on exactly where we are on that proposal and write to you.

**Irene James:** The number of people using the Ebbw valley line to access employment in Cardiff has far exceeded everyone's expectations. In my constituency, people are doing all that they can to access employment when it becomes available; for example, 2,500 people applied for 350 jobs at a new supermarket that will open shortly in my constituency. At the next opportunity, will you point this out to Iain Duncan Smith, who seems to think that everyone in the Valleys is static when it comes to looking for employment?

**The Deputy First Minister:** I certainly will; you make a very good point. The new service, as you quite rightly point out, is extremely successful and people are prepared to move for employment opportunities. I am sure that Mr Smith will be reading our deliberations with considerable interest.

**Veronica German:** One area of discussion with the UK Government is the future of the Severn tolls. It is now five months since you announced in the Chamber that you were going to undertake a study on the tolls' economic impact on Welsh businesses. Yet, on 3 November, in reply to a question, you told me that the specification had still not been finalised and had not been put out to tender. We cannot get the results of this study; it was supposed to be undertaken in spring, but now you say that it will be late spring or early summer, so it is being rolled back. This is crucial for businesses in Wales, so why is there a problem, why is it taking so long and do you have a date for when these terms of reference will be published and when this important study will be put out to tender?

**The Deputy First Minister:** We are in the process of putting the study out to tender. It is an important study and we are conscious of the fact that it is being done at a time of

cynlluniau a hyrwyddir gan Railtrack yn y misoedd diwethaf, sy'n gwneud bywyd ychydig yn anodd. Yr hyn a wnaf, fodd bynnag, yw cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch lle'n union yr ydym arni ar y cynnig hwnnw, ac ysgrifennu atoch.

**Irene James:** Mae nifer y bobl sy'n defnyddio rheilffordd Cwm Ebwy i fynd i weithio yng Nghaerdydd wedi bod yn llawer mwy na'r hyn yr oedd pawb yn ei ddisgwyl. Yn fy etholaeth, mae pobl yn gwneud popeth a allant i gael gwaith pan fydd ar gael; er enghraifft, ymgeisiodd 2,500 o bobl am 350 o swyddi mewn archfarchnad newydd a fydd yn agor yn fuan yn fy etholaeth. Ar y cyfle nesaf, a wnewch chi ddweud hynny wrth Iain Duncan Smith, sydd fel petai'n credu bod pawb yn y Cymoedd yn aros yn eu hunfan pan ddaw'n fater o chwilio am waith?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gwnaf hynny yn sicr; mae gennych bwynt da iawn. Fel rydych yn ei ddweud yn briodol, mae'r gwasanaeth newydd yn hynod lwyddiannus, ac mae pobl yn barod i symud i gael cyfleoedd gwaith. Rwyf yn siŵr y bydd Mr Smith yn darllen ein trafodaethau gyda chryn ddiddordeb.

**Veronica German:** Un maes trafodaeth gyda Llywodraeth y DU yw dyfodol tollau Hafren. Mae pum mis wedi mynd heibio erbyn hyn ers ichi gyhoeddi yn y Siambr eich bod yn mynd i gynnal astudiaeth ar effaith economaidd y tollau ar fusnesau Cymru. Eto i gyd, ar 3 Tachwedd, mewn ateb i gwestiwn, dywedoch wrthyf nad oedd y fanyleb wedi'i chwblhau o hyd ac nad oedd wedi cael ei rhoi i dendr. Ni allwn gael canlyniadau'r astudiaeth hon; roedd i fod i gael ei chynnal yn ystod y gwanwyn, ond yn awr rydych yn dweud y bydd yn digwydd ddiwedd y gwanwyn neu ddechrau'r haf, felly mae'n cael ei wthio'n ôl. Mae hyn yn hanfodol i fusnesau yng Nghymru, felly pam mae problem wedi codi, pam mae'n cymryd cymaint o amser ac a oes gennych ddyddiad ar gyfer pryd y bydd y cylch gorchwyl hwn yn cael ei gyhoeddi, a phryd y bydd yr astudiaeth bwysig hon yn cael ei rhoi i dendr?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rydym wrthi'n rhoi'r astudiaeth i dendr. Mae'n astudiaeth bwysig ac rydym yn ymwybodol ei bod yn cael ei gwneud ar adeg pan fo

heightened awareness about the impact of tolls, particularly because of the recession. I am pretty sure that you will have read with some interest the evidence that I gave to the Welsh Select Committee, setting out in detail when we will publish the terms of reference and expect the first fruits of our evidence back. Rather than criticising us for what appears to be an extremely small delay, I would have welcomed your congratulations for doing the study at all.

**Alun Davies:** When you speak to members of the coalition Government in London, can you make the point that investment in the infrastructure of Wales is critical to our economic growth and our recovery from recession? I know that you have worked hard to defend the budget, but when we are facing 40 per cent of capital cuts from the Tory Government in London, we know that we will not be able to invest in our infrastructure, and that several important infrastructure projects will fail. That will not enable us to grow employment in Wales. Can you ensure that the Tory Government in London understands that its cuts will lead to unemployment in Wales?

**The Deputy First Minister:** One thing that we were prepared for was a reduction in our budget as a result of the comprehensive spending review. What we did not expect was that there would be such a severe and drastic cut in our capital budgets. That puts us under considerable strain and pressure. What was even worse was that the Government announced a 25 per cent cut in year one, which is the first year of the CSR. That means that all the plans that we have prepared—and we were expecting a cut, but the range of that cut is making life difficult—as well as some of the capital projects that are already in our programme will be challenging to deliver. The coalition Government in London must accept that one way to deal with the recession is to stimulate the economy through the introduction of capital projects. Failure to do that will inevitably lead to fewer people being employed, particularly in the construction and road building sectors.

ymwybyddiaeth gynyddol am effaith tollau, yn enwedig yn sgîl y dirwasgiad. Rwyf yn eithaf sicr y byddwch wedi darllen gyda pheth diddordeb y dystiolaeth a roddais ger bron y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, yn nodi'n fanwl pryd y byddwn yn cyhoeddi'r cylch gorchwyl ac yn disgwyl ffrwyth cyntaf ein dystiolaeth yn ôl. Yn hytrach na'n beirniadu am yr hyn sydd, i bob golwg, yn oedi bach iawn, byddwn wedi hoffi ichi fy llongyfarch am wneud yr astudiaeth o gwbl.

**Alun Davies:** Pan fyddwch yn siarad ag aelodau o'r Llywodraeth glymblaid yn Llundain, a allwch godi'r pwynt bod buddsoddi yn seilwaith Cymru yn hanfodol i'n twf economaidd ac i'n hadferiad ar ôl y dirwasgiad? Gwn eich bod wedi gweithio'n galed i amddiffyn y gyllideb, ond pan rydym yn wynebu 40 y cant o doriadau cyfalaf gan y Llywodraeth Doriaidd yn Llundain, rydym yn gwybod na fyddwn yn gallu buddsoddi yn ein seilwaith, ac y bydd sawl prosiect seilwaith pwysig yn methu. Ni fydd hynny yn ein galluogi i ddatblygu gwaith yng Nghymru. A allwch sicrhau bod y Llywodraeth Doriaidd yn Llundain yn deall y bydd ei thoriadau yn arwain at ddiweithdra yng Nghymru?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Un peth yr oeddem yn barod ar ei gyfer oedd gostyngiad yn ein cyllideb o ganlyniad i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Yr hyn nad oeddem yn ei ddisgwyl oedd y byddai toriad mor ddifrifol a mor llym yn ein cyllidebau cyfalaf. Mae hynny'n golygu ein bod o dan straen a phwysau sylweddol. Yr hyn a oedd hyd yn oed yn waeth oedd bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi toriad o 25 y cant yn y flwyddyn gyntaf, sef blwyddyn gyntaf yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Mae hynny'n golygu y bydd yr holl gynlluniau yr ydym wedi'u paratoi—ac roeddem yn disgwyl toriad, ond mae maint y toriad hwnnw yn gwneud bywyd yn anodd—yn ogystal â rhai o'r prosiectau cyfalaf sydd eisoes yn ein rhaglen yn her inni eu cyflawni. Rhaid i'r Llywodraeth glymblaid yn Llundain dderbyn mai un ffordd o ymdrin â'r dirwasgiad yw ysgogi'r economi drwy gyflwyno prosiectau cyfalaf. Bydd peidio â gwneud hynny yn arwain yn anochel at lai o bobl yn cael eu cyflogi, yn enwedig yn y sectorau adeiladu ac adeiladu ffyrdd.

**5. Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefniadau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru. OAQ(3)1734(ECT)

**6. Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei weledigaeth ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru. OAQ(3)1727(ECT)

**The Deputy First Minister:** The Welsh Assembly Government has invested in improvements to public transport in Wales, including rail and bus services. The national transport plan sets out our priorities for further improvements in service provision.

**Andrew R.T. Davies:** One issue that I have raised with you on several occasions, which I have also raised in questions to the First Minister, is that of the problems that people with sight impairments face when trying to access public transport, and the particular problem regarding bus shelters. Many people will be familiar with the digital displays that advertise timetables and so on, but I have been lobbied extensively for new bus shelters to incorporate voice activated information service, so that people with sight impairments can access that information. Have you had any discussions with local authorities, and with the providers of such shelters, so that, in future, where that provision is made available, it can be rolled out across local authority areas?

**The Deputy First Minister:** We are working with the Department for Transport to investigate the cost and benefits of audio-visual systems. I suspect that that is probably on the buses rather than in bus shelters, but I may be wrong. Therefore, I will ensure that that is covered. However, I fully understand your point, because this is a serious issue for many people, and I would want to ensure that, because public transport is such an important project, people can use it properly, and that those with a visual or a hearing impairment are able to use it successfully.

**5. Andrew R.T. Davies:** Will the Minister make a statement on public transport arrangements in Wales. OAQ(3)1734(ECT)

**6. Mohammad Asghar:** Will the Minister make a statement on his vision for public transport in Wales. OAQ(3)1727(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi mewn gwelliannau i drafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau rheilffordd a bysiau. Mae'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau pellach yn y gwasanaeth a ddarperir.

**Andrew R.T. Davies:** Un mater rwyf wedi'i godi gyda chi sawl tro, rwyf hefyd wedi'i godi yn y cwestiynau i Brif Weinidog Cymru, yw'r problemau y mae pobl â nam ar eu golwg yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad ar drafndiaeth gyhoeddus, a'r broblem benodol ynghylch llochesi bws. Bydd llawer o bobl yn gyfarwydd â'r arwyddion digidol sy'n hysbysebu amserlenni ac yn y blaen, ond rwyf wedi bod yn lobio'n helaeth i lochesi bws newydd gynnwys gwasanaeth gwybodaeth sy'n ymateb i lais, er mwyn i bobl â nam ar eu golwg gael y wybodaeth honno. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gydag awdurdodau lleol, a chyda darparwyr llochesi o'r fath, er mwyn sicrhau, yn y dyfodol, lle bynnag y bydd y ddarpariaeth honno ar gael, y gellir ei chyflwyno ar draws ardaloedd awdurdod lleol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rydym yn gweithio gyda'r Adran Drafndiaeth i ymchwilio i gost a manteision systemau clyweled. Rwyf yn amau mai ar gyfer y bysiau yn hytrach na'r llochesi bysiau y mae hynny, ond efallai fy mod yn anghywir. Felly, byddaf yn sicrhau bod hynny'n cael ei gynnwys. Fodd bynnag, rwyf yn deall eich pwynt yn llwyr, oherwydd mae hwn yn fater difrifol i lawer o bobl, ac oherwydd bod trafndiaeth gyhoeddus yn brosiect mor bwysig, byddwn am sicrhau bod pobl yn gallu ei defnyddio'n gywir, a bod y rheini â nam ar y clyw neu ar y golwg yn gallu ei

defnyddio'n llwyddiannus.

2.40 p.m.

**Mohammad Asghar:** A recent survey in the Chepstow area found that a regular, hourly rail service without gaps was the top priority for passengers in that area. Presently, there are a number of two-hour gaps where there is no service throughout the day. I understand that the South East Wales Transport Alliance consortium is undertaking an assessment appraisal on improving services for Chepstow. Can you please provide an update on any discussions that you have had with the consortium on that issue regarding the timescale of the assessment's publication? Given that a national shortage of rolling stock has previously been highlighted as an obstacle to improving services in this area, and given that that is to be addressed with four train units on loan to First Great Western, due to be returned to Arriva Trains in the next few weeks, will you look favourably upon improving rail provision for the people of Chepstow?

**The Deputy First Minister:** I am sure that you will be aware that I have regular discussions with the regional transport consortia about the range of transport services across Wales, so you will appreciate that I receive requests about other parts of Wales as well. What we must try to do is to deliver services as best we can within the resources that we have. If extra services were to be provided, over and above what Arriva is contracted to provide in its franchise, the cost would fall on the Assembly Government; I must recognise that. Therefore, while I cannot make any promises about extra services, I can say that all these schemes are properly evaluated before a decision is made.

**Leanne Wood:** In recent weeks, commuters have been dealt a double blow with the news that train fares are to increase by 10 per cent more than the retail price index over the next five years, and that overcrowding is predicted to get worse, making the car potentially more

**Mohammad Asghar:** Mewn arolwg diweddar yn ardal Cas-gwent, canfuwyd mai gwasanaeth trên rheolaidd bob awr heb fylchau oedd y brif flaenoriaeth i deithwyr yn yr ardal honno. Ar hyn o bryd, ceir sawl bwlch dwy awr lle nad oes gwasanaeth drwy gydol y dydd. Deallaf fod consortiwm Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn cynnal gwerthusiad asesu ar wella gwasanaethau ar gyfer Cas-gwent. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r consortiwm am y mater hwnnw o ran amserlen cyhoeddi'r asesiad? O gofio mai prinder cenedlaethol o gerbydau sydd wedi'i nodi yn y gorffennol fel rhwystr i wella gwasanaethau yn fan hyn, ac o ystyried bod hynny i fod i gael ei ddatrys drwy fenthyg pedair uned trên i First Great Western, sydd i fod i gael eu dychwelyd i Trenau Arriva yn yr wythnosau nesaf, a wnewch chi edrych yn ffafriol ar wella darpariaeth rheilffyrdd i bobl Cas-gwent?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol fy mod yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r consortia trafniadaeth rhanbarthol am yr amrywiaeth o wasanaethau trafniadaeth ar draws Cymru, felly byddwch yn sylweddoli fy mod yn derbyn ceisiadau am rannau eraill o Gymru yn ogystal. Yr hyn y mae'n rhaid inni geisio ei wneud yw darparu gwasanaethau hyd eithaf ein gallu gyda'r adnoddau sydd gennym. Pe byddai gwasanaethau ychwanegol yn cael eu darparu, ar ben yr hyn y mae Arriva i fod i'w ddarparu dan contract yn ei fasnachfaint, Llywodraeth y Cynulliad fyddai'n gyfrifol am y gost; mae'n rhaid imi gydnabod hynny. Felly, er na allaf addo dim am wasanaethau ychwanegol, gallaf ddweud bod yr holl gynlluniau hyn yn cael eu gwerthuso'n briodol cyn gwneud penderfyniad.

**Leanne Wood:** Dros yr wythnosau diwethaf, mae cymudwyr wedi cael ergyd ddwbl gyda'r newyddion y bydd pris tocynnau trên yn cynyddu 10 y cant yn fwy na'r mynegai prisiau manwerthu dros y pum mlynedd nesaf, ac y rhagwelir y bydd gorlenwi yn

attractive than the train. Plaid Cymru's plans to place the management of Welsh railways in the hands of a not-for-profit company when the current franchise contract with Arriva Trains Wales ends in 2018 would free up more money to invest directly in providing more frequent services in places where demand is growing fast, such as the Valleys. More rolling stock could be purchased to keep up with the increase in demand over time and on special occasions like rugby internationals. What practical steps can be taken to remove the control of and profit from the railways in Wales from the hands of private shareholders?

**The Deputy First Minister:** The matter that you raise is probably a matter for the next Assembly to consider, after the election. However, one issue that we have, highlighted by questions put to me previously, is that, because the rail franchise was agreed in 2003, with a projected increase in passengers that was far below what we have experienced, the problem is that in order to meet the extra demand, extra services have to be provided out of Assembly Government resources. Anything that would allow us to put more resources, through the franchise, into extra services would obviously be extremely welcome.

**Peter Black:** Following on from Andrew R.T Davies's question, can I recommend that you consider the audio-visual systems being installed in Swansea's new bus station as an example of what can be done? I recently met with a group of partially sighted people, under the auspices of the RNIB, in Swansea who raised a number of issues around transport, one of which was the design of the street scene and the accessibility of buses, not just of bus shelters. Have you drawn up any guidelines for local councils and for bus companies as to how we can spread best practice around Wales to make public transport more accessible for those who have a disability regarding their sight?

**The Deputy First Minister:** There are

gwaethygu, a allai wneud teithio yn y car yn fwy deniadol na mynd ar y trê. Byddai cynlluniau Plaid Cymru i osod y gwaith o reoli rheilffyrdd Cymru yn nwylo cwmni nider-elw pan ddaw'r cytundeb masnachfrait presennol gyda Trenau Arriva Cymru i ben yn 2018 yn rhyddhau mwy o arian i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn darparu gwasanaethau amlach mewn mannau lle mae'r galw yn tyfu'n gyflym, fel y Cymoedd. Gellid prynu rhagor o gerbydau i gadw gyda'r cynnydd yn y galw dros amser ac ar achlysuron arbennig fel gemau rygbi rhyngwladol. Pa gamau ymarferol y gellir eu cymryd i gael gwared ar reolaeth cyfranddalwyr preifat ar reilffyrdd yng Nghymru, a'u helw o'r rheilffyrdd hynny?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'n siŵr bod y mater rydych yn ei godi yn fater i'r Cynulliad nesaf ei ystyried, ar ôl yr etholiad. Fodd bynnag, un mater sydd gennym, a godwyd mewn cwestiynau a ofynnwyd imi yn flaenorol, yw oherwydd bod y fasnachfrait rheilffyrdd wedi'i chytuno yn 2003, a chynnydd amcanol yn nifer y teithwyr a oedd yn llawer is na'r hyn yr ydym wedi'i weld, y broblem yw er mwyn ateb y galw ychwanegol, mae'n rhaid defnyddio adnoddau Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu'r gwasanaethau ychwanegol. Byddai unrhyw beth a fyddai'n caniatáu inni roi mwy o adnoddau, drwy'r fasnachfrait, i mewn i wasanaethau ychwanegol yn amlwg yn cael ei groesawu'n fawr iawn.

**Peter Black:** Yn dilyn cwestiwn Andrew R.T. Davies, a allaf argymhell ichi ystyried gosod y systemau clyweled yng ngorsaf fysiau newydd Abertawe fel enghraifft o'r hyn y gellir ei wneud? Yn ddiweddar, cyfarfûm, o dan ofal yr RNIB, â grŵp o bobl sy'n rhannol ddall yn Abertawe, a gwnaethant godi nifer o faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth. Un o'r materion hyn oedd dyluniad strydoedd a hygyrchedd bysiau, nid dim ond llochesi bws. A ydych wedi llunio unrhyw ganllawiau ar gyfer cynghorau lleol ac ar gyfer cwmnïau bysiau o ran sut y gallwn ledaenu arfer gorau ledled Cymru i wneud trafndiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i'r rheini sydd ag anabledd o ran eu golwg?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ceir

examples of good practice across Wales, and Swansea is one of those. My officials have been part of the discussions that you have highlighted, and I am awaiting information from them as to the progress that they have made in those discussions. I know that they have been in discussion with the RNIB and others on how we can make platforms more accessible for people with disabilities to get on and off public transport. All of that is good, but what I need to do is assess, if there are particular successful projects, how we can make the information available to other areas, and I would be keen to see what I can do in that respect.

**Chris Franks:** Deputy First Minister, I have received representations from the Plaid Cymru councillor Delme Bowen, cabinet member for transport, regarding money for sustainable transport in Cardiff. What assurances can you give regarding money for sustainable transport despite the poor settlement from the Conservative-Lib Dem Government in London?

**The Deputy First Minister:** We have to recognise that it will be extremely challenging in future years to deliver all the schemes that we have had in place because of the cutbacks in revenue and capital. As some, if not the majority, of the work on sustainable travel towns relies on capital funding, that will be much more challenging in the future. We have two sustainable travel town initiatives: one in Cardiff and the other in Môn a Menai. We had hoped to be able to introduce others across Wales, but the financial position is making that difficult. We will ensure that we continue to support the sustainable travel town initiatives in those areas where they have been announced. However, it may well be that less funding will come through for that than we would have wished.

**Eleanor Burnham:** The north-south train link is dear to my heart, not because I selfishly want improvement for myself, but because I want it for everyone across north Wales. As we approach the end of this third

enghreiffiau o arfer da ledled Cymru, ac Abertawe yw un o'r rheini. Mae fy swyddogion wedi bod yn rhan o'r trafodaethau yr ydych wedi eu crybwyll, ac rwyf yn aros am wybodaeth ganddynt am y cynnydd y maent wedi'i wneud yn y trafodaethau hynny. Gwn eu bod wedi bod yn trafod gyda'r RNIB ac eraill sut y gallwn wneud platfformau'n fwy hygyrch i bobl ag anableddau er mwyn iddynt fynd ar drafnidiaeth gyhoeddus ac oddi arni. Mae hynny i gyd yn dda, ond yr hyn y mae angen imi ei wneud yw asesu, os oes prosiectau llwyddiannus penodol, sut y gallwn sicrhau bod y wybodaeth ar gael i feysydd eraill, a byddwn yn awyddus i weld beth y gallaf ei wneud yn hyn o beth.

**Chris Franks:** Ddirprwy Brif Weinidog, rwyf wedi cael sylwadau gan gynghorydd Plaid Cymru, Delme Bowen, aelod cabinet dros drafnidiaeth, ynghylch arian ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy yng Nghaerdydd. Pa sicrwydd y gallwch ei roi ynghylch arian ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy er gwaethaf y setliad gwael gan Lywodraeth y Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'n rhaid inni gydnabod y bydd yn gryn dipyn o her yn y dyfodol i gyflawni pob un o'r cynlluniau sydd wedi bod ar waith gennym, oherwydd y toriadau mewn refeniw a chyfalaf. Gan fod peth, os nad y rhan fwyaf, o'r gwaith ar drefi teithio cynaliadwy yn dibynnu ar gyllid cyfalaf, bydd hynny'n gosod llawer mwy o her yn y dyfodol. Mae gennym ddwy fenter trefi teithio cynaliadwy: un yng Nghaerdydd a'r llall ym Môn a Menai. Roeddem wedi gobeithio gallu cyflwyno rhai eraill ar draws Cymru, ond mae'r sefyllfa ariannol yn gwneud hynny'n anodd. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi mentrau trefi teithio cynaliadwy yn yr ardaloedd hynny lle maent wedi cael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, mae'n ddigon posibl y bydd llai o arian yn cael ei roi ar gyfer hynny nag y byddem wedi'i ddymuno.

**Eleanor Burnham:** Mae'r cyswllt trên rhwng y de a'r gogledd yn agos at fy nghalon, nid am fy mod am weld gwelliant dim ond imi fy hun, ond oherwydd fy mod am i bawb ei gael ar draws y gogledd. Wrth inni nesáu at

Assembly, it beggars belief that we have made so little progress over the last 12 years. We have risen from a very low ebb. When I first came to the Assembly, the situation was absolutely pathetic. I had arrived by about midday, having got up about 6 a.m., and my group wondered where I had been. Things have got slightly better. I find travelling on the train heart-rending, but it does keep your feet on the ground, because you speak to all kinds of interesting people. I was speaking to a student the other day who was bemoaning the fact that it takes her five hours to get from Bangor to Cardiff. How can you ensure, Deputy First Minister, that we use what little resources are available to improve not only the rolling stock, some of which is absolutely awful and some of which is much better, but the infrastructure in particular? There are all kinds of issues, for example, the dualling of the line between Chester and Wrexham, the Saltney points and so on, for which we could have used European funding over the past 20 years. What hope can you provide for future travellers, when, unfortunately, you will perhaps have to leave your post in May?

**The Deputy First Minister:** I am not sure what you know about next May, Eleanor, but thank you for the vote of confidence in my continued position. It is not for me to comment on where you might have been on the journey between Rossett and Cardiff. I travel from the north to the south as well, and there have been significant improvements in recent years, and we should welcome that. Eleanor will know that I am passionately committed to improving services between the north and the south. There is now the Gerallt Gymro service, which is well recognised as one of the best in the United Kingdom in respect of customer care. I hope to be able to announce further improvements in the not-too-distant future. We all recognise that there is a way to go. One issue that we are addressing is the fact that we do not have sufficient rolling stock to carry the large numbers of passengers who wish to use the service. That is a major challenge, which we are seeking to address.

**Cyfnwidfa Stoc yng Nghymru**

ddiwedd y trydydd Cynulliad hwn, mae'n anodd credu ein bod wedi gwneud cyn lleied o gynnydd dros y 12 mlynedd diwethaf. Rydym wedi codi o le isel iawn. Pan ddeuthum i'r Cynulliad y tro cyntaf, roedd y sefyllfa yn hollol druenus. Roeddwn wedi cyrraedd erbyn canol dydd, ar ôl codi tua 6 y bore, ac roedd fy ngrŵp wedi bod yn meddwl tybed lle roeddwn wedi bod. Mae pethau wedi gwella rhywfaint. Mae teithio ar y trên yn brofiad torcalonnus, ond mae'n cadw traed rhywun ar y ddaear, oherwydd eich bod yn siarad â phob math o bobl ddi-ddorol. Roeddwn yn siarad â myfyriwr y diwrnod o'r blaen a oedd yn cwyno ei bod yn cymryd pum awr iddi fynd o Fangor i Gaerdydd. Sut y gallwch sicrhau, Ddirprwy Brif Weinidog, ein bod yn defnyddio'r ychydig adnoddau sydd ar gael i wella nid yn unig y cerbydau—mae rhai ohonynt yn echrydus a rhai ohonynt yn llawer gwell—ond y seilwaith yn benodol? Mae pob math o broblemau, er enghraifft, deuoli'r llinell rhwng Caer a Wrecsam, pwyntiau Saltney ac yn y blaen, y gallem fod wedi defnyddio cyllid Ewropeaidd ar eu cyfer dros y 20 mlynedd diwethaf. Pa obaith y gallwch ei roi i deithwyr yn y dyfodol, pan, yn anffodus, efallai y bydd yn rhaid ichi adael eich swydd ym mis Mai?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf yn siŵr beth rydych yn ei wybod am fis Mai nesaf, Eleanor, ond diolch ichi am y bleidlais o hyder yn fy sefyllfa barhaus. Nid fy lle i yw rhoi sylwadau ar le y gallech fod wedi bod ar y daith rhwng Rossett a Chaerdydd. Rwyf yn teithio o'r gogledd i'r de hefyd, a bu gwelliannau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, a dylem groesawu hynny. Bydd Eleanor yn gwybod fy mod wedi ymroi'n angerddol i wella gwasanaethau rhwng y gogledd a'r de. Erbyn hyn, ceir gwasanaeth Gerallt Gymro, sydd wedi'i gydnabod fel un o'r rhai gorau yn y Deyrnas Unedig o ran gofal i gwsmeriaid. Gobeithio y gallaf gyhoeddi gwelliannau pellach yn y dyfodol agos. Mae pob un ohonom yn cydnabod bod cryn ffordd i fynd eto. Un mater sy'n cael sylw gennym yw'r ffaith nad oes gennym ddigon o gerbydau i gynnal y nifer fawr o deithwyr sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth. Mae hynny'n her fawr, ac rydym yn ceisio mynd i'r afael â hynny.

**Welsh Stock Exchange**



**7. Jenny Randerson:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba ystyriaethau sydd wedi'u rhoi i sefydlu Cyfnewidfa Stoc yng Nghymru. OAQ(3)1707(ECT)*

**The Deputy First Minister:** We are committed to ensuring that a full range of financial options is available to Welsh businesses for economic renewal. The feasibility of a Welsh stock exchange is still under consideration, alongside other measures, and will be informed by the views of the financial services sector panel.

**Jenny Randerson:** Perhaps you could give us more detail on this matter, Deputy First Minister, because the current First Minister referred to it as a positive possibility at the time of his election campaign for the leadership of the Labour Party, yet we do not seem to have made any progress. I floated the concept of a Welsh stock exchange and it was widely supported by interested parties at the time, following the severe recession and the banking crisis. However, it is years later and we do not seem to have made progress on any firm proposals. Will you give us some detail?

2.50 p.m.

**The Deputy First Minister:** We are setting up a financial sector team within the Welsh Assembly Government and we will be charging that team with looking at the idea that you have put forward. I also want to get advice from experts in the area, so alongside the sector team there will be a sector panel, which will comprise experts in finance, from the private sector in particular, who will be able to inform the team about the kinds of decisions that we should be taking. Primarily, it will be looking at attracting investment from the financial services sector, but it will be asked to look at the feasibility of setting up a Welsh stock exchange. You say that there has been no progress; the truth is that we are only now in the process of setting up our financial sector team and panel, and I think that we should now ask them to undertake that piece of work for us.

**7. Jenny Randerson:** *Will the Minister make a statement on what considerations have been given to a Welsh Stock Exchange. OAQ(3)1707(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ystod lawn o opsiynau ariannol ar gael i fusnesau Cymru ar gyfer adnewyddu economaidd. Mae'r posibilrwydd o gyfnewidfa stoc yng Nghymru yn dal i gael ei ystyried, ochr yn ochr â chamau eraill, a bydd hyn yn cael ei lywio gan farn panel y sector gwasanaethau ariannol.

**Jenny Randerson:** Efallai y gallech roi mwy o fanylion inni am y mater hwn, Ddirprwy Brif Weinidog, gan fod y Prif Weinidog presennol wedi cyfeirio ato fel posibilrwydd cadarnhaol adeg ei ymgyrch etholiadol ar gyfer arweinyddiaeth y Blaid Lafur, ac eto nid ydym wedi gwneud unrhyw gynnydd, i bob golwg. Soniais am y cysyniad o gyfnewidfa stoc yng Nghymru a chafodd hyn gefnogaeth eang gan bobl â diddordeb ar y pryd, yn dilyn y dirwasgiad difrifol a'r argyfwng bancio. Fodd bynnag, flynyddoedd yn ddiweddarach, ac nid yw'n ymddangos ein bod wedi gwneud cynnydd ar unrhyw gynigion pendant. A wnewch chi roi rhywfaint o fanylion?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rydym yn sefydlu tîm sector ariannol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chyfrifoldeb y tîm hwnnw fydd edrych ar y syniad a gyflwynwyd gennych. Rwyf hefyd am gael cyngor gan arbenigwyr yn y maes, felly ochr yn ochr â'r tîm sector bydd panel sector a fydd yn cynnwys arbenigwyr ym maes cyllid, o'r sector preifat yn arbennig, a fydd yn gallu rhoi gwybod i'r tîm am y mathau o benderfyniadau y dylem fod yn eu gwneud. Yn bennaf, bydd yn edrych ar ddenu buddsoddiad o'r sector gwasanaethau ariannol, ond gofynnir iddo edrych ar y posibilrwydd o sefydlu cyfnewidfa stoc yng Nghymru. Rydych yn dweud na fu dim cynnydd; y gwir yw mai dim ond yn awr rydym yn y broses o sefydlu ein tîm sector ariannol a'n panel, ac rwyf yn meddwl y dylem ofyn iddynt yn awr wneud y gwaith

hwnnw inni.

**Jenny Randerson:** I am pleased that things are moving forward, albeit at a snail's pace. However, the economic situation continues to be a problem and we desperately need to stimulate business in Wales. When I first suggested this, the Government's response was that this was one idea and that it was looking forward to establishing a people's bank. If there has not been progress on a stock exchange, what progress has been made on a people's bank? That is an option that would fulfil a totally different function from a Welsh stock exchange, but it is an option where the door is wide open. The UK Government has provided the setting by guaranteeing a future for post offices; a people's bank could be established via post offices in Wales and could contribute strongly to assisting those in Wales who are having such problems with the current banking sector.

**The Deputy First Minister:** We may be looking at different things here. The idea of a people's bank is not that it provides the gap funding that is necessary for Welsh businesses to flourish. So, alongside the idea of the people's bank, and the idea that you have put forward, we are also looking to see how we can stimulate the provision of gap funding for those companies in growth mode that are currently finding it difficult to access either private or venture capital to take a project forward. I have asked Chris Rowlands to assist me in developing that. I am committed to that in the economic renewal programme, and these things will be developed alongside each other.

**Angela Burns:** When this financial sector panel gets going, will you ask it to look not only at the stock exchange concept, but the idea of tradable and registered equity? That would allow some of the smaller family-owned firms in Wales to raise capital and trade shares without being at risk from hostile takeover bids, which is one of the big fears of a smaller family firm. Will it also look at the concept of a Welsh bond? We believe quite strongly that that would be a good way forward for us to bring further investment and money into Wales.

**Jenny Randerson:** Rwyf yn falch bod pethau'n symud ymlaen, er mor araf. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa economaidd yn parhau i fod yn broblem ac mae taer angen inni ysgogi busnes yng Nghymru. Pan awgrymais hyn gyntaf, ymateb y Llywodraeth oedd mai un syniad oedd hyn a'i bod yn edrych ymlaen at sefydlu banc pobl. Os na fu cynnydd o ran y gyfnewidfa stoc, pa gynnydd a fu gyda banc pobl? Mae hynny'n opsiwn a fyddai'n cyflawni swyddogaeth hollol wahanol i gyfnewidfa stoc yng Nghymru, ond mae'n opsiwn lle mae'r drws ar agor led y pen. Mae Llywodraeth y DU wedi gosod y sefyllfa drwy warantu dyfodol ar gyfer swyddfeydd post; gallai banc pobl gael ei sefydlu drwy swyddfeydd post yng Nghymru a gallai gyfrannu'n bendant i gynorthwyo'r rheini yng Nghymru sy'n cael problemau gyda'r sector bancio presennol.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Efallai ein bod yn edrych ar bethau gwahanol yma. Nid yw banc pobl i fod i ddarparu'r cyllid llenwi bwloch sy'n angenrheidiol er mwyn i fusnesau Cymru ffynnu. Felly, ochr yn ochr â'r syniad o fanc pobl, a'r syniad a gyflwynwyd gennych, rydym hefyd yn edrych i weld sut y gallwn roi hwb i ddarparu'r cyllid llenwi bwloch i'r cwmnïau hynny sy'n tyfu sydd yn ei chael yn anodd ar hyn o bryd i gael mynediad at naill ai gyfalaf preifat neu gyfalaf menter er mwyn bwrw ymlaen â phrosiect. Rwyf wedi gofyn i Chris Rowlands fy helpu i ddatblygu hynny. Rwyf wedi ymrwymo i hynny yn y rhaglen adnewyddu'r economi, a chaiff y pethau hyn eu datblygu ochr yn ochr â'i gilydd.

**Angela Burns:** Pan fydd y panel sector ariannol hwn yn dechrau ar ei waith, a wnewch chi ofyn iddo edrych ar y syniad o gyfnewidfa stoc, yn ogystal â'r syniad o ecwiti cofrestredig gwerthadwy? Byddai hynny'n caniatáu i rai o'r cwmnïau teuluol llai yng Nghymru godi cyfalaf a gwerthu cyfranddaliadau heb fod mewn perygl o gael eu meddiannu mewn modd anffafriol, sy'n un o ofnau mawr cwmnïau teuluol llai. A wnaiff y panel hefyd edrych ar y cysyniad o fond yng Nghymru? Rydym yn credu'n eithaf cryf y byddai hynny'n ffordd dda ymlaen inni

ddod â buddsoddiad pellach ac arian i Gymru.

**The Deputy First Minister:** We have to be a bit careful here, because the primary purpose of the financial sector team is to attract investment into Wales from the financial services sector. However, we will ask the panel to look at the issue of a stock exchange. There is a wider responsibility within my department to look at access to finance. That goes wider than the sector team and panel, although I am sure that those on the sector panel will be able to give us advice on that. I assure you that we will look at anything that we can do to stimulate the availability of finance for businesses to grow.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rhaid inni fod yn eithaf gofalus yma, oherwydd prif ddiben y tîm sector ariannol yw denu buddsoddiad i Gymru o'r sector gwasanaethau ariannol. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn i'r panel edrych ar y mater yn ymwneud â chyfnewidfa stoc. Mae cyfrifoldeb ehangach o fewn fy adran i edrych ar fynediad at gyllid. Mae hynny'n mynd ymhellach na thîm a phanel y sector, er rwyf yn siŵr y bydd y rheini sydd ar y panel sector yn gallu rhoi cyngor inni ar hynny. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn edrych ar unrhyw beth y gallwn ei wneud i beri bod cyllid ar gael i fusnesau gael tyfu.

### Blaenoriaethau

**8. Nerys Evans:** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin. OAQ(3)1704(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fy mlaenoriaethau ar hyn o bryd fydd rhoi'r mesurau a amlinellir yn 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' ar waith, hynny yw, buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd uchel, gan droi Cymru'n lle mwy deniadol o safbwynt busnes, ehangu a chyfoethogi'n sgiliau, annog arloesi a thargedu ein cymorth busnes.

**Nerys Evans:** Un peth sydd yn hanfodol i wella economi gorllewin Cymru yw sicrhau cysylltiadau a rhwydweithiau trafndiaeth gwell. Mae Dr Dai Lloyd eisoes wedi codi'r pwytnt pwysig am drydaneiddio'r rheilffyrdd. Hoffwn ategu ei sylwadau yn gynharach. Mae'n amlwg bod sicrhau trydaneiddio yn hanfodol i wella'r sefyllfa, nid dim ond o ran lleihau amser teithio a buddiannau economaidd a buddiannau i'r diwydiant twristiaeth a ddôi o hynny, ond oherwydd y byddai'n gwella delwedd Cymru, a gorllewin Cymru, fel rhywle sydd yn hawdd ei gyrraedd. Mae'n warthus nad oes un filltir o drac wedi'i drydaneiddio yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n bwysig hefyd fod y gwasanaeth ar y rhwydwaith presennol yn cynyddu. Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf felly o ran cynyddu'r gwasanaethau trenau i sir Gaerfyrddin a sir Benfro?

### Priorities

**8. Nerys Evans:** *Will the Minister outline his priorities for Mid and West Wales. OAQ(3)1704(ECT)*

**The Deputy First Minister:** My immediate priorities will be implementing the measures that I outlined in 'Economic Renewal: a new direction', namely investing in high-quality sustainable infrastructure, making Wales a more attractive place in which to do business, broadening and deepening our skills, encouraging innovation, and targeting our business support.

**Nerys Evans:** One thing that is crucial to improve the west Wales economy is ensuring better transport links and networks. Dr Dai Lloyd has already raised the important point about the electrification of the railways. I would like to endorse the comments that he made earlier. It is apparent that ensuring electrification is crucial to improve the situation, not only because it would reduce travel times and bring economic benefits and consequent benefits to the tourism industry, but because it would improve the image of Wales, and west Wales, as somewhere that is easily accessible. It is disgraceful that there is not a single mile of electrified track in Wales at present. It is also important that the service on the current network is increased. What is the latest situation, therefore, with regard to increasing the train service to Carmarthenshire and Pembrokeshire?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydych hefyd wedi gwneud y pwynt ynghylch pa mor bwysig yw trydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe. Yr ydym yn gobeithio y bydd cyhoeddiad ar hynny'n fuan. Mae'r cyhoeddiad wedi'i ohirio ers rhai wythnosau erbyn hyn. Fel y gwyddoch, mae cais wedi cael ei wneud gan y consortiwm rhanbarthol i edrych ar gynyddu'r gwasanaethau i'r gorllewin. Yr wyf yn ystyried y cais hwnnw ar hyn o bryd. Nid ydym mewn sefyllfa i ateb yr holl ofynion, ond gobeithiaf ein bod yn medru gwneud rhywbeth i ymateb i'r hyn yr ydych yn gofyn amdano.

**Nick Bourne:** Deputy First Minister, some time ago I raised with you the issue of the works at Glandyfi that were started during the summer and asked about the likely completion date for those. You said that you were anticipating completion during the summer. Work has now ceased, which is causing tailbacks and traffic problems. I am afraid that there are accidents waiting to happen because people are getting impatient. Can you provide an update on the position of the Glandyfi route on the A487 in Ceredigion?

**The Deputy First Minister:** I am aware of the project. I do not have the precise timeline for the project with me. I will write to you with an update on that, Nick.

**Kirsty Williams:** Deputy First Minister, can you explain to me how your plans to abolish the Mid Wales Trunk Road Agency will be of benefit to people using that part of the road network? Can you identify, as a result of the plans that set out cost savings for your department to be achieved by getting rid of the agency, what additional costs may fall on local authorities that work very closely with your staff in the trunk road agencies? There is a synergy between those organisations. Can you clarify that, if savings are to be made, they will not simply be from your bottom line but from the global sum spent by your department, meaning that local authorities will also see savings? There is a great deal of concern that, although your department might be able to save money, this

**The Deputy First Minister:** You have also made the point about how important the electrification of the line to Swansea is. We hope that there will be an announcement on that quite soon. The announcement has been postponed for some weeks now. As you know, a bid has been made by the regional consortium to look at enhancing the services to the west. At present, I am considering that bid. We are not in a position to answer all of the requirements, but I hope that we will be able to do something to respond to what you have asked for.

**Nick Bourne:** Ddirprwy Brif Weinidog, dro'n ôl codais fater gyda chi yn ymwneud â'r gwaith yng Nglandyfi a gafodd ei ddechrau yn ystod yr haf, a gofynnais beth oedd y dyddiad cwblhau tebygol ar gyfer y gwaith hwnnw. Dywedoch eich bod yn rhag-weld y byddai'n cael ei gwblhau yn ystod yr haf. Mae gwaith wedi dod i stop ar hyn o bryd, ac mae hyn yn achosi tagfeydd traffig a phroblemau. Mae arnaf ofn bod damweiniau yn aros i ddigwydd oherwydd bod pobl yn mynd yn ddiamynedd. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ffordd Glandyfi ar yr A487 yng Ngheredigion?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn ymwybodol o'r prosiect. Nid oes gennyf yr union amserlen ar gyfer y prosiect gyda mi. Ysgrifennaf atoch gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny, Nick.

**Kirsty Williams:** Ddirprwy Brif Weinidog, a allwch egluro imi sut y bydd eich cynlluniau i ddiddymu Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru o fudd i bobl sy'n defnyddio'r rhan honno o'r rhwydwaith ffyrdd? O ganlyniad i'r cynlluniau sy'n nodi arbedion cost i'ch adran eu sicrhau drwy gael gwared ar yr asiantaeth, a allwch nodi pa gostau ychwanegol a allai ddisgyn ar awdurdodau lleol sy'n gweithio'n agos iawn gyda'ch staff yn yr asiantaethau cefnffyrdd? Mae synergedd rhwng y sefydliadau hynny. A allwch egluro, os oes arbedion i'w gwneud, a fyddant yn dod o'ch llinell waelod ond o'r swm cyffredinol a gaiff ei wario gan eich adran, sy'n golygu y bydd awdurdodau lleol hefyd yn gweld arbedion? Mae llawer iawn o bryder, er ei bod yn bosibl i'ch adran allu arbed arian, y bydd hyn yn

will lead to increased costs for local authorities with no improvement for the travelling public.

**The Deputy First Minister:** We have put forward a proposal for consultation. I am aware that representations have been made to us to keep the three trunk road agencies, rather than reducing them to two. We believe that there is a case to reduce them to two and that those savings can be made. We believe that the money should be put to a use that means that we can protect front-line services much better. I am aware of the representations that have been made, and I am considering those. I will make my final decision known before too long.

arwain at gostau uwch ar gyfer awdurdodau lleol heb unrhyw welliant i'r cyhoedd sy'n teithio.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rydym wedi cyflwyno cynnig at ddiben ymgynghori yn ei gylch. Rwyf yn ymwybodol bod sylwadau wedi cael eu cyflwyno inni gadw'r tair asiantaeth cefnffyrdd, yn hytrach na'u lleihau i ddwy. Rydym yn credu bod achos i'w lleihau i ddwy ac y gellir gwneud yr arbedion hynny. Credwn y dylai'r arian gael ei ddefnyddio mewn modd sy'n golygu y gallwn ddiogelu gwasanaethau rheng flaen yn llawer gwell. Rwyf yn ymwybodol o'r sylwadau sydd wedi'u cyflwyno, ac rwyf yn ystyried y rheini. Byddaf yn rhoi gwybod beth yw fy mhenderfyniad terfynol cyn bo hir.

### **Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders**

*Cynnig NDM4599 Dafydd Elis-Thomas*

*Motion NDM4599 Dafydd Elis-Thomas*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 35.6 a 35.8:*

*That the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders 35.6 and 35.8:*

*Yn atal Rheol Sefydlog 7.18 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 3 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 24 Tachwedd 2010.*

*Suspends Standing Order 7.18 (i) and that part of Standing Order 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motion under Item 3 to be considered in Plenary on Wednesday, 24 November 2010.*

**Peter Black:** I move the motion.

**Peter Black:** Cynigiau y cynnig.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw bod cytuno ar ohirio'r Rheolau Sefydlog. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, yr wyf yn cadarnhau bod y Rheolau Sefydlog wedi'u gohirio.

**The Presiding Officer:** The proposal is to suspend Standing Orders. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, I confirm that the Standing Orders are suspended.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

**Cynnig i Gymeradwyo Gwelliant i Reol Sefydlog Dros Dro Rhif 27.9A ynghylch  
Amserlen y Gyllideb Flynyddol  
Motion to Agree an Amendment to Temporary Standing Order No. 27.9A in  
relation to the Annual Budget Timetable**

*Cynnig NDM4600 Dafydd Elis-Thomas*

*Motion NDM4600 Dafydd Elis-Thomas*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 35.2:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 35.2:*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Tachwedd 2010; a*

*1. considers the report of the Business Committee laid in the Table Office on 23 November 2010; and*

*2. yn cymeradwyo'r newid i Reol Sefydlog 27A.9 a nodir yn Adroddiad y Pwyllgor Busnes.*

*2. approves the amendment to Standing Order 27A.9 set out in the report of the Business Committee.*

**Peter Black:** I move the motion.

**Peter Black:** Cynigiaf y cynnig.

3.00 p.m.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw y dylid cymeradwyo'r gwelliant i'r Rheol Sefydlog er mwyn inni allu ymdrin â'r gyllideb oherwydd y newidiadau o ran amseriad y gyllideb. Y cwestiwn yw bod cytuno ar y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, gallaf ddatgan bod y cynnig wedi'i gymeradwyo.

**The Presiding Officer:** The proposal is that the amendment to the Standing Order be agreed to allow us to deal with the budget because of changes to the timing of the budget. The question is that the proposal be agreed. Does any Member object? I see that no-one does. I therefore declare that the motion has been agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

**Dadl Cyfnod 1 ar Fesur Arfaethedig Ann Jones, sef Mesur Arfaethedig  
Diogelwch Tân Domestig (Cymru)  
Stage 1 Debate on Ann Jones's Proposed Fire Safety (Wales) Measure**

*Cynnig NDM4597 Ann Jones*

*Motion NDM4597 Ann Jones*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 23.24:*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 23.24:*

*Yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân yn y Cartref (Cymru).*

*Agrees to the general principles of the Proposed Domestic Fire Safety (Wales) Measure.*

**Ann Jones:** I move the motion.

**Ann Jones:** Cynigiaf y cynnig.

I congratulate and thank all of those who have come this far with me, namely Chris Enness, who has been my technical adviser,

Hoffwn longyfarch a diolch i bawb sydd wedi dod cyn belled â hyn gyda mi, sef Chris Enness, sydd wedi bod yn gynghorydd

and is now the deputy chief fire officer of Staffordshire Fire and Rescue Service; the three fire and rescue services in Wales, which have given me tremendous support; Peter Holland, president of the Chief Fire Officers Association, who was here this morning for an event; Ronnie King, from the National Fire Sprinkler Network; Stewart Kidd, from the British Automatic Fire Sprinkler Association; and Alan Brinson, from the European Fire Sprinkler Network. All of those people have played an important part in allowing me to be able to put my name to this motion.

Today is about a simple issue: preventing fire deaths and saving lives. People are dying in homes that meet the current building regulations. Just this month, three children in Bridlington and a woman in Mold died in avoidable circumstances. In 1988, a family in Swansea suffered a similar tragedy, and I had the pleasure of welcoming Caroline and her mother, Siân Tucker, to the Assembly earlier today to discuss their experience of the fire in 1988 that killed Caroline's younger sister, Amanda and left Caroline with severe burns, for which she still receives treatment. At today's lunchtime event, Caroline told us that she did not want anyone else to suffer while we can prevent this from happening.

Caroline's story tells us that, for far too long, we have been sleepwalking into a society that tolerates these deaths while a solution is staring us in the face. This afternoon is our chance to take a major step forward in making Wales the first country in the world to say, 'No more', to the status quo that we have allowed ourselves to fall into.

I hope that the experiences that Caroline shared with us today, and the experiences that you will have had during this stage of the proposed Measure, will help us to look beyond sprinklers as a device to see them purely for what they are: life-saving. Sprinklers are a solution and a method whereby we can take a rare opportunity to fulfil the most important responsibility of elected office, to protect the lives of the

technegol imi, ac sydd erbyn hyn yn ddirprwy brif swyddog tân Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Stafford; y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru, sydd wedi rhoi cefnogaeth aruthrol imi; Peter Holland, llywydd Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, a oedd yma y bore yma ar gyfer digwyddiad; Ronnie King, o'r Rhwydwaith Systemau Chwistrellu Dŵr Cenedlaethol; Stewart Kidd, o Gymdeithas Systemau Chwistrellu Dŵr Awtomatig Prydain; ac Alan Brinson, o Rwydwaith Systemau Chwistrellu Dŵr Ewrop. Mae pob un o'r rheini wedi chwarae rhan bwysig gan fy ngalluogi i roi fy enw ar y cynnig hwn.

Mae heddiw yn ymwneud â mater syml: atal marwolaethau tân ac achub bywydau. Mae pobl yn marw mewn cartrefi sy'n bodloni'r rheoliadau adeiladu presennol. Y mis hwn yn unig, bu farw tri o blant yn Bridlington a menyw yn yr Wyddgrug mewn amgylchiadau y gellid fod wedi'u hosgoi. Ym 1988, dioddefodd teulu yn Abertawe drychineb tebyg, a chefais y pleser o groesawu Caroline a'i mam, Siân Tucker, i'r Cynulliad yn gynharach heddiw i drafod eu profiad o'r tân ym 1988 a laddodd chwaer iau Caroline, Amanda ac a adawodd Caroline â llosgiadau difrifol. Mae hi'n dal i gael triniaeth ar eu cyfer. Yn y digwyddiad amser cinio heddiw, dywedodd Caroline wrthym nad oedd hi am weld unrhyw un arall yn dioddef tra gallwn atal hyn rhag digwydd.

Mae stori Caroline yn dweud wrthym ein bod, ers gormod o amser o lawer, wedi datblygu'n gymdeithas sy'n goddef y marwolaethau hyn tra bod yr ateb yn syth o'n blaenau. Y prynhawn yma yw ein cyfle i gymryd cam mawr ymlaen gan wneud Cymru'r wlad gyntaf yn y byd i ddweud, 'Dim mwy', i'r sefyllfa bresennol yr ydym wedi caniatáu i'n hunain syrthio iddi.

Rwyf yn gobeithio y bydd y profiadau a rannodd Caroline gyda ni heddiw, a'r profiadau y byddwch wedi'u cael yn ystod y cyfnod hwn yn y Mesur arfaethedig, yn ein helpu i edrych y tu hwnt i systemau chwistrellu dŵr fel dyfais ac edrych arnynt am yr hyn y maent yn ei wneud: achub bywyd. Mae systemau chwistrellu dŵr yn ateb ac yn ddull lle gallwn gymryd cyfle prin i gyflawni'r cyfrifoldeb pwysicaf oll mewn

people we seek to serve.

Sprinklers are a solution now supported by the reports published by Legislation Committee No. 1 and the Finance Committee. Crucially, Legislation Committee No. 1 concluded that it is content that the proposed Measure is an appropriate legislative vehicle and provides an effective and timely way forward. The Finance Committee concluded that there is no evidence that sprinklers will be seen as a significant burden on house buyers or have a significant impact on the housing market, and Legislation Committee No. 1 agreed with that view.

I am particularly glad that the committee included that in its comments, as I have strived from the outset to see a pragmatic Measure introduced. Some have pointed out that older homes should be prioritised by this proposed Measure, but it has proved impossible to obtain information to compare the risks presented by fire based on the age of a property. In any case, I would be concerned that an approach based on the age of a house would be dangerously narrow. Legislation Committee No. 1 considered my approach to be proportionate and practical.

The three main causes of fire are well established—they are men, women and children. As the inhabitants of any home change, so does the fire risk. We know that young people, older people and those addicted to alcohol and drugs are most at risk, so I would oppose moves to restrict the legislation in what would, in practice, be an arbitrary way.

I am grateful for the constructive recommendations made by Legislation Committee No. 1 as to the ways in which the proposed Measure can be improved. The Minister for Environment, Sustainability and Housing, Jane Davidson, and her officials have made constructive suggestions. The committee and the Minister have identified those provisions in the proposed Measure that deal with enforcement procedures as needing clarification and improvement.

swydd etholedig, i ddiogelu bywyd y bobl yr ydym yn ceisio eu gwasanaethu.

Mae systemau chwistrellu dŵr yn ateb a gefnogir yn awr gan yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 a'r Pwyllgor Cyllid. Yn bwysig iawn, daeth Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 i'r casgliad ei fod yn fodlon bod y Mesur arfaethedig yn gyfrwng deddfwriaethol priodol ac yn darparu ffordd effeithiol ac amserol ymlaen. Daeth y Pwyllgor Cyllid i'r casgliad nad oes dim tystiolaeth y bydd systemau chwistrellu dŵr yn cael eu gweld fel baich sylweddol ar brynwyr tai nac yn cael effaith sylweddol ar y farchnad dai, ac roedd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 yn cytuno â'r farn honno.

Rwyf yn arbennig o falch bod y pwyllgor yn cynnwys hynny yn ei sylwadau, am fy mod wedi ymdrechu o'r cychwyn i weld Mesur pragmatig yn cael ei gyflwyno. Mae rhai wedi dweud y dylai cartrefi hŷn gael blaenoriaeth yn y Mesur arfaethedig hwn, ond mae wedi bod yn amhosibl cael gwybodaeth i gymharu risgiau tân yn seiliedig ar oedran eiddo. Mewn unrhyw achos, byddwn yn pryderu y byddai dull gweithredu sy'n seiliedig ar oedran tŷ yn beryglus o gul. Roedd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 o'r farn bod fy ffordd o feddwl yn ymarferol ac yn gymesur.

Gwyddom yn iawn pa dri pheth sy'n achosi tân—dynion, menywod a phlant. Gan fod trigolion unrhyw gartref yn newid, felly hefyd mae'r risg o dân. Gwyddom fod pobl ifanc, pobl hŷn a'r rheini sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau fwyaf mewn perygl, felly byddwn yn gwrthwynebu camau i gyfyngu ar y ddeddfwriaeth mewn ffordd a fyddai, mewn gwirionedd, yn fympwyol.

Rwyf yn ddiolchgar am yr argymhellion adeiladol a wnaed gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 o ran y ffyrdd y gellir gwella'r Mesur arfaethedig. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Jane Davidson, a'i swyddogion wedi cynnig awgrymiadau adeiladol. Mae'r pwyllgor a'r Gweinidog wedi nodi bod angen egluro a gwella'r darpariaethau hynny yn y Mesur arfaethedig sy'n ymdrin â gweithdrefnau gorfodi.



I will be bringing forward amendments to address these concerns at Stage 2. These will place the enforcement powers of local authorities on the face of the proposed Measure, rather than dealing with them indirectly by reference to the Building Act 1984. Although they will follow the same general approach as the powers in the Act, through which the building regulations are enforced, these powers will be more closely tailored to the particular requirements of this proposed Measure. My amendments will also ensure that the eventual Measure is as effective when building control is in the hands of approved inspectors as it is when under an authority's direct control.

On the other hand, I am yet to be convinced of the need to amend the short title of the proposed Measure to include the words 'fire suppression system', as recommended by the committee. This would not affect the legal effect of the proposed Measure in any way; however, I am content to continue the debate on this issue at Stage 2 if necessary.

There are uncertainties in some of the financial implications of this proposed legislation, and we all knew that this would be the case. We should recognise that we are making estimates in a relatively unpredictable market and with little UK-based evidence. Despite this, it is worth noting that the cost of a sprinkler system is often smaller than the monthly house price fluctuation, namely between 1 per cent and 2 per cent of the construction costs.

I also believe that the proposed Measure and the explanatory memorandum are as extensive as they could be, and I am in no doubt that their quality at least matches any Government Measure brought forward to date.

The Finance Committee noted and welcomed the wide range of financial information that had been provided in support of the proposed Measure. It went on to remark that a considerable amount of effort had gone into assessing its financial implications. Many of the issues raised refer to the Minister, which is wholly appropriate as the Welsh Assembly

Byddaf yn cyflwyno gwelliannau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn yng Nghyfnod 2. Bydd y rhain yn rhoi pwerau gorfodi awdurdodau lleol ar wyneb y Mesur arfaethedig, yn hytrach nag ymdrin â hwy yn anuniongyrchol drwy gyfeirio at Ddeddf Adeiladu 1984. Er y byddant yn dilyn yr un dull cyffredinol â'r pwerau yn y Ddeddf, a ddefnyddir i orfodi'r rheoliadau adeiladu, bydd y pwerau hyn yn fwy penodol i ofynion arbennig y Mesur arfaethedig hwn. Bydd fy ngwelliannau hefyd yn sicrhau bod y Mesur, yn y pen draw, yr un mor effeithiol pan fydd rheoli adeiladu yn nwylo arolygwyr cymeradwy ag y mae pan fydd o dan reolaeth uniongyrchol yr awdurdod.

Ar y llaw arall, nid wyf wedi fy argyhoeddi hyd yma bod angen newid teitl byr y Mesur arfaethedig i gynnwys y geiriau 'system atal tân', fel yr argymhellwyd gan y pwyllgor. Ni fyddai hyn yn effeithio ar effaith gyfreithiol y Mesur arfaethedig mewn unrhyw ffordd; fodd bynnag, rwyf yn fodlon parhau â'r drafodaeth ar y mater hwn yng Nghyfnod 2 os oes angen.

Mae ansicrwydd yn rhai o oblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth arfaethedig hon, ac mae pob un ohonom yn gwybod y byddai hyn yn digwydd. Dylem gydnabod ein bod yn gwneud amcangyfrifon mewn marchnad gymharol anrhagweladwy a chydag ychydig o dystiolaeth sy'n seiliedig yn y DU. Er gwaethaf hyn, mae'n werth nodi bod cost system chwistrellu dŵr yn aml yn llai na'r amrywiad misol mewn prisiau tai, sef rhwng 1 y cant a 2 y cant o'r costau adeiladu.

Rwyf hefyd yn credu bod y Mesur arfaethedig a'r memorandwm esboniadol mor eang ag y gallent fod, ac rwyf yn gwbl sicrhau bod eu hansawdd o leiaf yn cyfateb i unrhyw Fesur gan y Llywodraeth a gyflwynwyd hyd yn hyn.

Nododd a chroesawodd y Pwyllgor Cyllid yr ystod eang o wybodaeth ariannol a ddarparwyd i gefnogi'r Mesur arfaethedig. Aeth ymlaen i ddatgan bod cryn dipyn o ymdrech wedi mynd i asesu ei oblygiadau ariannol. Mae llawer o'r materion a godwyd yn cyfeirio at y Gweinidog, sy'n gwbl briodol gan y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad

Government will have to introduce regulations in the next Assembly to implement the principles of the proposed Measure. There will be a period of consultation in the lead-up to Government regulations being published, and Welsh Water has made it clear that it will work with the Welsh Assembly Government to look at how best to implement a working framework for fitting sprinklers in new homes. I will be keen to support the Government in any way I can during this period, and I would strongly suggest drawing upon international experience at that stage. Sprinklers have been a feature in domestic settings for decades in Arizona and Vancouver, so I am certain that lessons can be learned from their experience.

My proposed Measure as it stands does not impose a continuing maintenance obligation on the owners or occupiers of properties. Legislation Committee No 1 concluded that it is reasonable for any ongoing maintenance requirement to be addressed by reference to the British Standard for suppression systems, rather than on the face of the proposed Measure. I am content with that observation.

Regulations made by the Minister under section 1 of the proposed Measure will prescribe the technical standards that the automatic fire suppression systems will have to meet. Those standards will be able to include provision enabling the system to be maintained effectively. It will be for the owners of dwellings to make use of the facilities made available to them to keep the systems properly maintained.

Effective provisions for maintenance will also need to be considered by the Welsh Assembly Government when it brings forward the regulations that follow the introduction of this proposed Measure, but I hope that Members will note that I addressed this issue during committee evidence sessions, and—along with water issues—it has been integral to my rule that we must introduce something pragmatic and workable.

I look forward to the debate as another step

Cymru gyflwyno rheoliadau yn y Cynulliad nesaf i weithredu egwyddorion y Mesur arfaethedig. Ceir cyfnod ymgynghori yn yr amser sy'n arwain at gyhoeddi rheoliadau'r Llywodraeth, ac mae Dŵr Cymru wedi ei gwneud yn glir y bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i edrych ar beth yw'r ffordd orau o weithredu fframwaith ar gyfer gosod systemau chwistrellu dŵr mewn cartrefi newydd. Byddaf yn awyddus i gefnogi'r Llywodraeth mewn unrhyw ffordd a allaf yn ystod y cyfnod hwn, a byddwn yn awgrymu'n gryf ein bod yn defnyddio profiad rhyngwladol yn y cyfnod hwnnw. Mae systemau chwistrellu dŵr wedi bod yn nodweddedd mewn lleoliadau domestig ers degawdau yn Arizona a Vancouver, felly rwyf yn sicr y gellir dysgu gwersi o'u profiad.

Nid yw fy Mesur arfaethedig fel y mae yn gosod rhwymedigaeth barhaus ar berchnogion neu ddeiliaid eiddo o ran cynnal a chadw. Daeth Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 i'r casgliad ei bod yn rhesymol ystyried unrhyw ofyniad parhaus o ran cynnal a chadw drwy gyfeirio at y Safon Brydeinig ar gyfer systemau atal, yn hytrach nag ar wyneb y Mesur arfaethedig. Rwyf yn fodlon â'r arsylw hwnnw.

Bydd rheoliadau a wneir gan y Gweinidog o dan adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn rhagnodi'r safonau technegol y bydd yn rhaid i'r systemau atal tân awtomatig eu bodloni. Bydd y safonau hynny'n gallu cynnwys darpariaeth sy'n galluogi'r system i gael ei chynnal a'i chadw'n effeithiol. Dewis y perchnogion tai fydd defnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt i sicrhau bod y systemau yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried darpariaethau effeithiol ar gyfer cynnal a chadw hefyd pan fydd yn cyflwyno'r rheoliadau a ddaw ar ôl cyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn, ond rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n nodi fy mod wedi rhoi sylw i'r mater hwn yn ystod sesiynau tystiolaeth y pwyllgor, ac—ynghyd â materion dŵr—mae hyn wedi bod yn rhan annatod o'm ffordd o weithio bod yn rhaid inni gyflwyno rhywbeth pragmatig ac ymarferol.

Edrychaf ymlaen at y ddadl fel cam arall at

towards improving the lives of the people of Wales. I will finish with a quote from Ronnie King OBE, the former chief fire officer of Mid and West Wales Fire and Rescue Service. Ronnie told me that he had failed to prevent 150 deaths and 4,500 injuries during his 20 years as a chief fire officer in Wales. He considers that to be a failure. When people ask why he is working so hard during his retirement to support the campaign to install sprinklers, he says, 'I am trying to put right what I failed to do back then'. I hope that the Assembly will support the proposed Measure through to Stage 2 and onward to becoming full law.

**Rosemary Butler:** On behalf of Legislation Committee No. 1, I am pleased to contribute to this debate on the Proposed Domestic Fire Safety (Wales) Measure. I thank all members of the committee for their hard work in scrutinising the proposed Measure, and Ann Jones for the openness with which she responded to the committee when giving evidence. I also thank those who gave evidence to us to inform our report. Liz Wilkinson, Claire Griffiths and members of the research team must also be commended for their excellent work, which has enabled us to present this report.

There were varying levels of support in the evidence that we received for the general principles of the proposed Measure. Of the 27 respondents to the consultation, eight supported the general principles without reservation, and the main reasons that they gave in support of the proposed Measure were that it would help to reduce or possibly eradicate fire deaths in Wales, help to reduce fire-related injuries in Wales, improve the safety of firefighters, and provide much-needed additional protection against the effects of fire, particularly for vulnerable groups.

While the majority of the remaining respondents either welcomed or did not directly oppose the proposed Measure, concern was raised that the evidence provided by the Member in charge in the explanatory memorandum did not conclusively demonstrate a need for the

wella bywydau pobl Cymru. Rwyf am orffen gyda dyfyniad gan Ronnie King OBE, cyn brif swyddog tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Dywedodd Ronnie wrthyf ei fod wedi methu atal 150 o farwolaethau a 4,500 o anafiadau yn ystod ei 20 mlynedd fel prif swyddog tân yng Nghymru. Mae'n ystyried hynny yn fethiant. Pan fydd pobl yn gofyn pam ei fod yn gweithio mor galed yn ystod ei ymddeoliad i gefnogi'r ymgyrch i osod systemau chwistrellu dŵr, mae'n dweud ei fod am geisio gwneud iawn am yr hyn y methodd ei wneud bryd hynny. Rwyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r Mesur arfaethedig drwodd i Gyfnod 2 ac ymlaen i ddod yn gyfraith lawn.

**Rosemary Butler:** Ar ran Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, mae'n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl hon ar Fesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru). Diolch i holl aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled wrth graffu ar y Mesur arfaethedig, ac i Ann Jones am y ffordd agored y mae hi wedi ymateb i'r pwyllgor wrth roi tystiolaeth. Diolch hefyd i'r rheini a roddodd dystiolaeth inni ar gyfer ein hadroddiad. Rhaid canmol Liz Wilkinson, Claire Griffiths ac aelodau'r tîm ymchwil hefyd am eu gwaith rhagorol, ac mae hyn wedi ein galluogi i gyflwyno'r adroddiad hwn.

Roedd lefelau amrywiol o gefnogaeth yn y dystiolaeth a gawsom i egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. O blith y 27 a ymatebodd i'r ymgynghoriad, roedd wyth yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol heb amheuaeth. Y prif resymau a roesant i gefnogi'r Mesur arfaethedig oedd y byddai'n helpu i leihau neu, o bosibl, atal marwolaethau tân yng Nghymru, yn helpu i leihau anafiadau yn sgîl tân yng Nghymru, yn gwella diogelwch diffoddwyr tân, ac yn rhoi gwarchodaeth ychwanegol yn erbyn effeithiau tân y mae dirfawr ei hangen, yn enwedig i grwpiau sy'n agored i niwed.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eraill naill ai wedi croesawu'r Mesur arfaethedig neu heb ei wrthwynebu'n uniongyrchol, mynegwyd pryder nad oedd y dystiolaeth a roddwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn y memorandwm esboniadol yn dangos yn bendant bod angen am y ddeddfwriaeth.

legislation.

3.10 p.m.

In considering whether we were able to support the general principles of the proposed Measure, we took account of a number of key issues: powers to be transferred to the Welsh Ministers by The Welsh Ministers (Transfer of Functions) (No. 2) Order 2009; existing arrangements in relation to fire safety in the home; incidence of death and injury from fire in the home; alternative ways to reduce incidence of death and injury from fire; and existing cost-benefit analyses. We also considered the practical and financial implications of the proposed Measure and looked briefly at its potential impact on housing in Wales. We received evidence from the housebuilding industry that suggested that existing legislative arrangements in relation to domestic fire safety, namely the Building Regulations 2000, already provided newly built homes with sufficient protection from fire. From this evidence, it is clear that there have been many improvements in fire safety in the home over the years, most notably the introduction of the requirement to install hard-wired smoke detectors in newly built homes. However, it is also clear from Ann Jones's evidence and that of the Welsh fire and rescue services that deaths and injuries from fire in the home are still occurring. We believe that there is room for further improvement.

Having agreed that, we considered whether the aim of the proposed Measure could be met without recourse to new legislation. In doing so, we looked briefly at the powers to be transferred to the Welsh Ministers by the Welsh Ministers (Transfer of Functions) (No. 2) Order 2009. This Order would provide the Welsh Ministers with the necessary powers to amend building regulations to give effect to the policy intention of the proposed Measure. However, it is clear that such an amendment would be unlikely to be made in the immediate future, partly due to the inclusion of a sunrise clause and partly because the impetus to do so would need to come from a future Welsh Government.

Wrth ystyried a oeddem yn gallu cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, buom yn ystyried nifer o faterion allweddol: pwerau i gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009; trefniadau presennol mewn perthynas â diogelwch tân yn y cartref; nifer y marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i danau yn y cartref; ffyrdd eraill o leihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tân; a dadansoddiadau presennol o gost a budd. Buom hefyd yn ystyried goblygiadau ymarferol ac ariannol y Mesur arfaethedig ac yn edrych yn fras ar ei effaith bosibl ar dai yng Nghymru. Cawsom dystiolaeth gan y diwydiant adeiladu tai a oedd yn awgrymu bod trefniadau deddfwriaethol presennol mewn perthynas â diogelwch rhag tân yn y cartref, sef Rheoliadau Adeiladu 2000, eisoes yn rhoi digon o amddiffyniad rhag tân mewn cartrefi newydd. O'r dystiolaeth hon, mae'n amlwg bod llawer o welliannau wedi bod mewn diogelwch tân yn y cartref dros y blynyddoedd, yn fwyaf amlwg cyflwyno'r gofyniad i osod synwryddion mwg wedi'u gwifro mewn cartrefi newydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn glir o dystiolaeth Ann Jones a thystiolaeth gwasanaethau tân ac achub Cymru fod marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau yn y cartref yn dal i ddigwydd. Rydym yn credu bod lle i wella mwy.

Ar ôl cytuno ar hynny, buom yn ystyried a allai nod y Mesur arfaethedig gael ei fodloni heb orfod cael deddfwriaeth newydd. Wrth wneud hynny, buom yn edrych yn fras ar y pwerau i gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009. Byddai'r Gorchymyn hwn yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rheoliadau adeiladu er mwyn gweithredu bwriad polisi'r Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, mae'n amlwg y byddai gwelliant o'r fath yn annhebygol o gael ei wneud yn y dyfodol agos, yn rhannol oherwydd bod cymal ôl-weithredol yn cael ei gynnwys ac yn rhannol oherwydd y byddai'n

rhaid i'r ysgogiad i wneud hynny ddod gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

We also looked at alternative ways by which a reduction in the incidence of death and injuries from fire in the home could be made. A number of respondents suggested that a more effective way to tackle this issue would be to target fire safety measures at older housing stock or at high-risk groups. It was clear from the evidence of Welsh fire and rescue services that targeting along those lines is already well established and producing positive results. However, we took the view that a more comprehensive approach is required, and although the proposed Measure concentrates its efforts on newly built homes, over time, as older housing stock is replaced, the same protection would eventually be afforded to all, regardless of the age and type of property that they live in and which socioeconomic group they come from. In addition, we heard compelling evidence of the benefits provided by automatic fire suppression systems over and above those provided by existing fire safety measures, including smoke detectors. While smoke detectors may be enough to save the lives of some, they may not necessarily save the lives of all, particularly the most vulnerable.

In the view of the evidence presented to us and the reasons outlined, we support the general principles of the proposed Measure. Notwithstanding that, our report highlights a number of areas in which we think improvements to the legislation can and should be made. First, we accept that the enforcement provisions set out in section 2 of the proposed Measure reflect those used for the purpose of enforcing the Building Regulations 2000, and we are content with that approach. However, in view of the evidence received, we recommend that Ann Jones bring forward the necessary technical amendments at Stage 2 to ensure that the enforcement regime is workable and effective.

Similarly, we accept and understand the rationale behind section 3, which provides for the information that must be submitted when

Buom yn edrych hefyd ar ffyrdd eraill y gellid gostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i danau yn y cartref. Awgrymodd nifer o ymatebwyr mai ffordd fwy effeithiol o fynd i'r afael â'r mater hwn fyddai targedu mesurau diogelwch tân yn y stoc tai hŷn neu gyda grwpiau risg uchel. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth gan wasanaethau tân ac achub Cymru fod targedu'r rheini yn rhywbeth sydd eisoes yn digwydd ac yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod angen dull gweithredu mwy cynhwysfawr, ac er bod y Mesur arfaethedig yn canolbwyntio ar gartrefi newydd, dros amser, fel y disodlir stoc tai hŷn, byddai'r un amddiffyniad yn cael ei roi i bawb yn y pen draw, beth bynnag yw oedran yr eiddo a'r math o eiddo y maent yn byw ynddo a pha grŵp economaidd-gymdeithasol y maent yn perthyn iddo. Yn ogystal, clywsom dystiolaeth arbennig o'r buddion a geir gan systemau atal tân awtomatig yn ogystal â'r rheini a ddarperir gan fesurau diogelwch tân presennol, gan gynnwys synwryddion mwg. Er bod synwryddion mwg yn gallu bod yn ddigon i achub bywydau rhai, mae'n bosibl na fyddant o reidrwydd yn achub bywydau pawb, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.

Yn sgîl y dystiolaeth a gyflwynwyd inni a'r rhesymau a amlinellwyd, rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Er gwaethaf hynny, mae ein hadroddiad yn amlygu sawl maes lle gellir ac y dylid gwneud gwelliannau i'r ddeddfwriaeth yn ein barn ni. Yn gyntaf, rydym yn derbyn bod y darpariaethau gorfodi a nodir yn adran 2 o'r Mesur arfaethedig yn adlewyrchu'r rheini a ddefnyddir at ddibenion gorfodi Rheoliadau Adeiladu 2000, ac rydym yn fodlon â'r ffordd honno. Fodd bynnag, o ystyried y dystiolaeth a gafwyd, rydym yn argymhell bod Ann Jones yn cyflwyno'r gwelliannau technegol angenrheidiol yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod y drefn orfodi yn ymarferol ac yn effeithiol.

Yn yr un modd, rydym yn derbyn ac yn deall y rhesymeg y tu ôl i adran 3, sy'n darparu bod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno pan fydd y

building work that comes under the proposed Measure is to be undertaken. However, we share the concerns raised in evidence that section 3, as drafted, does not accurately reflect current arrangements in relation to building control. In view of that, we recommend that Ann Jones bring forward the necessary amendments at Stage 2 to make clear the intention that section 3 applies equally to local authority building control and private sector approved inspector building control. We further recommend that the timescales for non-compliance provided for in section 3 reflect those currently used in the case of the Building Regulations 2000.

In addition to these recommendations, we also suggest a number of areas where we believe that further work should be undertaken by the Minister before bringing forward regulations to give effect to the policy intention of the proposed Measure. In particular, we urge the Minister to re-examine the cost implications associated with the proposed Measure, taking account of the evidence that we have received on this issue. We remain concerned that the practical implications of the provision and maintenance of a water supply are yet to be resolved. Again, we suggest that the Minister examines this issue in more detail before bringing forward regulations.

In conclusion, we recommend that the Assembly agrees the general principles of the proposed Measure. In the event that the proposed Measure progresses beyond today's Stage 1 debate, I hope that Ann Jones will accept the recommendations contained in our report and bring forward the necessary amendments at Stage 2. Again, I congratulate Ann Jones on the excellence of the evidence that she presented to committee.

**Angela Burns:** As Chair of the Finance Committee, I am delighted to speak on this proposed Measure. We examined the financial aspects of the proposed Measure and, as a committee, we are very grateful to you, Ann, and your officials for the hard work and effort that you put into providing exemplary evidence. I wish that others would

gwaith adeiladu sy'n dod o dan y Mesur arfaethedig yn cael ei wneud. Fodd bynnag, rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd mewn tystiolaeth nad yw adran 3, fel y'i drafftwyd, yn adlewyrchu'r trefniadau presennol yn gywir mewn perthynas â rheoli adeiladu. O ystyried hynny, rydym yn argymhell bod Ann Jones yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2 i wneud y bwriad yn glir bod adran 3 yr un mor berthnasol i reolaeth adeiladu awdurdod lleol ag y mae i reolaeth adeiladu arolygydd cymeradwy'r sector preifat. Rydym yn argymhell hefyd fod yr amserlenni ar gyfer peidio â chydymffurfio y darperir ar eu cyfer yn adran 3 yn adlewyrchu'r rheini a ddefnyddir ar hyn o bryd yn achos Rheoliadau Adeiladu 2000.

Yn ogystal â'r argymhellion hyn, rydym hefyd yn awgrymu nifer o feysydd lle dylai'r Gweinidog wneud rhagor o waith, yn ein barn ni, cyn cyflwyno rheoliadau i weithredu bwriad polisi'r Mesur arfaethedig. Yn benodol, rydym yn annog y Gweinidog i ail-edrych ar y goblygiadau o ran cost yn gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig, gan ystyried y dystiolaeth a gawsom ar y mater hwn. Rydym yn dal yn bryderus nad yw goblygiadau ymarferol y ddarpariaeth a chynnal a chadw'r cyflenwad dŵr wedi'u datrys eto. Unwaith eto, rydym yn awgrymu bod y Gweinidog yn ystyried y mater hwn yn fwy manwl cyn cyflwyno rheoliadau.

I gloi, rydym yn argymhell bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Os bydd y Mesur arfaethedig yn mynd ymlaen y tu hwnt i ddadl Cyfnod 1 heddiw, rwyf yn gobeithio y bydd Ann Jones yn derbyn yr argymhellion sydd yn ein hadroddiad ac yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2. Unwaith eto, hoffwn longyfarch Ann Jones ar y dystiolaeth ragorol y mae wedi'i chyflwyno i'r pwyllgor.

**Angela Burns:** Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, mae'n bleser gennyf siarad ar y Mesur arfaethedig hwn. Buom yn archwilio agweddau ariannol y Mesur arfaethedig ac, fel pwyllgor, rydym yn ddiolchgar iawn i chi, Ann, a'ch swyddogion am y gwaith caled a'r ymdrech a roddwch i ddarparu tystiolaeth ragorol. Hoffwn pe byddai eraill yn dilyn

follow your lead, because you did an awful lot of good groundwork on this.

The proposed Measure would confer on Welsh Ministers the power to make subordinate legislation for the installation of sprinkler systems when certain types of work on buildings are carried out. It would require each new residence created to be provided with an automatic fire-suppression system that operates effectively and complies with regulations to be made by Welsh Ministers. The proposed Measure applies only to the construction of new residences, the conversion of an existing building to create one or more new residences or the subdivision or amalgamation of existing residences. It is important to note that it does not require the retrofitting of automatic fire-suppression systems in existing properties, because that would have been extremely difficult for us to evaluate from a financial perspective.

The Finance Committee noted and welcomed the wide range of financial information that Ann provided. However, we wanted to note that there are still some great uncertainties surrounding some of the costs involved. The main impact of the proposed Measure will be on new properties. The explanatory memorandum suggests that the cost per building will range from £1,000 to £2,500, but some witnesses suggested that this figure might exceed £3,000, and the costs in one pilot scheme were just over the £5,000 mark. Witnesses had differing opinions on the cost of the sprinkler systems and on the potential impacts of those costs on the housing market. More work is needed on these costs, but there is no evidence that they will be seen as a significant burden on house buyers or will have a significant impact on the housing market. There are suggestions that properties that are fitted with sprinkler systems will become more desirable than those that are not.

The Finance Committee also noted that the installation of sprinkler systems could simply be seen as one element in the continual drive to improve housing standards, such as those achieved through improved building regulations. It noted that costs can be expected to fall with developments in design

eich esiampl, oherwydd gwnaethoch lawer iawn o waith sylfaen da ar hyn.

Byddai'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i osod systemau chwistrellu dŵr pan fydd mathau penodol o waith yn cael eu gwneud ar adeiladau. Byddai'n ofynnol i bob man preswyl newydd a grëwyd gael system atal tân awtomatig sy'n gweithio'n effeithiol ac yn cydymffurfio â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Dim ond ar gyfer adeiladu mannau preswyl newydd, addasu adeilad sydd eisoes yn bodoli er mwyn creu un neu fwy o fannau preswyl newydd neu isrannu neu gyfuno mannau preswyl sydd eisoes yn bodoli y mae'r Mesur arfaethedig yn berthnasol. Mae'n bwysig nodi nad oes angen ôl-osod systemau atal tân awtomatig mewn eiddo sydd eisoes yn bodoli, oherwydd byddai hynny wedi bod yn eithriadol o anodd inni ei werthuso o safbwynt ariannol.

Nododd a chroesawodd y Pwyllgor Cyllid yr ystod eang o wybodaeth ariannol a ddarparwyd gan Ann. Fodd bynnag, roeddem yn awyddus i nodi bod ambell ansicrwydd mawr o hyd ynghylch rhai o'r costau sydd ynghlwm. Bydd prif effaith y Mesur arfaethedig ar eiddo newydd. Mae'r memorandwm esboniadol yn awgrymu y bydd y gost fesul adeilad yn amrywio o £1,000 i £2,500, ond roedd rhai tystion yn awgrymu y gallai'r ffigur hwn fod yn fwy na £3,000, ac roedd y costau mewn un cynllun peilot ychydig dros £5,000. Roedd gan dystion wahanol farn am gost y systemau chwistrellu dŵr ac am effeithiau posibl y costau hynny ar y farchnad dai. Mae angen gwneud mwy o waith ar y costau hyn, ond nid oes dim tystiolaeth y byddant yn cael eu gweld fel baich sylweddol ar brynwyr tai neu'n cael effaith sylweddol ar y farchnad dai. Ceir awgrymiadau y bydd mwy o alw am eiddo sy'n cael eu gosod gyda systemau chwistrellu dŵr na'r rheini hebddynt.

Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn nodi y gallai gosod systemau chwistrellu dŵr gael ei weld fel un elfen yn yr ymdrech barhaus i wella safonau tai, fel y rheini a gyflawnwyd drwy reoliadau adeiladu gwell. Nododd y gallai costau ostwng gyda datblygiadau mewn dylunio a mwy o gystadleuaeth. Mae'r gost o

and increased competition. The cost of installing fire-suppression systems as part of property conversions are likely to be higher and more varied, as this will depend on the design and situation of the property in question. However, even less information is given on these types of properties. The Finance Committee noted that if the installation of a sprinkler system increases property construction costs, this could have an impact on organisations such as housing associations, which are working to fixed cash budgets, or on the Government, if it needed to fund the additional costs. Maintenance costs will also impact more significantly on these organisations. If the installation of sprinkler systems becomes a mandatory requirement, there will inevitably be a cost for administering and enforcing the provisions of the proposed Measure. The Finance Committee did not disagree with the view expressed in the explanatory memorandum that these costs should be minimal, although it noted that this would be dependent on standards and regulations.

Finally, the committee noted that Orders under the proposed Measure will require the preparation of a regulatory impact assessment, by which time a more detailed and specific financial assessment needs to be prepared. Subject to these observations, the Finance Committee supports the proposed Measure.

3.20 p.m.

On a personal note, I add that this is a really good example of a backbench proposed Measure that has a tangible end result. You put it together extremely well, Ann. I, for one, have never bought into the notion that because you live in socially registered housing, or you are a poorer person, then you should not be as safe as anyone else. Well done. I wish you luck on this.

**Janet Ryder:** On this occasion, I will make a short contribution. The Constitutional Affairs Committee looked at the proposed Measure on 6 October, when we considered a written submission from the Member in charge, Ann Jones. We reported on 2 November and the committee's report is available as a

osod systemau atal tân fel rhan o addasu eiddo yn debygol o fod yn uwch ac yn fwy amrywiol, gan y bydd hyn yn dibynnu ar ddyluniad a lleoliad yr eiddo dan sylw. Fodd bynnag, mae hyd yn oed llai o wybodaeth yn cael ei rhoi am y mathau hyn o eiddo. Nododd y Pwyllgor Cyllid, os yw gosod system chwistrellu dŵr yn cynyddu costau adeiladu eiddo, gallai hyn gael effaith ar sefydliadau fel cymdeithasau tai, sy'n gweithio i gyllidebau arian penodol, neu ar y Llywodraeth, pe byddai'n gorfod ariannu'r costau ychwanegol. Bydd costau cynnal a chadw hefyd yn cael effaith fwy sylweddol ar y sefydliadau hyn. Os daw gosod systemau chwistrellu dŵr yn ofyniad gorfodol, mae'n anochel y bydd cost am weinyddu a gorfodi darpariaethau'r Mesur arfaethedig. Nid oedd y Pwyllgor Cyllid yn anghytuno â'r farn a fynegwyd yn y memorandwm esboniadol y dylai'r costau hyn fod yn fach iawn, er ei fod yn nodi y byddai hyn yn dibynnu ar safonau a rheoliadau.

Yn olaf, nododd y pwyllgor y byddai Gorchmynion o dan y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi asesiad effaith rheoleiddiol, ac erbyn hynny byddai angen paratoi asesiad ariannol penodol a mwy manwl. Yn amodol ar y sylwadau hyn, mae'r Pwyllgor Cyllid yn cefnogi'r Mesur arfaethedig.

Ar nodyn personol, ychwanegaf fod hyn yn enghraifft dda iawn o Fesur arfaethedig o'r meinciau cefn sydd â chanlyniad pendant ar y diwedd. Rydych wedi'i gyflwyno'n dda iawn, Ann. Nid wyf fi erioed wedi derbyn y syniad na ddylech fod yr un mor ddiogel â phawb arall dim ond am eich bod yn byw mewn tai cymdeithasol cofrestredig, neu am eich bod yn berson tlotach. Da iawn. Pob lwc ichi gyda hyn.

**Janet Ryder:** Ar yr achlysur hwn, byddaf yn gwneud cyfraniad byr. Edrychodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar y Mesur arfaethedig ar 6 Hydref, pan fuom yn ystyried cyflwyniad ysgrifenedig gan yr Aelod sy'n gyfrifol, Ann Jones. Gwnaethom adrodd ar 2 Tachwedd ac mae adroddiad y pwyllgor ar



supporting document to this debate.

The proposed Measure contains a number of subordinate legislation provisions, but we were satisfied that it contains no unusual or unsatisfactory provisions in relation to these powers. We were also satisfied by Ann's excellent written submission that the proposed Measure strikes the correct balance between the powers on its face and the powers given to Welsh Ministers. All the powers are to be exercised using appropriate procedures, and a proportionate and reasonable use of the powers is envisaged. There appear to be satisfactory requirements for consultation with those affected where appropriate. The committee therefore sees no reason why the National Assembly should not agree the general principles of the proposed Measure.

I have taken some time to say that because I look forward to being able to make a similarly short and positive contribution in debates on Government-proposed Measures in future. In fact, the Government might want to take note of the way in which this proposed Measure has been drafted, as an example of how to avoid some of the criticisms that committees have made about earlier proposed Measures. Like others, I add my personal congratulations to Ann on this proposed Measure. I know from many years of working with Ann, including as a councillor on Denbighshire County Council, about her dedication to the fire authority and to fire prevention measures, and this is an excellent proposed Measure to take through.

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** I can also say that, from the perspective of the Welsh Assembly Government, we are content to support the general principles of the proposed Measure, which has recently been the subject of substantial committee scrutiny. As currently drafted, it provides powers to Welsh Ministers to make regulations consistent with the powers and functions that we are to acquire under the transfer of building

gael fel dogfen ategol i'r ddadl hon.

Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys nifer o ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth, ond roeddem yn fodlon nad yw'n cynnwys dim darpariaethau anarferol nac anfoddfaol mewn perthynas â'r pwerau hyn. Roeddem yn fodlon hefyd gyda chyflwyniad ysgrifenedig ardderchog Ann fod y Mesur arfaethedig yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng y pwerau ar ei wyneb a'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru. Mae pob un o'r pwerau i gael eu harfer gan ddefnyddio gweithdrefnau priodol, a rhagwelir y bydd y pwerau'n cael eu defnyddio'n gymesur ac yn rhesymol. Ymddengys fod gofynion boddhaol ar gyfer ymgynghori â'r rheini yr effeithir arnynt lle bo hynny'n briodol. Nid yw'r pwyllgor felly yn gweld dim rheswm pam na ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

Rwyf wedi cymryd peth amser i ddweud hynny oherwydd rwyf yn edrych ymlaen at allu gwneud cyfraniad yr un modd byr a chadarnhaol mewn dadleuon ar fesurau a gynigir gan y Llywodraeth yn y dyfodol. Mewn gwirionedd, efallai yr hoffai'r Llywodraeth gymryd sylw o'r ffordd y mae'r Mesur arfaethedig hwn wedi cael ei drafftio, fel enghraifft o sut i osgoi rhai o'r beirniadaethau y mae pwyllgorau wedi'u gwneud am Fesurau a gynigiwyd yn gynharach. Fel eraill, hoffwch innau longyfarch Ann yn bersonol ar y Mesur arfaethedig hwn. Gwn, ar ôl blynyddoedd lawer o weithio gydag Ann, gan gynnwys fel cynghorydd ar Gyngor Sir Ddinbych, am ei hymroddiad i'r awdurdod tân ac i fesurau atal tân, ac mae hwn yn Fesur arfaethedig ardderchog i fynd drwy'r broses.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Gallaf innau hefyd ddweud, o safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru, ein bod yn fodlon cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, sydd wedi bod yn destun craffu sylweddol gan bwyllgorau yn ddiweddar. Yn ei ffurf bresennol, mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gyson â'r pwerau a'r swyddogaethau yr ydym ni i'w cael wrth drosglwyddo rheoliadau adeiladu. Fodd

regulations. However, as the Chair of Legislation Committee No. 1 said, that transfer comes through on a sunrise clause—that is, not until 31 December 2011. Reducing the risk of death and injury through fire is an established policy objective of this Government, and it is right that we should look at how legislation might play its part. That is why we have supported Ann in her efforts to date. It is probably worth noting that she brought forward her backbench legislation on this at the same time that I brought forward my frontbench legislation on waste. Ours were the first two propositions to come before the Assembly, yet these are two of the last proposed Measures that will be brought forward during this Assembly. However, we have been happy to support Ann in her efforts to date.

The legislation committee has reported on the general principles of the proposed Measure and made recommendations in its report. A number of those relate to technical concerns that I raised over how the proposed Measure would link to building regulations, and I am delighted that Ann has agreed to bring forward amendments at Stage 2 to address those concerns. Both the legislation committee and the Finance Committee raised questions about the cost of installing sprinklers and ensuring the availability of the necessary water pressure. Industry, in these difficult times, is concerned about the implications of higher costs, and the accumulative impact of demands being made on industry on a number of fronts. However, we also understand that the BRE review of its earlier 2004 work will soon be complete, and will be considered as part of the proposals to bring forward regulations, which will be a matter for the next administration. However, we want to reiterate from the Government perspective the point that I made in giving my evidence, that having a robust analysis of technical issues, costs and benefits will be critical so that informed judgments can be made, the impacts on other policy areas understood, and so that a new administration can deliver the appropriate regulations. However, these are issues for the next stage of the process.

bynag, fel y dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, mae'r trosglwyddo hwnnw yn digwydd drwy gymal ôl-weithredol—hynny yw, dim tan 31 Rhagfyr 2011. Mae lleihau'r risg o farwolaeth ac anafiadau drwy dân yn un o'r amcanion polisi a sefydlwyd gan y Llywodraeth hon, ac mae'n iawn inni edrych ar sut y gallai deddfwriaeth chwarae ei rhan. Dyna pam ein bod wedi cefnogi Ann yn ei hymdrechion hyd yn hyn. Mae'n debyg ei bod yn werth nodi ei bod hi wedi cyflwyno ei deddfwriaeth mainc cefn yr un pryd ag y cyflwynais i fy neddfwriaeth mainc flaen ar wastraff. Ein cynigion ni oedd y ddau gyntaf i ddod gerbron y Cynulliad, ac eto dyma ddau o'r Mesurau arfaethedig diwethaf a fydd yn cael eu dwyn ymlaen yn ystod y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn hapus i gefnogi Ann yn ei hymdrechion hyd yn hyn.

Mae'r pwyllgor deddfwriaeth wedi cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac wedi gwneud argymhellion yn ei adroddiad. Mae nifer o'r rheini yn ymwneud â phryderon technegol a godais ynghylch sut y byddai'r Mesur arfaethedig yn cysylltu â'r rheoliadau adeiladu, ac rwyf yn falch iawn fod Ann wedi cytuno i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â'r pryderon hynny. Roedd y pwyllgor deddfwriaeth a'r Pwyllgor Cyllid wedi codi cwestiynau am gost gosod systemau chwistrellu dŵr a sicrhau bod y pwysedd dŵr angenrheidiol ar gael. Mae diwydiant, yn y dyddiau anodd hyn, yn pryderu am oblygiadau costau uwch, ac effaith gronnus y galw a wneir ar ddiwydiant mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn deall y bydd adolygiad y Sefydliad Ymchwil Adeiladu o'i waith cynharach yn 2004 yn cael ei gwblhau cyn bo hir, a chaiff ei ystyried fel rhan o'r cynigion i gyflwyno rheoliadau, a fydd yn fater i'r weinyddiaeth nesaf. Fodd bynnag, rydym am ailadrodd o safbwynt y Llywodraeth y pwnt a wneuthum wrth roi fy nhystiolaeth, y bydd cael dadansoddiad cadarn o faterion technegol, costau a manteision yn hanfodol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus, deall yr effeithiau ar feysydd polisi eraill, ac er mwyn i weinyddiaeth newydd gyflwyno'r rheoliadau priodol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn faterion ar gyfer cam nesaf y broses.

Today, I would like to continue to offer the Assembly Government's support for the motion proposed, and also to recognise, both from the Government's perspective and personally, the efforts of Ann Jones, and her energy and commitment, in pushing forward the fire safety agenda by offering a pragmatic and workable solution. Whoever has the job of taking this forward as the Minister in the next Assembly Government will find Ann on their doorstep from day one.

**Mark Isherwood:** We welcome the report and the recommendations of Legislation Committee No. 1 and its support for the general principles of the Proposed Domestic Fire Safety (Wales) Measure. We note, however, that the committee remains concerned that the practical implications in relation to the provision and maintenance of a water supply are yet to be fully resolved, and that it urges the examination of the practical implications associated with the duty to provide suppression systems, taking account of the evidence that it received. We also note the committee's belief that it is likely that the total installation costs for the homebuilding industry and the social housing sector will be higher than the estimate provided in the explanatory memorandum. We also join the committee in urging the Minister to re-examine the cost implications associated with the proposed Measure, taking account of the evidence that the committee received in relation to that.

We recognise the need identified by the committee for the enforcement regime provided for in the proposed Measure to be workable and effective, and for the Member in charge to bring forward the necessary amendments at Stage 2. We endorse the committee's belief that it would be prudent for the Minister to give further consideration to development viability in Wales, prior to making regulations to give effect to the policy intention of the legislation.

I sat on the committee that scrutinised the preceding legislative competence Order, when the Building Research Establishment gave evidence that challenged its previous findings that sprinklers were effective only in residential care homes and tall apartment blocks. It then said that new research had

Heddiw, hoffwn barhau i gynnig cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i'r cynnig arfaethedig, a hefyd cydnabod, o safbwynt y Llywodraeth ac o safbwynt personol, ymdrechion Ann Jones, a'i hegni a'i hymrwymiad, i wthio'r agenda diogelwch tân ymlaen drwy gynnig ateb pragmatig ac ymarferol. Bydd pwy bynnag fydd â'r gwaith o gyflwyno hyn fel y Gweinidog yn Llywodraeth nesaf y Cynulliad yn dod o hyd i Ann ar garreg eu drws o'r diwrnod cyntaf.

**Mark Isherwood:** Rydym yn croesawu adroddiad ac argymhellion Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 a'i gefnogaeth i egwyddorion cyffredinol Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru). Nodwn, fodd bynnag, fod y pwyllgor yn parhau i bryderu bod y goblygiadau ymarferol mewn perthynas â darparu a chynnal a chadw cyflenwad dŵr eto i gael eu datrys yn llwyr, a'i fod yn annog y gwaith o archwilio'r goblygiadau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i ddarparu systemau atal, gan ystyried y dystiolaeth a dderbyniodd. Hefyd rydym yn nodi bod y pwyllgor yn credu ei bod yn debygol y bydd cyfanswm y costau gosod i'r diwydiant adeiladu tai a'r sector tai cymdeithasol yn uwch na'r amcangyfrif a roddir yn y memorandwm esboniadol. Rydym hefyd yn ymuno â'r pwyllgor i annog y Gweinidog i ail-edrych ar y goblygiadau o ran cost yn gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig, gan ystyried y dystiolaeth a gafodd y pwyllgor mewn perthynas â hynny.

Rydym yn cydnabod yr angen a nodwyd gan y pwyllgor y dylai'r drefn orfodi y darperir ar ei chyfer yn y Mesur arfaethedig fod yn ymarferol ac yn effeithiol, ac y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2. Rydym yn cefnogi cred y pwyllgor y byddai'n ddoeth i'r Gweinidog ystyried ymhellach ymarferoldeb datblygu yng Nghymru, cyn gwneud rheoliadau er mwyn gweithredu bwriad polisi'r deddfwriaeth.

Bûm ar y pwyllgor a fu'n craffu ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol blaenorol, pan roddodd y Sefydliad Ymchwil Adeiladu dystiolaeth a heriodd ei ganfyddiadau blaenorol mai dim ond mewn cartrefi gofal preswyl a blociau o fflatiau uchel roedd y systemau chwistrellu dŵr yn

shed more light on the situation and that it therefore looked more favourably on residential sprinklers. Unfortunately, its report was never provided and the Building Research Establishment now advises us that supplementary research into the effectiveness of fire sprinklers is currently taking place, funded by the fire sprinkler sector, but that no data has been published yet. We therefore hope that the Minister will give consideration to this data once published, prior to making regulations to give effect to the policy intention of the legislation.

In its response to the consultation on this proposed Measure, Community Housing Cymru, the membership body for housing associations, states that it supports any Measure that reduces the incidence of death and injury from fires, and agrees that initiatives aimed at preserving life, preventing injury and safeguarding property are worthwhile. It adds that the best way of reducing injury and death through fires in housing in Wales is to take a risk-based approach to identify whether there is any relationship between fire risk and types of property and resident, and that a more targeted approach, which might focus on certain types of new existing homes, as well as certain vulnerable groups in society, would be more effective. If the proposed Measure is successful, it suggests that the Welsh Government considers adopting a collaborative approach, and looks to take forward proposals to install fire-suppression systems in new homes in a number of pilot schemes. These would be aimed at resolving a number of questions that housing policy makers and providers have with the proposed Measure and with its aims. It is convinced that the best way to get buy-in from everyone involved in new housebuilding is to move forward, collaboratively, involving everyone with an interest, and to get around the table to help iron out issues from the start.

In a new report, the Home Builders Federation states that it is clear that we have

effeithiol. Dywedodd wedyn fod ymchwil newydd wedi taflu mwy o oleuni ar y sefyllfa a'i bod felly yn edrych yn fwy ffafriol ar systemau chwistrellu dŵr preswyl. Yn anffodus, ni chafwyd ei adroddiad o gwbl ac mae'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn ein cynghori yn awr fod ymchwil atodol i effeithiolrwydd systemau chwistrellu dŵr mewn tân yn cael ei chynnal ar hyn o bryd. Fe'i hariennir gan y sector systemau chwistrellu dŵr, ond nid oes dim data wedi cael eu cyhoeddi eto. Felly, rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried y data hyn ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, cyn gwneud rheoliadau er mwyn gweithredu bwriad polisi'r ddeddfwriaeth.

Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig hwn, mae Cartrefi Cymunedol Cymru, y corff aelodaeth ar gyfer cymdeithasau tai, yn nodi ei fod yn cefnogi unrhyw Fesur sy'n lleihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i danau, ac yn cytuno bod cynlluniau sy'n ceisio diogelu bywyd, atal anafiadau a diogelu eiddo yn werth chweil. Mae'n ychwanegu mai'r ffordd orau o leihau anafiadau a marwolaethau o ganlyniad i danau mewn tai yng Nghymru yw mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg i weld a oes unrhyw berthynas rhwng risg tân a mathau o eiddo a thirgolion. Byddai dull gweithredu mwy penodol, a fyddai'n canolbwyntio ar fathau penodol o gartrefi newydd sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â grwpiau penodol sy'n agored i niwed mewn cymdeithas, yn fwy effeithiol. Os bydd y Mesur arfaethedig yn llwyddiannus, mae'n awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn ystyried mabwysiadu dull cydweithredol, ac yn ceisio datblygu cynigion i osod systemau atal tân mewn cartrefi newydd mewn nifer o gynlluniau peilot. Byddai'r rhain yn ceisio ateb nifer o gwestiynau sydd gan wneuthurwyr a darparwyr polisi tai ynghylch y Mesur arfaethedig a'i amcanion. Mae'n argyhoeddedig mai'r ffordd orau o gael pawb sy'n ymwneud ag adeiladu tai newydd i gyfrannu yw symud ymlaen, ar y cyd, a chynnwys pawb sydd â diddordeb, ac i fynd o gwmpas y bwrdd i helpu i drafod a datrys materion o'r cychwyn cyntaf.

Mewn adroddiad newydd, mae Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn datgan ei bod yn

a housing crisis in Wales. It believes that that crisis should be recognised in national guidance and that a key commitment in national policy should therefore be to increase the supply of homes in Wales. It goes on to say that, at present, there seems to be an attitude from those proposing new requirements that a particular requirement will not affect viability and that a clear example of that can be seen in the proposal to introduce fire sprinklers in all new homes, where the legislation committee concluded that that particular requirement would not in itself affect development viability. The federation said that even though one single policy might not have a negative effect on viability, the cumulative requirements of other planning obligation policies might be enough to render a development unviable, unless a proper analysis of the impact of each policy is undertaken.

3.30 p.m.

Therefore, it said that it is essential that Welsh Government departments are clear on their priorities and are fully aware of the requirements expected of them, so as to ensure that the cumulative requirements are realistic and deliverable and do not put housing delivery in Wales at risk. Echoing Community Housing Cymru, it calls for more in-depth discussions with the industry via a focused working group on housing delivery, adding its belief that it is now imperative that such a group be set up to oversee action across the range of relevant Welsh Government programmes and responsibilities. If this well-intentioned proposed Measure is to deliver as we hope, and if we are not to see yet another positive initiative burn on the bonfire of good intentions, we must heed its call. We support the motion.

**Joyce Watson:** I am grateful for the opportunity to speak during this debate on the proposed Measure on fire sprinklers. I would first like to congratulate Ann Jones on reaching this stage, having already been through the LCO process, which I know is an

amlyg bod gennym argyfwng tai yng Nghymru. Mae'n credu y dylid cydnabod yr argyfwng hwnnw mewn canllawiau cenedlaethol ac mai un o'r ymrwymadau allweddol mewn polisi cenedlaethol ddylai fod i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi yng Nghymru. Â ymlaen i ddweud bod y rheini sy'n cynnig gofynion newydd fel pe baent yn credu, ar hyn o bryd, na fydd gofyniad penodol yn effeithio ar hyfywedd ac y gellir gweld enghraifft glir o hynny yn y cynnig i gyflwyno systemau chwistrellu dŵr ym mhob cartref newydd. Daeth y pwyllgor deddfwriaeth i'r casgliad na fyddai'r gofyniad penodol hwnnw ynddo'i hun yn effeithio ar hyfywedd datblygu. Dywedodd y ffederasiwn er na fyddai un polisi unigol yn cael effaith negyddol ar hyfywedd, efallai y byddai gofynion polisiâu rhwymedigaethau cynllunio eraill, gyda'i gilydd, yn ddigon i wneud datblygiad yn anymarferol, oni bai bod dadansoddiad cywir o effaith pob polisi yn cael ei wneud.

Felly, dywedodd ei bod yn hanfodol bod adrannau Llywodraeth Cymru yn glir ynghylch eu blaenoriaethau a'u bod yn gwbl ymwybodol o'r gofynion a ddisgwylir ganddynt, er mwyn sicrhau bod y gofynion gyda'i gilydd yn realistig ac yn gyraeddadwy ac nad ydynt yn rhoi'r gwaith o ddarparu tai yng Nghymru yn y fantol. Gan adleisio Cartrefi Cymunedol Cymru, mae'n galw am drafodaethau mwy manwl gyda'r diwydiant drwy gyfrwng gweithgor penodol ar ddarparu tai. Ychwanega ei fod yn credu ei bod yn hanfodol bellach bod grŵp o'r fath yn cael ei sefydlu i oruchwylio camau gweithredu ar draws yr ystod o raglenni a chyfrifoldebau perthnasol Llywodraeth Cymru. Os yw'r Mesur arfaethedig hwn sy'n llawn bwriadau da i ddarparu yn ôl y disgwyl, ac os nad ydym am weld menter gadarnhaol arall eto yn llosgi ar y goelcerth o fwriadau da, mae'n rhaid inni ymateb i hyn. Rydym yn cefnogi'r cynnig.

**Joyce Watson:** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddaidl hon ar y Mesur arfaethedig ar systemau chwistrellu dŵr. Yn gyntaf hoffwn longyfarch Ann Jones ar gyrraedd y cam hwn, ar ôl bod drwy'r broses LCO yn barod, sydd, mi wn, yn broses

arduous and, at times, extremely frustrating process. The dedication and effort that Ann has invested in this Measure acts as a model in how a backbencher can have a positive influence on legislation, and the lives that will be saved as a result of this process will be mainly down to her hard work. The tragedy of the three children who were killed earlier this month in Yorkshire shows just how relevant and necessary this is.

There are many benefits to this proposed Measure, which I am sure will be discussed at length during this debate. They include the number of lives that will be saved, the economic saving on not having to rebuild a house, and of course the treasured items that will be saved, which may not be worth much in financial terms but are nonetheless irreplaceable to the homeowner. I would, however, like to concentrate my contribution on the environmental impact of this proposed Measure, as that is an area which, perhaps understandably, given that we are talking about saving lives, has not received much attention, but which remains an important aspect of the legislation.

As a consequence of this proposed Measure, no new homes will have to be rebuilt. If we just think for a moment about the environmental cost of constructing a home, such as making the building materials and the transport involved, we can see that the impact on carbon dioxide emissions would be considerable. Add the damage that a burning house or houses would contribute, and its impact increases further. In addition, the amount of water that a sprinkler uses, around 57 litres per minute, is tiny compared to the amount used by firefighters' hoses, up to 1,900 litres per minute, and so this proposed Measure will play its part in saving water, too. We have discussed at length in the Chamber the fines that will be imposed on local councils by the European Union if landfill targets are not met. If this proposed Measure were in force today, the amount of waste that would be sent to landfill as a result of a burnt house would be reduced by 95 per cent. There is no doubt, therefore, that there will be environmental as well as economic and other benefits to ensuring that no home built in Wales is destroyed and will have to

lafurus ac, ar adegau, yn hynod rwystredig. Mae ymroddiad ac ymdrech Ann yn y Mesur hwn yn enghraifft o sut gall aelod o'r meinciau cefn gael dylanwad cadarnhaol ar ddeddfwriaeth, a'i gwaith caled hi fydd yn bennaf gyfrifol am y bywydau a fydd yn cael eu harbed o ganlyniad i'r broses hon. Mae trychineb y tri phlentyn a gafodd eu lladd yn gynharach y mis hwn yn Swydd Efrog yn dangos pa mor berthnasol ac angenrheidiol ydy hyn.

Mae llawer o fanteision i'r Mesur arfaethedig hwn, ac rwyf yn siŵr y caiff y rhain eu trafod yn fanwl yn ystod y ddadl hon. Maent yn cynnwys nifer y bywydau a fydd yn cael eu hachub, yr arbediad economaidd o beidio â gorfod ail-adeiladu tŷ, ac wrth gwrs yr eitemau gwerthfawr a fydd yn cael eu harbed, eitemau sy'n ddiwerth efallai mewn termau ariannol ond i berchennog y tŷ, nid oes dim a all gymryd eu lle. Byddwn, fodd bynnag, yn hoffi canolbwyntio ar effaith amgylcheddol y Mesur arfaethedig hwn, gan fod hwnnw'n faes nad yw, yn ddealladwy efallai, o ystyried ein bod yn sôn am achub bywydau, wedi cael llawer o sylw, ond sy'n dal i fod yn agwedd bwysig ar y ddeddfwriaeth.

O ganlyniad i'r Mesur arfaethedig hwn, ni fydd angen ailgodi dim cartrefi newydd. Pe byddem ond yn meddwl am funud am gost adeiladu cartref i'r amgylchedd, fel y deunyddiau adeiladu a'r cludiant angenrheidiol, gallwn weld y byddai effaith allyriadau carbon deuocsid yn sylweddol. Ychwanegwch y difrod a geid gyda thŷ neu dai yn llosgi, ac mae effaith hyn yn fwy fyth. Yn ogystal, mae faint o ddŵr y mae systemau chwistrellu dŵr yn ei ddefnyddio, tua 57 litr y munud, yn fach iawn o'i gymharu â faint a ddefnyddir gan bibellau diffoddwyr tân, hyd at 1,900 litr y munud, ac felly bydd y Mesur arfaethedig hwn yn chwarae ei ran wrth arbed dŵr hefyd. Rydym wedi trafod yn helaeth yn y Siambr y dirwyon a fydd yn cael eu gosod ar gynghorau lleol gan yr Undeb Ewropeaidd os na fydd targedau tirlenwi yn cael eu bodloni. Pe byddai'r Mesur arfaethedig hwn mewn grym heddiw, byddai maint y gwastraff a fyddai'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi o ganlyniad i dŷ wedi'i losgi yn gostwng 95 y cant. Nid oes amheuaeth, felly, y ceir manteision amgylcheddol yn ogystal â manteision economaidd a manteision eraill

be reconstructed as a result of a fire.

I want to take a moment to reflect on the widespread support that exists for this proposed Measure to become law. We know that there is cross-party support for its approval and that Legislation Committee No. 1 supports its progression. It is worth mentioning that Wales's three fire and rescue services and the Fire Brigades Union also support it, as do authoritative figures in the United States and Canada. Wales has a chance here to lead the way on how homes should be built in the future. I hope that, once this legislation is passed, other countries will look to Wales to see how houses can be made safe from the risk of fire. It would also be a demonstration of the National Assembly's being able to meet the needs of the people of Wales through effective backbench legislation, the kind that is far harder to get through Westminster than it is here. I thank Ann and her staff again for their hard work, and I wish her all the best in getting this proposed Measure into law.

**Eleanor Burnham:** I commend Ann; if nothing else, she is tenacious. It has been a pleasure and a privilege to sit on Legislation Committee No. 1—or *numero uno*, as I call it. It sounds bland and useless until people look at what Ann has managed in one fell swoop. I look forward to a loud and clear 'yes' vote in the referendum, so that we can get on and do more of this constructive work. Some members of the media seem to think that we are all boring and useless. Well, some of us are not, and we try our best. I wish you all the best, Ann. As I say, I hope that this will be the first of many times when we can pat ourselves on the back for having done something practical and useful. Saving lives, for goodness' sake, is one of the most important issues to our wellbeing and to our being here.

As Joyce so eloquently said, the tragedies that we have read about in the paper from elsewhere this week are devastating and

wrth sicrhau na fydd dim cartref a adeiladir yng Nghymru yn cael ei ddinistrio, ac yn gorfod cael ei ail-adeiladu o ganlyniad i dân.

Rwyf am gymryd eiliad i fyfyrion ar y gefnogaeth eang sydd i'r Mesur arfaethedig hwn ddod yn gyfraith. Rydym yn gwybod bod cefnogaeth drawsbleidiol i'w gymeradwyo, a bod Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 yn cefnogi ei ddatblygiad. Mae'n werth nodi bod tri gwasanaeth tân ac achub Cymru ac Undeb y Brigadau Tân hefyd yn ei gefnogi, fel y mae ffigyrau awdurdodol yn yr Unol Daleithiau a Chanada. Mae gan Gymru gyfle yma i arwain y ffordd ar sut y dylid adeiladu cartrefi yn y dyfodol. Ar ôl i'r ddeddfwriaeth hon gael ei phasio, gobeithio y bydd gwledydd eraill yn edrych ar Gymru i weld sut y gellir gwneud tai yn ddiogel rhag y risg o dân. Byddai hefyd yn dangos bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gallu diwallu anghenion pobl Cymru drwy ddeddfwriaeth effeithiol o'r meinciau cefn, y math sy'n llawer anoddach i'w phasio drwy San Steffan nag y mae yma. Diolch i Ann a'i staff unwaith eto am eu gwaith caled, a dymunaf y gorau iddi wrth iddi geisio cael y Mesur arfaethedig hwn yn gyfraith.

**Eleanor Burnham:** Rwyf yn canmol Ann; mae hi'n ddygn os dim byd arall. Mae wedi bod yn bleser ac yn ffraind cael eistedd ar Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1—neu *numero uno*, fel yr wyf yn ei alw. Mae'n swinio'n ddiflas ac yn ddiwerth nes bod pobl yn edrych ar yr hyn y mae Ann wedi llwyddo i'w wneud mewn un ergyd. Edrychaf ymlaen at bleidlais 'ie' uchel a chlir yn y refferendwm, er mwyn inni allu mynd ati i wneud mwy o'r gwaith adeiladol hwn. Mae rhai aelodau o'r cyfryngau yn meddwl bod pob un ohonom yn ddiflas ac yn ddiwerth. Wel, nid yw hynny'n wir am rai ohonom, ac rydym yn gwneud ein gorau. Dymunaf y gorau ichi, Ann. Fel y dywedais, rwyf yn gobeithio mai dyma'r cyntaf o nifer o droeon y byddwn yn gallu ein canmol ein hunain am fod wedi gwneud rhywbeth ymarferol a defnyddiol. Achub bywydau, er mwyn popeth, yw un o'r materion mwyaf pwysig i'n lles ac i'n bodolaeth.

Fel y dywedodd Joyce mor huawdl, mae'r trychinebau rydym wedi darllen amdanynt yn y papur o lefydd eraill yr wythnos hon yn

frightening. I once had a small fire in the house. Another member of the family was responsible for it—although I do not like to blame other people—and it was absolutely terrifying. Luckily, I managed to confine it to the kitchen, but it could have got out of hand, and I was terrified to think of what the consequences might have been. I am sure that we can all speak of these funny little incidents, which are actually very serious.

The demographic changes were what did it for me. Many of us are ageing, and will one day be in a situation where we cannot get off our backsides, for a good reason—perhaps due to inability, disability, age, infirmity, and so on. The thought that I would rather be drenched than die had me thinking, ‘Well done, Ann’. When I heard about the water supply issues, I wanted to laugh, and I would have had it not been so serious. We had an interesting discussion on water flow, and pipes were shown to us, and we discussed whether we needed thicker or thinner ones. We also had members of some of the water companies telling us why we could not do this—and I will not refer to them by name, because I thought that they were shameful, actually. I thought, quite frankly, that it was all a load of nonsense. We are a can-do place, and so well done, Ann. I look forward to bringing this to fruition, so that, when I am old and infirm, I can be drenched rather than die in a fire. Well done again, Ann.

**Chris Franks:** I am pleased to offer my support for this proposed Measure, and I add my congratulations to Ann Jones on her determination in pursuing this important issue. The evidence, especially from Vancouver, has been convincing. I am pleased to confirm that this important form of domestic safety has always been a priority for my party, and I wish to reiterate the tributes paid to Ann Jones for all her hard work.

It must be regretted that this stage of the proposed Measure has taken such a long time. The LCO was laid nearly three years ago, in February 2008, and such delays are

erchyll a brawychus. Cefais i dân bach yn y tŷ unwaith. Aelod arall o'r teulu oedd yn gyfrifol amdano—er nad wyf yn hoffi rhoi'r bai ar bobl eraill—ac roedd yn gwbl frawychus. Yn ffodus, llwyddais i gadw'r tân yn y gegin, ond gallai fod wedi mynd yn anrhefn lwyf. Roedd gennyf ofn meddwl yr hyn a allai fod wedi digwydd. Rwyf yn siŵr y gall pob un ohonom siarad am ddigwyddiadau bach od fel hyn sydd, mewn gwirionedd, yn ddifrifol iawn.

Y newidiadau demograffig a wnaeth imi feddwl. Mae llawer ohonom yn heneiddio, a byddwn un diwrnod mewn sefyllfa lle na allwn symud, am reswm da—efallai oherwydd anallu, anabledd, oedran, gwendid, ac yn y blaen. Roedd meddwl y byddai'n well gennyf wlychu hyd at y croen na marw wedi gwneud imi feddwl, ‘Da iawn, Ann’. Pan glywais am y materion ynghylch y cyflenwad dŵr, roedd arnaf eisiau chwerthin, a byddwn wedi gwneud pe na fyddai mor ddifrifol. Cawsom drafodaeth ddiddorol ar lif dŵr, a dangoswyd pibellau inni, a buom yn trafod pa un a oedd angen rhai mwy trwchus neu deneuach arnom. Cawsom aelodau rhai o'r cwmnïau dŵr hefyd yn dweud wrthym pam na allem wneud hyn—ac ni wnaef eu henwi, gan fy mod yn credu eu bod yn gywilyddus, mewn gwirionedd. A dweud y gwir, roeddwn yn meddwl bod y cyfan yn llwyth o nonsens. Rydym yn sefydliad lle gellir gwneud pethau, felly da iawn, Ann. Rwyf yn edrych ymlaen at ddwyn hyn i ffrwyth er mwyn sicrhau, pan fyddaf yn hen ac yn fethedig, y gallaf wlychu at fy nghroen yn hytrach na marw mewn tân. Da iawn eto, Ann.

**Chris Franks:** Rwyf yn falch o gynnig fy nghefnogaeth i'r Mesur arfaethedig hwn, a hoffwn innau hefyd longyfarch Ann Jones ar ei hawydd penderfynol i fynd ar drywydd y mater pwysig hwn. Mae'r dystiolaeth, yn enwedig o Vancouver, wedi bod yn argyhoeddiadol. Rwyf yn falch o gadarnhau bod y math pwysig hwn o ddiogelwch yn y cartref wedi bod yn flaenoriaeth i'm plaid bob amser, a hoffwn ailadrodd y teyrngedau a dalwyd i Ann Jones am ei holl waith caled.

Mae'n drueni bod y cam hwn o'r Mesur arfaethedig wedi cymryd cyhyd. Gosodwyd yr LCO bron i dair blynedd yn ôl, ym mis Chwefror 2008, ac mae oedi o'r fath yn



unfortunate and unacceptable, and they can only be resolved by a 'yes' vote in the forthcoming referendum, to enable us to deliver for the people of Wales. This proposed Measure will not only save lives but will reduce dreadful injuries and physical damage. The report provides reassurance regarding maintenance, the robustness of the systems, and the lack of technical problems. Financial concerns have been addressed to more than a reasonable level. This simple but effective proposal will enhance the safety of people and is to be strongly supported.

**Nick Ramsay:** One benefit of sitting on Legislation Committee No. 1, which deals with backbench legislation, is that, every so often, legislative proposals come along that are interesting, exciting, and have the potential to save lives. This proposal is one such example. The functions of making and amending building regulations will come into force on 31 December next year. Some of the laws that we pass here might not often save lives, but I believe that this one will.

3.40 p.m.

Around 20 people die in house fires in Wales every year, with 670 injured, yet no-one has ever died in a property that has been fitted with sprinklers. Smoke alarms only alert people to the fire; they will not tackle a fire or halt its path to allow a safe evacuation. A home-based sprinkler system will immediately tackle a fire, cool toxic gases, and prevent them from spreading by spraying water on the fire. It is like having a mini firefighter in every home, for little additional cost to the builder and the purchaser. Angela Burns referred to the question of cost, which came up in evidence to Legislation Committee No. 1 and the Finance Committee. Clearly, there was an important question to be asked about the potential impact on property prices and whether that would be a disincentive to people. I was reassured that the natural fluctuation in property prices would mean that any additional cost involved in putting sprinklers into a new property would be absorbed. In fact, there was evidence to suggest that, in the future, as the technology becomes the norm

anfodus ac yn annerbyniol, a dim ond drwy bleidlais 'ie' yn y refferendwm sydd i ddod y gellir datrys hyn, er mwyn ein galluogi i gyflawni dros bobl Cymru. Bydd y Mesur arfaethedig hwn yn achub bywydau yn ogystal â lleihau difrod ffisegol ac anafiadau ofnadwy. Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd o ran cynnal a chadw, cadernid y systemau, a diffyg problemau technegol. Rhoddwyd sylw fwy na rhesymol i bryderon ariannol. Bydd y cynnig syml ond effeithiol hwn yn gwella diogelwch pobl a dylid ei gefnogi'n bendant.

**Nick Ramsay:** Un fantais o eistedd ar Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, sy'n ymdrin â deddfwriaeth o'r meinciau cefn, yw bod cynigion deddfwriaethol yn cael eu cyflwyno bob hyn a hyn, sy'n ddiddorol ac yn gyffrous, ac mae ganddynt y potensial i arbed bywydau. Mae'r cynnig hwn yn enghraifft o'r fath. Bydd swyddogaethau llunio a diwygio rheoliadau adeiladu yn dod i rym ar 31 Rhagfyr y flwyddyn nesaf. Efallai nad yw pob cyfraith a basiwn yma yn achub bywydau bob tro, ond credaf y bydd hwn yn gwneud hynny.

Mae tua 20 o bobl yn marw mewn tanau yn y cartref yng Nghymru bob blwyddyn, a 670 yn cael eu hanafu, ond nid oes neb erioed wedi marw mewn eiddo sydd â system chwistrellu dŵr ynddo. Rhoi gwybod i bobl am y tân y mae larymau mwg; nid ydynt yn mynd i'r afael â tân nac yn atal ei lwybr er mwyn gallu dianc yn ddiogel. Bydd system chwistrellu dŵr yn y cartref yn ymladd tân yn syth, yn oeri nwyon gwenwynig, ac yn eu rhwystro rhag lledaenu drwy chwistrellu dŵr dros y tân. Mae fel cael diffoddwr tân bach ym mhob cartref, am gost fach ychwanegol i'r adeiladwr a'r prynwr. Cyfeiriodd Angela Burns at y cwestiwn o gost, a gododd mewn tystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 a'r Pwyllgor Cyllid. Yn amlwg, roedd cwestiwn pwysig i'w ofyn am yr effaith bosibl ar brisiau eiddo ac a fyddai'n atal pobl. Roedd yn gysur clywed y byddai'r amrywiad naturiol mewn prisiau eiddo yn golygu y byddai unrhyw gost ychwanegol sy'n ymwneud â rhoi systemau chwistrellu dŵr mewn eiddo newydd yn cael ei hymgorffori. Yn wir, cafwyd tystiolaeth a oedd yn

and it becomes the norm for sprinklers to be installed in new-build houses, the fact that a home had a sprinkler system would be an incentive for families to buy.

The evidence given by the water companies was not as negative as some might think. Drilling down to what was said, there were some highly technical arguments, and some technical problems were talked about. That was a good thing, because there are issues that need to be addressed. The issue that was eloquently raised by Eleanor Burnham regarding the size of the pipes that would be needed was interesting, and that related to the water pressure that would be needed to run a sprinkler system effectively. Given that we are not talking about retrofitting but about new builds, that issue was not as important, because larger pipes and pipes that do not leak can be fitted into new housing estates relatively easily at the start, without an additional cost.

The issue of maintenance was a concern that I raised, but some interesting evidence was presented by the firefighters of cases in which sprinkler systems had gone off even though they were fitted more than 50 years ago, and so they are still saving lives today. I thought that that was extremely weighty evidence.

The proposals, which represent the first private Member's legislation under the new powers of the Assembly, have been looked at in great detail. I urge all Members to support the proposed Measure, because the costs are negligible compared with the terrible loss of life that can be caused by fires in the home. A sprinkler system detects fire, activates itself and douses the fire. As a result of the proposed Measure, we would not have to rely on people being able to get out of a burning building, because it would mean that there is a firefighter there at the start, in the form of this technology, to deal with the fire. It is a safe system for firefighters as well, because they do not have to enter a burning building. The adviser whom Ann spoke about said that

awgrymu, yn y dyfodol, wrth i'r dechnoleg ddod yn norm ac wrth iddi ddod yn norm gosod systemau chwistrellu dŵr mewn tai newydd, y byddai'r ffaith bod gan gartref system chwistrellu dŵr yn gymhellant i deuluoedd brynu.

Nid oedd y dystiolaeth a roddwyd gan y cwmnïau dŵr mor negyddol ag y byddai rhywun yn ei dybio. Gan fynd i wraidd yr hyn a ddywedwyd, cafwyd rhai dadleuon technegol iawn, a thrafodwyd ambell broblem dechnegol. Roedd hynny'n beth da, oherwydd mae materion yn codi y mae angen rhoi sylw iddynt. Roedd y mater a godwyd yn huawdl gan Eleanor Burnham ynglŷn â maint y pibellau y byddai eu hangen yn ddiddorol, ac roedd hynny'n ymwneud â phwysedd y dŵr y byddai ei angen i redeg system chwistrellu dŵr yn effeithiol. O gofio nad ydym yn sôn am waith ôl-osod ond am adeiladau newydd, nid yw'r mater hwnnw cyn bwysiced, oherwydd gellir gosod pibellau mwy a phibellau nad ydynt yn gollwng mewn ystadau tai newydd yn gymharol hawdd ar y cychwyn, heb gost ychwanegol.

Roedd y mater yn ymwneud â chynnal a chadw yn bryder a godais, ond cafwyd dystiolaeth ddiddorol gan y diffoddwyr tân mewn achosion lle roedd systemau chwistrellu dŵr wedi gweithio er eu bod wedi cael eu gosod dros 50 mlynedd yn ôl, ac felly maent yn dal i achub bywydau heddiw. Roeddwn yn meddwl bod y dystiolaeth honno yn bwysig dros ben.

Edrychwyd yn fanwl iawn ar y cynigion, sy'n cynrychioli'r ddeddfwriaeth gyntaf gan Aelod preifat o dan bwerau newydd y Cynulliad. Rwyf yn annog yr holl Aelodau i gefnogi'r Mesur arfaethedig, oherwydd mae'r costau yn ddibwys o'u cymharu â thrychineb ofnadwy colli bywyd a all ddigwydd yn sgîl tanau yn y cartref. Mae system chwistrellu dŵr yn synhwyro bod tân, yn dechrau gweithio ohoni'i hun ac yn diffodd y tân. O ganlyniad i'r Mesur arfaethedig, ni fyddem yn gorfod dibynnu ar bobl yn gallu dianc o adeilad sydd ar dân, oherwydd byddai'n golygu bod diffoddwr tân yno ar y dechrau, ar ffurf y dechnoleg hon, i ddelio â'r tân. Mae'n system ddiogel ar gyfer diffoddwyr tân hefyd, gan nad oes yn rhaid iddynt fynd i

it is much better for firefighters to reach a building when the fire has already been tackled, even in a small way, for maybe 10 or 15 minutes before they arrive. In fact, the evidence given by the firefighters was excellent, and it was some of the best evidence that I have seen given to a committee in my time as an Assembly Member. It was extremely weighty.

As Ann Jones has said, this is what devolution should be about. Many proposed Measures and other legislative proposals have been considered by the Assembly over the past few years, and each has had different merits. However, if you want to do something good for the people of Wales, those who are living now as well as those generations who have not yet been born, the proposed Measure is an example of how a backbench Member can do that.

We looked at evidence from Vancouver in Canada—although I should point out that we did not go to Vancouver—where one third of buildings have sprinklers installed. The number of fire deaths there was cut from a peak of 40 a year to one or none a year. I think that, technically, the figure was below one, and that was because of one particular situation. Therefore, the evidence from Vancouver was quite extraordinary.

Building regulations currently stipulate that buildings that are over 30m high should have sprinkler systems installed. Property developers do not have to install a sprinkler system in every new home or residential building. If they did have to, Ann Jones would not have spent three and a half years going through the LCO process. It is obvious that, unless we legislate, sprinkler systems will not be fitted. Whenever there is a change, there are issues regarding cost. However, as the technology becomes more main stream and people see the benefits of it, the cost of it will come down.

I was pleased to see that the water companies had undertaken a lot of research into the

mewn i adeilad sydd ar dân. Dywedodd yr ymgynghorydd y siaradodd Ann amdano ei fod yn llawer gwell i ddiffoddwyr tân gyrraedd adeilad pan fydd rhywbeth wedi mynd i'r afael â'r tân yn barod, hyd yn oed mewn ffordd fach, am 10 neu 15 munud efallai cyn iddynt gyrraedd. Yn wir, roedd y dystiolaeth a roddwyd gan y diffoddwyr tân yn ardderchog, a dyma'r dystiolaeth orau imi ei gweld yn cael ei rhoi i bwyllgor yn ystod fy nghyfnod fel Aelod o'r Cynulliad. Roedd yn bwysig dros ben.

Fel y mae Ann Jones wedi'i ddweud, dyma beth ddylai hanfod datganoli fod. Mae llawer o Fesurau arfaethedig a chynigion deddfwriaethol eraill wedi cael eu hystyried gan y Cynulliad dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae gan bob un ei rinweddau gwahanol. Fodd bynnag, os ydych am wneud rhywbeth da ar gyfer pobl Cymru, y rheini sy'n byw yn awr yn ogystal â'r cenedlaethau hynny nad ydynt wedi eu geni eto, mae'r Mesur arfaethedig yn enghraifft o sut y gall Aelod o'r meinciau cefn wneud hynny.

Edrychom ar dystiolaeth o Vancouver yng Nghanada—er y dylwn ddweud nad aethom i Vancouver—lle mae systemau chwistrellu dŵr wedi'u gosod mewn traean o'r adeiladau. Roedd nifer y marwolaethau mewn tân yno wedi gostwng o uchafbwynt o 40 y flwyddyn i un neu ddim un y flwyddyn. Credaf, yn dechnegol, fod y ffigur yn is nag un, a hynny oherwydd un sefyllfa benodol. Felly, roedd y dystiolaeth o Vancouver yn eithaf nodedig.

Mae rheoliadau adeiladu yn nodi ar hyn o bryd y dylai adeiladau sydd dros 30m o uchder fod â systemau chwistrellu dŵr ynddynt. Nid oes yn rhaid i ddatblygwyr eiddo osod system chwistrellu dŵr ym mhob cartref newydd neu adeilad preswyl. Pe byddai'n rhaid iddynt, ni fyddai Ann Jones wedi treulio tair blynedd a hanner yn mynd drwy'r broses LCO. Mae'n amlwg na chaiff systemau chwistrellu dŵr eu gosod oni bai ein bod yn deddfu. Pa bryd bynnag y ceir newid, ceir materion yn ymwneud â chost. Fodd bynnag, wrth i'r dechnoleg ddod yn fwy prif ffrwd ac wrth i bobl weld y manteision, bydd y gost yn lleihau.

Roeddwn yn falch o weld bod y cwmnïau dŵr wedi cynnal llawer o waith ymchwil i'r

technology that they would fit in to make the proposals a reality. For example, there is the issue of bypassing metering systems, and I know that they came up with a special valve that could do that—although they admitted that, if given the choice of paying for the water coming through a sprinkler system or dying in a fire, the decision is quite simple.

The retrofitting of sprinklers would, in some cases, be good. However, finally, I want to take issue with what Mark Isherwood said earlier, when he spoke about the cost of retrofitting. That is not something that is on offer here. We need to be quite clear that this is a specific proposed Measure for a specific problem. We have a great chance here to save lives, today and in the future, and it is very good that Ann Jones has brought this before the Assembly. I am happy to support it.

**The Presiding Officer:** That was a bit long, but it was very good.

**Ann Jones:** It was slightly out of time, but it was worth listening to—Nick said everything that I had written. [*Interruption.*] I will employ him as my technical adviser.

When you have change, people get scared and want to put cost as a case against you. I refer you back to when we first had airbags in cars. The cost of fitting an airbag in a car was astronomical, but now people do not even give it a thought when they buy new cars, as the airbag is always there. It is the same with sprinklers. As we move forward, and as more sprinklers are fitted, as it will be mandatory, the cost will come down. Sprinklers have been around since 1885—I have not invented something new—and it is a shame that housebuilders did not put them in voluntarily and without regulation. Unfortunately, they have shown that they are not prepared to do that, so we have to go down the mandatory, regulation route.

Joyce was right when she talked about environmental issues. Sometimes we forget

dechnoleg y byddent yn ei gosod er mwyn gwireddu'r cynigion. Er enghraifft, mae mater yn codi ynghylch osgoi systemau mesur, ac rwyf yn gwybod eu bod wedi sôn am falf arbennig a allai wneud hynny—er eu bod yn cyfaddef, pe rhoddwyd y dewis o dalu am ddŵr i ddod drwy'r system chwistrellu dŵr neu farw mewn tân, byddai'r penderfyniad yn syml iawn.

Byddai ôl-osod systemau chwistrellu dŵr yn dda, mewn rhai achosion. Fodd bynnag, yn olaf, hoffwn anghytuno â'r hyn a ddywedodd Mark Isherwood yn gynharach, pan siaradodd am gost ôl-osod. Nid hynny sy'n cael ei gynnig yma. Mae angen inni fod yn gwbl glir bod hyn yn Fesur arfaethedig penodol ar gyfer problem benodol. Mae gennym gyfle gwych yma i achub bywydau, heddiw ac yn y dyfodol, ac mae'n dda iawn bod Ann Jones wedi dod â hyn gerbron y Cynulliad. Rwyf yn hapus i'w gefnogi.

**Y Llywydd:** Roedd hynny braidd yn hir, ond roedd yn dda iawn.

**Ann Jones:** Roedd ychydig dros ei amser, ond roedd yn werth gwranddo arno—dywedodd Nick bopeth yr wyf wedi'i ysgrifennu. [*Torri ar draws.*] Gwnaf ei gyflogi fel ymgynghorydd technegol imi.

Pan fydd newid yn cael ei gynnig, mae pobl yn cael ofn ac maent yn defnyddio cost fel achos yn eich erbyn. Fe'ch cyfeiriaf yn ôl i'r adeg pan gawsom fagiâu aer mewn ceir am y tro cyntaf. Roedd y gost o osod bag aer mewn car yn anhygoel, ond erbyn hyn nid yw pobl yn meddwl o gwbl am hynny pan fyddant yn prynu ceir newydd, gan fod y bag aer yno bob amser. Mae'r un peth yn wir gyda systemau chwistrellu dŵr. Wrth inni symud ymlaen, ac wrth i fwy o systemau chwistrellu dŵr gael eu gosod, gan y bydd yn orfodol, bydd y gost yn gostwng. Mae systemau chwistrellu dŵr wedi bodoli er 1885—nid wyf wedi dyfeisio rhywbeth newydd—ac mae'n drueni na wnaeth adeiladwyr tai eu gosod yn wirfoddol a heb reoliadau. Yn anffodus, maent wedi dangos nad ydynt yn barod i wneud hynny, felly mae'n rhaid inni droedio'r llwybr o gael rheoliad gorfodol.

Roedd Joyce yn iawn pan soniodd am faterion amgylcheddol. Weithiau rydym yn

the environmental cost of a fire, because we concentrate on the cost of the fire to the public purse. Fire also has a human cost, as was demonstrated by Caroline Tucker at lunchtime. Almost 23 years on from an awful fire, Caroline still has injuries for which she is receiving treatment. She also suffered emotional injuries, because her family lost everything and had to rebuild their lives. No-one ever measures what that means to society. If we do one thing in the Assembly, we should ensure that we prevent any further preventable loss of life. There are issues around cost, which I found difficult to measure, as there was no UK-based evidence. I had to take evidence from Vancouver, Scottsdale, Arizona, and New Zealand. There is just no UK evidence. When we have passed this, colleagues in England will find it easy to ask for sprinklers, because we will have won the argument and will have done something really good for our citizens.

I thank the committee, under Rosemary Butler as Chair, and particularly thank Rhodri Morgan for substituting for me. I wondered how I would run around from being a committee Member to scrutinising myself and then answering myself, so I am grateful to Rhodri for that. I am also grateful to Rosemary for substituting for me on the Finance Committee, because in having to give evidence to it, I had to be absent. A lot of people have helped to do this, and I mentioned them at the beginning. As politicians, we need to use the opportunities that we have to bring forward laws that will make people's lives easier and better. What easier way is there to make their lives better than to make them safer? That is what we have to do. I look forward to Stage 2, and I have agreed that I will talk to the Minister about technical amendments, although I might have to have my technical adviser with me, because I do not understand water flows and size of pipes. I am a 'can do' politician and I believe that we can, and should, do this in Wales. If we do it in memory of Caroline's sister, Amanda, so that no other child of four dies in a fire in a house that is not fitted with sprinklers, that is a good enough reason for

anghofio am gost tân yn amgylcheddol, am ein bod yn canolbwyntio ar gost y tân i bwrs y wlad. Mae tân hefyd yn golygu cost ddynol, fel y dangoswyd gan Caroline Tucker amser cinio. Bron i 23 mlynedd ar ôl tân ofnadwy, mae gan Caroline anafiadau o hyd ac mae hi'n derbyn triniaeth ar eu cyfer. Dioddefodd anafiadau emosiynol hefyd, oherwydd bod ei theulu wedi colli popeth a'u bod wedi gorfod ailadeiladu eu bywydau. Nid oes neb byth yn mesur beth y mae hynny'n ei olygu i gymdeithas. Os gwnawn ni un peth yn y Cynulliad, dylem sicrhau ein bod yn atal unrhyw un arall rhag colli ei fywyd, rhywbeth y gellir ei atal. Ceir materion yn ymwneud â chost, a chefais hyn yn anodd ei fesur, gan nad oedd unrhyw dystiolaeth yn y DU. Bu'n rhaid imi gymryd tystiolaeth o Vancouver, Scottsdale, Arizona, a Seland Newydd. Nid oes dim tystiolaeth yn y DU. Pan fyddwn wedi pasio hyn, bydd cyd-Aelodau yn Lloegr yn ei chael yn hawdd gofyn am systemau chwistrellu dŵr, oherwydd byddwn wedi ennill y ddadl a byddwn wedi gwneud rhywbeth da iawn dros ein dinasyddion.

Diolch i'r pwyllgor, dan gadeiryddiaeth Rosemary Butler, a diolch yn arbennig i Rhodri Morgan am ddirprwyo yn fy lle. Roeddwn yn meddwl tybed sut y byddwn yn rhedeg o gwmpas o fod yn Aelod pwyllgor i graffu arnaf fi fy hun ac yna ateb fy hun, felly rwyf yn ddiolchgar i Rhodri am hynny. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Rosemary am ddirprwyo yn fy lle ar y Pwyllgor Cyllid. Gan fy mod yn rhoi tystiolaeth iddo, roedd yn rhaid imi fod yn absennol. Mae llawer o bobl wedi helpu i wneud hyn, ac rwyf wedi sôn amdanynt ar y dechrau. Fel gwleidyddion, mae angen inni ddefnyddio'r cyfleoedd sydd gennym i gyflwyno deddfau a fydd yn gwneud bywydau pobl yn haws ac yn well. Pa ffordd haws sydd o wneud eu bywydau'n well na'u gwneud yn fwy diogel? Dyna beth y mae'n rhaid inni ei wneud. Rwyf yn edrych ymlaen at Gyfnod 2, ac rwyf wedi cytuno i siarad â'r Gweinidog ynghylch gwelliannau technegol, er mae'n bosibl y bydd yn rhaid imi gael fy ymgynghorydd technegol gyda mi, gan nad wyf yn deall llif dŵr a maint pibellau. Rwyf yn wleidydd sy'n credu 'y gellir gwneud pethau' a chredaf y gallwn, ac y dylwn, wneud hyn yng Nghymru. Os gwnawn hyn er cof am chwaer Caroline,

me, and should be a good enough reason for all of us.

I pay tribute to everyone who has helped me to do this. It is not just me that takes the platitudes and the thanks—I am very grateful for them—but my whole team of people, and the whole fire service team. We will also make life a lot easier for fire service personnel. The Assembly can say that the greatest thing that it has done in this 12-year period is that it has saved lives in Wales. [*Applause.*]

3.50 p.m.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid cytuno ar y cynnig. Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Penderfyniad Ariannol ynghylch Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)**

#### **Financial Resolution in relation to the Proposed Fire Safety (Wales) Measure**

*Cynnig NDM4598 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 23.80(ii)(c), sy'n codi o ganlyniad i'r Mesur.*

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** I move the motion.

**Y Llywydd:** Nid oes unrhyw siaradwyr ar y cynnig hwn. Y cynnig yw y dylid cytuno ar y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes, felly mae'r cynnig wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35. Llongyfarchiadau, Ann Jones.

*Derbyniwyd y cynnig.*

Amanda, fel na fydd yr un plentyn arall pedair oed yn marw mewn tân mewn tŷ nad yw wedi'i ffitio â system chwistrellu dŵr, mae hynny'n rheswm digon da imi, a dylai fod yn rheswm digon da i bob un ohonom.

Hoffwn dalu teyrnged i bawb sydd wedi fy helpu i wneud hyn. Nid dim ond fi sy'n cael y sylwadau a'r diolchiadau—rwyf yn ddiolchgar iawn amdanynt—ond mae fy nhîm cyfan o bobl, a thîm cyfan y gwasanaeth tân. Byddwn hefyd yn gwneud bywyd yn llawer haws i bersonél y gwasanaeth tân. Gall y Cynulliad ddweud mai'r peth mwyaf yw mae wedi'i wneud yn y cyfnod o 12 mlynedd yw achub bywydau yng Nghymru. [*Cymeradwyaeth.*]

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. I see that no-one is objecting, so the motion is agreed, in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Motion NDM4598 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Proposed Domestic Fire Safety (Wales) Measure, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 23.80(ii)(c), arising in consequence of the Measure.*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Cynigaf y cynnig.

**The Presiding Officer:** There are no speakers on this item. The proposal is to agree the motion. There are no objections, so the motion is agreed, in accordance with Standing Order No. 7.35. Congratulations, Ann Jones.

*Motion agreed.*

**Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ‘Cyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru’**  
**The Children and Young People Committee’s Report ‘Children’s Budgeting in Wales’**

*Cynnig NDM4596 Helen Mary Jones*

*Motion NDM4596 Helen Mary Jones*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar gyllidebu ar gyfer plant yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Hydref 2009.*

*Notes the report of the Children and Young People Committee ‘Children’s Budgeting in Wales’ which was laid in the Table Office on 19 October 2009.*

**Helen Mary Jones:** I move the motion.

**Helen Mary Jones:** Cynigiau y cynnig.

It is my pleasure to lay this report before the Assembly today. In doing so, I express my gratitude to my fellow committee members; to all the witnesses, who helped us to find our way through this very complex area; and, once again, to the staff of our committee, whom I firmly believe are second to none. I would also like to thank the Deputy Minister for his, on the whole, very positive response to our report. This is one of the most challenging pieces of work that our committee has undertaken. If we had known quite how challenging it was going to be, we might have thought twice before we did it. We thought, of course, that there might be a model elsewhere that we could pick off the shelf to recommend to Assembly Ministers. Sadly, we were not that fortunate.

Mae'n bleser gennyf osod yr adroddiad hwn gerbron y Cynulliad heddiw. Wrth wneud hynny, mynegaf fy niolch i fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor; i'r holl dystion, a fu'n help inni weld ein ffordd drwy'r maes cymhleth iawn hwn; ac, unwaith eto, i staff ein pwyllgor, sydd yn ddiuro yn fy marn bendant i. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Dirprwy Weinidog am ei ymateb cadarnhaol iawn, ar y cyfan, i'n hadroddiad. Dyma un o'r darnau mwyaf heriol o waith y mae ein pwyllgor wedi ei wneud. Pe byddem wedi gwybod pa mor heriol oedd hyn yn mynd i fod, efallai y byddem wedi meddwl ddwywaith cyn inni ei wneud. Roeddem yn meddwl, wrth gwrs, y gall fod model ar gael yn rhywle arall y gallem ei ddefnyddio i'w argymhell i Weinidogion y Cynulliad. Yn anffodus, nid oeddem mor ffodus â hynny.

However, we took a huge range of evidence from Wales and beyond, including evidence directly from South Africa. The evidence made a very clear case for why children's budgeting is important. We say in Welsh '*diwedd y gân yw'r geiniog*': at the end of the song, there is always a penny. We cannot know, let alone demonstrate, that policy is delivering the outcomes for children and young people that we want if we cannot see where the money is going. We have to be able to trace where resources have been used and what difference they are making. Of course, this is more true than ever when resources are tight. It is obvious what is being

Fodd bynnag, aethom ati i ddefnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth o Gymru a thu hwnt, gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol o Dde Affrica. Roedd y dystiolaeth yn cynnig achos clir pam mae cyllidebu ar gyfer plant yn bwysig. Mae gennym ddywediad yn y Gymraeg '*diwedd y gân yw'r geiniog*'. Ni allwn wybod, heb sôn am ddangos, bod polisïau'n cyflawni'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc yr ydym am eu gweld os na allwn weld i ble mae'r arian yn mynd. Rhaid inni allu gweld ymhle mae adnoddau wedi cael eu defnyddio a pha wahaniaeth y maent yn ei wneud. Wrth gwrs, mae hyn yn fwy perthnasol nag erioed pan fo adnoddau'n

spent on children and young people in certain budget lines, such as school education and children's social services. However, it is harder, although I would submit equally important, in other budget lines, such as for leisure services and planning at local authority level.

Of course, it is possible that resources can be used to the disbenefit of children and young people. If our transport division builds and our planning department allows a road between a housing estate and the school, that is an awful lot of public money that is being spent, ostensibly for a very good purpose, but which can end up seriously disbenefiting children and young people. So, it was clear to us that children's budgeting must be done, although it is not necessarily easy, and we took a wide range of evidence on how it should be done. We learned not only from other attempts that have been made at children's budgeting models, but from the more developed world of gender budgeting. The key issues that came up again and again were about the collection and disaggregation of data. We cannot know what is happening unless we count the right things. Then, of course, there is the key issue of how the data are used.

As a committee, we are very grateful that the Government has taken this report and our recommendations so seriously, and our decision to undertake this work coincided with the Government itself looking across departments at how it might address the issue of what resources were being spent on children. Partly in response to our committee's work, the Government established a cross-departmental task and finish group, with expert advice from Save the Children and the Welsh Local Government Association. Committee Chairs are not usually pleased if the Government takes a year to respond to a committee report. However, in this case, we, as a committee, are very pleased, because the Government has taken this long because of the complexity of what we were recommending and its wish to get it right.

brin. Mae'n amlwg beth sy'n cael ei wario ar blant a phobl ifanc mewn llinellau cyllideb penodol, fel addysg ysgol a gwasanaethau cymdeithasol i blant. Fodd bynnag, mae'n anos, er y byddwn yn dadlau yr un mor bwysig, mewn llinellau cyllideb eraill, fel ar gyfer cynllunio gwasanaethau hamdden a chynllunio ar lefel awdurdod lleol.

Wrth gwrs, mae'n bosibl y gall adnoddau gael eu defnyddio er anfantais i blant a phobl ifanc. Os yw ein his-adran trafnidiaeth yn adeiladu a'n hadran gynllunio yn caniatáu ffordd rhwng ystâd dai ac ysgol, mae hynny'n llawer iawn o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario, at ddiben da iawn yn ôl pob golwg, ond gall achosi anfantais ddifrifol i blant a phobl ifanc yn y pen draw. Felly, roedd yn amlwg inni fod yn rhaid cyllidebu ar gyfer plant, er nad yw o reidrwydd yn hawdd, ac aethom ati i ddefnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth ar sut y dylid gwneud hyn. Buom yn dysgu o ymdrechion eraill sydd wedi eu gwneud ar fodolau cyllidebu ar gyfer plant, yn ogystal ag o'r maes mwy datblygedig o gyllidebu ar sail rhyw. Y prif faterion allweddol a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd casglu a gwahanu data. Ni allwn wybod beth sy'n digwydd oni bai ein bod yn cyfrif y pethau cywir. Yna, wrth gwrs, mae'r mater allweddol yn codi ynghylch y ffordd y mae'r data yn cael eu defnyddio.

Fel pwyllgor, rydym yn ddiolchgar iawn bod y Llywodraeth wedi cymryd yr adroddiad a'n hargymhellion o ddifrif, ac roedd ein penderfyniad i ymgymryd â'r gwaith hwn yn cyd-daro â'r Llywodraeth ei hun yn edrych ar draws adrannau ar sut y gallai fynd i'r afael â'r mater o ba adnoddau a oedd yn cael eu gwario ar blant. Yn rhannol mewn ymateb i waith ein pwyllgor, sefydlodd y Llywodraeth grŵp gorchwyl a gorffen traws-adrannol, gyda chyngor arbenigol gan Achub y Plant a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Nid yw Cadeiryddion Pwyllgorau yn hapus fel arfer os bydd y Llywodraeth yn cymryd blwyddyn i ymateb i adroddiad pwyllgor. Ond, yn yr achos hwn, rydym ni, fel pwyllgor, yn falch iawn, oherwydd mae'r Llywodraeth wedi cymryd cyhyd yn sgîl cymhlethdod yr hyn yr oeddem yn ei argymhell a'i dymuniad i wneud pethau'n iawn.



As committee members, we are all very pleased that the Government has accepted or accepted in principle all of our recommendations. However, in the rest of my contribution today I want to draw attention to some of those recommendations that have been accepted in principle, where the Deputy Minister agreed with what we recommended—he agreed that it needs to be done—but not with our recommendation on how that should be achieved. In doing this, I want to urge him to reconsider his position. The specific recommendations that I wish to address are recommendation 3, which recommends that statutory guidance be issued on the collection of local data, and recommendation 5, which recommends that statutory guidance be issued to local authorities on the production of local authority children and young people's budgeting statements. In both of these cases, the Government accepts the need for data collection and accepts the need for local budget statements, but does not accept that statutory guidance is needed. Basically, the Government is concerned—and understandably so—that this might be too onerous for local authorities. Therefore, I understand the Deputy Minister's concerns and his respect for local democracy. However, we fear that, unless there is statutory guidance, those who are trying to do this will get on and do it in any case, and others will not. I will give a practical example that supports my assertion.

During the process of preparing the report, the committee wrote to all 22 local authorities, asking them to set out the benefit to children and young people of their spending outside obvious budget headings. A total of 13 local authorities responded and had a go. Some were further down the line on this work than others, but there were 13 authorities that were trying to work out how much of their leisure, transport or housing budgets was being spent for the benefit of children and young people. Four local authorities, somewhat dispiritingly, replied by stating that it was beyond them and that they could not possibly cope; five local authorities did not apply at all. I will not name them, although I could be tempted to do so—perhaps we could provide the Deputy Minister with a list—but I would submit that

Fel aelodau pwyllgor, mae pob un ohonom yn falch iawn bod y Llywodraeth wedi derbyn neu wedi derbyn mewn egwyddor pob un o'n hargymhellion. Fodd bynnag, yng ngweddill fy nghyfraniad heddiw rwyf am dynnu sylw at rai o'r argymhellion hynny sydd wedi cael eu derbyn mewn egwyddor, lle roedd y Dirprwy Weinidog yn cytuno â'r hyn yr ydym wedi'i argymhell—roedd yn cytuno bod angen i hyn gael ei wneud—ond nid â'n hargymhelliad ar sut y dylid gwneud hyn. Wrth wneud hyn, rwyf am ei annog i ailystyried ei safbwynt. Yr argymhellion penodol yr hoffwn roi sylw iddynt yw argymhelliad 3, sy'n argymhell cyhoeddi canllawiau statudol ar gasglu data lleol, ac argymhelliad 5, sy'n argymhell cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar lunio datganiadau cyllidebu awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn y ddau achos hyn, mae'r Llywodraeth yn derbyn bod angen casglu data ac yn derbyn bod angen datganiadau cyllidebu lleol, ond nid yw'n derbyn bod angen canllawiau statudol. Yn y bôn, mae'r Llywodraeth yn pryderu—ac mae'n hawdd deall pam—y gallai hyn fod yn rhy feichus i awdurdodau lleol. Felly, rwyf yn deall pryderon y Dirprwy Weinidog a'i barch at ddemocratiaeth leol. Fodd bynnag, heb ganllawiau statudol, rydym yn pryderu y bydd y rheini sy'n ceisio gwneud hyn yn bwrw ymlaen i wneud hynny beth bynnag, ac ni fydd eraill yn ei wneud. Rhoddaf enghraifft ymarferol sy'n cefnogi fy honiad.

Yn ystod y broses o baratoi'r adroddiad, ysgrifennodd y pwyllgor at bob un o'r 22 awdurdod lleol, yn gofyn iddynt nodi'r budd i blant a phobl ifanc pe byddent yn gwario y tu allan i benawdau cyllideb amlwg. Rhoddodd cyfanswm o 13 awdurdod lleol gynnig arni. Roedd rhai wedi gwneud mwy ar y gwaith hwn nag eraill, ond roedd 13 awdurdod yn ceisio gweld faint o'u cyllidebau hamdden, trafndiaeth neu dai a oedd yn cael ei wario er budd plant a phobl ifanc. Atebodd pedwar awdurdod lleol gan ddweud, braidd yn ddigalon, fod hyn y tu hwnt iddynt ac na allent ymdopi o gwbl; ni chafwyd ateb o gwbl gan bum awdurdod lleol. Nid wyf am eu henwi, er y gellid fy nhemtio i wneud hynny—efallai y gallem roi rhestr i'r Dirprwy Weinidog—ond byddwn yn dweud y byddai'r camau y mae'r Dirprwy Weinidog yn eu

the steps that the Deputy Minister outlines in his response to both recommendations will help the 13 local authorities that are already heading down this road. However, as a committee, we fear that, without statutory force, the other nine authorities will still do nothing. I therefore ask the Deputy Minister to reconsider his decision not to issue statutory guidance in these two fields. At the very least, I would ask whether it is possible for him to commit to revisiting his decision not to issue statutory guidance if it turns out that our concerns are ultimately justified.

Presiding Officer, this is complex and challenging work but, as a committee, we believe that it is possible and necessary. I look forward very much to the contribution of others in this debate.

**The Deputy Minister for Children (Huw Lewis):** I begin by thanking Helen Mary and the Children and Young People Committee for the work that they have put into this subject, and for the recommendations that they have made. The recommendations have been very helpful in informing the thinking about future developments.

We can be pleased and proud that developments in Wales are ahead of elsewhere in the UK on children's budgeting. As Helen Mary said, there is no model elsewhere. If there is a model that people will take off the shelf in the future, we will have made it. That is something to be pleased and proud about, and to acknowledge.

It is important to stress that this is a new and innovative area of work, and that we are constantly learning. Helen Mary has been very generous about the time that it has taken for the Welsh Assembly Government to respond to the committee's report. I appreciate the comments that she has made.

The committee made 11 recommendations. I do not propose to go through each of them in detail today—I have made a written response to the committee, which already does that—but I will outline some of the key elements of this work and their contribution to the wider agenda, and then perhaps specifically address

hamlinellu yn ei ymateb i'r ddau argymhelliad yn helpu'r 13 awdurdod lleol sydd eisoes yn troedio'r llwybr hwn. Fodd bynnag, fel pwyllgor, rydym yn teimlo, heb rym statudol, y bydd y naw awdurdod arall yn dal i wneud dim. Gofynnaf felly i'r Dirprwy Weinidog ailystyried ei benderfyniad i beidio â chyhoeddi canllawiau statudol yn y ddau faes hyn. Fan leiaf, byddwn yn gofyn a yw'n bosibl iddo ymrwymo i edrych eto ar ei benderfyniad i beidio â chyhoeddi canllawiau statudol os gwelir bod ein pryderon yn cael eu cyfiawnhau yn y pen draw.

Lywydd, mae'r gwaith hwn yn gymhleth ac yn heriol, ond, fel pwyllgor, rydym yn credu bod hyn yn bosibl ac yn angenrheidiol. Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at gyfraniad pobl eraill yn y ddadl hon.

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Dechreuaf drwy ddiolch i Helen Mary a'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am y gwaith y maent wedi'i wneud ar y pwnc hwn, ac am yr argymhellion y maent wedi'u gwneud. Mae'r argymhellion wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran llywio'r ffordd o feddwl am ddatblygiadau yn y dyfodol.

Gallwn fod yn hapus ac yn falch bod datblygiadau yng Nghymru ar gyllidebu plant ar flaen y gad o'i gymharu â manau eraill yn y DU. Fel y dywedodd Helen Mary, nid oes dim model yn unrhyw le arall. Os ceir model y bydd pobl yn ei ddefnyddio yn y dyfodol, y ni fydd wedi bod yn gyfrifol am ei wneud. Mae hynny'n rhywbeth i fod yn hapus ac yn falch ohono, ac i'w gydnabod.

Mae'n bwysig pwysleisio bod hwn yn faes gwaith newydd ac arloesol, ac rydym yn dysgu drwy'r amser. Mae Helen Mary wedi bod yn garedig iawn o ran yr amser y mae wedi'i gymryd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i adroddiad y pwyllgor. Rwyf yn gwerthfawrogi ei sylwadau.

Gwnaeth y pwyllgor 11 o argymhellion. Nid wyf yn bwriadu mynd drwy bob un ohonynt yn fanwl heddiw—rwyf wedi paratoi ymateb ysgrifenedig i'r pwyllgor, sydd eisoes yn gwneud hynny—ond gwnaf amlinellu rhai o elfennau allweddol y gwaith hwn a'u cyfraniad i'r agenda ehangach, ac yna efallai

the points on recommendations 3 and 5 that Helen Mary raised.

Children and young people's budgeting is a key component in taking forward our progress towards full realisation of the United Nations Convention on the Rights of the Child. You will recall that, earlier this month, we debated and approved the general principles of the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, which was another example of our commitment to the progressive realisation of the convention in Wales. Children's budgeting is a fundamental part of that work, and in order to fulfil our commitment we need to explore ways in which we can improve how we plan and manage our expenditure at national and local level. Similarly, we need to consider further how we involve children and young people in budgeting processes. The committee would also be aware that we have built upon our initial work on children's budgeting. A further exploratory paper was published earlier this year, providing an analysis and details of spend across all age groups.

4.00 p.m.

While the work undertaken so far has been broadly welcomed, we recognise that it represents the start of the journey. These have been our first steps in a longer, more detailed programme of work—we are not letting this go. It is a programme that will explore the linkages between spend and improving outcomes for children and young people. Publishing the response to the committee at this stage has allowed us to take into account the most recent developments within the Assembly Government. As I said in my recent letter to Helen Mary as Chair of the committee, these developments, in particular the Proposed Children and Young Persons Rights (Wales) Measure, the Children and Families (Wales) Measure 2010, the new child poverty strategy delivery plan for Wales and the embryonic Families First initiative, which is intended to bring co-ordination to many support services for children and young people across the country, have the potential to make a significant contribution to taking

rhoi sylw penodol i'r pwyntiau ar argymhellion 3 a 5 a godwyd gan Helen Mary.

Mae cyllideb ar gyfer plant a phobl ifanc yn elfen allweddol wrth symud ymlaen â'n gwaith i lwyr wireddu Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Byddwch yn cofio ein bod, yn gynharach y mis hwn, wedi trafod a chymeradwyo egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), a oedd yn enghraifft arall o'n hymrwymiad i wireddu'r confensiwn fesul dipyn yng Nghymru. Mae cyllidebu ar gyfer plant yn rhan sylfaenol o'r gwaith hwnnw, ac er mwyn gwireddu ein hymrwymiad mae angen inni archwilio sut y gallwn wella'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwariant ar lefel genedlaethol a lleol. Yn yr un modd, mae angen inni ystyried ymhellach sut yr ydym yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y prosesau cyllidebu. Byddai'r pwyllgor hefyd yn ymwybodol ein bod wedi adeiladu ar ein gwaith cychwynol ar gyllidebu ar gyfer plant. Cyhoeddwyd papur archwiliadol pellach yn gynharach eleni, gan ddarparu dadansoddiad a manylion gwariant ar draws pob grŵp oedran.

Er bod croeso cyffredinol wedi bod i'r gwaith a wnaed hyd yn hyn, rydym yn cydnabod mai cychwyn y daith ydyw. Dyma ein camau cyntaf mewn rhaglen waith hwy a manylach—nid ydym am adael i hyn fynd. Mae'n rhaglen a fydd yn archwilio'r cysylltiadau rhwng gwariant a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae cyhoeddi'r ymateb i'r pwyllgor yn y cam hwn wedi rhoi cyfle inni ystyried y datblygiadau diweddaraf o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Fel y dywedais yn fy llythyr diweddar i Helen Mary fel Cadeirydd y pwyllgor, mae gan y datblygiadau hyn, yn enwedig y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, cynllun cyflawni strategaeth tloidi plant newydd Cymru a'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf sydd yn ei dyddiau cynnar, y bwriedir iddynt gydlynu llawer o wasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc ar draws y wlad, y potensial i wneud cyfraniad sylweddol at symud yr agenda hon yn ei

this agenda forward.

The response to the committee has not been developed in isolation. It has drawn upon the advice of the task and finish group, which Helen Mary mentioned, consisting of key Government officials and outside experts, and also from what we have learned about those policy and legislative developments.

I am sure that the committee will be pleased to note that in the main, my response, as Helen Mary said, is positive. It accepts many of the committee's recommendations and I wish to briefly touch upon some of these.

I have placed an emphasis on improvements in budget forecasting and transparency at a Welsh Assembly Government level. We are not only considering how to improve our current methodology, but we will also be drawing upon examples from elsewhere in the world where similar work has been undertaken. Part of this work includes exploring how the new planning and reporting systems currently being introduced across the Assembly Government can be used to improve the processes that we use for planning and reporting on budgets. At the same time, we are considering how these could be used to ensure that the links between outcomes and budgets can become more visible and transparent.

Work is in hand to explore ways in which children and young people can be more closely involved in budgeting processes in the future. I am fully supportive of this participative approach across the development of all Government policy, including budgeting, and will continue to develop and advocate that approach. This can bring with it a huge range of benefits for local services, communities, and children and young people themselves, and play an important part in breaking the poverty cycle.

In some instances, the committee has made recommendations for the development of additional statutory guidance, including recommendations 3 and 5 for local partners. As of yet, I do not share the view that additional statutory guidance is necessarily the best mechanism that can be used at this

blaen.

Nid yw'r ymateb i'r pwyllgor wedi cael ei ddatblygu ar wahân. Mae wedi defnyddio cyngor y grŵp gorchwyl a gorffen, y soniodd Helen Mary amdano, sy'n cynnwys swyddogion allweddol y Llywodraeth ac arbenigwyr allanol, a hefyd yr hyn rydym wedi ei ddysgu am y datblygiadau polisi a deddfwriaethol hynny.

Rwyf yn siŵr y bydd y pwyllgor yn falch o nodi bod fy ymateb, ar y cyfan, fel y dywedodd Helen Mary, yn gadarnhaol. Mae'n derbyn llawer o argymhellion y pwyllgor a hoffwn sôn am rai o'r rhain yn gryno.

Rwyf wedi rhoi pwyslais ar welliannau mewn rhagamcanu cyllideb a thryloywder ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym yn ystyried sut i wella ein methodoleg bresennol, ond byddwn hefyd yn edrych ar enghreifftiau o rannau eraill o'r byd lle mae gwaith tebyg wedi cael ei wneud. Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys edrych ar sut y gellir defnyddio'r systemau cynllunio ac adrodd newydd sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd ar draws Llywodraeth y Cynulliad i wella'r prosesau a ddefnyddiwn ar gyfer cynllunio a chyflwyno adroddiadau ar gyllidebau. Ar yr un pryd, rydym yn ystyried sut y gellid eu defnyddio i sicrhau y gall y cysylltiadau rhwng canlyniadau a chyllidebau fod yn fwy gweladwy a thryloyw.

Mae gwaith ar y gweill i archwilio ffyrdd y gall plant a phobl ifanc fod yn fwy o ran mewn prosesau cyllidebu yn y dyfodol. Rwyf yn gwbl gefnogol i'r dull cyfranogol hwn ar draws y gwaith o ddatblygu holl bolisiau'r Llywodraeth, gan gynnwys cyllidebu, a byddaf yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r dull hwnnw. Gall hyn ddwyn ystod eang o fudd i wasanaethau lleol, cymunedau, a phlant a phobl ifanc eu hunain, a chwarae rhan bwysig wrth dorri'r cylch tlodi.

Mewn rhai achosion, mae'r pwyllgor wedi gwneud argymhellion ar gyfer datblygu canllawiau statudol ychwanegol, gan gynnwys argymhellion 3 a 5 i bartneriaid lleol. Hyd yma, nid wyf yn rhannu'r farn mai canllawiau statudol ychwanegol yw'r mecanwaith gorau, o reidrydd, i'w

stage. Let us remember that we are still at an early stage in the development of this way of working. I strongly agree that children and young people's budgeting has significant potential to help inform decision-making at all levels, including the local level. However, the methodology for developing a local approach is at an early stage, and we need to continue to facilitate the development of that at a national and local level. We do not have an off-the-shelf model to hand over to local government, for instance—we have not really developed the model for ourselves yet. I believe that, in time, the development of this work will allow for better alignment of budgets against priorities and enable a consistent approach to data collection at a local level. That, in turn, will facilitate analysis of expenditure and outcomes for children and young people. In the longer term, better use of financial information is always going to improve the quality of local planning. It will allow for a better understanding of investment patterns. That, in turn, could lead to a number of other opportunities, including less duplication and better, more efficient ways of using budgets.

Finally, I want to draw upon the role of the Cabinet committee on children and young people in the future monitoring of allocation, expenditure and outcomes for the Welsh Assembly Government's budgets as they relate to children and young people. That would be in line with the expectation and commitments of the Cabinet committee to implement the United Nations Convention on the Rights of the Child. Once again, I extend my thanks to Helen Mary as Chair and to the wider membership of the committee for their hard work in this regard and for their generosity with regard to the pace of change.

**Angela Burns:** I, too, am delighted to speak in today's debate on the Children and Young People Committee's report. Like Helen Mary, I thank everyone who participated in its production, especially the clerking team, because, as usual, they were excellent, and the Members' research service. I will echo a lot of what Helen said, but I will put it in slightly different terms. I asked myself two questions, which were why we looked at this and why children's budgeting is so important.

ddefnyddio yn y cam hwn. Gadewch inni gofio ein bod yn dal yng nghamau cynnar datblygu'r ffordd hon o weithio. Rwyf yn cytuno'n gryf bod gan gyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc botensial sylweddol i helpu i lywio penderfyniadau ar bob lefel, gan gynnwys ar lefel leol. Fodd bynnag, mae'r fethodoleg ar gyfer datblygu dull lleol yn ei chamau cynnar, ac mae angen inni barhau i hwyluso'r gwaith o ddatblygu honno ar lefel genedlaethol a lleol. Nid oes gennym fodel parod i'w drosglwyddo i lywodraeth leol, er enghraifft—nid ydym wedi datblygu'r model inni ein hunain eto, mewn gwirionedd. Credaf, mewn amser, y bydd datblygu'r gwaith hwn yn caniatáu cysoni cyllidebau yn well yn erbyn blaenoriaethau ac yn galluogi dull cyson o gasglu data ar lefel leol. Bydd hynny, yn ei dro, yn hwyluso'r gwaith o ddadansoddi gwariant a chanlyniadau i blant a phobl ifanc. Yn y tymor hwy, mae defnyddio gwybodaeth ariannol mewn ffordd well bob amser yn mynd i wella ansawdd y cynllunio lleol. Bydd yn rhoi cyfle i ddeall patrymau buddsoddi yn well. Gallai hynny, yn ei dro, arwain at nifer o gyfleoedd eraill, gan gynnwys llai o ddyblygu a ffyrdd gwell a mwy effeithlon o ddefnyddio cyllidebau.

Yn olaf, hoffwn amlygu rôl pwyllgor y Cabinet ar blant a phobl ifanc yn y gwaith o fonitro dyraniad, gwariant a chanlyniadau cyllidebau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol wrth iddynt ymwneud â phlant a phobl ifanc. Byddai hynny yn unol â disgwyliadau ac ymrwymadau pwyllgor y Cabinet i weithredu Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i Helen Mary fel Cadeirydd ac i aelodau ehangach y pwyllgor am eu gwaith caled yn hyn i gyd ac am eu caredigrwydd wrth gyfeirio at gyflymder y newid.

**Angela Burns:** Rwyf finnau, hefyd, wrth fy modd yn cael siarad yn y ddadl heddiw ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Fel Helen Mary, hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran wrth lunio'r adroddiad, yn enwedig y tîm clericio, oherwydd, yn ôl yr arfer, roeddent yn ardderchog, a gwasanaeth ymchwil yr Aelodau. Byddaf yn adleisio llawer o'r hyn a ddywedodd Helen, ond yn ei gyflwyno ychydig yn wahanol. Gofynnais ddau gwestiwn imi fy hun, sef pam yr

oeddem yn edrych ar hyn a pham mae cyllidebu ar gyfer plant mor bwysig.

On why we looked at this, children's budgeting may seem quite arcane, because Government is a joined-up entity, so why should children's budgeting be singled out for extra special treatment over anyone else's budgeting, any other area or sphere of Government or of a Government portfolio? The answer is simple: it is because children are our future. Unless we can get our children to be strong, healthy and well-educated, we have no future, because they are tomorrow. We need to ensure that we can give them the best possible start in life. At present some of our children, although not all of them, are in dire straits. Some 90,000 children are classed as being in extreme poverty. We have children who live chaotic lives in chaotic households. If any spending is targeted towards children, we need to ensure that it reaches them.

Ynghylch pam yr oeddem yn edrych ar hyn, efallai fod cyllidebu ar gyfer plant yn ymddangos yn eithaf dirgel, gan fod y Llywodraeth yn endid cydgysylltiedig, felly pam ddylai cyllidebu ar gyfer plant gael ei neilltuo ar gyfer triniaeth arbennig iawn dros unrhyw gyllidebu arall, dros unrhyw faes neu gylch arall y Llywodraeth neu bortffolio'r Llywodraeth? Mae'r ateb yn syml: plant yw ein dyfodol. Oni bai y gallwn gael ein plant i fod yn gryf, yn iach ac yn hyddysg, nid oes gennym ddyfodol, oherwydd hwy yw ein yfory. Mae angen inni sicrhau y gallwn roi'r dechrau gorau posibl iddynt mewn bywyd. Ar hyn o bryd, mae rhai o'n plant, er nid pob un ohonynt, mewn sefyllfa enbyd. Mae 90,000 o blant yn cael eu hystyried fel rhai sydd mewn tlodi eithafol. Mae gennym blant sy'n byw bywydau anhrefnus mewn cartrefi di-drefn. Os oes unrhyw wariant yn cael ei dargedu at blant, mae angen inni sicrhau ei fod yn eu cyrraedd.

That brings me to why children's budgeting is so important. If you give a Government, a local authority or any institution money and say, 'Go and spend that on the children and on reaching these aims and objectives', you need to be able to monitor and measure the outcomes. Children's budgeting does not always do that. I draw recommendation 1 of the committee to your attention, Deputy Minister:

Daw hynny â mi at pam mae cyllidebu ar gyfer plant mor bwysig. Os rhowch arian i Lywodraeth, awdurdod lleol neu unrhyw sefydliad a dweud, 'Ewch, a gwariwch hwnnw ar y plant ac ar gyrraedd y nodau a'r amcanion hyn', mae angen ichi allu monitro a mesur y canlyniadau. Nid yw cyllidebu ar gyfer plant yn gwneud hynny bob amser. Tynnaf eich sylw at argymhelliad 1 y pwyllgor, Ddirprwy Weinidog:

'We recommend that the Welsh Government publishes a single strategy detailing the expected outcomes of its expenditure towards children and young people, accompanied by an action plan for realising this strategy.'

'Rydym yn argymhell fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi un strategaeth yn nodi'r canlyniadau a ddisgwylir o ganlyniad i'w gwariant ar blant a phobl ifanc, gyda chynllun gweithredu ar gyfer gwireddu'r strategaeth hon.'

You have accepted that recommendation in principle, but, in your response, you state:

Rydych wedi derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, ond, yn eich ymateb, rydych yn dweud:

'we should all work to a consistent and coherent set of principles in pursuit of shared goals. I believe we do this already and I am not convinced that publishing a single strategy would add any real value.'

dylai pob un ohonom weithio i set gyson a chydlynol o egwyddorion er mwyn cyflawni nodau a rennir. Rwyf yn credu ein bod yn gwneud hyn yn barod, ac nid wyf yn argyhoeddedig y byddai cyhoeddi un strategaeth yn ychwanegu unrhyw werth go iawn.

I am interested in taking that further with you, because if we did that already, we would not have had to hold this inquiry or to listen to the huge amount of evidence that came before us from all sorts of organisations that work with children, including local government. They told us that it is not joined-up, it is not integrated, there is no ownership, without ownership there is no proper responsibility, and without responsibility there is no accountability or funding. That is why I emphasise recommendation 1. I know that you have accepted it in principle, but you are saying that you already do it. Accepting in principle is a cop-out, frankly. We can all accept everything in principle. We are asking you to take this action to improve the lives that some children in Wales today have to live.

**Eleanor Burnham:** I am pleased to have been involved in the committee's inquiry and to get the Deputy Minister's response, but I question the time that has elapsed since the publication of our committee's report and the response. As we are involved in so many committees, it is sometimes difficult to keep up, but, as far as I can remember, there has been a huge gap—there has been a year between the publication of our report and the ministerial response. That response states that following the Deputy Minister's predecessor's appearance before the committee in March 2009, she requested that a task and finish group be established.

We are satisfied that all the committee's recommendations have been accepted, and heartened that some have been fully accepted, nevertheless, we are disappointed that, in some instances, recommendations have been accepted only in principle because it is believed that the work is already being undertaken. That is surely questionable when we have looked at this in committee and found that it is not so.

There is an assumption that children and young people's plans are and will continue to

Mae gennyf ddiddordeb mewn trafod hyn ymhellach gyda chi, oherwydd pe byddem yn gwneud hynny yn barod, ni fyddem wedi gorfod cynnal yr ymchwiliad hwn na gwrando ar y swm enfawr o dystiolaeth a ddaeth ger ein bron gan bob math o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, gan gynnwys llywodraeth leol. Dywedasant wrthym nad yw wedi'i gydgyssylltu, nid yw wedi'i integreiddio, nid oes perchnogaeth drosto, heb berchnogaeth nid oes dim cyfrifoldeb priodol, a heb gyfrifoldeb nid oes atebolrwydd na chyllid. Dyna pam fy mod yn rhoi pwys ar argymhelliad 1. Gwn eich bod wedi ei dderbyn mewn egwyddor, ond rydych yn dweud eich bod eisoes yn gwneud hynny. Mae derbyn mewn egwyddor yn esgus dros beidio â gwneud rhywbeth, a dweud y gwir. Gall pob un ohonom dderbyn popeth mewn egwyddor. Rydym yn gofyn ichi gymryd y cam hwn i wella'r bywydau y mae rhai plant yng Nghymru heddiw yn gorfod ei fyw.

**Eleanor Burnham:** Rwyf yn falch o fod wedi cymryd rhan yn ymchwiliad y pwyllgor ac i gael ymateb y Dirprwy Weinidog, ond mae'r amser sydd wedi mynd heibio ers cyhoeddi adroddiad ein pwyllgor a'r ymateb yn codi amheuaeth. Gan ein bod yn cymryd rhan mewn cynifer o bwyllgorau, weithiau mae'n anodd dal i fyny, ond, cyn belled ag y gallaf gofio, mae bwlch enfawr wedi bod—mae blwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi ein hadroddiad ac ymateb y gweinidog. Mae'r ymateb hwnnw'n datgan yn dilyn ymddangosiad rhagflaenydd y Dirprwy Weinidog ger bron y pwyllgor ym mis Mawrth 2009, gofynnodd i grŵp gorchwyl a gorffen gael ei sefydlu.

Rydym yn fodlon bod holl argymhellion y pwyllgor wedi cael eu derbyn, ac mae'n galonddid bod rhai wedi cael eu derbyn yn llawn. Er hynny, rydym yn siomedig mai dim ond mewn egwyddor y mae'r argymhellion wedi'u derbyn mewn rhai achosion, oherwydd y gred bod y gwaith eisoes yn cael ei wneud. Mae hynny'n sicr yn ddadleuol pan rydym wedi edrych ar hyn yn y pwyllgor ac wedi canfod nad yw hynny'n wir.

Rhagdybir bod cynlluniau plant a phobl ifanc yn ddigod i warchod cyllidebu ar gyfer plant,

be sufficient guardians of children's budgeting. However, I hope that whoever comes after us in May continues to undertake the same level of scrutiny. As Angela so wisely observed, children's issues are crucial, and it has been a privilege as well as a pleasure to serve on this committee; as Angela rightly said, children are our future.

4.10 p.m.

With regard to the other recommendations that were accepted in principle, reference was made to cost implications, which we understand, but find slightly disappointing in many respects. Perhaps I should also use the expression 'cop out', but I will not. The introduction to the committee's report on children's budgeting includes the heading 'what is children's budgeting?', which is a very good question. Recently, when we were looking at the proposed Measure, a lot of interesting observations were made about taking a strategic direction on children's issues; that will be an interesting journey that some of us will be watching with great interest.

The Deputy Minister repeatedly uses cost implications to support his argument against fully implementing our recommendations placing statutory duties on local authorities regarding data collection. Surely there are a lot of people in local authorities beavering away collecting data and there are data that would be useful and help us to answer the question of how many young carers there are in Wales at the moment, for instance. The various committees on which I sit, and the committee scrutinising the Proposed Carers Strategies (Wales) Measure in particular, have encountered huge difficulty with the availability of data. Gwenda Thomas understands this difficulty, but she rose to the occasion and was seemingly able to answer all of our questions. However, we do not even know how many carers there are. When I worked with excluded children, before I came here, many of those wonderful young people were carers. Even then, it was obvious to me that nobody had a clue who those young carers were. Nobody realised that those young people were experiencing

ac y byddant yn dal i wneud hynny. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y bydd pwy bynnag a ddaw ar ein holau ym mis Mai yn parhau i graffu i'r un lefel. Fel y mae Angela wedi'i nodi mor ddoeth, mae materion plant yn hanfodol, ac mae wedi bod yn fraith yn ogystal ag yn bleser gwasanaethu ar y pwyllgor hwn; fel y dywedodd Angela, plant yw ein dyfodol.

O ran yr argymhellion eraill a gafodd eu derbyn mewn egwyddor, cyfeiriwyd at oblygiadau cost. Rydym yn eu deall, ond rydym braidd yn siomedig ar lawer ystyr. Efallai y dylwn innau hefyd ddefnyddio'r ymadrodd 'esgus dros beidio â gwneud rhywbeth', ond ni wnaf. Mae'r cyflwyniad i adroddiad y pwyllgor ar gyllidebu ar gyfer plant yn cynnwys y pennawd 'beth yw cyllidebu ar gyfer plant?', sydd yn gwestiwn da iawn. Yn ddiweddar, pan oeddem yn edrych ar y Mesur arfaethedig, gwnaed llawer o sylwadau diddorol ynglŷn â chymryd cyfeiriad strategol ar faterion plant; bydd y daith honno'n un ddiddorol a bydd rhai ohonom yn ei gwyllo gyda diddordeb mawr.

Mae'r Dirprwy Weinidog yn defnyddio goblygiadau cost dro ar ôl tro i gefnogi ei ddadl yn erbyn gweithredu ein hargymhellion yn llawn sy'n gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol o ran casglu data. Siawns bod llawer o bobl mewn awdurdodau lleol yn gweithio'n galed yn casglu data, a bod data a fyddai'n ddefnyddiol ac a fyddai'n ein helpu i ateb y cwestiwn ynghylch faint o ofalwyr ifanc sydd yng Nghymru ar hyn o bryd, er enghraifft. Mae'r amrywiol bwyllgorau yr wyf yn aelod ohonynt, a'r pwyllgor sy'n craffu ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau Gofalwyr (Cymru) yn arbennig, wedi cael anhawster mawr o ran cael data. Mae Gwenda Thomas yn deall yr anhawster hwn, ond manteisiodd ar y cyfle a llwyddodd, i bob golwg, i ateb pob un o'n cwestiynau. Fodd bynnag, nid ydym hyd yn oed yn gwybod faint o ofalwyr sydd. Pan oeddwn yn gweithio gyda phlant a oedd wedi'u gwahardd, cyn imi ddod yma, roedd llawer o'r bobl ifanc wych hynny yn ofalwyr. Hyd yn oed bryd hynny, roedd yn amlwg imi nad oedd gan neb syniad pwy oedd y



difficulties, dysfunction and a chaotic mess because they were doing such a grand job on behalf of family members.

We have funded free swimming for youngsters, which has been brilliant, but can the Deputy Minister tell us how many people are making use of that initiative for the first time, or whether it could be that the same person is swimming 10 times a week? That is the interesting thing about data; sometimes, we can be overly obsessed with data—I have mentioned before that we do not want to be overloaded with minutiae—but, on the other hand, there are interesting bits of data that it would be useful to have. We know that the Deputy Minister is sincere and is doing the best for children, but having listened to people at the sharp end as I travel around Wales—as we all do—we must do much more about child poverty.

**Angela Burns:** You mentioned listening, and the other important point that came out of the report was the fact that we do not listen to children enough. I am sure that you will agree that that is very important, because until one is deemed to be an adult, people will negotiate with you in a completely different way. Children or young people, some of whom are extremely responsible as young carers, felt totally disenfranchised and that their voices were not being listened to in relation to budgeting.

**Eleanor Burnham:** Absolutely. We are living in a very complex age. As parents, we know that young people have to make complex, detailed and mature decisions about their lives that we, thankfully, did not have to when we were their age. In conclusion, I look forward to the Deputy Minister's continued involvement in the committee's work, and to seeing the results of his assurance that he will monitor closely the effectiveness of children's budgeting in Wales. I sincerely hope that the Children and Young People Committee continues in the next Assembly.

**Jonathan Morgan:** As one of the new members of the Children and Young People Committee, I congratulate the Chair and my

gofalwyr ifanc hyn. Nid oedd neb yn sylweddoli bod y bobl ifanc hyn yn wynebu anawsterau ac anrhefn a'u bod yn cael trafferth gweithredu, am eu bod yn gwneud gwaith mor wych ar ran aelodau o'r teulu.

Rydym wedi ariannu nofio am ddim i bobl ifanc, sydd wedi bod yn wych, ond a all y Dirprwy Weinidog ddweud wrthym faint o bobl sy'n defnyddio'r fenter honno am y tro cyntaf, neu ai'r un person sy'n nofio 10 gwaith yr wythnos? Dyna'r peth diddorol am ddata; weithiau, gallwn fod â gormod o obsesiwn gyda data—rwyf wedi crybwyll o'r blaen nad ydym am gael ein gorlwytho â manylion—ond, ar y llaw arall, ceir darnau diddorol o ddata y byddai'n ddefnyddiol eu cael. Gwyddom fod y Dirprwy Weinidog yn ddiffuant ac yn gwneud y gorau ar gyfer plant, ond ar ôl gwrando ar bobl yn y rheng flaen wrth imi deithio o amgylch Cymru—fel y mae pob un ohonom yn ei wneud—mae'n rhaid inni wneud llawer mwy am dlodi plant.

**Angela Burns:** Sonioch am wrando, a'r pwynt pwysig arall a ddaeth o'r adroddiad oedd y ffaith nad ydym yn gwrando digon ar blant. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod hynny'n bwysig iawn, oherwydd nes y cewch eich ystyried yn oedolyn, bydd pobl yn eich trafod mewn ffordd hollol wahanol. Roedd plant neu bobl ifanc, rhai ohonynt yn hynod gyfrifol fel gofalwyr ifanc, yn teimlo'n gwbl ddi-fraint ac nad oedd neb yn gwrando ar eu lleisiau mewn perthynas â chyllidebu.

**Eleanor Burnham:** Wrth gwrs. Rydym yn byw mewn oes gymhleth iawn. Fel rhieni, rydym yn gwybod bod yn rhaid i bobl ifanc wneud penderfyniadau cymhleth, manwl ac aeddfed am eu bywydau nad oeddem ni, diolch byth, yn gorfod eu gwneud pan oeddem yr un oed â hwy. I gloi, edrychaf ymlaen at gyfraniad parhaus y Dirprwy Weinidog at waith y pwyllgor, ac at weld canlyniadau ei addewid y bydd yn mynd ati'n fanwl i fonitro effeithiolrwydd cyllidebu ar gyfer plant yng Nghymru. Rwyf yn mawr obeithio y bydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn parhau yn y Cynulliad nesaf.

**Jonathan Morgan:** Fel un o aelodau newydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, hoffwn longyfarch y Cadeirydd a'm cyd-Aelodau am

colleagues on taking on such an exceptionally complicated issue. When you read the report, it is clear how complex the picture is with regard to how money is specifically allocated to, and spent in support of, services that affect children. One automatically thinks that this is about local authorities and spending on education; in truth, it is about much more than that. Congratulations to Helen Mary Jones, along with the committee, on picking this subject, and congratulations to the Deputy Minister on attempting to respond to it. Although it has taken over a year to provide some sort of response, it will take a lot longer than that before we get to a position where we can say with any degree of confidence how resources are being spent.

I want to say something a little on the controversial side. I can see why this is being done. I understand the intention behind article 4 of the convention. However, we have to ask what we want at the end of it. If we have a better understanding of how money is allocated and spent, what will that tell us? Will it tell us whether a service is better in one area compared to another? Will it tell us whether children are healthier, or have a better health service, or a better education system? The reason that I ask is that, while I have always believed that we need to see what goes in at the front, we also need to understand what is produced at the end. There will be local authorities and public bodies the length and breadth of this nation that will tell you that, regardless of what they spend, what they produce is better than that of the neighbouring local authority or local health board. What they put in does not always equate to what they get out. We have to be outcomes-focused as well. While I accept that this is important, we must have a better understanding of the outcomes that we want for children and young people in Wales.

I think that we ought to be more ambitious about educational achievement; is that down to better budgeting or money? It might be, but it might also be down to better teaching, or a better quality of school. We want better

ymgymryd â mater mor eithriadol o gymhleth. Pan fyddwch yn darllen yr adroddiad, mae'n amlwg pa mor gymhleth yw'r darlun o ran sut y caiff arian ei ddyrannu'n benodol i wasanaethau sy'n effeithio ar blant, a'i wario er mwyn cefnogi'r gwasanaethau hynny. Mae pobl yn meddwl yn awtomatig mai rhywbeth yn ymwneud ag awdurdodau lleol yw hyn ac ar wario ar addysg; mewn gwirionedd, mae'n ymwneud â llawer mwy na hynny. Llongyfarchiadau i Helen Mary Jones, ynghyd â'r pwyllgor, am ddewis y pwnc hwn, a llongyfarchiadau i'r Dirprwy Weinidog am geisio ymateb iddo. Er ei fod wedi cymryd dros flwyddyn i roi rhyw fath o ymateb, bydd yn cymryd llawer mwy o amser na hynny cyn inni gyrraedd sefyllfa lle gallwn ddweud gydag unrhyw fath o hyder sut y caiff adnoddau eu gwario.

Rwyf am ddweud rhywbeth sydd ychydig yn ddadleuol. Gallaf weld pam mae hyn yn cael ei wneud. Rwyf yn deall y bwriad y tu ôl i erthygl 4 y confensiwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ofyn beth yr ydym am ei gael ar y diwedd. Pe cawn ddealltwriaeth well o sut mae arian yn cael ei ddyrannu a'i wario, beth fydd hynny'n ei ddweud wrthym? A fydd hyn yn dweud wrthym fod gwasanaeth yn well mewn un ardal o'i gymharu ag un arall? A fydd hyn yn dweud wrthym fod plant yn iachach, neu'n cael gwasanaeth iechyd gwell, neu system addysg well? Y rheswm imi ofyn hyn yw, er fy mod wedi credu erioed fod angen inni weld beth sy'n mynd i mewn ar y cychwyn, mae angen inni hefyd ddeall yr hyn a gynhyrchir ar y diwedd. Bydd awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus ar hyd a lled y wlad hon yn dweud wrthy, ni waeth faint y maent yn ei wario, fod yr hyn y maent yn ei gynhyrchu yn well na'r hyn y mae'r awdurdod lleol cyfagos neu'r bwrdd iechyd lleol yn ei gynhyrchu. Nid yw'r hyn y maent yn ei gyfrannu bob amser yn cyfateb i'r hyn a ddaw wedyn. Rhaid inni ganolbwyntio ar ganlyniadau yn ogystal. Er fy mod yn derbyn bod hyn yn bwysig, mae'n rhaid inni ddeall yn well pa ganlyniadau yr ydym am i blant a phobl ifanc eu cael yng Nghymru.

Rwyf yn meddwl y dylem fod yn fwy uchelgeisiol ynghylch cyflawniad addysgol; ai cyllidebu gwell neu arian yw swm a sylwedd hyn? Gallai fod, ond gallai hefyd fod yn ymwneud ag addysgu gwell, neu ysgol o

life chances for looked-after children through better health, wellbeing and education. Is that down to money, or more foster families, a more efficient adoption service, and greater targeting of those poorer communities that are looking after children who need to attain better results in education. If you were to look at a local authority that spent more money on sports, activity and fitness, would you get sportier kids who are fitter as a result? That is not necessarily the case. We have to look at a variety of factors, and while I accept that money is important, this is also about outcomes and the method of delivery.

Some local authorities in Wales, including some health boards, have innovative ways of delivering services. I do not think that we are doing enough to share that best practice, so that the money spent delivers something more productive. What I would say to the Deputy Minister is that it is very easy for us as an institution to lecture local authorities. We do this quite a lot. Local authorities come in and they give evidence to committees—I think that Steve Thomas of the WLGA must spend most of his life in the Assembly. They get told what we think, they tell us what they think, they go away having listened carefully and astutely, and then they ignore us and do whatever they like—but of course, they are democratically elected bodies. To an extent, we have to ask ourselves how much we can beat up local authorities about the way in which budgets are divided, allocated and spent. If the Government really wants this to work, it will have to lead by example. The United Nations Convention on the Rights of the Child does not say that you must now ensure that local authorities and health boards specifically budget for children's expenditure. It is about everyone who delivers a service for a child, and if the Assembly Government wants local authorities and health boards to follow this line, then it will have to set the example itself. Huw Lewis talked about the fact that, in the future, our model will be taken off the shelf and used elsewhere in the world. We ought to start by using the model here, in his department, and then asking local authorities

ansawdd gwell. Rydym am weld cyfleoedd bywyd gwell i blant sy'n derbyn gofalu drwy iechyd, lles ac addysg well. Ai arian yw swm a sylwedd hyn, neu a yw'n ymwneud â mwy o deuluoedd maeth, gwasanaeth mabwysiadu mwy effeithlon, a thargedu'r cymunedau tlotach hynny yn well sy'n gofalu am blant y mae angen iddynt gael gwell canlyniadau mewn addysg. Pe byddech yn edrych ar awdurdod lleol a oedd yn gwario mwy o arian ar chwaraeon, gweithgareddau a ffitrwydd, a fyddech yn cael plant sydd yn fwy heini o ganlyniad? Nid hynny fyddai'n digwydd o reidrwydd. Mae'n rhaid inni edrych ar amrywiaeth o ffactorau, ac er fy mod yn derbyn bod arian yn bwysig, mae hyn hefyd yn ymwneud â chanlyniadau a dull cyflwyno.

Mae gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys rhai byrddau iechyd, ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau. Nid wyf yn meddwl ein bod yn gwneud digon i rannu'r arfer gorau hwnnw, fel bod yr arian a warir yn darparu rhywbeth mwy cynhyrchiol. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud wrth y Dirprwy Weinidog yw ei bod yn hawdd iawn inni fel sefydliad i roi pregeth i awdurdodau lleol. Rydym yn gwneud hyn gryn dipyn. Mae awdurdodau lleol yn dod atom ac yn rhoi tystiolaeth i bwyllgorau—rwyf yn meddwl bod Steve Thomas o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd yn y Cynulliad. Maent yn cael gwybod beth yw ein barn ni, maent yn dweud wrthym beth yw eu barn hwy, maent yn gadael ar ôl gwranddo yn ofalus ac yn astud, ac yna maent yn ein hanwybyddu ac yn gwneud yr hyn a fyddant—ond wrth gwrs, maent yn gyrff sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd. I raddau, mae'n rhaid inni ofyn inni ein hunain faint y gallwn feirniadu awdurdodau lleol ynghylch y ffordd y mae cyllidebau yn cael eu rhannu, eu dyrannu a'u gwario. Os yw'r Llywodraeth am i hyn lwyddo o ddifrif, bydd yn rhaid iddi arwain drwy esiampl. Nid yw Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dweud bod yn rhaid ichi sicrhau yn awr bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cyllidebu'n benodol ar gyfer gwario ar blant. Mae'n ymwneud â phawb sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer plentyn, ac os yw Llywodraeth y Cynulliad am i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddilyn y llwybr hwn,

if they want to be the first to take the model off the shelf.

**The Presiding Officer:** Thank you very much, Jonathan. Deputy Minister, you are technically out of time to respond, but we have not taken up the whole time for this debate, and therefore, in my usual spirit of generosity, please continue.

4.20 p.m.

**The Deputy Minister for Children (Huw Lewis):** Before you change your mind, Presiding Officer, I will thank the Members for their insightful comments and observations. To answer some specific points, Angela and others commented on recommendation 1, which called for a single strategy, and, to be fair, we need a recognition that we are wrestling with complexity. Sometimes, enormous barriers are thrown in our path given the sheer complexity of what we are grappling with—you have to wrestle with that complexity partly in the dark, because of the incomplete data collection. I would stress, however, that that is no excuse for paralysis. An example of our ongoing work in moving towards a coherent strategy, if not a single strategy, is Families First. That is a very good example of us attempting to bring those services around children and families together, so that the complexity is dealt with by professionals and, it must be said, by politicians, and not by families and by kids.

Eleanor rightly mentioned the importance of data. Eleanor would have her own list of data, I would have mine and Helen Mary would have hers—we would all have our own list of the interesting and wonderful data that we would want to collect. The question here, however, is whether you enforce that data collection on partner organisations. I think that Jonathan hit the nail on the head when he said that we should begin at the beginning here, and it begins with the Welsh Assembly

yna bydd yn rhaid iddi osod esiampl ei hun. Soniodd Huw Lewis am y ffaith y bydd ein model, yn y dyfodol, yn cael ei ddefnyddio fel enghraifft mewn manau eraill yn y byd. Dylem ddechrau drwy ddefnyddio'r model yn fan hyn, yn ei adran, ac yna gofyn i awdurdodau lleol a ydynt am fod y rhai cyntaf i ddefnyddio'r model.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr iawn, Jonathan. Ddirprwy Weinidog, yn dechnegol nid oes gennych amser i ymateb, ond nid ydym wedi treulio pob eiliad ar y ddadl hon, felly, gan fy mod yn teimlo'n hael, fel bob tro, mae croeso ichi fwrw ymlaen.

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Cyn ichi newid eich meddwl, Lywydd, gwnaf ddiolch i'r Aelodau am eu sylwadau a'u harsylwadau craff. I ateb pwyntiau penodol, cyflwynodd Angela ac eraill sylwadau ar argymhelliaid 1, a oedd yn galw am un strategaeth, ac, i fod yn deg, mae angen cydnabod ein bod yn ceisio mynd i'r afael â rhywbeth cymhleth. Weithiau, teflir rhwystrau enfawr ar ein llwybr o gofio cymhlethdod llwyr yr hyn yr ydym yn mynd i'r afael ag ef—rhaid ichi ymgodymu â'r cymhlethdod hwnnw yn rhannol yn y tywyllwch, oherwydd bod y casgliad data yn anghyflawn. Hoffwn bwysleisio, fodd bynnag, nad yw hynny'n esgus dros roi'r gorau iddi'n llwyr. Un enghraifft o'n gwaith parhaus wrth symud at gael strategaeth gydlynol, os nad un strategaeth, yw Teuluoedd yn Gyntaf. Dyma enghraifft dda iawn ohonom yn ceisio dwyn ynghyd y gwasanaethau hynny ar gyfer plant a theuluoedd, fel bod gweithwyr proffesiynol a, rhaid dweud, gwleidyddion yn ymdrin â'r cymhlethdod, ac nid teuluoedd a phlant.

Soniodd Eleanor yn briodol am bwysigrwydd data. Byddai gan Eleanor ei rhestr ei hun o ddata, byddai gennyf finnau fy rhestr innau a byddai gan Helen Mary ei rhestr hithau—byddai gan bob un ohonom ein rhestr ein hunain o'r data diddorol a rhyfeddol y byddem am eu casglu. Y cwestiwn yma, fodd bynnag, yw a ydych yn gorfodi sefydliadau partner i gasglu'r data. Credaf fod Jonathan wedi taro'r hoelen ar ei phen pan ddywedodd y dylem ddechrau yn y dechrau yma, ac

Government. If we can get this right, we would then lead by example. It is a bit steep at this stage, in these tough times, to throw the onus on partner organisations to do something that we have not yet really grappled successfully with ourselves. Jonathan is also right to stress the importance of outcomes.

I want to reassure the committee that my response takes into consideration the interaction between articles 4 and 12 of the UNCRC, which talk about the need for Governments to deliver the convention and the rights within it to the maximum extent of the resources available, and by taking into account the views expressed by children and young people. You will be aware that the UN Committee on the Rights of the Child identified children's budgeting as a priority in its concluding observations in 2008. The Assembly responded to those recommendations at the launch of the first ever UNCRC action plan for Wales in November last year. As I have already highlighted, the plan identifies children's budgeting as a priority and it responds to key recommendations by the UN committee in that area.

We work on a number of levels and use a range of mechanisms, national and local, to achieve a comprehensive and coherent approach to the development of children and young people's policy. The Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure will strengthen the Welsh Assembly's approach to the UNCRC, including in the area of decision making relating to budgets. The mechanisms that are already in place to co-ordinate children and young people's policy will also contribute. I am talking here about the Cabinet committee for children and young people, which I hope will have a much greater role in providing strategic direction in this agenda. At a local level, I am confident that planning guidance will also play a more significant role in identifying outcomes in relation to money spent. It is my aim to develop a model of best practice, to be used locally and to drive and improve decision making and planning in line with local and national priorities.

mae'n dechrau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Os gallwn wneud hyn yn iawn, yna byddem yn arwain drwy esiampl. Mae'n ormod ar hyn o bryd, yn y cyfnod anodd hwn, i roi'r cyfrifoldeb ar sefydliadau partner i wneud rhywbeth nad ydym wedi llwyddo i'w wneud ein hunain eto. Mae Jonathan hefyd yn iawn i bwysleisio pwysigrwydd canlyniadau.

Hoffwn sicrhau'r pwyllgor fod fy ymateb yn ystyried y rhyngweithio rhwng erthyglau 4 a 12 y Confensiwn, sy'n sôn am yr angen i Lywodraethau weithredu'r confensiwn a'r hawliau ynddo gymaint ag y gellir gyda'r adnoddau sydd ar gael, a thrwy ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan blant a phobl ifanc. Byddwch yn ymwybodol bod Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi nodi bod cyllidebu ar gyfer plant yn flaenoriaeth yn ei sylwadau terfynol yn 2008. Ymatebodd y Cynulliad i'r argymhellion hynny wrth lansio cynllun gweithredu cyntaf erioed Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar gyfer Cymru ym mis Tachwedd y llynedd. Fel rwyf eisoes wedi tynnu sylw ato, mae'r cynllun yn nodi bod cyllidebu ar gyfer plant yn flaenoriaeth ac mae'n ymateb i argymhellion allweddol gan bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn y maes hwnnw.

Rydym yn gweithio ar sawl lefel ac yn defnyddio ystod o fecanweithiau, cenedlaethol a lleol, er mwyn sicrhau dull gweithredu gynhwysfawr a chydlynol at ddatblygu polisi plant a phobl ifanc. Bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn cryfhau dull gweithredu Cynulliad Cymru o ran y Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys y penderfyniadau a wneir ynghylch cyllidebau. Bydd y mecanweithiau sydd eisoes ar waith i gydlynu polisi plant a phobl ifanc hefyd yn cyfrannu. Rwyf yn sôn yma am bwyllgor y Cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc, a fydd, gobeithio, â rôl lawer mwy o ran rhoi cyfeiriad strategol i'r agenda hon. Ar lefel leol, rwyf yn hyderus y bydd canllawiau cynllunio hefyd yn chwarae rhan fwy arwyddocaol o ran nodi canlyniadau mewn perthynas ag arian a wariwyd. Fy nod yw datblygu model o arfer gorau, i'w ddefnyddio'n lleol ac i sbarduno a gwella'r

broses gwneud penderfyniadau a chynllunio yn unol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

We must be clear, and I know that all the other speakers have alluded to the point that this work is developmental and exploratory in nature. We therefore need to continue to learn as we travel. I intend to ensure that future developments build upon our own experiences and our evidence, in addition to other examples that are available to us. I hope that I have demonstrated here today, and in my written response, how important children and young people's budgeting is, and how seriously we take it.

**Helen Mary Jones:** I will begin my response to this debate by thanking everyone very much for participating. For the record, I would like to put right a slight error that I made in my original presentation. The clerk has rightly pointed out to me that it was in the course of our play inquiry that we ran our dummy run to see where local authorities were in being able to provide us with that financial information, rather than in the children's budgeting inquiry. We are a committee that tries to do too many things at once at times, so I hope that Members will forgive me for that confusion.

I will not be able to respond to every point that Members have made, but I think that Angela Burns was right to stress the need to be especially sure that we are spending effectively when we are spending on the most vulnerable. Jonathan Morgan is also right to say that this is not all about money, but that it sometimes is. We would potentially have and retain more foster carers, for example, if we were remunerating them fairly, although that would not be the only way that we would recruit more and keep them. When we are spending on the most vulnerable, we need to make sure that that spending is well targeted. I would associate myself with the comments that Angela made with regard to recommendation 1. I fully understand what the Deputy Minister is saying about taking things step by step, but perhaps we will need to come back to the idea of having a unified strategy when the time is right.

Rhaid inni fod yn glir, ac rwyf yn gwybod bod yr holl siaradwyr eraill wedi cyfeirio at y pwynt mai gwaith datblygu ac archwilio yw'r gwaith hwn. Felly, mae angen inni barhau i ddysgu wrth inni fynd yn ein blaenau. Rwyf yn bwriadu sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn adeiladu ar ein profiadau ein hunain a'n tystiolaeth, ar ben yr enghreifftiau eraill sydd ar gael inni. Gobeithio fy mod wedi dangos yma heddiw, ac yn fy ymateb ysgrifenedig, pa mor bwysig yw cyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc, a chymaint yr ydym yn cymryd hyn o ddifrif.

**Helen Mary Jones:** Dechreuaf fy ymateb i'r ddaidl hon drwy ddiolch yn fawr iawn i bawb am gymryd rhan. Ar gyfer y cofnod, hoffwn gywiro gwall bach a wnes yn fy nghyflwyniad gwreiddiol. Mae'r clerc yn gwbl briodol wedi tynnu fy sylw mai yn ystod ein hymchwiliad chwarae y gwnaethom gynnal ymarfer ffug i weld lle roedd awdurdodau lleol arni o ran gallu rhoi'r wybodaeth ariannol honno inni, yn hytrach nag yn yr ymchwiliad i gyllidebu ar gyfer plant. Rydym yn bwyllgor sy'n ceisio gwneud gormod o bethau ar yr un pryd ar adegau, felly gobeithio y bydd yr Aelodau'n maddau imi am y dryswch hwnnw.

Ni fyddaf yn gallu ymateb i bob pwynt a wnaed gan Aelodau, ond credaf fod Angela Burns yn iawn i bwysleisio bod angen bod yn gwbl siŵr ein bod yn gwario yn effeithiol pan ydym yn gwario ar y bobl fwyaf agored i niwed. Mae Jonathan Morgan hefyd yn iawn i ddweud nad yw hyn i gyd yn ymwneud ag arian, ond ei fod weithiau yn ymwneud â hynny. Byddem, o bosibl, yn gallu cael a chadw mwy o ofalwyr maeth, er enghraifft, pe byddem yn eu talu'n deg, er nid hynny fyddai'r unig ffordd y byddem yn recriwtio mwy ac yn eu cadw. Pan ydym yn gwario ar y bobl fwyaf agored i niwed, mae angen inni wneud yn siŵr bod y gwariant yn cael ei dargedu'n dda. Byddwn yn cysylltu fy hun â'r sylwadau a wnaeth Angela o ran argymhelliad 1. Rwyf yn deall yn iawn yr hyn y mae'r Dirprwy Weinidog yn ei ddweud am wneud pethau gam wrth gam, ond efallai y bydd angen inni ddod yn ôl at y syniad o

gael strategaeth unedig pan fydd yr amser yn iawn.

I thank Angela for her contribution as a committee member. We do miss her, although she has been ably replaced by Jonathan Morgan, and I will come to his contribution in a moment. Eleanor Burnham was right to point out the cost of not doing this properly. If we do not understand how we are spending our resources and what we are doing with them, we cannot know whether they are making the right difference. She is also right to highlight the issue with regard to data. There is just so much that we do not know that local providers, whether they are local authorities or local health boards, cannot tell us because they do not collect the information. I agree with what the Deputy Minister and, to a certain extent, Jonathan Morgan said about the need to agree clearly on what data we need. There is no point in collecting an awful lot of data that we do not do anything with; that would be a waste of resource in itself. However, we need to know the age profile of the people who are using certain parts of the health service. We need to know that from the children's point of view, and we may well need to know, for example with regard to mental health, whether older people have access to the services that they need.

Jonathan Morgan is right to stress the issue of complexity, and he asks what children's budgeting will tell us. We hope that it will tell us whether resources are following expressed priorities. We need to know that, and we will then, of course, need to measure the outcomes, because we will then know whether the policy priorities and the resources are making a difference and doing the job that we expect them to do, and if they are, we will need to know what that difference is and whether there are unintended consequences. For example, as I said earlier, do we sometimes spend in ways that are good for one group in society that end up being very bad for others? We know that that happens in relation to the difference between men and women, because the work on gender budgeting is so much better developed. Therefore, it is absolutely about measuring outcomes, and we need to make

Diolch i Angela am ei chyfraniad fel aelod o'r pwyllgor. Rydym yn gweld ei heisiau, er bod Jonathan Morgan yn cymryd ei lle'n fedrus, a dof at ei gyfraniad yn y man. Roedd Eleanor Burnham yn iawn i dynnu sylw at y gost o beidio â gwneud hyn yn iawn. Os nad ydym yn deall sut yr ydym yn gwario ein hadnoddau a beth rydym yn ei wneud gyda hwy, ni allwn wybod a ydynt yn gwneud y gwahaniaeth priodol. Mae hi'n iawn hefyd i dynnu sylw at y mater yn ymwneud â data. Mae cymaint nad ydym yn ei wybod na all darparwyr lleol, p'un ai a ydynt yn awdurdodau lleol ynteu'n fyrddau iechyd lleol, ei ddweud wrthym am nad ydynt yn casglu'r wybodaeth. Cytunaf â'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog ac, i ryw raddau, Jonathan Morgan wedi'i ddweud am yr angen i gytuno'n glir ar ba ddata y mae eu hangen arnom. Nid oes dim pwynt casglu llawer iawn o ddata nad ydym yn gwneud unrhyw beth â hwy; byddai hynny'n wastraff adnoddau ynddo'i hun. Fodd bynnag, mae angen inni wybod proffil oedran y bobl sydd yn defnyddio rhannau penodol o'r gwasanaeth iechyd. Mae angen inni wybod hynny o safbwynt y plant, ac efallai y bydd angen inni wybod, er enghraifft o ran iechyd meddwl, a yw pobl hŷn yn cael mynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.

Mae Jonathan Morgan yn iawn i bwysleisio'r mater o gymhlethdod, ac mae'n gofyn beth fydd cyllidebu ar gyfer plant yn ei ddweud wrthym. Rydym yn gobeithio y bydd yn dweud wrthym a yw adnoddau'n dilyn blaenoriaethau a fynegwyd. Mae angen inni wybod hynny, a bydd angen inni wedyn, wrth gwrs, fesur y canlyniadau, oherwydd byddwn yn gwybod wedyn a yw'r blaenoriaethau polisi a'r adnoddau yn gwneud gwahaniaeth ac yn gwneud y gwaith yr ydym yn disgwyl iddynt ei wneud, ac os ydynt, bydd angen inni wybod beth yw'r gwahaniaeth hwnnw ac a oes canlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, fel y dywedais yn gynharach, a ydym weithiau yn gwario mewn ffyrdd sy'n dda i un grŵp mewn cymdeithas ond sydd yn ddrwg iawn i bobl eraill yn y pen draw? Rydym yn gwybod bod hynny'n digwydd mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng dynion a menywod, gan fod y gwaith ar

sure that the resources that we are putting in move towards delivering the outcomes that we say we want to deliver.

The Deputy Minister was right in responding to Jonathan's point. I suppose, Jonathan, that it is not the Deputy Minister who is beating up local authorities on this occasion, but the committee. It is the Deputy Minister who is saying, 'Hang on a minute; let's sort this out ourselves before we have a go at the local authorities'. It is an unusual situation to find the Deputy Minister and Jonathan entirely on the same side.

**Jonathan Morgan:** I merely said that I was expecting the Deputy Minister to want to beat up local authorities because you are asking him to introduce statutory guidance.

**Helen Mary Jones:** Yes, I was asking him to introduce statutory guidance, and he was saying, 'No, not yet'. So, if there is a big bad wolf with regard to local authorities in this debate, it is me and not the Deputy Minister, for once. I make no apologies for that.

Turning to the Deputy Minister's contribution, he is right to say that this is a groundbreaking piece of work. We are often told not to reinvent the wheel, but in this case, we have to invent the wheel. I think that all committee members understand that this will take time. I was very struck by what the Deputy Minister said about how essential children's budgeting is to realising our obligations effectively under the convention, and I am heartened by what he says about the way in which the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure will drive that forward, through Government and, eventually, into other partners.

I take some comfort from a small point that the Deputy Minister made—he never wastes his words—in referring to the points that I had made about statutory guidance. He used

gyllidebu ar sail rhyw wedi'i ddatblygu gymaint yn fwy. Felly, mae'n ymwneud yn llwyr â mesur canlyniadau, ac mae angen inni wneud yn siŵr bod yr adnoddau yr ydym yn eu rhoi yn symud at gyflawni'r canlyniadau yr ydym yn dweud ein bod yn dymuno eu cyflawni.

Roedd y Dirprwy Weinidog yn iawn wrth ymateb i bwynt Jonathan. Mae'n siŵr, Jonathan, nad y Dirprwy Weinidog sy'n beirniadu awdurdodau lleol y tro hwn, ond y pwyllgor. Y Dirprwy Weinidog sy'n dweud, 'Arhoswch funud; gadewch inni ddatrys hyn ein hunain cyn beirniadu'r awdurdodau lleol'. Mae'n sefyllfa anarferol bod y Dirprwy Weinidog a Jonathan ar yr un ochr yn llwyr.

**Jonathan Morgan:** Dweud y gwnes i fy mod yn disgwyl y byddai'r Dirprwy Weinidog am feirniadu awdurdodau lleol oherwydd eich bod yn gofyn iddo gyflwyno canllawiau statudol.

**Helen Mary Jones:** Oeddwn, roeddwn yn gofyn iddo gyflwyno canllawiau statudol, ac roedd yntau'n dweud, 'Na, dim eto'. Felly, os oes blaidd mawr drwg o ran awdurdodau lleol yn y ddadl hon, fi ac nid y Dirprwy Weinidog yw hwnnw, am unwaith. Nid wyf yn ymddiheuro am hynny.

Gan droi at gyfraniad y Dirprwy Weinidog, mae'n iawn ei fod yn dweud bod y gwaith hwn yn arloesol. Dywedir wrthym yn aml i beidio ag ailddyfeisio'r olwyn, ond yn yr achos hwn, mae'n rhaid inni ddyfeisio'r olwyn. Credaf fod holl aelodau'r pwyllgor yn deall y bydd hyn yn cymryd amser. Gwnaeth yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog argraff fawr arnaf pan ddywedodd pa mor hanfodol yw cyllidebu ar gyfer plant er mwyn gwireddu ein rhwymedigaethau'n effeithiol o dan y confensiwn, ac mae'n codi fy nghalon wrth glywed yr hyn a ddywed am y ffordd y bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn ysgogi hynny, drwy Lywodraeth ac, yn y pen draw, i bartneriaid eraill.

Caf fy nghysuro gan bwynt bach a wnaeth y Dirprwy Weinidog—nid yw'n malu awyr—wrth gyfeirio at y pwyntiau a wnes am y canllawiau statudol. Defnyddiodd yr



the phrase 'at this stage', and I will hold on to that and hope that that stage will never need to come. Let us hope that it will not be necessary. However, I am not sanguine.

Several Members made important points about how important it is that we listen to children and young people in this process. We need to ensure—and this was put across strongly to us—that children and young people who are asked to participate are given the right information and are empowered to do so. I am glad that the Deputy Minister has accepted our recommendations in this regard.

Like Eleanor Burnham, I hope that our successors in the next Assembly will decide to have a children and young people committee, and in our legacy report, I am sure that we will ask the next Assembly to keep a very close eye on this process. I do not think that any of us on our committee, or any of the witnesses, thought that it was going to be easy, but we believed that it had to be done. Some of us may be here to see what happens next, and some of us may not, but we as a committee will leave our legacy report to ask our successors, whether through a children's committee or another mechanism, to follow closely how the money is spent. As I said earlier, *diwedd y gân yw'r geiniog*. At the end of the day, it all comes down to money.

4.30 p.m.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr i Gadeirydd y pwyllgor. Y cwestiwn yw ein bod yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.30 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.30 p.m.*

ymadrodd 'yn y cam hwn', a byddaf yn dal gafael ar hyn ac yn gobeithio na fydd angen dod i'r cam hwnnw. Gadewch inni obeithio na fydd angen hynny. Fodd bynnag, nid wyf yn obeithiol.

Gwnaeth sawl Aelod bwyntiau pwysig ynghylch pa mor bwysig yw inni wrando ar blant a phobl ifanc yn y broses hon. Mae angen inni sicrhau—a chafodd hyn ei ddweud yn bendant—fod plant a phobl ifanc y gofynnir iddynt gymryd rhan yn cael y wybodaeth gywir ac yn cael eu grymuso i wneud hynny. Rwyf yn falch bod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn ein hargymhellion yn hyn o beth.

Fel Eleanor Burnham, rwyf yn gobeithio y bydd ein holynwyr yn y Cynulliad nesaf yn penderfynu cael pwyllgor plant a phobl ifanc, ac yn ein hadroddiad etifeddiaeth, rwyf yn siŵr y byddwn yn gofyn i'r Cynulliad nesaf gadw llygad barcud ar y broses hon. Nid wyf yn credu bod unrhyw un ohonom ar ein pwyllgor, nac unrhyw un o'r tystion, yn credu ei bod yn mynd i fod yn hawdd, ond roeddem yn credu bod yn rhaid gwneud hyn. Efallai y bydd rhai ohonom yma i weld beth fydd yn digwydd nesaf, ac efallai na fydd rhai ohonom yma, ond byddwn fel pwyllgor yn gadael ein hadroddiad etifeddiaeth i ofyn i'n holynwyr, boed hynny drwy bwyllgor plant neu fecanwaith arall, ddilyn yn agos sut y mae'r arian yn cael ei wario. Fel y dywedais yn gynharach, *diwedd y gân yw'r geiniog*. Ar ddiwedd y dydd, arian sy'n penderfynu popeth.

**The Presiding Officer:** Thank you very much to the Chair of the committee. The question is that we note the report of the Children and Young People Committee. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

### Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol The National Health Service

*Cynnig NDM4595 Nick Ramsay*

*Motion NDM4595 Nick Ramsay*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi'r anesmwythyd ymysg y cyhoedd ynghylch diffyg atebolrwydd yng nghyswllt rhedeg GIG Cymru; ac*

*1. Notes the public disquiet about the lack of accountability in the running of the Welsh NHS; and*

*2. Yn galw am fwy o dryloywder i godi safonau'r GIG.*

*2. Calls for greater transparency to drive up NHS standards.*

**Andrew R.T. Davies:** I move the motion.

**Andrew R.T. Davies:** Cynigiaf y cynnig.

There are no amendments to this motion today, but I doubt that that is because the Government agrees with the motion. I look forward to hearing the Labour Chief Whip shout her objection to the motion at the end, as usual.

Nid oes dim newidiadau i'r cynnig hwn heddiw, ond rwyf yn amau mai'r rheswm dros hynny yw bod y Llywodraeth yn cytuno â'r cynnig. Edrychaf ymlaen at glywed Prif Chwip y blaid Lafur yn gweiddi ei gwrthwynebiad i'r cynnig ar y diwedd, fel arfer.

This motion is tabled with real concern, which has been discussed and highlighted by many Members recently. It is fair to say that with this institution and with the Minister's mandate as part of the Government, there is a democratic mandate to run the NHS as the Government sees fit. There is no doubt about that, and this motion is not seeking to challenge that. What it is seeking to highlight, and maybe tease out from the Minister, is her understanding of some of the real concerns that people have. Throughout the progression of the Assembly and over time, various changes have occurred within the NHS, and many communities find that they have difficulty in connecting in the process of consultation or making their views heard. I hope that Members will not find that an unreasonable position to put forward. At the moment, the Health, Wellbeing and Local Government Committee is holding an inquiry into the reviews of health service reorganisation in Wales, and the evidence that it is taking shows a chasm between what we would aspire to deliver via the consultation process and the observations that people are making of reality on the ground.

Mae'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno gyda phryder gwirioneddol, sydd wedi cael ei drafod a'i amlygu gan nifer o Aelodau yn ddiweddar. Mae'n deg dweud gyda'r sefydliad hwn a chyda mandad y Gweinidog fel rhan o'r Llywodraeth, ceir mandad democrataidd i redeg y GIG fel y gwêl y Llywodraeth yn dda. Nid oes dim amheuaeth am hynny, ac nid yw'r cynnig hwn yn ceisio herio hynny. Yr hyn y mae'n ceisio tynnu sylw ato, ac efallai annog y Gweinidog i'w ddangos, yw ei dealltwriaeth o rai o'r pryderon go iawn sydd gan bobl. Drwy gydol datblygiad y Cynulliad a thros amser, mae newidiadau amrywiol wedi digwydd o fewn y GIG, ac mae llawer o gymunedau yn gweld eu bod yn cael anhawster bod yn gysylltiedig â'r broses ymgynghori neu sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed. Gobeithio na fydd yr Aelodau'n gweld bod hynny'n sefyllfa afresymol i'w chyflwyno. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn cynnal ymchwiliad i'r adolygiadau o ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ac mae'r dystiolaeth y mae'n ei chasglu yn dangos agendor rhwng yr hyn y byddem yn anelu i'w gyflawni drwy'r broses ymgynghori

a'r sylwadau y mae pobl yn eu gwneud am realiti ar lawr gwlad.

First, I will deal with a few services that I have raised here time and again. Sadly, the prerogative of the Minister to drive this service improvement forward is just not happening with the local health boards. I use the cancer standards as an example of this. The standards were first published by the Welsh Assembly Government in 2005. By March 2009, the local health boards were supposed to be compliant with the standards, but a revised date of September 2010 was then brought forward. That date too has now slipped, with no new date for compliance by the local health boards. Many organisations that are involved in the cancer sector, whether they are research or patient organisations, have been asking why standards have been put in place if LHBs are not becoming compliant with them. They feel that there is a sense of drift. I would be grateful if the Minister could address that feeling and tell us why the deadlines are not being met by the local health boards in this important field.

On mental health, we have all seen the Proposed Mental Health (Wales) Measure as it has progressed through the Assembly. It received cross-party support because we all want to see an improvement in the standards of mental health services. However, when we look at community mental health services, or this week's Wales Audit Office report into housing for people with mental health issues, we see that there is non-compliance with the national service framework, which everyone endorses and says that, if it was adopted, could make significant improvements on the ground for people who present with mental health issues. Time and again, the writing on the paper, the issues that the Minister puts forward and the weight that the Minister puts behind those issues just do not seem to transfer into the community for the people who require those services. It is a great concern of mine as the shadow health Minister—and for other Assembly Members, I am sure—as to why these services are not being driven forward and why the concerns are not being taken on board to ensure that

Yn gyntaf, byddaf yn delio â rhai gwasanaethau yr wyf wedi'u codi yma dro ar ôl tro. Yn anffodus, nid yw hawl y Gweinidog i ysgogi'r gwelliant hwn mewn gwasanaeth yn digwydd gyda'r byrddau iechyd lleol. Rwyf yn defnyddio'r safonau canser fel enghraifft o hyn. Cyhoeddwyd y safonau gyntaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005. Erbyn mis Mawrth 2009, roedd y byrddau iechyd lleol i fod yn cydymffurfio â'r safonau, ond cyflwynwyd dyddiad diwygiedig sef mis Medi 2010 wedyn. Mae'r dyddiad hwnnw hefyd wedi mynd heibio erbyn hyn, ac nid oes dim dyddiad newydd i'r byrddau iechyd lleol gydymffurfio â'r safonau. Mae sawl sefydliad sy'n ymwneud â'r sector canser, pa un ai a ydynt yn sefydliadau ymchwil ynteu'n sefydliadau cleifion, wedi bod yn gofyn pam mae safonau wedi cael eu cyflwyno os nad yw Byrddau Iechyd Lleol yn cydymffurfio â hwy. Maent yn teimlo bod pethau'n llithro. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog fynd i'r afael â hynny, a dweud wrthym pam nad yw'r byrddau iechyd lleol yn bodloni'r dyddiadau cau yn y maes pwysig hwn.

Ar iechyd meddwl, mae pob un ohonom wedi gweld Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru) wrth iddo symud drwy'r Cynulliad. Cafodd gefnogaeth drawsbleidiol am fod pob un ohonom am weld gwelliant yn safonau gwasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, pan edrychwn ar wasanaethau iechyd meddwl cymunedol, neu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yr wythnos hon ar dai ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, rydym yn gweld bod diffyg cydymffurfio â'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol. Mae pawb yn ei gefnogi ac yn dweud y gallai, pe byddai'n cael ei fabwysiadu, wneud gwelliannau sylweddol ar lawr gwlad i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Dro ar ôl tro, nid yw'r ysgrifen ar y papur, y materion y mae'r Gweinidog yn eu cynnig a'r pwysau y mae'r Gweinidog yn ei roi ar y materion hynny fel pe baent yn cael eu trosglwyddo i'r gymuned ar gyfer y bobl y mae angen y gwasanaethau hynny arnynt. Mae'n bryder mawr imi fel Gweinidog iechyd yr wrthblaid—ac i Aelodau eraill y Cynulliad, rwyf yn siŵr—pam nad yw'r gwasanaethau

the services deliver for the patient.

I could go on about diabetes services and I should mention epilepsy services as another classic case where there is a protocol in place and where there should be a joined-up approach to delivery. In fact, my colleague, Paul Davies, has led a short debate on epilepsy services and the time frame on delivering those services has slipped as well. These are the issues on which people feel that their voices are not being heard.

In questions today, we touched on the issue of waiting times and the amount of post that many Members receive on this. I have heard other Members say that, in the earlier days of the Assembly, the postbag was far greater because the waiting times were far longer; however, we are slowly but surely seeing this issue raising its head again. We have touched on the issue in my area with regard to the Cardiff and Vale University Local Health Board. The Minister said that it has been put under special measures, but how is it that, in 2010, despite the rhetoric emanating from the Assembly Government, this situation is being allowed to develop in our health boards? The patients and clinicians are the people who are left in the middle, feeling that their voices are not being heard.

With regard to the position of the patient's voice and the community health councils—the main plank used as a critical friend of the health service—the Minister reformed these as of 1 April this year to make them more in unison with the new borders of the new health boards that they represent. To a point, one can understand having geographical boundaries for the community health councils. However, at the time, we advised caution because of the scaling down of the community health councils—many of which were losing members. With the increase in the size of the geographical boundaries, the membership of the health councils greatly diminished. A greater onus was placed on local authorities and Government and Ministers with regard to appointments to community health councils. It was recently brought to my attention that, in Cardiff for

hyn yn cael eu cymell, a pham nad yw'r pryderon yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn darparu ar gyfer y claf.

Gallwn fynd ymlaen am wasanaethau diabetes a dylwn grybwyll gwasanaethau epilepsi fel enghraifft glasurol arall lle mae protocol ar waith a lle dylai fod dull cydgysylltiedig o ddarparu. Yn wir, mae fy nghyd-Aelod, Paul Davies, wedi arwain dadl fer ar wasanaethau epilepsi ac mae'r amserlen ar ddarparu'r gwasanaethau hynny wedi llithro hefyd. Dyma'r materion y mae pobl yn teimlo nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed.

Yn y cwestiynau heddiw, soniwyd am amseroedd aros a faint o bost y mae llawer o Aelodau yn eu cael ar hyn. Rwyf wedi clywed Aelodau eraill yn dweud y byddai'r bag post yn llawer mwy yn nyddiau cynnar y Cynulliad oherwydd bod yr amseroedd aros yn llawer hirach; fodd bynnag, rydym yn gweld y mater hwn yn codi ei ben eto gan bwyll bach. Rydym wedi crybwyll y mater yn fy ardal yng nghyswllt Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi cael ei roi o dan fesurau arbennig, ond sut bod y sefyllfa hon, yn 2010, er gwaethaf rhethreg Llywodraeth y Cynulliad, yn cael datblygu yn ein byrddau iechyd? Y cleifion a'r clinigwyr yw'r bobl sy'n cael eu gadael yn y canol, yn teimlo nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed.

O ran llais y claf a'r cynghorau iechyd cymuned—y brif sylfaen a ddefnyddir fel cyfaill beirniadol o'r gwasanaeth iechyd—diwygiodd y Gweinidog y rhain o 1 Ebrill ymlaen eleni i'w cysoni'n well â ffiniau newydd y byrddau iechyd newydd y maent yn eu cynrychioli. I ryw raddau, gellir deall cael ffiniau daearyddol i'r cynghorau iechyd cymuned. Fodd bynnag, ar y pryd, dywedom fod angen bod yn ofalus gyda'r cynghorau iechyd cymuned yn cael eu cwtogi—gyda llawer ohonynt yn colli aelodau. Gyda chynnydd ym maint y ffiniau daearyddol, gostyngodd nifer aelodau'r cynghorau iechyd yn fawr iawn. Rhoddwyd mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol a Llywodraeth a Gweinidogion o ran penodiadau i gynghorau iechyd cymuned. Daeth i'm sylw yn ddiweddar fod, yng Nghaerdydd er enghraifft, anhawster mawr i sicrhau bod y

example, there is a great difficulty in ensuring that local government appointees are in a position to fulfil their obligations on the community health council because of the many other jobs that they have to fulfil as local government members and councillors. I would be grateful if, in responding to the debate, the Minister could give an assurance that she believes that community councils across Wales are able to fulfil the role that they so ably fulfilled before her reviews, given their size and capacity.

As I said earlier, we have touched on the inquiry that the Health, Wellbeing and Local Government Committee is undertaking into reviews and, in particular, the process of the reviews. It is quite alarming to hear not only lay people, but people in the professions, saying that they feel excluded. Time and again, and quite rightly, the Minister and her officials point out that many of these reviews are clinically led. However, there is a feeling among people in the professions, as evidenced in the health committee last week, that, certainly in the initial stages of the reviews, they have been excluded from the process. I would be most grateful if, in responding to the debate, the Minister could highlight how she is getting to grips with the review process that many local health boards are having to undertake at the moment, given the financial situation in which they find themselves.

Then, we move to the matter of understanding how the health service works. The Minister will be very aware of the questions that I, and I am sure other Members, have asked, only to receive a reply saying, 'This information is not held centrally'. It is so exasperating when you ask these questions, because, you would have thought that, to run the health service, this information must be understood by the Assembly Government. Only on Friday, with regard to delayed transfers of care, I sought the Welsh Assembly Government's answer on the re-admittance of patients who have been discharged. Again, the Minister's office could not provide that information. I could list 45 to 50 questions to which I have had the same answer.

sawl a benodir i lywodraeth leol yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau ar y cyngor iechyd cymuned oherwydd y llu o swyddi eraill y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni fel aelodau o lywodraeth leol a chynghorwyr. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl, roi sicrwydd ei bod yn credu y gall cynghorau cymuned ledled Cymru gyflawni'r rôl yr oeddent yn gallu ei gwneud yn hynod fedrus cyn ei hadolygiadau, o ystyried eu maint a'u gallu.

Fel y dywedais yn gynharach, rydym wedi crybwyll yr ymchwiliad y mae'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn ei gynnal i adolygiadau ac, yn benodol, i broses yr adolygiadau. Mae'n eithaf brawychus clywed nid yn unig bobl leyg, ond pobl yn y proffesiynau hefyd yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi'u heithrio. Dro ar ôl tro, ac yn gwbl briodol, mae'r Gweinidog a'i swyddogion yn nodi bod llawer o'r adolygiadau hyn yn cael eu harwain yn glinigol. Fodd bynnag, mae teimlad ymysg pobl yn y proffesiynau, fel y gwelwyd yn y pwyllgor iechyd yr wythnos diwethaf, eu bod, yn sicr yng nghamau cychwynnol yr adolygiadau, wedi cael eu heithrio o'r broses. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl, dynnu sylw at sut y mae'n mynd i'r afael â'r broses adolygu y mae llawer o fyrddau iechyd lleol yn gorfod ei chynnal ar hyn o bryd, o ystyried eu sefyllfa ariannol.

Yna, symudwn at y mater o ddeall sut y mae'r gwasanaeth iechyd yn gweithio. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r cwestiynau yr wyf fi, ac Aelodau eraill rwyf yn siŵr, wedi eu gofyn, dim ond i gael yr ateb, 'Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog'. Mae hyn yn ddigon â gwylltio rhywun pan fyddwch yn gofyn y cwestiynau hyn, oherwydd, byddech wedi meddwl, i redeg y gwasanaeth iechyd, y byddai'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ddeall y wybodaeth hon. O ran yr oedi wrth drosglwyddo gofal, ceisiais gael ateb ddydd Gwener gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar aildderbyn cleifion yn ôl i ysbytai ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Unwaith eto, ni allai swyddfa'r Gweinidog ddarparu'r wybodaeth honno. Gallwn restru 45 i 50 cwestiwn yr wyf wedi cael yr un ateb iddynt.

I know that the chief executive of the health service has highlighted the fact that he wants to increase the intensity of data collection, to use his words. I would be grateful if, in replying to the debate today, the Minister could highlight whether that intensity is being introduced to the system, because that comment was made last November. I hope that she agrees that we need to look at the data we collect—I know that she has highlighted concerns about this herself—and that we need to be able to transfer that to improve the outcomes of the health service in Wales. That has been identified in many independent reports. For example, the Nuffield Trust highlights the difficulty of quantifying the amount of resource that we put into the health service in relation to the outcomes that we get from it. Surely, in an era of great austerity, it is vital that we are able to quantify where that resource is going. This is amplified by last year's budget discussions when it was clearly identified that there was an issue over a considerable sum of money—20 per cent of budget—that was not being spent in the most appropriate manner. This, again, takes us back to the issue of our ability to quantify what is going in and what we are getting out.

4.40 p.m.

That is why we tabled this debate: first, to note the real concerns that people are expressing that they do not feel that their voices are being heard or taken into consideration; secondly, to try to get assurances from the Minister that the bodies that are in place—and I have used community health councils as an example—are robust enough to fulfil their role; and, thirdly, to try to get an acknowledgement that the Minister does take seriously the issue of driving up standards in our health service and that she understands the amount of resource that we are putting in and the output that we get. That is why I propose this motion, and I look forward to hearing the Minister's response.

**Brian Gibbons:** The greatest step taken to improve accountability in the national health

Gwn fod prif weithredwr y gwasanaeth iechyd wedi tynnu sylw at y ffaith ei fod am weld mwy o ddata'n cael eu casglu, i ddefnyddio ei eiriau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl heddiw, ddweud a fydd mwy o gasglu data i'w weld yn y system, oherwydd gwnaed y sylw hwnnw fis Tachwedd diwethaf. Rwyf yn gobeithio ei bod yn cytuno bod angen inni edrych ar y data a gasglwn—gwn ei bod hithau wedi nodi ei phryderon am hyn—a bod angen inni allu trosglwyddo hynny er mwyn gwella canlyniadau'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae hynny wedi ei nodi mewn sawl adroddiad annibynnol. Er enghraifft, mae Ymddiriedolaeth Nuffield yn tynnu sylw at yr anhawster o fesur faint o adnoddau yr ydym yn eu rhoi yn y gwasanaeth iechyd o'i gymharu â'r canlyniadau a gawn ohono. Yn sicr, mewn cyfnod o galedi mawr, mae'n hanfodol ein bod yn gallu mesur lle mae'r adnoddau hynny'n mynd. Amlygir hyn gan drafodaethau ar gyllideb y llynedd pan nodwyd yn glir fod mater wedi codi ynghylch swm sylweddol o arian—20 y cant o'r gyllideb—nad oedd yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf priodol. Mae hyn, unwaith eto, yn mynd â ni'n ôl at y mater o'n gallu i fesur yr hyn sy'n mynd i mewn a hyn yr ydym yn ei gael wedyn.

Dyna pam ein bod wedi cyflwyno'r ddadl hon: yn gyntaf, i nodi'r pryderon go iawn sydd gan bobl nad ydynt yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed na'u hystyried; yn ail, i geisio cael sicrwydd gan y Gweinidog fod y cyrff sy'n bodoli—ac rwyf wedi defnyddio cynghorau iechyd cymuned fel enghraifft—yn ddigon cadarn i gyflawni eu rôl; ac, yn drydydd, i geisio cael cydnabyddiaeth bod y Gweinidog yn cymryd y mater o ddifrif yn ymwneud â chodi safonau yn ein gwasanaeth iechyd a'i bod yn deall faint o adnoddau yr ydym yn eu defnyddio a'r canlyniadau a gawn. Dyna pam y cynigiau y cynnig hwn, ac edrychaf ymlaen at glywed ymateb y Gweinidog.

**Brian Gibbons:** Y cam mwyaf a gymerwyd i wella atebolrwydd yn y gwasanaeth iechyd

service in this Assembly has been the abolition of the internal market that, in itself, was a source of expansion in very expensive transactional costs, which is something that inevitably follows any move to establish a market-based health service. Equally, the internal market perpetuated a dense fog as to who was accountable for what within the health service, with commissioners and providers passing the parcel as to who was ultimately responsible for many of the difficult decisions that the health service had to make. Passing the parcel may be okay at Christmas, but it is certainly no way to run a health service. That was very much at the forefront of our minds when Welsh Labour took the lead in getting rid of the internal market as part of its programme for this Assembly. Indeed, it came to be incorporated into the 'One Wales' agreement.

There are those who call for reduced democratic accountability in our health service and believe that the health service would be better if it was run by an independent arm's-length executive body of some sort. This has been tried in the Irish Republic, with the formation of the Health Service Executive, but the experience there certainly shows that that has been no silver bullet. The failures of the Health Service Executive were compounded by frustration at its lack of democratic accountability in the face of continuing failure by that independent executive. Others have called for more powers to be given to clinicians to run the health service, usually with the strapline of allowing the health service to be run not by politicians or bureaucrats, but by the people who are involved in care. However, I suppose that it would be fair to say that if we had taken that approach after the second world war, we probably would not have a health service in the first place. Equally, I think that it ignores the fact that clinicians are not trained to be managers. Indeed, the overwhelming majority of clinicians do not want to be managers; it would be the last thing that they wanted to do. However, they do want to have their voices listened to, and they do want consideration to be given to their views on how services are delivered, but that should not be mistaken for a desire to run health services themselves. Those who argue

gwladol yn y Cynulliad oedd diddymu'r farchnad fewnol a oedd, ynnddi'i hun, yn ffynhonnell ehangu costau gweithrediadol drud iawn, sy'n rhywbeth a ddaw, yn anochel, ar ôl unrhyw symudiad i sefydlu gwasanaeth iechyd seiliedig ar y farchnad. Yn yr un modd, creodd y farchnad fewnol aneglurder mawr o ran pwy oedd yn atebol am beth o fewn y gwasanaeth iechyd, gyda chomisiynwyr a darparwyr yn pasio'r baich o ran pwy oedd yn gyfrifol yn y pen draw am lawer o'r penderfyniadau anodd yr oedd y gwasanaeth iechyd yn gorfod eu gwneud. Efallai fod pasio'r baich yn iawn ar adegau, ond yn sicr nid yw'n ffordd o redeg gwasanaeth iechyd. Roeddem yn meddwl llawer am hynny pan benderfynodd plaid Lafur Cymru gael gwared ar y farchnad fewnol fel rhan o'i rhaglen ar gyfer y Cynulliad hwn. Yn wir, cafodd ei ymgorffori yn y cytundeb 'Cymru'n Un'.

Mae rhai yn galw am lai o atebolrwydd democrataidd yn ein gwasanaeth iechyd ac yn credu y byddai'r gwasanaeth iechyd yn well pe bai'n cael ei redeg gan gorff gweithredol annibynnol hyd braich o ryw fath. Rhoddwyd cynnig ar hyn yng Ngweriniaeth Iwerddon, pan ffurfiwyd Gweithrediaeth y Gwasanaeth Iechyd, ond mae'r profiad yno yn sicr yn dangos nad yw hynny wedi bod yn ateb syml. Gwaethygyd methiannau Gweithrediaeth y Gwasanaeth Iechyd gan rwystredigaeth yn sgil ei diffyg atebolrwydd democrataidd yn wyneb methiant parhaus y weithrediaeth annibynnol honno. Mae eraill wedi galw am roi mwy o bwerau i glinigwyr redeg y gwasanaeth iechyd, fel arfer gydag is-bennawd o ganiatáu i'r gwasanaeth iechyd gael ei redeg gan y bobl sy'n ymwneud â gofal, ac nid gan wleidyddion neu fiwrocrataid. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai'n deg dweud pe baem wedi gwneud hynny ar ôl yr ail ryfel byd, mae'n debyg na fyddai gennym wasanaeth iechyd yn y lle cyntaf. Yn yr un modd, credaf ei fod yn anwybyddu'r ffaith nad yw clinigwyr wedi cael eu hyfforddi i fod yn rheolwyr. Yn wir, nid yw'r mwyafrif llethol o glinigwyr yn dymuno bod yn rheolwyr; dyma'r peth olaf y byddent am ei wneud. Ond, hoffent i'w lleisiau gael eu clywed, ac maent am i bobl ystyried eu barn am sut y darperir gwasanaethau, ond ni ddylid camgymryd hyn am yr awydd i redeg gwasanaethau iechyd eu

for a stronger role for clinicians in running the service ignore the fact that clinicians are not a homogenous group; they are not a group without self-interest and they have their own sectoral interests and agendas. These agendas are not always consistent with the wider needs of patients or the broader health service.

Therefore, I do not think that there is any clear future in taking that position. Having said that, I think that there is an issue to be addressed of local democratic accountability for the health service. Notwithstanding the fact that we have recently had a fairly significant reorganisation of the health service in Wales—I am not advocating yet more turmoil from the point of view of reorganisation—we have to accept that the present board structure and the community health councils are not a very effective mechanism for improving local accountability.

In the light of that, we need to look at new models as we move towards a single public service in Wales. There are opportunities to see the various service reconfigurations that will follow from the independent review of social services and the local, regional and national review that is being undertaken by the Minister for Social Justice and Local Government, to see whether the current democratically elected representatives at a grass-roots or council level should in some way be involved in local governance. This is not a radical proposal, because when the health service was initially established in the late 1940s, large parts of it were subject to democratic accountability, and it does happen in England now. Therefore, in improving accountability, real progress has been made by getting rid of the internal market. However, further thought is needed to make the service more democratically accountable at a local level.

**Darren Millar:** I welcome the opportunity to take part in this important debate. We all know that ‘One Wales’, which set out the power-sharing arrangements between the two parties opposite, said that it wanted to deliver

hunain. Mae'r rheini sy'n dadlau dros rôl gryfach i glinigwyr o ran rhedeg y gwasanaeth yn anwybyddu'r ffaith nad yw clinigwyr yn grŵp unffurf; maent yn grŵp sydd â hunan-fudd ac mae ganddynt eu diddordebau a'u hagendâu sectoraidd eu hunain. Nid yw'r agendâu hyn bob amser yn gyson ag anghenion ehangach cleifion neu'r gwasanaeth iechyd yn gyffredinol.

Felly, nid wyf yn credu bod unrhyw ddyfodol amlwg o fynd i'r cyfeiriad hwnnw. Wedi dweud hynny, credaf fod angen rhoi sylw i atebolrwydd democrataidd lleol ar gyfer y gwasanaeth iechyd. Er gwaethaf y ffaith ein bod yn ddiweddar wedi gweld cryn dipyn o ad-drefnu yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru—nid wyf yn argymhell tarfu mwy fyth o safbwynt ad-drefnu—mae'n rhaid inni dderbyn nad yw'r strwythur byrddau presennol a'r cynghorau iechyd cymuned yn fecanwaith effeithiol iawn ar gyfer gwella atebolrwydd lleol.

Yn sgîl hynny, mae angen inni edrych ar fodolau newydd wrth inni symud at un gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Ceir cyfleoedd i weld yr amrywiol wasanaethau a ad-drefnir a fydd yn dilyn yr adolygiad annibynnol o wasanaethau cymdeithasol a'r adolygiad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cael ei gynnal gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i weld a ddylai'r cynrychiolwyr presennol a etholir yn ddemocrataidd ar lawr gwlad neu ar lefel cyngor fod yn cymryd rhan mewn rhyw ffordd mewn llywodraethu lleol. Nid yw hyn yn gynnig radical, oherwydd pan sefydlwyd y gwasanaeth iechyd yn wreiddiol yn niwedd y 1940au, roedd rhannau helaeth ohono yn destun atebolrwydd democrataidd, ac mae hynny'n digwydd yn Lloegr yn awr. Felly, wrth wella atebolrwydd, mae cynnydd go iawn wedi cael ei wneud drwy gael gwared ar y farchnad fewnol. Fodd bynnag, mae angen meddwl rhagor er mwyn gwneud y gwasanaeth yn fwy atebol yn ddemocrataidd ar lefel leol.

**Darren Millar:** Rwyf yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. Mae pob un ohonom yn gwybod bod cytundeb ‘Cymru'n Un’, a oedd yn nodi'r trefniadau rhannu pŵer rhwng y ddau barti arall, wedi



a progressive, stable and ambitious programme for government for the third Assembly. It went on to say that it was an aspiration to have a world-class health service available to everyone, irrespective of who they are or where they live in Wales, at the time they need it. We all share those aspirations, regardless of our party affiliations. However, three years on, people in my constituency in north Wales and throughout the region are facing the prospect of some local services being downgraded, effectively not realising the equal-access aspiration that the One Wales Government set itself to deliver.

In addition to facing a real threat to front-line health services as a result of the cuts in the health service's budget this year and, no doubt, over the next few years, we also know that the Betsi Cadwaladr University Local Health Board is in the process of conducting no fewer than 11 reviews into health services in north Wales. The two most controversial of these, which I have raised on many occasions in this Chamber, are the review of maternity and children's services and the review of emergency general surgery services in north Wales. Some of the options being considered could result in some hospital services being downgraded or withdrawn from one or more of the three district general hospital sites at Wrexham, Bangor and Bodelwyddan.

One of the options being put forward could result in the maternity unit at Ysbyty Glan Clwyd being a midwife-led service, rather than a consultant-led service, as is currently the case. If that were to happen, mums experiencing complications during childbirth could be forced to be transported to hospitals more than 30 miles away. That adds risks to the childbirth process that, according to clinicians—and I am no clinician—could, unfortunately, cause deaths. That is not a risk that I think is acceptable.

We know that there has been a public

datgan ei fod am ddarparu rhaglen lywodraethu flaengar, sefydlog ac uchelgeisiol ar gyfer y trydydd Cynulliad. Dywedodd hefyd ei bod yn ddyhead i gael gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf i bawb, waeth pwy ydynt neu lle maent yn byw yng Nghymru, pan fo angen hynny arnynt. Mae pob un ohonom yn rhannu'r dyheadau hynny, waeth pa blaid bynnag yr ydym yn perthyn iddi. Fodd bynnag, tair blynedd yn ddiweddarach, mae pobl yn fy etholaeth yn y gogledd ac ar draws y rhanbarth yn wynebu'r posibilrwydd y bydd rhai gwasanaethau lleol yn cael eu hisraddio, heb sylweddoli mewn gwirionedd yr uchelgais i gael mynediad cyfartal i bawb a osododd y Llywodraeth iddi'i hun yng nghytundeb Cymru'n Un.

Yn ogystal ag wynebu bygythiad gwirioneddol i wasanaethau iechyd rheng flaen o ganlyniad i'r toriadau yng nghyllideb y gwasanaeth iechyd eleni a thros y blynyddoedd nesaf, mae'n siŵr, rydym hefyd yn gwybod bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y broses o gynnal dim llai na 11 adolygiadau o wasanaethau iechyd yn y gogledd. Y ddau fwyaf dadleuol o blith y rhain, yr wyf wedi sôn amdanynt droeon yn y Siambr hon, yw'r adolygiad o wasanaethau mamolaeth a gwasanaethau plant a'r adolygiad o wasanaethau llawfeddygol cyffredinol brys yn y gogledd. Gallai rhai o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried arwain at rai gwasanaethau ysbyty yn cael eu hisraddio neu eu tynnu o un neu fwy o'r tri safle ysbyty dosbarth cyffredinol yn Wrecsam, Bangor a Bodelwyddan.

Gallai un o'r opsiynau a gyflwynir arwain at gael gwasanaeth dan arweiniad bydwragedd yn yr uned mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, yn hytrach na gwasanaeth dan arweiniad ymgynghorydd, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Pe bai hynny'n digwydd, gallai mamau sy'n dioddef cymhlethdodau wrth eni plant gael eu gorfodi i gael eu cludo i ysbytai sydd dros 30 milltir i ffwrdd. Mae hynny'n ychwanegu risgiau i'r broses geni plant a allai, yn ôl clinigwyr—ac nid wyf i'n glinigwr—achosi marwolaethau, yn anffodus. Nid yw hynny'n risg dderbyniol, yn fy marn i.

Gwyddom fod y cyhoedd wedi bod yn

backlash against these proposals, which are, unfortunately, still on the table, and we know that many stakeholders feel that they are not being properly engaged in the process, including GPs, consultants and patient groups. They all feel excluded from the process, or certainly that they are not able to have the influence that they should have on that process. More than 16,000 people have subscribed to a Facebook campaign to protect the services that they value so highly in those hospitals, and that is because they feel excluded. They want to be a part of that process. I agree with much of what Brian said earlier: the public wants and deserves to be engaged in the planning of those health services, because, at the end of the day, it is their taxes that pay for those services to be delivered. However, our approach to consultation in the NHS or any other public service being delivered in Wales must not just be a tick-box exercise; we must have a system that allows people to express their views and allows those views to be taken seriously to influence the outcome of the decision-making process, whether it is in the NHS or anywhere else. At the moment, because of the accountability structures within the NHS, the public does not feel as though it has the necessary influence that it deserves in that decision-making process. The public in north Wales certainly feels like that. I am not trying to score party-political points; I am simply stating a matter of fact, which is that the public feels disempowered in respect of the health service as we know it in Wales.

4.50 p.m.

In the aftermath of the 2007 Assembly elections, I was grateful for the ministerial intervention in the processes that did not engage the public as part of the review looking at the modernisation of hospital services. Can you tell us, Minister, whether you would be prepared to take such action again in the future if it is clearly demonstrated that the public is not being properly engaged in north Wales and other

chwyrn yn erbyn y cynigion hyn, sydd, yn anffodus, yn dal ar y bwrdd, a gwyddom fod llawer o randdeiliaid yn teimlo nad ydynt yn cael cymryd rhan briodol yn y broses, gan gynnwys meddygon teulu, ymgynghorwyr meddygol a grwpiau cleifion. Mae pob un ohonynt yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r broses, neu yn sicr nad ydynt yn gallu cael y dylanwad y dylent ei gael ar y broses honno. Mae mwy na 16,000 o bobl wedi ymuno ag ymgyrch Facebook i amddiffyn y gwasanaethau sydd mor bwysig iddynt yn yr ysbytai hynny, ac mae hynny oherwydd eu bod yn teimlo eu bod wedi'u heithrio. Maent am fod yn rhan o'r broses honno. Rwyf yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd Brian yn gynharach: mae'r cyhoedd am gymryd rhan yn y broses o gynllunio'r gwasanaethau iechyd hynny ac maent yn haeddu bod yn rhan, oherwydd, ar ddiwedd y dydd, eu trethi hwy sy'n talu am ddarparu'r gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, rhaid i'n hagwedd at ymgynghori yn y GIG neu unrhyw wasanaeth cyhoeddus eraill a ddarperir yng Nghymru beidio â bod yn ymarfer ticio blychau yn unig; rhaid inni gael system sy'n caniatáu i bobl fynegi eu barn ac yn caniatáu i'r farn honno gael ei chymryd o ddifrif er mwyn dylanwadu ar ganlyniad y broses gwneud penderfyniadau, boed yn y GIG neu unrhyw le arall. Ar hyn o bryd, oherwydd y strwythurau atebolrwydd o fewn y GIG, nid yw'r cyhoedd yn teimlo bod ganddynt y dylanwad angenrheidiol y mae'n ei haeddu yn y broses honno o wneud penderfyniadau. Mae'r cyhoedd yn y gogledd yn sicr yn teimlo felly. Nid wyf yn ceisio sgorio pwyntiau gwleidyddol; yr oll rwyf yn ei wneud yw datgan ffaith, sef bod y cyhoedd yn teimlo nad oes ganddynt rym yng nghyswllt y gwasanaeth iechyd fel y gwyddom amdano yng Nghymru.

Yn sgil etholiadau'r Cynulliad yn 2007, roeddwn yn ddiolchgar am yr ymyrraeth gan y Gweinidog yn y prosesau nad oedd yn cynnwys y cyhoedd fel rhan o'r adolygiad i edrych ar y broses o foderneiddio gwasanaethau ysbyty. A allwch ddweud wrthym, Weinidog, a fydddech yn barod i gymryd camau o'r fath eto yn y dyfodol os caiff ei ddangos yn glir nad yw'r cyhoedd yn cael eu cynnwys yn briodol yn y gogledd ac

regions throughout the country?

**Veronica German:** I hope that the Conservatives practise what they preach on transparency. We are really looking forward to their transparent budget proposals, particularly with regard to the NHS. However—*[Interruption.]* We are not saying what you are saying.

This is an important topic. Many Governments and organisations lay claim to transparency and accountability, but few always deliver on them. When budgets are tight, it is even more important that Governments can demonstrate that money is being well spent and that decision making is open and transparent. In Wales, as we know, we are looking at more than £5 billion being spent within the NHS, which is the lion's share of Government spending. It is therefore essential to get our accountabilities right, and they should be focused on delivering high-quality outcomes for patients. I do not think that anyone disagrees with that, but how we go about it is always a matter for some debate. It is not always easy to measure quality and, all too often, we are more concerned with the means of care rather than the results of care.

We are probably all guilty of that and perhaps we should question the validity of some of the process targets, because they do not always give us the accountability that we think they do, yet we all follow them avidly. We all know from the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust that terrible things can happen if you take some of these targets to extremes. I am not suggesting that anything like that is happening here, but that case gives an indication of what can happen when targets are taken too seriously. Are they reliable? An example that I always think is valid is that of ambulance times. We all get excited every month when the figures come out, but are they transparent about the ambulance service or do they measure something else, such as the efficiency of the hospitals and accident and emergency departments? Is it right that if an ambulance responds in seven minutes and 59 seconds but the patient dies, that is deemed to be a success, but if an ambulance responds in eight minutes and two seconds and the

mewn rhanbarthau eraill ledled y wlad?

**Veronica German:** Gobeithio y bydd y Ceidwadwyr yn gweithredu yn ôl eu pregeth eu hunain ar dryloywder. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at eu cynigion cyllideb tryloyw, yn enwedig o ran y GIG. Fodd bynnag—*[Torri ar draws.]* Nid ydym yn dweud yr hyn yr ydych yn ei ddweud.

Mae hwn yn fater pwysig. Mae llawer o Lywodraethau a sefydliadau'n honni eu bod yn dryloyw ac yn atebol, ond ychydig iawn sydd felly bob amser. Pan fydd cyllidebau'n dynn, mae'n bwysicach fyth bod Llywodraethau'n gallu dangos bod arian yn cael ei wario'n dda a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn agored ac yn dryloyw. Yng Nghymru, fel y gwyddom, rydym yn edrych ar fwy na £5 biliwn yn cael ei wario o fewn y GIG, sef y gyfran fwyaf o wariant y Llywodraeth. Mae'n hanfodol felly fod ein hatebolrwydd yn iawn, a dylai ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau o safon i gleifion. Nid wyf yn credu bod neb yn anghytuno â hynny, ond mae sut yr ydym yn mynd ati yn fater dadleuol bob amser. Nid yw bob amser yn hawdd mesur ansawdd, ac, yn rhy aml, rydym yn poeni mwy am y ffordd o ofalu yn hytrach na chanlyniadau gofal.

Mae pob un ohonom yn euog o hynny, fwy na thebyg, ac efallai y dylem gwestiynu dilysrwydd rhai o dargedau'r broses, gan nad ydynt bob amser yn rhoi inni'r atebolrwydd y credwn eu bod yn ei wneud, ac eto mae pob un ohonom yn eu dilyn yn frwd. Mae pob un ohonom yn gwybod, o'r hyn a ddigwyddodd yn Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Canol Swydd Stafford, fod pethau ofnadwy yn gallu digwydd os eir â'r targedau hyn i'r eithaf. Nid wyf yn awgrymu bod unrhyw beth fel hyn yn digwydd yma, ond mae'r achos hwnnw yn rhoi syniad o beth all ddigwydd pan gymerir targedau ormod o ddifrif. A ydynt yn ddibynadwy? Un enghraifft sydd yn ddilys bob tro, yn fy marn i, yw amseroedd ambiwlans. Mae pawb yn cyffroi bob mis pan gyhoeddir y ffigurau, ond a ydynt yn dryloyw ynghylch y gwasanaeth ambiwlans neu a ydynt yn mesur rhywbeth arall, fel effeithlonrwydd yr ysbytai a'r adrannau damweiniau ac achosion brys? Os bydd ambiwlans yn ymateb mewn saith munud a 59 eiliad ond bod y claf yn marw, a yw'n

patient lives, that is deemed to be a failure? We all need to think about that.

How and why decisions are made within the NHS are often the source of much frustration among patients, as we have heard already in the context of some of the reviews that are ongoing. Patients and clinicians alike get frustrated. There may be good reasons to change direction and the configuration of services, but unless there is a credible and transparent explanation and a credible consultation process, confidence is lost, and that does no-one any good. On the recent reorganisation in the NHS, one issue that gets people quite excited is the fact that there is no redundancy policy, although early proposals included a provision for redundancy costs. We have never heard the reasons why they disappeared and why we have this policy now.

On the roles of those senior managers, the Minister said in committee today again that the management costs now are less than they were. That may be the case, but as we do not have that information, we cannot make that judgment. It would be a good start to show what has happened to those roles—and I am not talking about naming individuals, just what has happened to the roles since the reorganisation. Where are those positions now? What was the total cost before and after the reorganisation? We might be satisfied by the answers to those questions, but we do not know what they are.

The decision to locate neurosurgery services across two sites seemed to be taken against all expert evidence, with no satisfactory explanation for that. That breeds a feeling of mistrust, which I am sure the Minister does not want. We have a need for transparency in decision making, and there is a particular need for transparency in financial decisions. Earlier today, I asked the Minister whether she was willing to publish details of all spending over £25,000 on a regular basis—

iawn bod hynny'n cael ei weld yn llwyddiant, ond os bydd ambiwlans yn ymateb o fewn wyth munud a dau eiliad a bod y claf yn byw, y bernir bod hynny'n fethiant? Mae angen i bawb feddwl am hynny.

Mae sut a pham y gwneir penderfyniadau o fewn y GIG yn aml yn achosi llawer o rwystredigaeth i gleifion, fel yr ydym wedi'i glywed eisoes yng nghyd-destun rhai o'r adolygiadau sydd ar y gweill. Mae cleifion a chlinigwyr fel ei gilydd yn mynd yn rhwystredig. Gall fod rhesymau da dros newid cyfeiriad ac ad-drefnu gwasanaethau, ond os na cheir esboniad credadwy a thryloyw a phroses ymgynghori gredadwy, collir hyder, ac nid yw hynny yn gwneud dim daioni i neb. Ynghylch yr ad-drefnu diweddar yn y GIG, un mater sy'n cyffroi pobl yw'r ffaith nad oes dim polisi diswyddo, er bod cynigion cynnar yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau diswyddo. Nid ydym erioed wedi clywed y rhesymau pam eu bod wedi diflannu a pham mae gennym y polisi hwn yn awr.

Ynghylch rolau'r uwch reolwyr hynny, dywedodd y Gweinidog yn y pwyllgor heddiw eto fod y costau rheoli yn llai yn awr nag yr oeddent. Efallai bod hynny yn wir, ond gan nad oes gennym y wybodaeth honno, ni allwn wneud y penderfyniad hwnnw. Byddai'n ddechrau da i ddangos beth sydd wedi digwydd i'r rolau hynny—ac nid wyf yn sôn am enwi unigolion, dim ond yr hyn sydd wedi digwydd i'r rolau ers yr ad-drefnu. Ble mae'r swyddi hynny yn awr? Beth oedd cyfanswm y gost cyn ac ar ôl yr ad-drefnu? Efallai y byddwn yn cael ein bodloni gan yr atebion i'r cwestiynau hynny, ond nid ydym yn gwybod beth ydynt.

Ymddengys fod y penderfyniad i leoli gwasanaethau niwrolawfeddygol ar draws dau safle wedi'i wneud yn groes i bob tystiolaeth arbenigol, heb ddim esboniad boddhaol ynghylch pam. Mae hynny'n creu teimlad o ddiffyg ymddiriedaeth, ac rwyf yn siŵr nad yw'r Gweinidog yn dymuno gweld hynny. Mae angen inni gael tryloywder wrth wneud penderfyniadau, ac mae angen arbennig am dryloywder wrth wneud penderfyniadau ariannol. Yn gynharach heddiw, gofynnais i'r Gweinidog a oedd hi'n barod i gyhoeddi manylion yr holl wariant

dros £25,000 yn rheolaidd—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Can you wind up, please?

**Veronica German:** We should not have to ask her for that information, so I ask her again to publish those details. I would be grateful if the Minister would respond to those points.

**David Melding:** It is essential for any successful health service to have clear benchmarks backed up by accessible comparative data. We have some of that, but not in a comprehensive fashion. We need to look at each demand for effective information, and the public has to be able to access the information, physically—that is, they should know where it is—and understand it. The information can then be compared with that for years gone by; otherwise, you do not have effective benchmarks to test whether Government policy has improved health outcomes. This goes way beyond any partisan point, because clear benchmarks would hold any Government to account, whatever its political make-up. This goes to the heart of effective health policy, especially for social models of medicine, which, happily, all parties of any size in the UK agree with completely as an aim to be continued way into the future.

Coupled with that, transparency in general, and not just in social models of medicine, drives up standards. This is true in any sphere of life, but particularly in health, because some of the outcomes that can occur if there are failures in the system are really quite dire. It is important that we have clear systems in place so that we learn lessons, but also ensure that the highest standards are maintained as a matter of rigour from day to day.

I was a bit disturbed, Minister, to read the recent Nuffield report on how devolution has affected NHS policy, because it expresses concerns about Wales and other devolved administrations. The report compares Wales with north-east England, which is, in socioeconomic terms, a similar region and so

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A fydddech cystal â dirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Veronica German:** Ni ddylem orfod gofyn iddi am y wybodaeth honno, felly rwyf yn gofyn iddi eto i gyhoeddi'r manylion hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn ymateb i'r pwyntiau hynny.

**David Melding:** Mae'n hanfodol bod gan unrhyw wasanaeth iechyd llwyddiannus feincnodau clir wedi'u hategu gan ddata sy'n gymharol hygyrch. Mae gennym rywfaint o hynny, ond nid yw'n gynhwysfawr. Mae angen inni edrych ar bob cais am wybodaeth effeithiol, ac mae angen i'r cyhoedd allu cael mynediad at y wybodaeth, yn union—hynny yw, dylent wybod lle mae'r wybodaeth ar gael—a'i deall. Gellir cymharu'r wybodaeth wedyn â'r wybodaeth ar gyfer y blynyddoedd a fu; fel arall, nid oes gennych feincnodau effeithiol i brofi a yw polisi'r Llywodraeth wedi gwella canlyniadau iechyd. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i unrhyw blaid, oherwydd byddai meincnodau clir yn dal unrhyw Lywodraeth yn atebol, waeth beth yw ei chyfansoddiad gwleidyddol. Mae hyn yn mynd at wraidd polisi iechyd effeithiol, yn enwedig ar gyfer modelau cymdeithasol o feddygaeth, y mae unrhyw blaid o unrhyw faint yn y DU yn hapus i gytuno'n llwyr â hwy fel nod i'w ddilyn ymhell i'r dyfodol.

Ynghyd â hynny, mae tryloywder yn gyffredinol, ac nid dim ond mewn modelau cymdeithasol o feddygaeth, yn codi safonau. Mae hyn yn wir mewn unrhyw beth mewn bywyd, ond yn enwedig ym maes iechyd, gan mae rhai o'r canlyniadau a all ddigwydd yn echrydus iawn os oes methiannau yn y system. Mae'n bwysig bod gennym systemau clir ar waith er mwyn inni ddysgu gwersi, ond hefyd er mwyn sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cynnal fel mater o drylwyrdd o ddydd i ddydd.

Cefais fy ysgwyd braidd, Weiniidog, wrth ddarllen adroddiad diweddar Nuffield ar sut y mae datganoli wedi effeithio ar bolisi'r GIG, gan ei fod yn mynegi pryderon am Gymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae'r adroddiad yn cymharu Cymru â gogledd-ddwyrain Lloegr, sydd, mewn termau

I do not think that it can be dismissed as not comparing like with like, broadly speaking. I hope that the Minister will be acting on some of its findings.

The report says that performance management is the key. We have the benchmarks for the clear outcomes that we need, and then performance should be managed around those key areas. Those responsible for delivering the outcomes can then predict what they will be, as they will not be changed on a Minister's whim. Instead, they are the core assessment of a particular service, which is very important. The report says that devolved administrations in general have been less willing to collect data, and it says, quite dramatically, that there is some evidence that data capture in general is poorer since devolution. That is not a good situation.

5.00 p.m.

The report also says that there needs to be clarity about key service indicators, which is a point that I made earlier. We have to have predictability and set established benchmarks that people can rely on, knowing that they will not be changed because they have suddenly become uncomfortable or because something that someone has realised is performing well is suddenly put into a framework as a key indicator when really it has not been agreed as such in advance. These are important issues. There are some gaps in our data that are truly mystifying. We do not know how many nurse prescribers there are, despite the fact that it is a 'One Wales' policy to increase their number; how on earth can we be in that situation? I will mention in passing another hobby-horse of mine—gathering data on community treatment orders, which are used in mental health. I know that we are in early days on this, but I hope that you begin publishing that information quarterly as soon as possible; that would be a marvellous advance.

economiaidd-gymdeithasol, yn rhanbarth tebyg ac felly rwyf yn credu, at ei gilydd, y gellir ystyried ein bod yn cymharu tebyg at ei debyg. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gweithredu ar rai o'i ganfyddiadau.

Mae'r adroddiad yn dweud bod rheoli perfformiad yn allweddol. Mae gennym feincnodau ar gyfer y canlyniadau clir angenrheidiol, ac yna dylai perfformiad gael ei reoli o amgylch y meysydd allweddol hynny. Gall y rheini sy'n gyfrifol am gyflawni'r canlyniadau rag-weld wedyn beth fydd y rhain, gan na fyddant yn cael eu newid ar fympwy Gweinidog. Yn hytrach, y rhain yw asesiad craidd gwasanaeth penodol, sy'n bwysig iawn. Mae'r adroddiad yn dweud bod gweinyddiaethau datganoledig, ar y cyfan, wedi bod yn llai parod i gasglu data, ac mae'n dweud, yn eithaf dramatig, fod rhywfaint o dystiolaeth bod cipio data yn gyffredinol yn waeth ers datganoli. Nid yw hynny'n sefyllfa dda.

Mae'r adroddiad hefyd yn dweud bod angen eglurder ynghylch dangosyddion gwasanaeth allweddol, sy'n bwynt a wnes yn gynharach. Mae'n rhaid inni gael rhagweladwyedd a gosod meincnodau sefydledig y gall pobl ddibynnu arnynt, gan wybod na fyddant yn cael eu newid am eu bod, mwyaf sydyn, yn peri trafferth neu oherwydd bod rhywbeth y mae rhywun wedi sylweddoli ei fod yn perfformio'n dda yn cael ei roi'n sydyn mewn fframwaith fel dangosydd allweddol pan nad oes cytundeb o'r fath wedi bod yn ei gylch o flaen llaw. Mae'r rhain yn faterion pwysig. Mae ambell fwelch yn ein data sy'n ddirgelwch llwyr. Nid ydym yn gwybod sawl nyrs-ragnodydd sydd, er gwaethaf y ffaith ei fod yn bolisi yng nghytundeb 'Cymru'n Un' i gynyddu eu nifer; sut ar y ddaear ein bod yn y sefyllfa honno? Gwnaf sôn wrth fynd heibio am rywbeth arall rwyf yn rhygnu amdano—casglu data ar orchmynion triniaeth gymunedol, sy'n cael eu defnyddio mewn iechyd meddwl. Rwyf yn gwybod ei bod yn ddyddiau cynnar arnom gyda hyn, ond rwyf yn gobeithio y byddwch yn dechrau cyhoeddi'r wybodaeth chwarterol honno cyn gynted ag y bo modd; byddai hynny'n ddatblygiad gwych.

The Welsh Assembly Government takes pride in driving out the internal market from health. Our party has a different view, but we lost the election, and you won it; however, it is right that you are now held accountable for your decision. The other side of that ideological commitment is that, if you are to have a system that is based more on co-operation than an element of competition, you still have to have a way of providing patients with choice and information. Those are the two most powerful tools available to any consumer, and we are all consumers of the national health service.

**David Lloyd:** I am pleased to take part in this debate on accountability, openness and transparency in the NHS. I was struck by the growing consensus between Brian Gibbons and Darren Millar, and a lot of my comments on basic accountability and scrutiny are along roughly the same lines. It is important that we have democratic accountability for the largest public service, the NHS. People—our constituents, and, for some of us, our patients—need a handle on what is going on, so that they feel involved. Clinicians—doctors, nurses, physiotherapists and all the rest—particularly need to feel involved. There is a feeling out there that, sometimes, they are not as involved as they should be. As Brian mentioned, doctors are sometimes vociferous, and despite my natural timidity, I may have been vociferous in the past on matters to do with health. However, at the end of the day, doctors are not managers. Very few doctors and nurses have a dual qualification as manager and clinician. Clinicians want to be heard, so they want to be part of the decision making, but management is down to management. There is always that tension between managers and clinicians, and you cannot escape it; it has traditionally been there in our hospitals, and even in our general practices. Sometimes it is constructive, and sometimes not.

There is a broader theme in this debate about what scrutiny of a public service means. Like Brian, I am pleased that we have abolished the internal market in health. That leads to

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymfalchiö ei bod wedi cael gwared ar y farchnad fewnol o faes iechyd. Mae gan ein plaid farn wahanol, ond collom yr etholiad, a chi a enillodd; fodd bynnag, mae'n iawn eich bod yn cael eich dal yn atebol yn awr am eich penderfyniad. Ochr arall yr ymrwymiad ideolegol hwnnw yw, os ydych yn penderfynu cael system sy'n fwy seiliedig ar gydweithredu nag elfen o gystadleuaeth, mae'n rhaid ichi gael ffordd o roi dewis a gwybodaeth i gleifion o hyd. Dyna'r ddau arf mwyaf pwerus sydd ar gael i unrhyw ddefnyddiwr, ac mae pob un ohonom yn defnyddio'r gwasanaeth iechyd gwladol.

**David Lloyd:** Rwyf yn falch o gymryd rhan yn y ddadl hon ar atebolrwydd, tryloywder a bod yn agored yn y GIG. Cefais fy nharo gan y consensws cynyddol rhwng Brian Gibbons a Darren Millar, ac mae llawer o'm sylwadau ar atebolrwydd sylfaenol a chraffu ar hyd yr un llinellau yn fras. Mae'n bwysig bod gennym atebolrwydd democrataidd ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus mwyaf, y GIG. Mae ar bobl—ein hetholwyr, ac, i rai ohonom, ein cleifion—angen gwybod beth sy'n digwydd, fel eu bod yn teimlo eu bod yn rhan. Yn arbennig, mae angen i glinigwyr—meddygon, nyrsys, ffisiotherapyddion ac yn y blaen—deimlo eu bod yn rhan. Mae ymdeimlad yn y rhengoedd nad ydynt, weithiau, yn gymaint o ran ag y dylent fod. Fel y soniodd Brian, mae meddygon weithiau yn llafar, ac er gwaethaf fy swildod naturiol, efallai fy mod innau wedi bod yn llafar yn y gorffennol ar faterion yn ymwneud ag iechyd. Fodd bynnag, ar ddiwedd y dydd, nid rheolwyr yw meddygon. Ychydig iawn o feddygon a nyrsys sydd â chymhwyster deul fel rheolwr a chlinigwr. Mae clinigwyr am gael eu clywed, felly maent yn dymuno bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, ond rheolwyr sy'n gyfrifol am reoli. Mae'r tensiwn hwnnw i'w weld bob amser rhwng rheolwyr a chlinigwyr, ac ni allwch ddianc rhagddo; mae wedi bod yn ein hysbytai, a hyd yn oed yn ein practisau cyffredinol. Weithiau mae'n adeiladol, ac weithiau ddim.

Ceir thema ehangach yn y ddadl hon am beth yw ystyr craffu ar wasanaeth cyhoeddus. Fel Brian, rwyf yn falch ein bod wedi diddymu'r farchnad fewnol ym maes iechyd. Mae

greater accountability and transparency. We no longer get lost in the fog of transactions, where commissioners bounce things off providers and providers bounce them off commissioners. As elected representatives, we could never really follow it—who was supposed to be doing what to whom. There is clarity now about how things are organised. Commissioning has gone, and planning is the way forward.

In the little time that is available to try to develop a debate here, I will look at the alternatives. The health service in England has used the private finance initiative and introduced foundation hospitals, and there is the lurid prospect of GP commissioning. To a greater or lesser degree, that involves privatisation, and inevitably brings about commercial sensitivities and secrecy, which is justifiable. I would not expect any other way forward. When you are dealing with huge PFI projects, of course there will be commercial sensitivity. We cannot scrutinise that—we cannot scrutinise the details of what is happening where, the costs, or what is or is not being paid for. So, while we are having this mature debate on scrutiny and accountability, let us not blindly advocate an alternative ideology that is difficult to scrutinise. It is difficult to scrutinise the total costs of a private finance initiative, and what exactly is paid for over what period of time.

The same thing happens with foundation hospitals in England, which is one of the reasons why we had the mid Staffordshire crisis, which Veronica alluded to earlier. There was a fog—there was no distinction, clinically or managerially, about what was going on, and clinicians felt excluded. They were not involved, which is an inevitable consequence when you are bound by some element of commercial secrecy, as there has to be when dealing with PFI matters.

The same thing is about to befall GP commissioning issues in England. It will now be GPs—who are not managers—who will

hynny'n arwain at fwy o atebolrwydd a thryloywder. Nid ydym yn mynd ar goll mewn niwl o drafodion mwyach, lle mae comisiynwyr yn cynnig syniadau gyda darparwyr a darparwyr yn cynnig syniadau gyda chomisiynwyr. Fel cynrychiolwyr etholedig, nid oeddem mewn gwirionedd yn gallu ei ddilyn—pwyr oedd i fod i wneud beth i bwy. Mae'n glir yn awr sut y mae pethau'n cael eu trefnu. Mae comisiynu wedi mynd, a chynllunio yw'r ffordd ymlaen.

Yn yr ychydig amser sydd ar gael i geisio datblygu dadl yma, edrychaf ar y dewisiadau eraill. Mae'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr wedi defnyddio'r fenter cyllid preifat ac wedi cyflwyno ysbytai sefydledig, ac mae'r posibilrwydd erchyll o gomisiynu meddygon teulu. I raddau mwy neu lai, mae hynny'n golygu preifateiddio, ac mae hynny, yn anochel, yn arwain at sensitifrwydd masnachol a chyfrinachedd, a gellir cyfiawnhau hynny. Ni fyddwn yn disgwyl unrhyw ffordd arall ymlaen. Pan fyddwch yn delio â phrosiectau menter cyllid preifat mawr, wrth gwrs y ceir sensitifrwydd masnachol. Ni allwn graffu ar hynny—ni allwn graffu ar fanylion beth sy'n digwydd lle, y costau, neu beth y telir amdano neu ddim. Felly, wrth inni gael y ddadl aeddfed hon ar graffu ac atebolrwydd, gadewch inni beidio â hyrwyddo'n fyrbwyll ideoleg arall y mae'n anodd craffu arno. Mae'n anodd craffu ar gyfanswm costau menter cyllid preifat, a beth yn union y telir amdano dros ba gyfnod o amser.

Mae'r un peth yn digwydd gydag ysbytai sefydledig yn Lloegr, a dyna un o'r rhesymau pam y cafwyd yr argyfwng gydag ymddiriedolaeth canol Swydd Stafford, y cyfeiriodd Veronica ato'n gynharach. Roedd y sefyllfa yn aneglur—nid oedd dim gwahaniaeth, yn glinigol nac yn rheolaethol, o ran yr hyn a oedd yn digwydd, ac roedd clinigwyr yn teimlo eu bod wedi'u heithrio. Nid oeddent yn rhan, ac mae hyn yn ganlyniad anorfod pan fyddwch yn rhwym wrth ryw elfen o gyfrinachedd masnachol, fel y mae'n rhaid ei gael wrth ddelio â materion Menter Cyllid Preifat.

Mae'r un peth ar fin digwydd i faterion comisiynu meddygon teulu yn Lloegr. Yn awr, y meddygon teulu—nad ydynt yn



find themselves employing the primary care trust managers who have just lost their jobs, because there are no PCTs left in England. They will reorganise themselves into private consultants, leading, practically, to the privatisation of the NHS overnight. There will be no accountability to local patients or local clinicians with regard to what happens and where. Therefore, that is a very dangerous recipe for the future.

In conclusion, I am quite happy to restate my party's position that we are very proud to be part of ending the internal market in Wales. We have clear lines of accountability, but that does not mean that it always happens like it is meant to.

**Mohammad Asghar:** Thank you, Deputy Presiding Officer, for the opportunity to contribute to this important debate. The people of Wales should have trust in the way that their health service is run. It is, of course, a massive organisation—it is the nation's biggest employer and, obviously, provides a crucial public service that we depend upon so much. Therefore, it is hugely worrying to note the uneasiness and concern across Wales regarding accountability in our health service.

The failure to investigate claims that £1 billion of the health budget is being misspent, made by Paul Davies—the then chair of the All Wales Directors of NHS Finance, not our Assembly Member—does nothing for public confidence in Assembly Government management of the NHS. The same is true of the controversy surrounding the McKinsey report, which had £0.5 million of public money spent on it. Yet, the Minister is now dismissing that report as a 'little discussion paper', and, earlier this afternoon, the word 'jingle' was used very proudly by her about it. The Welsh Assembly Government should look to take pride in the way that it runs the health service. It must be open and accountable by publishing key data and statistics relating to the service's performance. It should not overlook claims that the health service is not being run effectively enough or ignore questions on accountability. Key questions on NHS performance are not being answered because

rheolwyr—a fydd yn gorfod cyflogi rheolwyr yr ymddiriedolaethau gofal sylfaenol sydd newydd golli eu swyddi, oherwydd nad oes Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol ar ôl yn Lloegr. Byddant yn ad-drefnu eu hunain yn ymgynghorwyr preifat, gan arwain, i bob diben, at breifateiddio'r GIG dros nos. Ni fydd dim atebolrwydd i gleifion lleol neu glinigwyr lleol o ran yr hyn sy'n digwydd ac ymhle. Felly, mae hynny'n rysâit peryglus iawn ar gyfer y dyfodol.

I gloi, rwyf yn ddigon hapus i ailddatgan safbwynt fy mhlaidd ein bod yn falch iawn i fod yn rhan o ddiweddu'r farchnad fewnol yng Nghymru. Mae gennym linellau clir o atebolrwydd, ond nid yw hynny'n golygu ei fod yn digwydd fel y dylai bob amser.

**Mohammad Asghar:** Diolch, Ddirprwy Lywydd, am y cyfle i gyfrannu at y ddatl bwysig hon. Dylai pobl Cymru ymddiried yn y modd y mae eu gwasanaeth iechyd yn cael ei redeg. Mae, wrth gwrs, yn sefydliad enfawr—dyma gyflogwr mwyaf y wlad ac, yn amlwg, mae'n darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol yr ydym yn dibynnu cymaint arno. Felly, mae'n destun pryder mawr nodi'r anesmwythdra a'r pryder ar draws Cymru o ran atebolrwydd yn ein gwasanaeth iechyd.

Mae'r methiant i ymchwilio i honiadau bod £1 biliwn o'r gyllideb iechyd yn cael ei gamwario, a wnaed gan Paul Davies—sef cadeirydd Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru-gyfan bryd hynny, nid ein Haelod Cynulliad—yn gwneud dim i hyder y cyhoedd yn rheolaeth Llywodraeth y Cynulliad o'r GIG. Mae'r un peth yn wir am y ddatl ynghylch adroddiad McKinsey, y gwariwyd £0.5 miliwn o arian cyhoeddus arno. Eto i gyd, mae'r Gweinidog yn diystyru'r adroddiad hwnnw erbyn hyn fel 'papur trafod bach', ac, yn gynharach y prynhawn yma, defnyddiodd y geiriau 'cân fach' yn falch iawn wrth sôn amdano. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymfalchïo yn y ffordd y mae'n rhedeg y gwasanaeth iechyd. Rhaid iddi fod yn agored ac yn atebol drwy gyhoeddi data ac ystadegau allweddol yn ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth. Ni ddylai diystyru honiadau nad yw'r gwasanaeth iechyd yn cael ei redeg yn ddigon effeithiol nac anwybyddu cwestiynau

certain information is not gathered centrally.

The Nuffield report highlighted concerns about a lack of transparency in the NHS in Wales and also proves how publishing key figures and statistics can drive up standards, which is something that we should be aspiring to in Wales, particularly given the gaps in performance in comparison with England. Clear productivity gains are evident in England due, in no small part, to the public reporting of performance. By contrast, in the devolved nations, the Nuffield report found that the quality and scope of available data was limited here. Devolution gives us the opportunity to develop a health service that works for Wales and to tackle the specific health problems that Wales faces. Yet, Nuffield has found that, if anything, devolution has resulted in a reduced willingness to collect key data.

In failing to publish detailed statistics, adequate benchmarks for success or the progress of service indicators, the Welsh Assembly Government is wasting opportunities to properly analyse the performance of the health service and to direct resources accordingly. The Minister must answer why the NHS in England spends less per head and has fewer doctors, nurses and managers per head, yet continues to make better and more effective use of resources. Clearly, there are problems. Last year, the NHS received a higher level of complaints than ever before: 8,131 were received in 2009-10. The complaints figures show a rise of nearly 44 per cent on the 2006-07 levels, which was the year before the 'One Wales' agreement was signed, with its aspiration for a 'world-class health service' for Wales.

5.10 p.m.

Failure to protect the NHS budget in real terms will only strengthen public alarm. As I said to the First Minister yesterday, 75 per cent of the Welsh public oppose the £880 million of cuts that will be imposed over the

ar atebolrwydd. Nid yw cwestiynau allweddol ar berfformiad y GIG yn cael eu hateb gan nad yw gwybodaeth benodol yn cael ei chasglu'n ganolog.

Roedd adroddiad Nuffield yn tynnu sylw at bryderon ynghylch diffyg tryloywder yn y GIG yng Nghymru, ac mae hefyd yn profi sut y gall cyhoeddi ffigurau ac ystadegau allweddol godi safonau. Mae hynny'n rhywbeth y dylem fod yn anelu ato yng Nghymru, yn enwedig o ystyried y bylchau yn y perfformiad o'i gymharu â Lloegr. Mae enillion clir o ran cynhyrchiant yn amlwg yn Lloegr yn sgîl adrodd yn gyhoeddus am berfformiad, i raddau helaeth. Yn groes i hynny, yn y gwledydd datganoledig, mae adroddiad Nuffield yn canfod bod ansawdd a chwmpas y data sydd ar gael yn gyfyngedig yma. Mae datganoli yn rhoi cyfle inni ddatblygu gwasanaeth iechyd sy'n gweithio i Gymru ac i fynd i'r afael â'r problemau iechyd penodol sy'n wynebu Cymru. Eto i gyd, mae Nuffield wedi canfod bod datganoli wedi arwain, os rhywbeth, at lai o barodrwydd i gasglu data allweddol.

Wrth fethu â chyhoeddi ystadegau manwl, meincnodau digonol ar gyfer llwyddiant neu gynnydd y dangosyddion gwasanaeth, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwastraffu cyfleoedd i ddadansoddi perfformiad y gwasanaeth iechyd yn briodol ac i gyfeirio adnoddau yn unol â hynny. Rhaid i'r Gweinidog ateb pam mae'r GIG yn Lloegr yn gwario llai y pen ac mae ganddo lai o feddygon, nyrsys a rheolwyr y pen, ac eto yn dal i ddefnyddio adnoddau'n well ac yn fwy effeithiol. Mae'n amlwg bod problemau. Y llynedd, cafodd y GIG lefel uwch o gwynion nag erioed o'r blaen: cafwyd 8,131 yn 2009-10. Mae'r ffigurau cwynion yn dangos cynnydd o bron i 44 y cant ar lefelau 2006-07, sef y flwyddyn y llofnodwyd y cytundeb 'Cymru'n Un', gyda'i dyhead am 'wasanaeth iechyd o'r radd flaenaf' ar gyfer Cymru.

Bydd methiant i amddiffyn cyllideb y GIG mewn termau real ond yn cryfhau ofnau'r cyhoedd. Fel y dywedais wrth y Prif Weinidog ddoe, mae 75 y cant o bobl Cymru yn gwrthwynebu'r £880 miliwn o doriadau a

next three years.

To conclude, given that the claims regarding the £1 billion of misspent funds are not being investigated, that the McKinsey report is being suppressed, and that the Welsh NHS lacks the openness and transparency of the national health service in England, there is growing public disquiet about the way in which the Welsh Assembly Government is running the NHS, and that cannot be allowed to continue. I urge the Minister to support the motion.

**Nick Ramsay:** The motion is straightforward. I notice that the Government is not looking to amend it, so perhaps it takes on board the comments in it, although that is probably a vain hope. It is a motion that pinpoints the issues regarding accountability—or, as we say in the motion, the lack of accountability—that are causing increasing concern. From listening to Dr Dai Lloyd and Dr Brian Gibbons, beyond the party politics, which have not featured in the debate as much as they have in previous debates on the NHS, I see that there is a lot of agreement on this issue as well as on the need to address some of the problems that have been highlighted. The Minister was asked earlier whether she took the issue seriously. I think that the Minister does take the issue incredibly seriously; that is one thing that you would not accuse the Minister of not doing. Beyond that, we disagree on whether the policies that are being pursued by the One Wales Government in this regard deal with the situation.

Brian Gibbons said that we needed to look at new models; in many ways, I agree with that. However, the old issue of the internal market comes up time and again. If you were able to say to me, Brian, that you had got rid of the internal market and that there was a massive improvement in the NHS in respect of accountability and transparency, you never know, I might well come over to your line of thinking. The problem is that, even though you talk about that internal market reform, the people of Wales have not seen any massive improvement in the health service that they are receiving, and there has not been a decrease in the level of complaints

fydd yn cael eu gosod dros y tair blynedd nesaf.

I gloi, o ystyried nad oes ymchwiliad i'r honiadau ynglŷn â £1 biliwn o arian yn cael ei gamwario, bod adroddiad McKinsey yn cael ei ffrwyno, ac nad oes gan y GIG yng Nghymru y natur agored a thryloyw a welir yn y gwasanaeth iechyd gwladol yn Lloegr, mae anesmwythyd cynyddol ymhlith y cyhoedd am y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhedeg y GIG, ac ni ellir caniatáu i hyn barhau. Anogaf y Gweinidog i gefnogi'r cynnig.

**Nick Ramsay:** Mae'r cynnig yn syml. Sylwaf nad yw'r Llywodraeth yn bwriadu ei wella, felly efallai y bydd yn derbyn y sylwadau sydd ynddo, er ofer mae'n siŵr y byddai gobeithio hynny. Mae'n gynnig sy'n amlygu materion ynghylch atebolrwydd—neu, fel y dywedwn yn y cynnig, diffyg atebolrwydd—sy'n achosi pryder cynyddol. O wrando ar Dr Dai Lloyd a Dr Brian Gibbons, gan fynd y tu hwnt i wleidyddiaeth pleidiau, nad yw wedi bod yn rhan o'r ddadl gymaint ag y bu mewn dadleuon blaenorol ar y GIG, rwyf yn gweld bod llawer o gytundeb ar y mater hwn yn ogystal ag ar yr angen i fynd i'r afael â rhai o'r problemau a amlygwyd. Gofynnwyd i'r Gweinidog yn gynharach a oedd yn cymryd y mater o ddifrif. Credaf fod y Gweinidog yn cymryd y mater o ddifrif iawn; mae hynny yn un peth na fydddech yn cyhuddo'r Gweinidog o beidio â'i wneud. Y tu hwnt i hynny, rydym yn anghytuno ynghylch a yw'r polisïau sy'n cael eu dilyn gan gytundeb Cymru'n Un y Llywodraeth yn hyn o beth yn ymdrin â'r sefyllfa.

Dywedodd Brian Gibbons fod angen inni edrych ar fodelau newydd; rwyf yn cytuno â hynny, mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, mae'r hen bwnc sef y farchnad fewnol yn codi dro ar ôl tro. Pe baech yn gallu dweud wrthyf, Brian, eich bod wedi cael gwared ar y farchnad fewnol a bod gwelliant enfawr yn y GIG o ran atebolrwydd a thryloywder, wyddoch chi byth, efallai y byddwn yn cytuno â'ch ffordd o feddwl. Y broblem yw, er eich bod yn siarad am y diwygio hwnnw gyda'r farchnad fewnol, nid yw pobl Cymru wedi gweld dim gwelliant mawr yn y gwasanaeth iechyd y maent yn ei dderbyn, ac ni fu gostyngiad yn lefel y cwynion a

received.

Mohammad Asghar mentioned the number of complaints, and they are intriguing. There has been a steady increase in the number to over 8,000 complaints this year, compared with 5,000 in 2003. As we know, the Welsh Assembly Government set a target that, by March 2009, no patient should wait more than 14 weeks for in-patient treatment, or 10 weeks for a first out-patient appointment. I am sure that everyone in the Chamber believes that those targets are the right ones, and I am sure that everyone believes that it would have been far better if those targets had been met. However, sadly, we know that that is not the case.

In the past I have criticised the abolition of community health councils, as has my party. We believe that the decision to do that was taken despite a great deal of evidence to the contrary. I was a little surprised by Veronica German's comments about a lack of transparency, although she did mention the decision to save neuroscience services in Swansea, which again occurred despite a great deal of opposition with regard to the independent review. Perhaps the Minister can say a little about that when she speaks later.

The fact that the reorganisation of the NHS took place in the middle of the financial year—again, despite the advice of the Wales Audit Office—is another questionable issue. Why is it that, if we are to believe that things in the NHS are getting better and that all these organisations are being listened to, the Assembly Government seems to be taking decisions in some cases that cannot necessarily be evidenced?

I agree completely with comments regarding benchmarking. In some cases we have seen a decrease in data since devolution. My understanding of devolution, as someone who is playing a full role in it—earlier we had a great discussion about where devolution can take Wales positively, with regard to Ann Jones' proposed Measure on domestic fire safety—is that it should improve matters. I have total sympathy with the Minister, in that

gafwyd.

Soniodd Mohammad Asghar am nifer y cwynion, ac mae hyn yn ddi-ddorol. Bu cynnydd cyson yn y nifer i dros 8,000 o gwynion eleni, o'i gymharu â 5,000 yn 2003. Fel y gwyddom, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod targed sef, erbyn mis Mawrth 2009, ni ddylai dim claf aros mwy na 14 wythnos am driniaeth claf mewnol, neu 10 wythnos am apwyntiad cyntaf fel claf allanol. Rwyf yn siŵr bod pawb yn y Siambr yn credu mai'r targedau hynny yw'r rhai cywir, ac rwyf yn siŵr bod pawb yn credu y byddai wedi bod yn llawer gwell pe byddai'r targedau hynny wedi eu cyrraedd. Fodd bynnag, yn anffodus, rydym yn gwybod nad yw hynny wedi digwydd.

Yn y gorffennol, rwyf wedi beirniadu diddymu'r cynghorau iechyd cymuned, ac mae fy mhlaidd wedi gwneud hynny hefyd. Rydym yn credu bod y penderfyniad i wneud hynny wedi'i wneud er gwaethaf llawer iawn o dystiolaeth i'r gwrthwyneb. Cefais fy synnu ychydig gan sylwadau Veronica German am ddiffyg tryloywder, er iddi gyfeirio at y penderfyniad i arbed gwasanaethau niwrowyddoniaeth yn Abertawe, a ddigwyddodd eto er gwaethaf cryn dipyn o wrthwynebiad o ran yr adolygiad annibynnol. Efallai y gall y Gweinidog ddweud ychydig am hynny pan fydd yn siarad yn nes ymlaen.

Mae'r ffaith bod y GIG wedi cael ei ad-drefnu yng nghanol y flwyddyn ariannol—eto, er gwaethaf cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru—yn fater dadleuol arall. Os ydym yn credu bod pethau yn y GIG yn gwella a bod rhywun yn gwrandao ar yr holl sefydliadau hyn, pam mae Llywodraeth y Cynulliad i bob golwg yn gwneud penderfyniadau mewn rhai achosion na ellir o reidrwydd gael tystiolaeth ar eu cyfer?

Cytunaf yn llwyr â sylwadau ynghylch meincodi. Mewn rhai achosion rydym wedi gweld gostyngiad yn y data ers datganoli. Fy nealltwriaeth o ddatganoli, fel rhywun sy'n chwarae rhan lawn yn y broses—yn gynharach cawsom drafodaeth wych am i ba gyfeiriad y gall datganoli fynd â Chymru yn gadarnhaol, o ran Mesur arfaethedig Ann Jones ar ddiogelwch tân yn y cartref—yw y dylai wella pethau. Rwyf yn cydymdeimlo'n

if you do not have the data, how on earth can you make decisions and put in place policies that will improve matters? If we had formed the Assembly Government, then no doubt we would be facing the same problem. Looking beyond the party political viewpoints, which have, to an extent, been expressed here, let us look forward to how we can address these concerns and let us at least get better data collection in place so that the correct decisions can be taken and that patients, who everyone here wants to help, can have confidence in the NHS. This motion draws attention to the fact that we feel that there is disquiet at the moment. We think that greater transparency would help, and we look to the Minister, in the spirit in which this motion has been brought forward, to suggest ways in which we can all move forward together and get the sort of transparency within the NHS that everyone would like to see.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** I thank Nick for assuring me that he does not doubt my credentials in wanting to be accountable. I want to be accountable, and I do feel accountable. I do not think that I have ever shied away from saying that the Government and, more specifically, I, as Minister for Health and Social Services, are ultimately accountable for the running of the health service. David Melding made the point that, never mind about the politics of it, at the end of the day, we all have to recognise our responsibilities and roles. It is my role in Government to update you regularly as Assembly Members and to provide information to the Health, Wellbeing and Local Government Committee, but my greater duty is to ensure that the Welsh national health service is built firmly on the foundations of accountability and transparency. I have sought to strengthen that since I became Minister for health, because the underpinning principle of the new NHS structure and governance arrangements was to ensure openness, transparency and accountability. If you look the structures that I have, my national advisory board meets in public, all its papers and minutes are published, and I have five independent members on the board, whom I did not select,

llwyr â'r Gweinidog, o ran os nad oes gennych y data, sut ar y ddaear y gallwch wneud penderfyniadau a llunio polisiau a fydd yn gwella pethau? Pe byddem wedi ffurfio Llywodraeth y Cynulliad, yna nid oes amheuaeth y byddem yn wynebu'r un broblem. Gan edrych y tu hwnt i safbwyntiau pleidiau gwleidyddol, sydd, i raddau, wedi'u mynegi yma, gadewch inni edrych ymlaen at sut y gallwn fynd i'r afael â'r pryderon hyn a gadewch inni o leiaf gasglu data yn well fel bod mod gwneud y penderfyniadau cywir a bod modd i'r cleifion, y mae pawb yma am eu helpu, gael hyder yn y GIG. Mae'r cynnig hwn yn tynnu sylw at y ffaith ein bod yn teimlo bod anesmwythyd ar hyn o bryd. Rydym yn credu y byddai mwy o dryloywder yn helpu, ac rydym yn disgwyl i'r Gweinidog, yn yr ysbryd y cyflwynwyd y cynnig hwn, i awgrymu ffyrdd y gall pob un ohonom symud ymlaen gyda'n gilydd a chael y math o dryloywder o fewn y GIG yr hoffai pawb ei weld.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Diolch i Nick am fy sicrhau nad yw'n amau bod arnaf eisiau bod yn atebol. Hoffwn fod yn atebol, ac rwyf yn teimlo'n atebol. Nid wyf yn meddwl fy mod erioed wedi bod ag ofn dweud bod y Llywodraeth ac, yn fwy penodol, fy mod i, fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn atebol yn y pen draw am redeg y gwasanaeth iechyd. Gwnaeth David Melding y pwynt bod yn rhaid i bob un ohonom, ar ddiwedd y dydd, gydnabod ein cyfrifoldebau a'n rolau, waeth beth yw'r wleidyddiaeth. Fy rôl yn y Llywodraeth yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ichi fel Aelodau Cynulliad ac i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, ond mae gennyf fwy o ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaeth iechyd gwladol Cymru yn cael ei adeiladu'n gadarn ar sylfeini o atebolrwydd a thryloywder. Rwyf wedi ceisio cryfhau hynny ers imi ddod yn Weinidog iechyd, oherwydd mai egwyddor sylfaenol strwythur newydd y GIG a'r trefniadau llywodraethu oedd sicrhau didwylledd, tryloywder ac atebolrwydd. Os edrychwch ar y strwythurau sydd gennyf, mae fy mwrdd cynghori cenedlaethol yn cyfarfod yn gyhoeddus, cyhoeddir ei holl bapurau a chofnodion, ac mae gennyf bum aelod

but who were selected for me via an open public appointment process. Paul Williams has a national delivery group, which includes three non-executive directors, all appointed in accordance with Nolan principles. That group meets monthly and challenges Paul. The health boards and trusts also have greater accountability by having board meetings in public and their papers in the public domain.

However, I was taken by the points that Dr Brian Gibbons and Dr Dai Lloyd made about whether, even though we have these structures in place, there is something further we can do with regard to accountability and transparency in dealing with the public, to get messages across. I was quite taken by that. I was also relieved that those two clinicians in the Chamber commented on the role of clinicians and the tensions that exist in the system. That means that I do not have to comment on those particular issues in my response. A great many issues have been raised in this debate, and I want to cover the concerns that have been raised by a number of individuals about the role of community health councils. In light of recent stories, I think that it is worth saying that they have been strengthened in regions and they have relationships with the health boards, but there has to be a local focus through their committee structures, because that will enable effective representation for patients and the public across the health boards. They have to look at how this role develops. On Friday, I attended the community health councils conference, and some issues were raised with me in the question and answer session. I will be considering what arose from the conference with regard to how they feel that their role can perhaps be strengthened. I am always relieved that we kept community health councils as a nation. You may not necessarily like the structure that I have adopted for them now, but at least we have that structure in place.

Of course, Assembly Members also use community health councils to help them with some of their complaints about the health service. On the issue of complaints, I always

annibynnol ar y bwrdd. Nid y fi a'u dewisodd, ond fe'u dewiswyd imi drwy broses penodiadau cyhoeddus agored. Mae gan Paul Williams grŵp cyflenwi cenedlaethol, sy'n cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, pob un wedi'i benodi yn unol ag egwyddorion Nolan. Mae'r grŵp hwnnw yn cyfarfod bob mis ac yn herio Paul. Mae gan y byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd fwy o atebolrwydd hefyd drwy gael cyfarfodydd bwrdd yn gyhoeddus a sicrhau bod eu papurau ar gael i'r cyhoedd.

Fodd bynnag, fe'm trawyd gan y pwyntiau a wnaeth Dr Brian Gibbons a Dr Dai Lloyd ynghylch a oedd rhywbeth arall y gallwn ei wneud o ran atebolrwydd a thryloywder wrth ymdrin â'r cyhoedd, er mwyn cyfleu negeseuon, er bod gennym y strwythurau hyn ar waith. Gwnaeth hynny gryn argraff arnaf. Roeddwn yn falch hefyd fod y ddau glinigwr hynny yn y Siambr wedi cynnig sylwadau am rôl clinigwyr a'r tensiynau sy'n bodoli yn y system. Mae hynny'n golygu nad oes yn rhaid imi wneud sylwadau am y materion penodol hynny yn fy ymateb. Mae llawer iawn o faterion wedi'u codi yn y ddaid hon, ac rwyf am roi sylw i'r pryderon a godwyd gan sawl unigolyn am rôl y cynghorau iechyd cymuned. Yn sgîl y straeon diweddar, rwyf yn credu ei bod yn werth dweud eu bod wedi cael eu cryfhau mewn rhanbarthau a bod ganddynt berthynas â'r byrddau iechyd, ond mae'n rhaid iddynt gael ffocws lleol drwy strwythurau eu pwyllgorau, oherwydd bydd hynny'n rhoi cynrychiolaeth effeithiol i gleifion a'r cyhoedd ar draws y byrddau iechyd. Rhaid iddynt edrych ar sut y mae'r rôl hon yn datblygu. Ar ddydd Gwener, bŵm mewn cynhadledd cynghorau iechyd cymuned, a chodwyd rhai materion gyda mi yn y sesiwn holi ac ateb. Byddaf yn ystyried yr hyn a ddeilliodd o'r gynhadledd o ran sut, yn eu barn hwy, y gellir cryfhau eu rôl efallai. Rwyf bob amser yn falch ein bod fel gwlad wedi cadw'r cynghorau iechyd cymuned. Efallai nad ydych o reidrwydd yn hoffi'r strwythur yr wyf wedi'i fabwysiadu ar eu cyfer yn awr, ond o leiaf mae gennym y strwythur hwnnw ar waith.

Wrth gwrs, mae Aelodau'r Cynulliad hefyd yn defnyddio cynghorau iechyd cymuned i'w helpu gyda rhai o'u cwynion am y gwasanaeth iechyd. O ran cwynion, rwyf bob

encourage people to make complaints within the system, because, sometimes, the only way that you learn is when people complain. We are treating more and more people in the service, and I can see why complaints arise, but I want people to say what issues they have, because if you see a pattern emerging in complaints, I honestly believe that you can deal with some of those issues. I also understand the points that you were making, David, about clear benchmarking. We enjoy the social model of medicine here. There are points in the Nuffield Trust's report that I will be considering. I think that it is important that we have confidence that we are achieving the right outcomes for individuals. Veronica made a very good point when she said that we are measuring things all the time and asked whether we are actually measuring the quality of the outcome for the individual or whether, sometimes, we are just measuring for measurement's sake. I was particularly interested in her comments about targets and what we need to look at in that regard. We have started to look at intelligent targets that are credible with regard to the outcome for the individual.

5.20 p.m.

On the issues with regard to the data that we provide, the Statistical Directorate is looking at whether we need to improve our data gathering and what data we need to focus on. Like David, I am keen on the issues with regard to community treatment orders. I think that I indicated in an earlier debate that it is an issue that I am more than happy to take up, because I think that those are the sort of areas where we need a clear understanding of what data are available.

When we are going through things, transparency is sometimes very difficult to achieve, because, unless you present the information in a way that is easily understood, it is not transparent. That is the key with regard to information for the public. When the public is being consulted, we have to look at how we deal with those information issues. On transparency and standards, in April, we issued an updated

amser yn annog pobl i gwyno o fewn y system, oherwydd, weithiau, yr unig ffordd y byddwch yn dysgu yw pan fydd pobl yn cwyno. Rydym yn trin mwy a mwy o bobl yn y gwasanaeth, a gallaf weld pam mae cwynion yn codi, ond rwyf am i bobl ddweud pa broblemau sydd ganddynt, oherwydd os byddwch yn gweld patrwm yn dod i'r amlwg yn y cwynion, rwyf wir yn credu eich bod yn gallu ymdrin â rhai o'r problemau hynny. Rwyf hefyd yn deall y pwyntiau a wnaethoch, David, am feincnodi clir. Rydym yn mwynhau'r model cymdeithasol o feddyaeth yma. Ceir pwyntiau yn adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield y byddaf yn eu hystyried. Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn hyderus ein bod yn cyflawni'r canlyniadau cywir ar gyfer unigolion. Gwnaeth Veronica bwynt da iawn pan ddywedodd ein bod yn mesur pethau drwy'r amser a phan ofynnodd a ydym mewn gwirionedd yn mesur ansawdd y canlyniad ar gyfer yr unigolyn neu a ydym, weithiau, yn mesur dim ond er mwyn mesur. Roedd gennyf ddiddordeb arbennig yn ei sylwadau am dargedau a'r hyn y mae angen inni edrych arno yn y cyswllt hwnnw. Rydym wedi dechrau edrych ar dargedau deallus sy'n gredadwy o ran y canlyniad i'r unigolyn

O ran y materion sy'n ymwneud â'r data a ddarparwn, mae'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn edrych a oes angen inni wella ein casglu data a pha ddata y mae angen inni ganolbwyntio arnynt. Fel David, rwyf yn frwd dros y materion sy'n ymwneud â gorchmynion triniaeth gymunedol. Credaf imi ddweud mewn dadl gynharach fod hyn yn fater yr wyf yn fwy na bodlon rhoi sylw iddo, gan fy mod yn credu mai dyna'r math o feysydd y mae angen inni wybod yn glir pa ddata sydd ar gael.

Pan fyddwn yn mynd drwy bethau, mae tryloywder weithiau yn anodd iawn ei gyflawni, oherwydd, oni bai eich bod yn cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd sy'n hawdd ei deall, nid yw'n dryloyw. Dyna'r allwedd o ran rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd. Pan ymgynghorir â'r cyhoedd, mae'n rhaid inni edrych ar sut yr ydym yn ymdrin â'r materion hynny sy'n ymwneud â gwybodaeth. Ynghylch tryloywder a safonau,

framework for the standards, which set out the requirements with regard to what is expected of all health services in all settings, and NHS organisations and services need to demonstrate continuous improvement against the standards.

The new standards are very good, because they include ensuring that the rights of the child are more prominent, ensuring that carers are recognised, and mainstreaming health promotion and improvement throughout the standard, to promote a wellness service as opposed to a sickness service. Of course, we are also developing a new standard on dignity and respect, and a greater emphasis on handling and investigating concerns and managing incidents openly. That is the point about complaints: when issues arise, they must be dealt with openly.

Of course, in addition, when you look at the whole issue of transparency, standards and so on, the other area that we must look at is the 1000 Lives Plus campaign, which has an increased emphasis on patient-centred care. This is all part of the wider agenda that we have been discussing today.

The future of performance management is also a key issue in the discussions that we have had today. There have been significant improvements in performance on waiting times and other targets, but it is now time to place a greater emphasis on the input that clinical teams, citizens and stakeholders can have in determining the best measures and what constitute good outcomes and good patient experience. However, sustainable improvement can only be brought about by tapping into the potential of the whole workforce to generate lasting improvement and innovation. We need to be less about command and control with centrally driven targets, and perhaps more about freedom for staff to innovate and improve services. That will be coming across in the annual operating framework.

Obviously, Members, including Darren, have specifically mentioned issues in north Wales and the report that the committee is

ym mis Ebrill, aethom ati i gyflwyno fframwaith wedi'i ddiweddarau ar gyfer y safonau, a oedd yn nodi'r gofynion o ran yr hyn a ddisgwylir gan yr holl wasanaethau iechyd ym mhob lleoliad, ac mae angen i sefydliadau a gwasanaethau'r GIG ddangos gwelliant parhaus yn erbyn y safonau.

Mae'r safonau newydd yn dda iawn, am eu bod yn cynnwys sicrhau bod hawliau'r plentyn yn fwy amlwg, sicrhau bod gofawyr yn cael eu cydnabod, a phrif ffrydio'r gwaith hybu a gwella iechyd drwy gydol y safon, i hyrwyddo gwasanaeth lles yn hytrach na gwasanaeth salwch. Wrth gwrs, rydym hefyd yn datblygu safon newydd ar urddas a pharch, ac yn rhoi mwy o bwyslais ar drin ac ymchwilio i bryderon a rheoli digwyddiadau yn agored. Dyna'r pwynt am gwynion: pan fydd problemau yn codi, rhaid ymdrin â hwy yn agored.

Wrth gwrs, yn ogystal, pan fyddwch yn edrych ar yr holl fater o dryloywder, safonau ac yn y blaen, y maes arall y mae'n rhaid inni edrych arno yw'r ymgyrch 1000 o Fywydau a Mwy, sydd â mwy o bwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf. Mae hyn i gyd yn rhan o'r agenda ehangach yr ydym wedi bod yn ei thrafod heddiw.

Mae dyfodol rheoli perfformiad hefyd yn fater allweddol yn y trafodaethau rydym wedi'u cael heddiw. Bu gwelliannau sylweddol mewn perfformiad ar amseroedd aros a thargedau eraill, ond mae'n bryd yn awr i roi mwy o bwyslais ar y cyfraniad y gall y timau clinigol, dinasyddion a rhanddeiliaid ei roi wrth benderfynu ar y camau gorau a beth sy'n gwneud canlyniadau da a phrofiad da i gleifion. Fodd bynnag, dim ond drwy fanteisio ar botensial y gweithlu cyfan i beri gwelliant parhaol ac arloesi y gellir cael gwelliant cynaliadwy Mae angen inni ganolbwyntio llai ar orchymyn a rheoli gyda thargedau o'r canol, a chanolbwyntio mwy efallai ar ryddid i staff arloesi a gwella gwasanaethau. Bydd hynny'n cael ei gyfleu yn y fframwaith gweithredu blynyddol.

Yn amlwg, mae'r Aelodau, gan gynnwys Darren, wedi nodi'n benodol faterion yn y gogledd a'r adroddiad sy'n cael ei wneud gan



undertaking. I will take the opportunity to remind Members that guidance has been issued to the NHS on consulting more effectively with their local communities if there are any changes to the services provided. That means that health boards have to explain what is proposed and what it means to local people. The current reviews of services in north Wales are ways of exploring new and better ways of providing health services. It has been made very clear from the beginning that they are not formal consultations about proposals to change, but an information gathering exercise, and I think that we have to see them in that way.

**Darren Millar:** Thank you for that reassurance, Minister. If a health board—no matter where it is in Wales—is found to have serious shortcomings in the way that it engages with and consults the public, will you intervene in a review to ensure that that is put right?

**Edwina Hart:** I have intervened in the past, once a health board has reached a formal position, when I have not been satisfied with what is going on. Of course, I am not naturally an interventionist, but, as I say sometimes, it is important as Minister to take the global view of health services in Wales. I want to make that clear. However, I have to say, Darren, that I know that people are very worried about maternity services. You said that there is concern that there might be a midwifery-led service in Glan Clwyd Hospital. Let us be quite clear: midwives are professionals. There are many midwifery-led services in Wales, and I would not like there to be any implication that that would not be suitable if that were to end up being the option chosen. However, a conclusion has not been reached on that.

From my perspective, this has been an extremely interesting discussion. I have been very pleased by the tone of the debate and the contributions of Members on this. However, the Government will be opposing the motion.

**Jonathan Morgan:** I wish to start by

y pwyllgor. Manteisiaf ar y cyfle i atgoffa Aelodau fod canllawiau wedi cael eu dosbarthu i'r GIG ar ymgynghori'n fwy effeithiol â'u cymunedau lleol os oes unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i fyrddau iechyd egluro'r hyn a gynigir a'r hyn y mae'n ei olygu i bobl leol. Mae'r adolygiadau presennol o wasanaethau yn y gogledd yn fodd o edrych ar ffyrdd newydd a gwell o ddarparu gwasanaethau iechyd. Cyflëwyd yn glir iawn o'r dechrau nad ydynt yn ymgynghoriadau ffurfiol am gynigion i newid, ond yn ymarfer casglu gwybodaeth, a chredaf fod yn rhaid inni eu gweld yn y ffordd honno.

**Darren Millar:** Diolch am y sicrwydd hwnnw, Weinidog. Os yw bwrdd iechyd—pa le bynnag y mae yng Nghymru—yn methu'n ddifrifol o ran y ffordd y mae'n ymgysylltu ac yn ymgynghori â'r cyhoedd, a wnewch chi ymyrryd mewn adolygiad i sicrhau bod hynny'n cael ei gywiro?

**Edwina Hart:** Rwyf wedi ymyrryd yn y gorffennol, ar ôl i fwrdd iechyd gyrraedd sefyllfa ffurfiol, pan nad wyf wedi bod yn fodlon ar yr hyn sy'n digwydd. Wrth gwrs, nid wyf yn un am ymyrryd fel arfer, ond, fel rwyf yn ei ddweud weithiau, mae'n bwysig fel Gweinidog i edrych ar wasanaethau iechyd yng Nghymru o safbwynt byd-eang. Hoffwn wneud hynny'n glir. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud, Darren, fy mod yn gwybod bod pobl yn poeni'n fawr am wasanaethau mamolaeth. Dywedoch fod pryder y gall fod gwasanaeth o dan arweiniad bydwragedd yn Ysbyty Glan Clwyd. Gadewch inni fod yn hollol glir: mae bydwragedd yn weithwyr proffesiynol. Mae llawer o wasanaethau o dan arweiniad bydwragedd yng Nghymru, ac ni fyddwn yn hoffi bod unrhyw awgrym na fyddai hynny'n addas pe byddid yn dewis yr opsiwn hwnnw yn y pen draw. Fodd bynnag, nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch hynny.

O'm safbwynt i, mae'r drafodaeth hon wedi bod yn hynod ddiddorol. Rwyf wedi bod yn falch iawn â natur y ddadl a chyfraniadau'r Aelodau ar hyn. Fodd bynnag, bydd y Llywodraeth yn gwrthwynebu'r cynnig.

**Jonathan Morgan:** Hoffwn ddechrau drwy

thanking all of those who have spoken in the debate. It was certainly a very interesting debate, and it got even more interesting when the Minister spoke, because the Minister has confirmed in her speech this afternoon that there is now a move away from the hard targets that we have seen in Wales in the past 11 years and a half towards a system within which, hopefully, clinicians may have more flexibility. If that is the case, then there are three cheers from this side of the Chamber, because we believe that clinicians should have more flexibility; they are the ones who understand more about the treatment needed by their patients. While many of us accept the need for targets to help drive up standards where standards are lacking, there are better benchmarks and measurements to sustain performance in the longer term. If that is a genuine shift in policy, I certainly welcome that.

David Melding set the debate in context earlier when he talked about the fact that we should be about benchmarks, measurement, and about finding a way in which the public can find the health service to be more accessible, not just in the sense that it provides timely treatment, but also the information that people can have about their local hospital, the treatment that can be received, the nature of resources, how those resources are spent, and where services are provided. As David rightly said, transparency drives up standards. If our systems, expenditure and outcomes stay in the shadows, performance can suffer. As a result, the public will not understand how the NHS works; people will not be confident in challenging how services are delivered, and, consequently, we will see an NHS in Wales that lags continuously behind the rest of the United Kingdom in the way in which performance is measured and improved.

We have a long way to go to catch up with the rest of the UK in the collation of data. As Andrew R.T. Davies pointed out earlier, there is a whole set of data around cancer, stroke and heart disease that the Assembly Government simply does not collate centrally. Wales may have some of the worst statistics in the United Kingdom in these key areas, yet we in this institution do not know the true and correct picture that would allow

ddiolch i bawb sydd wedi siarad yn y ddadl. Roedd yn sicr yn ddadl ddiddorol iawn, ac aeth yn fwy diddorol fyth pan siaradodd y Gweinidog, gan fod y Gweinidog wedi cadarnhau yn ei haraith y prynhawn yma fod newid erbyn hyn o'r targedau caled yr ydym wedi'u gweld yng Nghymru dros yr 11 mlynedd a hanner diwethaf at gael system lle bydd gan glinigwyr, gobeithio, fwy o hyblygrwydd. Os daw hynny'n wir, yna daw bonllefau o'r ochr hon i'r Siambr, oherwydd rydym yn credu y dylai clinigwyr gael mwy o hyblygrwydd; y hwy yw'r bobl sy'n deall mwy am y driniaeth y mae ei hangen ar eu cleifion. Er bod llawer ohonom yn derbyn bod angen targedau i helpu i godi safonau lle mae safonau yn brin, mae gwell meincnodau a mesuriadau i'w cael er mwyn cynnal perfformiad yn y tymor hwy. Os yw hynny yn newid gwirioneddol mewn polisi, rwyf yn sicr yn croesawu hynny.

Rhoddodd David Melding y ddadl yn ei chyd-destun yn gynharach pan soniodd y dylem fod yn ymwneud â meincnodau, mesur, a dod o hyd i ffordd y gall y cyhoedd weld y gwasanaeth iechyd yn fwy hygyrch, nid dim ond ei fod yn darparu triniaeth yn amserol, ond hefyd y wybodaeth y gall pobl ei chael am eu hysbyty lleol, y driniaeth y gellir ei derbyn, natur yr adnoddau, sut y caiff yr adnoddau hynny eu gwario, ac ymhle y darperir gwasanaethau. Fel y dywedodd David yn briodol, mae tryloywder yn codi safonau. Os yw ein systemau, ein gwariant a'n canlyniadau yn aros yn y dirgel, gall perfformiad ddiodef. O ganlyniad, ni fydd y cyhoedd yn deall sut y mae'r GIG yn gweithio; ni fydd pobl yn hyderus wrth herio sut y darperir gwasanaethau, ac, o ganlyniad, byddwn yn gweld y GIG yng Nghymru yn llusgo drwy'r amser y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig o ran y ffordd y caiff perfformiad ei fesur a'i wella.

Mae gennym gryn ffordd i fynd i ddal i fyny â gweddill y DU o ran casglu data. Fel y dywedodd Andrew R.T. Davies yn gynharach, ceir set gyfan o ddata am ganser, strôc a chlefyd y galon nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn ei chasglu'n ganolog. Efallai bod gan Gymru rai o'r ystadegau gwaethaf yn y Deyrnas Unedig yn y meysydd allweddol hyn, ac eto nid ydym ni yn y sefydliad hwn yn gwybod beth yw'r gwir lun a fyddai'n

us to formulate a view on how we should tackle the problems around cancer, stroke and heart disease. Therefore, we need to improve the collation of those data.

Yet again, we have another report—the Nuffield Trust report—pointing out that, since devolution, the collection of data in Wales has worsened, and, when we compare Wales to the north-east of England, we see again that we are spending more per head of population on health, but getting less as a result. For those Members who think that that is a startling outcome, in the first Assembly the Wanless review was commissioned—incidentally, that was by the current Minister for health, although I think that she was the Finance Minister at the time—and Derek Wanless found exactly the same thing when he compared us with the north-east of England. We had very similar demographics, but we were spending more per head of population on health, and we were getting less at the other end. However, those lessons appear not to have been learned.

**Rhodri Morgan:** The comparison with the north-east of England only applies to industrial south Wales. There is no equivalent to mid, west and north Wales in the north-east of England, so you can forget that comparison. It is utterly irrelevant.

**Jonathan Morgan:** Sorry, Rhodri, but you are absolutely wrong. When you look at the Wanless review, which your Government commissioned, you will see that it compares Wales with the north-east of England specifically because of the demographics. As a result of that, Wanless concluded—*[Interruption.]* You are just saying that because you do not like the outcome of the Wanless review that you commissioned. *[Interruption.]* The Wanless review stated very clearly that we were spending more per head of population on health and getting less as a result. It is your fault if you do not like the outcome of the review that your Finance Minister commissioned. The Deputy Presiding Officer—*[Interruption.]*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I do

caniatáu inni ffurfio barn am sut y dylem fynd i'r afael â'r problemau ynghylch canser, strôc a chlefyd y galon. Felly, mae angen inni wella sut mae'r data hynny yn cael eu casglu.

Unwaith eto, mae gennym adroddiad arall—adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield—sy'n nodi bod casglu data wedi gwaethygu yng Nghymru ers datganoli, a, phan fyddwn yn cymharu Cymru â gogledd-ddwyrain Lloegr, gwelwn eto ein bod yn gwario mwy y pen o'r boblogaeth ar iechyd, ond yn cael llai o ganlyniadau. I'r Aelodau hynny sy'n credu bod hynny'n ganlyniad syfrdanol, yn y Cynulliad cyntaf comisiynwyd adolygiad Wanless—gyda llaw, y Gweinidog Iechyd presennol a wnaeth hynny, er rwyf yn meddwl mai'r Gweinidog Cyllid oedd hi ar y pryd—a chanfu Derek Wanless union yr un peth wrth iddo ein cymharu â gogledd-ddwyrain Lloegr. Roedd ein demograffeg yn debyg iawn, ond roeddem yn gwario mwy y pen o'r boblogaeth ar iechyd, ac roeddem yn cael llai yn y pen arall. Fodd bynnag, ymddengys nad ydym wedi dysgu o'r gwersi hynny.

**Rhodri Morgan:** Dim ond ag ardal ddiwydiannol de Cymru y mae'r gymhariaeth â gogledd-ddwyrain Lloegr yn berthnasol. Nid oes dim yn cyfateb i ganol, gorllewin a gogledd Cymru yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, felly gallwch anghofio'r gymhariaeth honno. Mae'n gwbl amherthnasol.

**Jonathan Morgan:** Mae'n ddrwg gennyf, Rhodri, ond rydych yn hollol anghywir. Pan edrychwch ar adolygiad Wanless, a gomisiynwyd gan eich Llywodraeth, gwelwch ei fod yn cymharu Cymru â gogledd-ddwyrain Lloegr yn benodol oherwydd y demograffeg. O ganlyniad i hynny, daeth Wanless i'r casgliad—*[Torri ar draws.]* Rydych ond yn dweud hynny am nad ydych yn hoffi canlyniad adolygiad Wanless a gomisiynwyd gennych. *[Torri ar draws.]* Roedd adolygiad Wanless yn datgan yn glir iawn ein bod yn gwario mwy y pen o'r boblogaeth ar iechyd ac yn cael llai ar y diwedd. Eich bai chi yw os nad ydych yn hoffi canlyniad yr adolygiad a gomisiynwyd gan eich Gweinidog Cyllid. Y Dirprwy Lywydd—*[Torri ar draws.]*

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid wyf yn

not think that we need any more barracking from the back row.

**Jonathan Morgan:** I think that we can do without the Member for Cardiff West doing his Father Jack impersonation. *[Laughter.]*

5.30 p.m.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Jonathan, that was not in keeping with your generally gracious manner.

**Jonathan Morgan:** Anyone who knows the hit series *Father Ted* will know that there is a certain character who mutters a lot. What we have heard this afternoon from Rhodri on the backbenches is a considerable amount of muttering, and I was merely responding to that.

When you look at the way in which money has been spent, there is a clear concern about the fact that £1 billion of public money is not being spent effectively. It was right for us as the opposition to ask for that to be investigated, but it was not. The public has a right to expect that its money is spent delivering the most efficient and effective service. The concern of the NHS directors of finance demonstrates that that money has not been effectively spent.

In the whole series of the 'One Wales' commitments, we see a situation where commitments will not be met or whose outcomes have not been explained to the public.

Finally, the Government's plans to scrap the use of the independent sector for the delivery of NHS care means that we will potentially lose services in Wales. That commitment was designed by Adam Price, and it does not make sense, therefore the Minister must explain those things to the public if we are to improve accountability and transparency.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is an objection. I therefore defer all voting until

meddwl bod angen rhagor o weiddi o'r meinciau ôl.

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn meddwl y gallwn wneud heb yr Aelod dros Orllewin Caerdydd yn dynwared Father Jack. *[Chwerthin.]*

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Jonathan, nid oedd hynny yn cyd-fynd â'ch ffordd rasol arferol.

**Jonathan Morgan:** Bydd unrhyw un sy'n gyfarwydd â'r gyfres boblogaidd *Father Ted* yn gwybod bod cymeriad arbennig ynddi sy'n siarad llawer dan ei ddannedd. Yr hyn yr ydym wedi'i glywed y prynhawn yma gan Rhodri ar y meinciau cefn yw cryn dipyn o siarad dan ei ddannedd, ac ymateb i hynny roeddwn i.

Pan fyddwch yn edrych ar y modd y mae arian wedi cael ei wario, mae pryder amlwg nad yw £1 biliwn o arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol. Roedd yn iawn inni fel yr wrthblaid ofyn am ymchwiliad i hynny, ond ni ymchwiliwyd iddo. Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl bod ei arian yn cael ei wario ar ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae pryder cyfarwyddwyr cyllid y GIG yn dangos nad yw'r arian wedi cael ei wario'n effeithiol.

Yn y gyfres gyfan o ymrwymadau 'Cymru'n Un', rydym yn gweld sefyllfa lle na fydd ymrwymadau yn cael eu bodloni neu ni fydd eu canlyniadau wedi cael eu hesbonio i'r cyhoedd.

Yn olaf, mae cynlluniau'r Llywodraeth i beidio â defnyddio'r sector annibynnol i ddarparu gofal y GIG yn golygu y byddwn o bosibl yn colli gwasanaethau yng Nghymru. Adam Price a oedd yn gyfrifol am yr ymrwymiad hwnnw, ac nid yw'n gwneud synnwyr, felly mae'n rhaid i'r Gweinidog esbonio'r pethau hynny i'r cyhoedd os ydym am wella atebolrwydd a thryloywder.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod

voting time.

It is now past 5 p.m., which was the suggested voting time. I intend to move straight to the vote. Does anyone wish to have the bell rung? I see that no-one wishes the bell to be rung.

*Gohiriwyd y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.*

*Vote deferred until voting time.*

pleidleisio.

Mae bellach wedi troi 5 o'r gloch, sef yr amser pleidleisio a awgrymwyd. Rwyf yn bwriadu symud yn syth i bleidlais. A oes unrhyw un yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes unrhyw un yn dymuno hynny.

### **Cyfnod Pleidleisio Voting Time**

*Cynnig NDM4595: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 30.  
Motion NDM4595: For 16, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Veronica  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Law, Trish  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

### **Dadl Fer Short Debate**

## Yr Hawl i Chwarae The Right to Play

**Helen Mary Jones:** Eleanor Burnham has been kind enough to ask for a minute of my time, which I have allowed.

It was my privilege yesterday to take part in one of the most enjoyable and joyous events that the Assembly has ever seen. Eighty children and young people, many of whom had contributed evidence to the Children and Young People's Committee's inquiry into safe places to play and hang out, spent an hour enjoying themselves outside the Assembly's front door. There was 'sort of' organised sport, including basketball and hockey. There was dance, there were chinks for drawing on the pavement—I drew a fine flower that was ably coloured in by two of our small guests aged three and four—there was a teddy available, but everyone was too busy to hug her, and stories were available to be read, but there was too much energy for that to happen this time. All of that was topped off by the unexpected arrival of the members of the Australian youth rugby team, who came for a formal visit to the Senedd and stopped to play with the children instead.

It was an occasion that my fellow committee members, Eleanor Burnham, Jonathan Morgan and Lynne Neagle will never forget. While I am still trying to find and suppress the filmed footage of me playing basketball, I have not had such fun in ages.

This was the launch of the committee's report, and the most informal formal launch in the history of the Assembly so far, and I thank all of those who took part, namely the staff of the committee and fellow committee members, people from Urdd Gobaith Cymru who attempted to organise what cannot be organised, and all the children and adults that they brought with them.

This short debate is not a preview of the formal debate on the report that we will have when the Government responds to our recommendations—I look forward to that response very much. Rather, this is a personal perspective on the value and importance of

**Helen Mary Jones:** Mae Eleanor Burnham wedi bod yn ddigon caredig i ofyn am funud o'm hamser, ac rwyf wedi caniatáu hynny.

Roedd yn ffrind imi gymryd rhan ddoe yn un o'r digwyddiadau mwyaf pleserus a hapus y mae'r Cynulliad wedi ei weld erioed. Bu wyth deg o blant a phobl ifanc, llawer ohonynt wedi cyfrannu tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar fannau diogel i chwarae a chymdeithasu, yn treulio awr yn mwynhau eu hunain y tu allan i ddrws ffrynt y Cynulliad. Roedd 'rhyw fath o' chwaraeon wedi'u trefnu, gan gynnwys pêl-fasged a hoci. Cafwyd dawn, roedd sialc ar gyfer tynnu llun ar y palmant—tynnais lun blodyn hyfryd a bu dau o'n gwsteion bach, tair a phedair oed, yn ei liwio'n ddel—roedd tedi ar gael, ond roedd pawb yn rhy brysur i'w chofleidio, ac roedd straeon ar gael i'w darllen, ond roedd gormod o ynni i hynny ddigwydd y tro hwn. I goroni'r cyfan, a hynny'n annisgwyl, cyrhaeddodd aelodau tîm rygbi ieuencid Awstralia. Roeddent yn ymweld yn ffurfiol â'r Senedd, ond gwnaethant aros i chwarae gyda'r plant yn lle hynny.

Roedd yn achlysur na wnaiff fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor, Eleanor Burnham, Jonathan Morgan a Lynne Neagle ei anghofio. Er fy mod yn dal i geisio dod o hyd i'r ffilm sydd ohonof yn chwarae pêl-fasged a'i stopio, nid wyf wedi cael hwyl debyg ers talwm.

Dyma oedd lansiad adroddiad y pwyllgor, a lansiad ffurfiol mwyaf anffurfiol yn hanes y Cynulliad hyd yma, a hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran, sef staff y pwyllgor a chyd-aelodau'r pwyllgor, pobl o Urdd Gobaith Cymru a geisiodd drefnu'r hyn na ellir ei drefnu, a'r holl blant ac oedolion a ddaeth gyda hwy.

Nid yw'r ddadl fer hon yn rhagolwg o'r drafodaeth ffurfiol ar yr adroddiad a gawn pan fydd y Llywodraeth yn ymateb i'n hargymhellion—rwyf yn edrych ymlaen at yr ymateb hwnnw yn fawr iawn. Yn hytrach, safbwynt personol yw hwn ar werth a

play. Yesterday's launch was great fun, but it was much more than that. You could literally see the children and young people growing and learning before your eyes. Some threw themselves into their activities straight away and some had to be encouraged gently to join in. As they played together, they formed new communities, supported and included each other, big ones looking after little ones. They began to get to know each other, testing each other's boundaries and challenging each other. There was no falling out on that occasion, but there often is when children play, and, through play, children learn how to resolve such matters. They exercised their imagination and creativity through drawing and music, their bodies by running and jumping, and their social skills by building teams. It was truly good to see. That is what children do when they play: they learn to be. Play is not a luxury, it is an essential, and here I want to quote that great Welshman, Lloyd George—I am not in the habit of quoting Liberal Democrats these days, but I will make an exception on this occasion, because he was absolutely spot on. All that time ago, he said:

'The right to play is a child's first claim on the community. Play is nature's training for life. No community can infringe that right without doing...enduring harm to the minds and bodies of its citizens.'

It should come as no surprise to us, therefore, that when the Children and Young People Committee asked children across Wales what they thought was important and what they wanted us as a committee to address, safe places to play and to spend time with their friends came out so high on their list. I am sure that we all agree that we owe it to all children to ensure that they get that chance to play safely and happily. There are those who will tell us that all children know how to play and that if we, as adults, get out of their way and leave them alone, they will get on with it. It may or may not be the case that play is somehow innate or instinctive, but in my previous professional life, I too often came across children who had either never learned to play or had learned that they had better

phwysigrwydd chwarae. Roedd lansiad ddoe yn llawer o hwyl, ond roedd yn llawer mwy na hynny. Gallech weld y plant a phobl ifanc yn tyfu ac yn dysgu o flaen eich llygaid. Roedd rhai yn ymuno â'r gweithgareddau yn syth, tra bod yn rhaid annog eraill yn dawel fach i ymuno. Wrth iddynt chwarae gyda'i gilydd, roeddent yn ffurfio cymunedau newydd, yn cefnogi ei gilydd ac yn cael eu cynnwys gan ei gilydd, y rhai mawr yn gofalu am y rhai bach. Gwnaethant ddechrau dod i adnabod ei gilydd, gan roi ffiniau ei gilydd ar brawf a herio ei gilydd. Nid oedd dim cweryla ar yr achlysur hwnnw, ond ceir anghytuno yn aml pan fydd plant yn chwarae, a, thrwy chwarae, mae plant yn dysgu sut mae datrys materion o'r fath. Buont yn ymarfer eu dychymyg a'u creadigrwydd drwy luniau a cherddoriaeth, eu cyrff drwy redeg a neidio, a'u sgiliau cymdeithasol drwy adeiladu timau. Roedd yn wirioneddol dda ei weld. Dyna beth y mae plant yn ei wneud pan fyddant yn chwarae: maent yn dysgu bod. Nid rhywbeth moethus yw chwarae, mae'n hanfodol, ac yma hoffwn ddyfynnu'r Cymro gwych hwnnw, Lloyd George—nid wyf yn arfer dyfynnu'r Democratiaid Rhyddfrydol y dyddiau hyn, ond gwnaf eithriad ar yr achlysur hwn, oherwydd ei fod yn llygad ei le. Amser maith yn ôl, meddai:

Yr hawl i chwarae yw hawliad cyntaf plentyn ar y gymuned. Chwarae yw hyfforddiant natur am oes. Ni all dim cymuned dorri ar yr hawl honno heb wneud...niwed parhaus i feddyliau a chyrff ei dinasyddion.

Ni ddylai fod yn syndod inni, felly, pan holodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc blant ar draws Cymru beth, yn eu barn hwy, oedd yn bwysig a beth roeddent am inni fel pwyllgor roi sylw iddo, yr hyn a oedd ar frig eu rhestr oedd mannau diogel i chwarae a threulio amser gyda'u ffrindiau. Rwyf yn siŵr bod pob un ohonom yn cytuno ei bod yn ddyletswydd arnom i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i chwarae'n ddiogel ac yn hapus. Mae rhai yn dweud bod pob plentyn yn gwybod sut mae chwarae ac os gwnawn ni, fel oedolion, fynd o'u ffordd a gadael llonydd iddynt, gwnaiff y plant fwrw iddi. Efallai bod chwarae yn rhywbeth cynhenid neu reddf, ond yn fy mywyd proffesiynol blaenorol, deuthum, yn rhy aml, ar draws plant nad oedd erioed wedi naill ai ddysgu chwarae neu wedi

not. I came across children who had learned to be quiet for fear of the back of an adult's hand, who learned to be still in the hope that they would not be noticed. There is nothing sadder than a child who cannot or dare not play.

I vividly remember visiting a young mothers' group, during my time working for Barnardo's. The staff and volunteers were showing the young women how to read stories, how to build with blocks and how to do jigsaws with their toddlers and babies. They were having an amazing time. The room was filled with laughter and warmth; the mothers were having as much fun as the little ones. One young woman told me afterwards that no-one had ever read her a story except at school, and she had hated school. Most of those young women, every one of them passionate about being the best mother that they could be, did not know how to play with their babies, because no-one had ever played with them. We must not assume that all children know how to play and that they are all best left alone to get on with it. Children need free play opportunities, a chance to get away from adults and do their own thing. I have a 14-year-old daughter, so I know that better than most. However, they also need structured opportunities. They need and want to feel safe, and some of them will need adult help to learn or to relearn how to play.

In many ways, we have acknowledged in the Assembly that play is important, from Dai Lloyd's Member-proposed Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2010 to protect outdoor playing spaces, which passed into Welsh law today with wide cross-party support, to the learning through play approach of the foundation phase. There may be some in political life in London who believe that children should be seen and not heard, but there are none, thank goodness, here.

However, in these hard financial times, we

dysgu y byddai'n well iddynt beidio. Deuthum ar draws plant a oedd wedi dysgu bod yn dawel rhag ofn y byddai oedolyn yn eu taro, a oedd wedi dysgu bod yn llonydd yn y gobaith na fyddai neb yn sylwi arnynt. Nid oes dim tristach na phlentyn sy'n methu â chwarae neu na fyddai'n meiddio chwarae.

Rwyf yn cofio'n iawn ymweld â grŵp mamau ifanc, pan oeddwn yn gweithio i Barnardos. Roedd y staff a'r gwirfoddolwyr yn dangos i'r menywod ifanc sut oedd darllen storïau, sut oedd adeiladu gyda blociau a sut oedd gwneud jig-sos gyda'u plant bach a'u babanod. Roeddent yn cael amser anhygoel. Roedd chwerthin a chynhesrwydd yn llenwi'r ystafell; roedd y mamau yn cael yr un hwyl â'r rhai bach. Dywedodd un fenyw ifanc wrthyf wedyn nad oedd neb erioed wedi darllen stori iddi ac eithrio yn yr ysgol, ac roedd hi wedi casáu ysgol. Roedd pob un o'r menywod ifanc hynny yn awyddus iawn i fod y mamau gorau bosibl, ond nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn gwybod sut oedd chwarae gyda'u babanod, oherwydd nad oedd neb erioed wedi chwarae gyda hwy. Rhaid inni beidio â chymryd yn ganiataol bod pob plentyn yn gwybod sut mae chwarae, a'i bod yn well inni roi llonydd iddynt fwrw iddi ar eu pen eu hunain. Mae angen i blant gael cyfleoedd chwarae am ddim, cyfle i symud oddi wrth oedolion a gwneud eu peth eu hunain. Mae gen i ferch 14 mlwydd oed, felly rwyf yn gwybod hynny yn well na llawer. Fodd bynnag, mae angen cyfleoedd strwythuredig arnynt hefyd. Mae arnynt angen ac eisïau teimlo'n ddiogel, a bydd ar rai ohonynt angen help oedolyn i ddysgu neu i aildysgu sut mae chwarae.

Mewn sawl ffordd, rydym wedi cydnabod yn y Cynulliad fod chwarae yn bwysig, o Fesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010 a gynigiwyd gan yr aelod Dai Lloyd i ddiogelu mannau chwarae yn yr awyr agored. Fe'i pasiwyd yn gyfraith i Gymru heddiw gyda chefnogaeth ar draws yr holl bleidiau, i'r dull dysgu drwy chwarae a welir yn y cyfnod sylfaen. Efallai y ceir ambell un ym mywyd gwleidyddol Llundain sy'n credu y dylai plant gael eu gweld ac nid eu clywed, ond nid oes dim un yn fan hyn, diolch byth.

Fodd bynnag, yn y cyfnod ariannol anodd



will all have to be vigilant to ensure that the right to play is never forgotten or compromised. I will hold in my memory the glowing faces of those 80 children who visited us this week. That day reminded me of the importance and the glory of play. I thank each and every one of them for that timely reminder.

**Eleanor Burnham:** Thank you for allowing me to speak briefly, Helen Mary. We seem to have a polarised society in which, I suspect, all kinds of issues come to play, if you will pardon the pun. We basically have a section for little ones, a section for adults and a section for older ones. We have polarised our society in a negative way. In many parts of Europe, they have the kindergarten system. Thankfully, we now have the foundation phase, because the socialisation of youngsters is an extremely important aspect. I used to deal, as best I could, with excluded 14 to 16-year-olds, and they had almost missed all of that and had fallen some way into the trap of being stigmatised, because they did not conform as the system wanted them to. It taught me a great deal, and I believe that we must guard against that kind of exclusion by allowing youngsters to learn to play and to socialise through that play. I hope that our little report and our little committee will be replicated in the next Assembly, because I truly believe in the influence of the female element. After all, there has been a predominance of females here and, although this might be regarded as sexist, it is a fact that males and females do things slightly differently and they want to look at different issues, and I think that the female element in the Assembly has moved some of these important and rather sensitive or prickly agendas forward. I commend everybody who has been involved, and confirm that it was fantastic to play outside the Senedd yesterday.

5.40 p.m.

**The Deputy Minister for Children (Huw Lewis):** The Welsh Assembly Government places great value on play and its importance

hwn, bydd yn rhaid i bob un ohonom fod yn wyliadwrus er mwyn sicrhau na fydd yr hawl i chwarae yn cael ei hanghofio na'i thanseilio, byth. Bydd wynebau hapus y 80 o blant hynny a ymwelodd â ni yr wythnos hon yn aros yn y cof. Gwnaeth y diwrnod hwnnw imi feddwl am bwysigrwydd a gogoniant chwarae. Diolch i bob un ohonynt am ein hatgoffa o hynny yn awr.

**Eleanor Burnham:** Diolch ichi am ganiatáu imi siarad am gyfnod byr, Helen Mary. Ymddengys fod sawl pegwn i'n cymdeithas ac rwyf yn amau bod pob math o faterion yn dod i'r amlwg ynddi. Yn y bôn mae gennym adran ar gyfer rhai bach, adran ar gyfer oedolion ac adran ar gyfer rhai hŷn. Rydym wedi pegynu ein cymdeithas yn negyddol. Mewn sawl rhan o Ewrop, mae ganddynt y system kindergarten. Diolch byth, mae gennym ninnau'r cyfnod sylfaen erbyn hyn, oherwydd mae'r broses o gymdeithasoli pobl ifanc yn agwedd eithriadol o bwysig. Roeddwn i'n arfer delio, y gorau y gallwn, gyda phobl ifanc 14 i 16 oed a oedd wedi'u gwahardd, ac roeddent bron â bod wedi colli hynny i gyd ac wedi disgyn rhyw ffordd i mewn i'r fagl o gael eu stigmatiddio, am nad oeddent yn cydymffurfio fel yr oedd y system am iddynt ei wneud. Dysgodd hyn lawer iawn imi, ac rwyf yn credu bod yn rhaid inni ochel rhag y math hwnnw o wahardd drwy ganiatáu i blant ddysgu chwarae a chymdeithasu drwy gyfrwng y chwarae hwnnw. Rwyf yn gobeithio y bydd ein hadroddiad bach a'n pwyllgor bach yn cael lle eto yn y Cynulliad nesaf, gan fy mod yn wirioneddol credu yn nylanwad menywod. Wedi'r cyfan, mae mwy o fenywod wedi bod yma ac, er y gellid ystyried bod hyn yn rhywiaethol, mae'n ffaith bod dynion a menywod yn gwneud pethau ychydig yn wahanol a'u bod yn dymuno edrych ar faterion gwahanol. Credaf fod yr elfen fenywaidd yn y Cynulliad wedi symud rhai o'r agendâu pwysig a sensitif hyn ymlaen. Rwyf yn canmol pawb a fu'n rhan, ac rwyf yn cytuno ei bod wedi bod yn wych chwarae a tu allan i'r Senedd ddoe.

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi gwerth mawr ar chwarae a

in the lives of children in our society. We believe that children have a fundamental right to play, and that it is essential for their intellectual, physical, social and emotional development. This is a view that is strongly supported by research, and it forms one of the articles of the United Nations Convention on the Rights of the Child, as well as being one of our seven core aims for children. To put that belief into practice, we are committed to encouraging the creation of high-quality play provision that is appropriate, varied and challenging. We are also committed to creating communities that are child and play-friendly and offer a wide range of play opportunities for all children and young people in Wales.

The Assembly has had a play policy since 2002 and a play implementation plan since 2006, and these have been strengthened by the recently passed Children and Families (Wales) Measure 2010, which includes a chapter on play. This will place a duty on local authorities to assess for and secure sufficient play opportunities for children in their areas, as far as is reasonably practicable. During 2010 and into 2011, the Assembly Government will be developing the standards that will be underpinned by regulations and detailed in guidance to local authorities to enable them to fulfil their duties under the Measure. This will give a clear definition of play and what constitutes sufficient play opportunities, which will ensure a consistent approach across the whole of Wales. As part of this process, we have been working with all partners and stakeholders whose work affects children's opportunities to access play, including children themselves, their families, communities, local authorities and play organisations.

As part of the standards and guidance, we will review the play policy implementation plan and take forward any outstanding actions. The intention is that formal consultation on the regulations, standards and guidance will take place in 2011 for them to come into force by 2012. The Children and Families (Wales) Measure also includes a duty on local authorities to make arrangements, as they consider suitable, to promote and facilitate participation by

phwysigrwydd hynny ym mywydau plant yn ein cymdeithas. Rydym yn credu bod gan blant hawl sylfaenol i chwarae, a bod hynny yn hanfodol ar gyfer eu datblygiad deallusol, corfforol, cymdeithasol ac emosïynol. Mae hon yn farn a gefnogir yn gryf gan ymchwil, ac mae'n ffurfio un o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn ogystal â bod yn un o'n saith nod craidd ar gyfer plant. I wireddu'r gred honno, rydym wedi ymrwymo i annog y broses o greu darpariaeth chwarae o ansawdd uchel sy'n briodol, yn amrywiol ac yn heriol. Rydym hefyd wedi ymrwymo i greu cymunedau sy'n hwylus i blant a chwarae ac sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd chwarae i holl blant a phobl ifanc Cymru.

Mae'r Cynulliad wedi bod â pholisi chwarae er 2002 a chynllun gweithredu chwarae er 2006, ac mae'r rhain wedi cael eu cryfhau gan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a basiwyd yn ddiweddar, sy'n cynnwys pennod ar chwarae. Bydd hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Yn ystod 2010 ac yn 2011, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu'r safonau a fydd yn cael eu seilio gan reoliadau ac yn cael eu nodi'n fanwl mewn canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau o dan y Mesur. Bydd hyn yn rhoi diffiniad clir i chwarae a beth yw cyfleoedd chwarae digonol, a bydd hyn yn sicrhau dull cyson ar draws Cymru gyfan. Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i gael mynediad at chwarae, gan gynnwys y plant eu hunain, eu teuluoedd, cymunedau, awdurdodau lleol a sefydliadau chwarae.

Fel rhan o'r safonau a'r canllawiau, byddwn yn adolygu cynllun gweithredu'r polisi chwarae ac yn bwrw ymlaen ag unrhyw gamau sy'n weddill. Y bwriad yw yr ymgynghorir yn ffurfiol ar y rheoliadau, y safonau a'r canllawiau yn 2011 er mwyn iddynt ddod i rym erbyn 2012. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) hefyd yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau, fel sy'n addas yn eu tyb hwy, i hybu a hwyluso cyfranogiad gan blant

children in the decisions that might affect them. This will form an important part of the duties set for play, and we are discussing how these standards will fit together.

The findings of the Children and Young People Committee's inquiry into safe places to play and hang out were published in a report yesterday, and they, too, will inform us of the issues relating to opportunities to play that are important to children, young people and other interested groups. The Assembly Government has submitted evidence to this inquiry, which involved providing information about a wide range of policy areas, including those relating to children and play, design and planning, transport, traffic and home zones, Communities First partnerships and rural developments. We are keen to ensure that play is seen as an important cross-cutting agenda for all communities. We will respond to the findings of the inquiry in due course, and this information will contribute to the development of the regulations, standards and guidance on play opportunities.

We have put schemes and funds in place that are supporting play in our communities. It is worth mentioning that the Cymorth grant has an element of support for play, that Flying Start recognises the crucial role of play in early development and that the Children and Families Organisation Grant supports many initiatives. We welcome the Big Lottery Fund's child's play programme, which will make £13 million available to develop play opportunities during its lifetime. Round 1 of the programme has been used to strengthen infrastructure, and round 2 will be used to build upon partnerships to create play opportunity projects.

In conclusion, the Assembly Government recognises the importance of play in the lives of children and their families. We know that many policy areas have an effect on children's opportunities to play and on the creation of play-friendly environments. We will be working across our own departments and with all other partners and stakeholders to embed play within these policies. We will

yn y penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Bydd hyn yn rhan bwysig o'r dyletswyddau a osodwyd ar gyfer chwarae, ac rydym yn trafod sut y bydd y safonau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd.

Mewn adroddiad ddoe cyhoeddwyd canfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu, a byddant hwythau hefyd yn rhoi gwybod inni am y materion sy'n ymwneud â chyfleoedd i chwarae sy'n bwysig i blant, pobl ifanc a grwpiau eraill â diddordeb. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn, a oedd yn golygu darparu gwybodaeth am ystod eang o feysydd polisi, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â phlant a chwarae, dylunio a chynllunio, trafnidiaeth, parthau traffig a chartref, partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a datblygiadau gwledig. Rydym yn awyddus i sicrhau bod chwarae'n cael ei weld fel agenda drawsbynciol bwysig ar gyfer pob cymuned. Byddwn yn ymateb i ganfyddiadau'r ymchwiliad maes o law, a bydd y wybodaeth hon yn cyfrannu at ddatblygu'r rheoliadau, y safonau a'r canllawiau ar gyfleoedd chwarae.

Mae gennym gynlluniau ac arian ar gyfer cefnogi chwarae yn ein cymunedau. Mae'n werth nodi bod gan y grant Cymorth elfen o gefnogaeth ar gyfer chwarae, bod Dechrau'n Deg yn cydnabod rôl hollbwysig chwarae yn natblygiad cynnar plentyn a bod y Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd yn cefnogi llawer o fentrau. Rydym yn croesawu rhaglen chwarae plant y Gronfa Loteri Fawr, a fydd yn sicrhau bod £13 miliwn ar gael i ddatblygu cyfleoedd chwarae yn ystod ei hoes. Mae rownd 1 y rhaglen wedi cael ei defnyddio i gryfhau seilwaith, a bydd rownd 2 yn cael ei defnyddio i adeiladu ar bartneriaethau i greu prosiectau cyfleoedd chwarae.

I gloi, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant a'u teuluoedd. Rydym yn gwybod bod llawer o feysydd polisi yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae ac ar greu amgylcheddau sy'n hwylus ar gyfer chwarae. Byddwn yn gweithio ar draws ein hadrannau ein hunain a chyda holl bartneriaid a rhanddeiliaid eraill i ymgorffori chwarae yn

also work to make sure that policy is put into practice through standards and guidance provided to local authorities, and through strong implementation and action plans.

I thank Helen Mary Jones for choosing play as the subject of her short debate this afternoon. The more that it is kept on the agenda, the better for Wales's children.

y polisiâu hyn. Byddwn hefyd yn gweithio i wneud yn siŵr bod polisi'n cael ei roi ar waith drwy'r safonau a'r canllawiau a roddir i awdurdodau lleol, a thrwy weithredu a chynlluniau gweithredu cadarn.

Hoffwn ddiolch i Helen Mary Jones am ddewis chwarae fel testun ei dadl fer y prynhawn yma. Po fwyaf y bydd hyn yn cael ei gadw ar yr agenda, y gorau oll i blant Cymru.

### **Dadl Fer Wedi'i Gohirio ers 3 Tachwedd 2010 Short Debate Postponed from 3 November 2010**

#### **Amddiffyn Gwasanaethau Iechyd Gwledig Protecting Rural Health Services**

**Nick Bourne:** I am pleased to give a minute in this debate to Joyce Watson and Kirsty Williams, who requested time on this important topic. It gives me great pleasure to open the debate on protecting rural health services. At the outset, I pay tribute to those who work long hours in the NHS with such commitment; they are the heroes and heroines of public service in Wales. They do a terrific job, although they would probably regard it as a vocation. We owe them an immense debt.

The 'One Wales' agreement commits the Welsh Assembly Government to the aspiration of a world-class health service that is available to everyone irrespective of who they are or where they live in Wales. I certainly have no disagreement with that, and I do not think that anyone who is reasonable would. I fully support that aspiration. However, if we are to meet it, then we must recognise the particular and unique problems associated with delivering healthcare in rural areas such as my region, Mid and West Wales. The biggest issue is probably long distances. Individuals in rural areas are expected to travel to attend their nearest hospital, and that can be a problem, but of course it goes with the rural nature of the area. The situation is often exacerbated by the lack of availability of regular public transport, adding to the cost and the time taken to access healthcare, and sometimes adding to the worry—I realise that that is

**Nick Bourne:** Mae'n bleser gennyf roi munud yn y ddadl hon i Joyce Watson a Kirsty Williams, a ofynnodd am amser ar y pwnc pwysig hwn. Mae'n rhoi pleser mawr imi agor y ddadl ar ddiogelu gwasanaethau iechyd gwledig. Ar y cychwyn, hoffwn dalu teyrnged i'r rheini sy'n gweithio oriau hir yn y GIG â'r fath ymrwymiad; y hwy yw arwyr ac arwresau'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Maent yn gwneud gwaith gwyh, er mae'n debyg y byddent hwy yn ei ystyried yn alwedigaeth. Mae ein dyled yn fawr iawn iddynt.

Mae cytundeb 'Cymru'n Un' yn ymrwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dyhead i gael gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf sydd ar gael i bawb waeth pwy bynnag ydynt neu lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru. Yn sicr, nid wyf yn anghytuno â hynny, ac nid wyf yn credu y byddai unrhyw un rhesymol yn gwneud hynny. Rwyf yn cefnogi'r dyhead hwnnw yn llwyr. Fodd bynnag, os ydym am fodloni'r dyhead hwnnw, yna rhaid inni gydnabod y problemau penodol ac unigryw sy'n gysylltiedig â darparu gofal iechyd mewn ardaloedd gwledig fel fy rhanbarth, Canolbarth a Gorllewin Cymru. Y broblem fwyaf, fwy na thebyg, yw'r pellteroedd hir. Disgwylir i unigolion mewn ardaloedd gwledig deithio i fynd i'w hysbyty agosaf, a gall hynny fod yn broblem, ond wrth gwrs mae'n mynd â natur wledig yr ardal. Mae'r sefyllfa yn waeth yn aml gan ddiffyg trafnidiaeth gyhoeddus reolaidd, ac mae hyn

outside the Minister's remit.

Only 50 per cent of the rural population has an hourly bus service within a 10-minute walk of their homes. Increased travel time is related to delayed diagnosis of, for example, cancer and other chronic conditions. This distance from specialist health services has been shown to have a knock-on effect by decreasing survival rates. All this emphasises the importance of Bronglais District General Hospital in my home town of Aberystwyth. It is the only district general hospital in mid Wales, serving patients from as far afield as Tywyn, Machynlleth and Rhayader. Indeed, it is the only district general hospital away from south and north Wales; it is the only one in the middle, as it were.

The remoteness of parts of Wales from our hospitals has an impact on ambulance waiting times. The Assembly Government has set a target of 65 per cent of category A emergency calls to be responded to within eight minutes. On the whole, the Welsh ambulance service performs quite well, delivering an all-Wales average of 68 per cent on the latest figures. However, in Carmarthenshire, only 62.2 per cent of calls were responded to within the target time; in Gwynedd, 57.3 per cent; and, in Powys, only 56.7 per cent. That compares with 75 per cent for Cardiff and 75.9 per cent for Swansea. The rural-urban divide in the performance of the Welsh ambulance service could not be clearer in those statistics, and I ask the Minister what is being done to improve that situation.

The air ambulance provides a vital service to patients in Mid and West Wales, and I pay tribute to all that it does. It has made a fantastic difference to the way that health services are delivered in rural areas. However, particular problems are encountered in the holiday season, for example, when many coastal and inland communities will see their populations

yn ychwanegu at y gost a'r amser a gymerir i gael mynediad at ofal iechyd, ac yn ychwanegu weithiau at y pryder—rwyf yn sylweddoli bod hyn y tu allan i gylch gwaith y Gweinidog.

Dim ond 50 y cant o'r boblogaeth wledig sydd â gwasanaeth bws bob awr o fewn 10 munud ar droed i'w cartrefi. Mae mwy o amser teithio yn gysylltiedig ag oedi o ran cael diagnosis o achosion canser a chyflyrau cronig eraill, er enghraifft. Dangoswyd bod y pellter hwn oddi wrth wasanaethau iechyd arbenigol yn cael effaith gynyddol drwy leihau'r cyfraddau goresi. Mae hyn i gyd yn rhoi pwys ar bwysigrwydd Ysbyty Dosbarth Cyffredinol Bronglais yn fy nhref enedigol, Aberystwyth. Dyma'r unig ysbyty dosbarth cyffredinol yn y canolbarth, sy'n gwasanaethu cleifion o mor bell â Thywyn, Machynlleth a Rhaeadr. Yn wir, dyma'r unig ysbyty dosbarth cyffredinol nad yw yn ne nac yng ngogledd Cymru; dyma'r unig un yn y canol, fel petai.

Mae pellter rhannau o Gymru o'n hysbytai yn effeithio ar amseroedd aros ambiwlans. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod targed y dylid ymateb i 65 y cant o'r galwadau brys categori A o fewn wyth munud. At ei gilydd, mae perfformiad gwasanaeth ambiwlans Cymru yn eithaf da, yn cyflawni cyfartaledd ar draws Gymru gyfan o 68 cant ar y ffigurau diweddaraf. Fodd bynnag, yn Sir Gaerfyrddin, dim ond 62.2 y cant o alwadau yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amser targed; yng Ngwynedd, 57.3 y cant; ac, ym Mhowys, dim ond 56.7 y cant. Mae hynny'n cymharu â 75 y cant ar gyfer Caerdydd a 75.9 y cant ar gyfer Abertawe. Ni all y rhaniad gwledig-trefol ym mherfformiad gwasanaeth ambiwlans Cymru fod yn fwy eglur yn yr ystadegau hynny, a gofynnaf i'r Gweinidog beth sy'n cael ei wneud i wella'r sefyllfa honno.

Mae'r ambiwlans awyr yn darparu gwasanaeth hanfodol i gleifion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, a hoffwn dalu teyrnged i bopeth a wna. Mae wedi gwneud gwahaniaeth gwych i'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, mae problemau penodol yn codi yn ystod tymor y gwyliau, er enghraifft, pan fydd mewnlfriad o

expand with the influx of tourists. The air ambulance may be particularly important at those times. In April, it was commissioned to pick up a seriously injured patient in Aberaeron in Ceredigion. The pilot was then told that there were no beds available at Morriston or Carmarthen, and to fly to Bronglais, landing on the playing fields below Penparcau, just outside Aberystwyth. The only ambulance available in Ceredigion to ferry the patient from Penparcau to Bronglais was the same one that had brought the patient to the helicopter in the first instance. That really illustrates some of the problems that can arise. What is being done to ensure that beds are available in hospitals before the services of the air ambulance are requested and commissioned? That would seem to me to be something that needs to happen, as that particular instance exemplifies.

5.50 p.m.

The Minister may remember that, back in July, I raised the issue of transport costs for people living in rural Powys who were faced with accessing healthcare. This followed the Institute of Rural Health's discovery of examples of patients having to pay return taxi fares of up to £70 for a round trip, when an ambulance was not appropriate and they were unable to access services like dial-a-ride. I think, Minister, that you mentioned that there were four pilot projects to improve non-emergency patient transport services, with the aim of supporting the ambulance service. Are you able to give us an update on these pilot projects, because they clearly may make a massive difference?

The recruitment of medical staff is often a massive problem in rural areas. There is currently a shortage of community nurses, which has an impact on those living in rural areas, because of the travel time and distances involved in community nurses visiting patients. Cutting back on community nursing teams means that fewer patients are able to be seen during the working day. That has serious implications for elderly and frail patients, who are in need of regular nursing

dwrystiaid yn tyrru i'r cymunedau arfordirol a mewndirol. Gall yr ambiwlans awyr fod yn bwysig dros ben ar yr adegau hynny. Ym mis Ebrill, cafodd ei gomisiynu i godi claf a anafwyd yn ddifrifol yn Aberaeron yng Ngheredigion. Dywedwyd wrth y peilot wedyn nad oedd dim gwelyau ar gael yn Nhreforys nac yng Nghaerfyrddin, ac iddo hedfan i Fronglais, glanio ar y caeau chwarae o dan Benparcau, ger Aberystwyth. Yr unig ambiwlans a oedd ar gael yng Ngheredigion i gludo'r claf o Benparcau i Fronglais oedd yr union un a oedd wedi dod â'r claf at yr hofrennydd yn y lle cyntaf. Mae hynny'n wir yn dangos rhai o'r problemau a all godi. Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod gwelyau ar gael mewn ysbytai cyn gofyn a chomisiynu gwasanaethau'r ambiwlans awyr? I mi, mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid iddo ddigwydd, fel y dangosir gan yr achos penodol hwnnw.

Efallai y bydd y Gweinidog yn cofio fy mod, yn ôl ym mis Gorffennaf, wedi codi'r mater o gostau cludiant ar gyfer pobl sy'n byw yn ardal wledig Powys a oedd yn ceisio cael mynediad at ofal iechyd. Roedd hyn yn dilyn darganfyddiad y Sefydliad Iechyd Gwledig o enghreifftiau o gleifion yn gorfod talu costau tacsï dwyffordd o hyd at £70 am daith gyfan, pan nad oedd ambiwlans yn briodol ac nad oeddent yn gallu cael gafael ar wasanaethau fel galw'r gyrrwr. Rwyf yn meddwl, Weinidog, eich bod wedi sôn bod pedwar prosiect peilot i wella gwasanaethau cludo cleifion mewn achosion heb fod yn frys, gyda'r nod o gefnogi'r gwasanaeth ambiwlans. A ydych yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y prosiectau peilot hyn, oherwydd mae'n amlwg y gallent wneud gwahaniaeth enfawr?

Mae recriwtio staff meddygol yn aml yn broblem enfawr mewn ardaloedd gwledig. Ar hyn o bryd mae prinder nyrsys cymunedol, sy'n cael effaith ar y rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, oherwydd yr amser teithio a'r pellteroedd sy'n gysylltiedig â nyrsys cymunedol yn ymweld â chleifion. Mae lleihau timau nyrsio cymunedol yn golygu bod llai o gleifion yn gallu cael eu gweld yn ystod y diwrnod gwaith. Mae goblygiadau hynny yn ddifrifol i gleifion

visits.

In October, the Royal College of Nursing had been called in over staff shortages in the new emergency and urgent care centre at Withybush General Hospital. There are also serious doubts about the future of haematology consultants at Bronglais and histopathology is also under threat. These staffing issues are of course reflected in staff morale, which, in many cases, is affected by such problems. Many services can only continue to carry out their tasks because of the undoubted goodwill of the staff. Therefore, Minister, are you able to say something about those issues of staff shortages that we need to address in Mid and West Wales, and in rural Wales in general?

The rural population throughout Wales was projected to increase at an average of above 10 per cent between 2006 and 2031. Over the same period, the population of older people in the traditional rural areas was projected to increase by an average of 30 per cent by 2020, which is of crucial importance. The population will clearly increase in urban Wales as well, but more so in rural Wales. The ageing population is increasing faster in rural authorities. Mental health is an important issue, as dementia is likely to increase with an ageing population. However, rural areas have some of the lowest levels of residential and nursing-home provision, particularly for older people who are mentally ill. That means that the majority of older people from rural communities who need care-home provision will often have to leave the community where they have spent their lifetime, and certainly their retirement, when they are most in need of the support of those they know—their family, their friends and their neighbours. Therefore, local health boards need to demonstrate how they are going to address that issue of rurality within their planning and service delivery.

The issue of delayed discharge has been raised this afternoon. We could bandy about

oedrannus a bregus, y mae angen i nyrs ymweld â hwy yn rheolaidd.

Ym mis Hydref, cafodd Coleg Brenhinol y Nyrsys ei alw i mewn ynghylch prinder staff yn y ganolfan gofal brys ac argyfwng newydd yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Mae amheuan difrifol hefyd ynghylch dyfodol ymgynghorwyr haematoleg ym Mronglais ac mae'r adran histopatholeg o dan fygythiad hefyd. Mae'r materion staffio hyn yn cael eu hadlewyrchu wrth gwrs ym morâl y staff, sydd, mewn llawer o achosion, yn dioddef yn sgîl problemau o'r fath. Dim ond gydag ewyllys da diamheuol y staff y gall llawer o wasanaethau barhau i gyflawni eu gwaith. Felly, Weinidog, a allwch ddweud rhywbeth am y materion hynny yn ymwneud â phrinder staff y mae angen inni roi sylw iddynt yn y Canolbarth a'r Gorllewin, ac yng nghefn gwlad Cymru yn gyffredinol?

Amcangyfrifwyd y byddai'r boblogaeth wledig ledled Cymru yn cynyddu ar gyfartaledd o dros 10 y cant rhwng 2006 a 2031. Dros yr un cyfnod, amcangyfrifwyd y byddai'r boblogaeth o bobl hŷn yn yr ardaloedd gwledig traddodiadol yn cynyddu 30 y cant ar gyfartaledd erbyn 2020, ac mae hyn yn bwysig dros ben. Bydd y boblogaeth yn amlwg yn cynyddu yn y Gymru drefol hefyd, ond yn fwy felly yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn cynyddu yn gyflymach mewn awdurdodau gwledig. Mae iechyd meddwl yn fater pwysig, gan fod dementia yn debygol o gynyddu gyda phoblogaeth sy'n heneiddio. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd gwledig y mae rhai o'r lefelau isaf o ddarpariaeth breswyl a chartrefi nyrsio, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn sydd â salwch meddwl. Mae hynny'n golygu y bydd y mwyafrif o bobl hŷn o gymunedau gwledig y mae angen darpariaeth cartref gofal arnynt yn aml yn gorfod gadael y gymuned lle maent wedi treulio eu hoes, ac yn sicr eu hymddeoliad, pan fydd arnynt fwyaf angen cefnogaeth y rheini y maent yn eu hadnabod—eu teulu, eu ffrindiau a'u cymdogion. Felly, mae angen i fyrddau iechyd lleol ddangos sut maent am fynd i'r afael â'r natur wledig honno wrth iddynt gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae'r mater o oedi wrth ryddhau cleifion wedi cael ei godi y prynhawn yma. Gallm

the particular points that Paul Davies raised, but there is clearly an issue here, and I know that the Minister would be the first to admit that. What are we doing about that issue?

I would like to raise a specific issue about the 'Health Services Strategy Spend to Save Plan', which was the draft plan produced by Hywel Dda Local Health Board that was then withdrawn. I appreciate that the Minister says that it is a matter for the health board to configure the health service in its area, but, to not put it any higher than this, there is general frustration across political parties in Mid and West Wales at the inability or, more fairly, the unwillingness of the health board to engage with the population, for instance, to hold public meetings to explain where things are going. Indeed, it actually ruled out having public meetings, which, to me, is the wrong way forward. It has withdrawn that plan, but it must still demonstrate some leadership. We need to know where healthcare is going in Mid and West Wales, given, and I hope that this is a given, that the district general hospitals—Glangwili, Withybush, the Prince Philip Hospital in Llanelli and Bronglais—will all be retained as district general hospitals. However, what core services will they supply? That is what people understandably want to hear about, and the health board must engage in that discussion. You are not known, Minister, for being reluctant to go onto the playing field, and you are not one to stand on the sidelines, therefore, are you able to give that discussion a nudge, so that we can get things moving in order to get a real sense of future for the district general hospitals, agreed by all parties, across rural Mid and West Wales? That would be fantastic.

In conclusion, if we are to meet the Assembly Government's aspiration of having a world-class health service available to everyone, irrespective of where they live in Wales, we still have massive challenges to address, not just in Wales generally, but particularly in rural Wales. I know that it could be said that

fynd yn ôl ac ymlaen wrth drafod y pwyntiau penodol a gododd Paul Davies, ond mae'n amlwg bod problem yma, ac rwyf yn gwybod y byddai'r Gweinidog y cyntaf i gyfaddef hynny. Beth rydym yn ei wneud ynghylch y mater hwnnw?

Hoffwn godi mater penodol am y 'Cynllun Gwario i Arbed Strategaeth Gwasanaethau Iechyd', sef y cynllun drafft a luniwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a dynnwyd yn ôl wedyn. Rwyf yn sylweddoli bod y Gweinidog yn dweud mai cyfrifoldeb y bwrdd iechyd yw trefnu'r gwasanaeth iechyd yn ei ardal, ond, heb or-ddweud, mae rhwystredigaeth gyffredinol ar draws y pleidiau gwleidyddol yn y Canolbarth a'r Gorllewin yn anallu neu, yn fwy teg, amharodrwydd y bwrdd iechyd i ymgysylltu â'r boblogaeth, er enghraifft, i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus i esbonio i ba gyfeiriad y mae pethau'n mynd. Yn wir, diystyrod y bwrdd gael cyfarfodydd cyhoeddus, sydd, yn fy marn i, yn ffordd anghywir ymlaen. Mae wedi tynnu'r cynllun hwnnw yn ôl, ond rhaid iddo ddal dangos rhywfaint o arweiniad. Mae angen inni wybod i ba gyfeiriad y mae gofal iechyd yn mynd yn y Canolbarth a'r Gorllewin, o gofio y bydd yr ysbytai dosbarth cyffredinol—Glangwili, Llwynhelyg, Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli a Bronglais—pob un ohonynt yn cael eu cadw fel ysbytai dosbarth cyffredinol, gan obeithio mai hynny fydd yn digwydd. Ond, pa wasanaethau craidd y byddant yn eu darparu? Dyna beth yr hoffai pobl ei glywed, wrth reswm, a rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd rhan yn y drafodaeth honno. Nid ydych fel arfer, Weinidog, yn amharod i fwrw iddi, ac nid ydych yn un i sefyll ar y cyrion, felly, a ydych yn gallu rhoi hwb i'r drafodaeth honno, er mwyn inni allu symud pethau er mwyn inni wir deimlo bod dyfodol i'r ysbytai dosbarth cyffredinol, gyda chytundeb yr holl bleidiau, ar draws ardal wledig y Canolbarth a'r Gorllewin? Byddai hynny'n wych.

I gloi, os ydym am fodloni dyhead Llywodraeth y Cynulliad i gael gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf i bawb, waeth ble y maent yn byw yng Nghymru, mae heriau enfawr yn ein hwynebu o hyd, nid dim ond yng Nghymru yn gyffredinol, ond yn ardaloedd gwledig Cymru, yn arbennig. Gwn



people elect to live in rural Wales, but, by virtue of that, they should not be consigned to having a second-class health service. The health service that we deliver should be uniformly excellent. I know that the Minister is undoubtedly committed to this issue and is rightly respected in the sector and across parties. Therefore, this debate is not being put forward in a partisan way; however, there are specific issues that need to be addressed, not least the problems that are encountered in the Hywel Dda Local Health Board area, such as the seeming unwillingness of the health board to engage with the general population, and sometimes even with elected representatives, in order to get the issues pushed forward properly. I am happy that Joyce Watson and Kirsty Williams are contributing to the debate.

**Kirsty Williams:** I thank Nick Bourne for raising this important issue. In recent years, since we have rightly focused on clinical governance, we have struggled continually to keep many services in our rural hospitals. However, with the advent of the rural health plan, we have an opportunity to change the focus around and to look at what our networks—of community hospitals specifically—can bring to Welsh healthcare. At a time when we are looking at close working between health and social services, a community hospital can often be the hub for such working arrangements across the sector. Community hospitals in strategic locations could be the focus of a repatriation of services back to communities, including diagnostic treatments, as many patients in rural areas have to travel long distances for what are relatively short visits to a hospital. This is an opportunity to look again at the services that can safely be provided in strategically placed community hospitals, with a view to other community hospitals being used as a hub for social care and healthcare for populations in those areas.

**Joyce Watson:** Thank you, Nick, for giving me an opportunity to speak. Much of what I wanted to say has been said, because the

y gellid dweud bod pobl yn dewis byw yng nghefn gwlad Cymru, ond ni ddylent orfod cael gwasanaeth iechyd eilradd am eu bod wedi dewis hynny. Dylai'r gwasanaeth iechyd a ddarparwn fod yn wych i bawb. Gwn fod y Gweinidog heb amheuaeth wedi ymrwymo i'r mater hwn ac mae'n cael ei barchu yn y sector ac ar draws y pleidiau. Felly, nid yw'r ddadl hon yn cael ei chyflwyno'n bleidgarol; ond mae materion penodol y mae angen mynd i'r afael â hwy, yn enwedig y problemau a geir yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, fel amharodrwydd ymddangosiadol y bwrdd iechyd i ymgysylltu â'r boblogaeth yn gyffredinol, ac weithiau gyda chynrychiolwyr etholedig hyd yn oed, er mwyn gwthio'r materion ymlaen yn iawn. Rwyf yn fodlon bod Joyce Watson a Kirsty Williams yn cyfrannu at y ddadl.

**Kirsty Williams:** Diolch i Nick Bourne am godi'r mater pwysig hwn. Yn y blynyddoedd diwethaf, ers inni ganolbwyntio'n briodol ar lywodraethu clinigol, rydym wedi cael trafferth barhaus i gadw llawer o wasanaethau yn ein hysbytai gwledig. Fodd bynnag, gyda dyfodiad y cynllun iechyd gwledig, mae gennym gyfle i newid y ffocws ac i edrych ar yr hyn y gall ein rhwydweithiau—o ysbytai cymunedol yn benodol—ei gynnig i ofal iechyd Cymru. Ar adeg pan rydym yn edrych ar weithio agos rhwng y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, gall ysbyty cymunedol fod yn ganolbwynt yn aml ar gyfer trefniadau gwaith o'r fath ar draws y sector. Gallai ysbytai cymunedol mewn lleoliadau strategol fod yn ganolbwynt i ddychwelyd gwasanaethau yn ôl i gymunedau, gan gynnwys triniaethau diagnostig, gan fod yn rhaid i lawer o gleifion mewn ardaloedd gwledig deithio pellteroedd hir ar gyfer yr hyn sy'n ymweliadau cymharol fyr ag ysbyty. Mae hwn yn gyfle i edrych eto ar y gwasanaethau y gellir eu darparu yn ddiogel mewn ysbytai cymunedol sydd wedi'u lleoli'n strategol, gyda'r bwriad o ddefnyddio ysbytai cymunedol eraill fel canolbwynt ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal iechyd ar gyfer poblogaethau yn yr ardaloedd hynny.

**Joyce Watson:** Diolch, Nick, am roi cyfle imi siarad. Mae llawer o'r hyn roeddwn am ei ddweud wedi cael ei ddweud, oherwydd bod

debate has been fairly comprehensive. However, I do want to say this: there is a rural health plan, and there is a real opportunity for us to deliver on it. More specifically, access to services is critical to people—I am referring to access to all the services that everyone else, regardless of where they live, would expect. It is vital that, across Wales, we provide services ranging from routine provision to the critical care that is often delivered through the accident and emergency departments. Many parts of Mid and West Wales have limited services, and Powys, as we all know, does not even have a district general hospital. I am not asking the Minister to change that, but there is obviously a recognition that people in Powys rely on hospitals outside their area for basic services. I commend the Minister's investment in community hospitals and in telemedicines, and I am sure that they will often hold the key to ensuring, as Kirsty Williams has said, that first-class services can be offered in those communities, thereby safeguarding the future healthcare of those individuals.

I also pay tribute to the Minister for the investment that she has made across the region of Mid and West Wales in healthcare facilities and services, not least the £10.3 million that was invested in the emergency and urgent care centre at Witybush hospital recently, and the investment in the breast care facilities at Prince Philip Hospital. I know that the Minister faces challenges because of the cuts that will come from central Government. However, can the Minister confirm that the Assembly Government will, at all times, ensure that rural health services are protected and that investment goes into ensuring that they reflect the services that the people in those areas deserve?

6.00 p.m.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** I welcome the

y ddadl wedi bod yn weddol gynhwysfawr. Fodd bynnag, hoffwn ddweud hyn: mae cynllun iechyd gwledig ar gael, ac mae cyfle gwirioneddol inni ei roi ar waith. Yn fwy penodol, mae mynediad at wasanaethau yn hanfodol i bobl—rwyf yn cyfeirio at gael mynediad at yr holl wasanaethau y byddai pawb arall, waeth ble maent yn byw, yn disgwyl eu cael. Mae'n hanfodol ein bod, ar draws Cymru, yn darparu gwasanaethau sy'n amrywio o ddarpariaeth arferol i'r gofal critigol sy'n aml yn cael ei ddarparu drwy'r adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae gwasanaethau cyfyngedig mewn sawl rhan o'r Canolbarth a'r Gorllewin, ac fel y gŵyr pob un ohonom, nid oes gan Bowys ysbyty dosbarth cyffredinol hyd yn oed. Nid wyf yn gofyn i'r Gweinidog newid hynny, ond cydnabyddir yn amlwg fod pobl Powys yn dibynnu ar ysbytai sydd y tu allan i'w hardal am wasanaethau sylfaenol. Rwyf yn cymeradwyo buddsoddiad y Gweinidog mewn ysbytai cymunedol ac mewn telefeddygaethau, ac rwyf yn siŵr mai'r rhain, yn aml, fydd yr allwedd i sicrhau, fel y mae Kirsty Williams wedi'i ddweud, bod modd cynnig gwasanaethau o'r radd flaenaf yn y cymunedau hynny, a thrwy hynny diogelu gofal iechyd yr unigolion hynny yn y dyfodol.

Talaf deyrnged hefyd i'r Gweinidog am y buddsoddiad y mae wedi'i wneud ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd, yn enwedig y £10.3 miliwn a fuddsoddwyd yn y ganolfan gofal brys ac argyfwng yn Ysbyty Llwynhelig yn ddiweddar, a'r buddsoddiad mewn cyfleusterau gofal y fron yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Gwn fod y Gweinidog yn wynebu heriau oherwydd y toriadau a ddaw gan y Llywodraeth ganolog. Fodd bynnag, a all y Gweinidog gadarnhau y bydd Llywodraeth y Cynulliad, bob amser, yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd gwledig yn cael eu diogelu a bod y buddsoddiad yn mynd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaethau y mae'r bobl yn yr ardaloedd hynny yn eu haeddu?

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Croesawaf y

debate and acknowledge the comments made by Nick Bourne AM, Joyce Watson and Kirsty Williams. I totally concur with Kirsty's comments about the use of community hospitals almost as a hub and spoke arrangement. Clinicians should go to community hospitals to undertake work, rather than people having to travel miles for treatment elsewhere. The challenge for us in these times is to make better use of the facilities that we have. In Ystradgynlais, in your constituency, Kirsty, it has been interesting to see the number of consultants from Morriston Hospital who are now going there to run surgeries. I do not think that we are incapable of doing that across the rest of rural Wales, because it is far easier for people to travel to their community hospital if the facilities are there. That also raises an interesting issue about GPs and community hospitals cohabitating on the same premises, and about where such centres should be. All these issues are now up for discussion.

On Joyce's point, rural health is important and I was delighted when it formed a part of the partnership agreement. Where you live should not affect your ability to access services, which goes back to Nick Bourne's point. Some might make life choices that others would not make, by moving to a more rural area when they retire, but we must remember that many people who live and work in those communities were born there, and we should not expect them to have to make lifestyle choices and changes just because they are frightened about the services provided in a rural area.

Nick, you raise some specifics with me, and I will start with Hywel Dda Local Health Board. I have noted the concerns that have been expressed to me, particularly about the information outlined in Hywel Dda board's five-year service, workforce and financial framework. I assure Members that the chief executive has emphasised that that was an early draft of the paper, which had not been approved by the board. That draft was withdrawn, and the chief executive has apologised for the concern that it may have caused. It has indeed caused an awful lot of

ddadl, ac rwyf yn cydnabod y sylwadau a wnaed gan Nick Bourne AC, Joyce Watson a Kirsty Williams. Cytunaf yn llwyr â sylwadau Kirsty am ddefnyddio ysbytai cymunedol bron fel patrwm canolbwynt a changhennau. Dylai clinigwyr fynd i ysbytai cymunedol i wneud eu gwaith, yn hytrach na bod pobl yn gorfod teithio milltiroedd i gael triniaeth mewn man arall. Yr her inni y dyddiau hyn yw defnyddio'r cyfleusterau sydd gennym yn well. Yn Ystradgynlais, yn eich etholaeth, Kirsty, mae wedi bod yn ddiddorol gweld nifer yr ymgynghorwyr o Ysbyty Treforys sydd yn mynd yno yn awr i gynnal meddygfeydd. Nid wyf yn credu ein bod yn amhosibl inni wneud hynny ar draws gweddill Cymru wledig, oherwydd mae'n llawer haws i bobl deithio i'w hysbyty cymunedol os yw'r cyfleusterau yno. Mae hynny hefyd yn codi mater diddorol am feddygon teulu ac ysbytai cymunedol yn cael eu lleoli ar yr un safle, ac ymhle y dylai canolfannau o'r fath fod. Mae'r holl faterion hyn yn destun trafodaeth.

Ar bwynt Joyce, mae iechyd gwledig yn bwysig ac roeddwn wrth fy modd pan ddaeth yn rhan o'r cytundeb partneriaeth. Ni ddylai lle rydych yn byw effeithio ar eich gallu i gael mynediad at wasanaethau, sy'n mynd yn ôl at bwynt Nick Bourne. Efallai y byddai rhai'n gwneud dewisiadau bywyd na fyddai eraill yn eu gwneud, ac yn symud i ardal fwy gwledig pan fyddant yn ymddeol, ond mae'n rhaid inni gofio bod llawer o bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau hynny wedi cael eu geni yno, ac ni ddylem ddisgwyl iddynt orfod gwneud dewisiadau a newidiadau o ran ffordd o fyw dim ond oherwydd eu bod yn pryderu am y gwasanaethau a ddarperir mewn ardal wledig.

Nick, rydych yn codi ambell beth gyda fi, a gwnaf ddechrau gyda Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Rwyf wedi nodi'r pryderon a ddywedwyd wrthyf, yn enwedig y wybodaeth a amlinellir yn fframwaith gwasanaeth, gweithlu ac ariannol pum mlynedd Bwrdd Hywel Dda. Gallaf sicrhau'r Aelodau fod y prif weithredwr wedi pwysleisio mai drafft cynnar o'r papur oedd hwnnw, ac nad oedd wedi ei gymeradwyo gan y bwrdd. Tynnwyd y drafft hwnnw yn ôl, ac mae'r prif weithredwr wedi ymddiheuro am y pryder y gallai fod wedi'i achosi. Yn wir mae wedi

concern and worry for individuals, and we have to acknowledge that. The health board has repeatedly confirmed that it remains committed to ensuring that its four main hospitals remain major healthcare providers, and that those designated as district general hospitals will continue to be so. It is important that I reiterate that.

Nick, you made a valuable point about people wanting to know which core services will be provided at the institutions in west Wales. The public is not stupid; it understands that sometimes there is a need to centralise some services and it understands service change. However, at the end of the day, people want to be clear about what is there and what is available for them to use, and there has to be clarity on that. I take your message on board about better leadership within that area and better ways of explaining to the public how it is intended to take this agenda forwards.

Recently, I was in Bronglais General Hospital with Elin Jones, and we held a question-and-answer session with staff without the management being present. The comments that were made to me by staff, including clinicians and consultants, were interesting. They said that if they were asked, they would tell us what is best and they would help us to find solutions to these issues. It is important that that issue was raised with me, and I have made that clear to the management. As a result, the chief nursing officer has now visited nursing staff in Bronglais, and my medical director is about to meet consultants there privately to discuss some of the issues that they raised with me.

I welcome your comments on the air ambulance, which is a first-class service. You also alluded to ambulance services, and I think that there needs to be a more honest discussion about target times within rural areas and a greater understanding of the requirements. We also have first-responder schemes, which Mick Bates was always referring to in Powys, and they can be used to get better services. We have to look at those issues.

achosi llawer iawn o bryder a gofid i unigolion, a rhaid inni gydnabod hynny. Mae'r bwrdd iechyd wedi cadarnhau dro ar ôl tro ei fod yn dal yn ymrwymedig i sicrhau mai ei bedwar prif ysbyty fydd y prif ddarparwyr gofal iechyd o hyd, ac y bydd y rheini a ddynodwyd yn ysbytai dosbarth cyffredinol yn parhau i fod felly. Mae'n bwysig fy mod yn ailadrodd hynny.

Nick, gwnaethoch bwynt gwerthfawr bod pobl am wybod pa wasanaethau craidd a fydd yn cael eu darparu yn y sefydliadau yng ngorllewin Cymru. Nid yw'r cyhoedd yn dwp; maent yn deall bod angen canoli rhai gwasanaethau weithiau ac maent yn deall newid mewn gwasanaethau. Fodd bynnag, ar ddiwedd y dydd, mae pobl am wybod yn glir beth sydd yno a beth sydd ar gael iddynt eu defnyddio, ac mae'n rhaid bod yn glir ynghylch hynny. Rwyf yn derbyn eich neges am arweinyddiaeth well yn yr ardal honno ac am ffyrdd gwell o egluro i'r cyhoedd sut y bwriedir symud yr agenda hon ymlaen.

Yn ddiweddar, roeddwn yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais gydag Elin Jones, a chawsom sesiwn holi ac ateb gyda staff ond heb y rheolwyr. Roedd y sylwadau a wnaed imi gan staff, gan gynnwys clinigwyr ac ymgynghorwyr, yn ddiddorol. Roeddent yn dweud pe byddai rhywun yn gofyn iddynt, byddent yn dweud wrthym beth fyddai orau a byddent yn ein helpu i ddod o hyd i atebion i'r materion hyn. Mae'n bwysig bod y mater hwnnw wedi'i godi gyda mi, ac rwyf wedi dweud hynny'n glir wrth y rheolwyr. O ganlyniad, mae'r prif swyddog nyrsio wedi ymweld â staff nyrsio yn Ysbyty Bronglais, ac mae fy nghyfarwyddwr meddygol ar fin cwrdd ag ymgynghorwyr yno yn breifat i drafod rhai o'r materion a godwyd gyda mi.

Rwyf yn croesawu eich sylwadau am yr ambiwlans awyr, sydd yn wasanaeth o'r radd flaenaf. Roeddech hefyd yn cyfeirio at wasanaethau ambiwlans, ac rwyf yn meddwl bod angen cael trafodaeth fwy gonest am amseroedd targed mewn ardaloedd gwledig a gwell dealltwriaeth o'r gofynion. Mae gennym hefyd gynlluniau ymatebwyr cyntaf, yr oedd Mick Bates bob amser yn cyfeirio atynt ym Mhowys, a gellir eu defnyddio i gael gwell gwasanaethau. Rhaid inni edrych ar y materion hynny.

I would be more than happy to update you on the patient transport agenda, because each of the pilot schemes is looking to improve quality and efficiency. It is a three-year programme, but we will be evaluating it after the first year, and that evaluation report will be made available. It is important that we look at the pilot projects, and Hywel Dda Local Health Board's focus on rurality in the development of services is the key to complement the Welsh Ambulance Services NHS Trust and how it delivers on some of those wider agendas.

You also referred to issues of mental health. We have the dementia plan, and there is an implementation group for that plan, under Mary Burrows, which will have to look at the issues in rural areas, such as how individuals are cared for, even if that is only in respect of respite care. Another issue is whether we have to look again with new eyes at what type of service we need to deliver in those areas. I am well aware, from what Members have written to me, of some of the distances travelled and how difficult it is for families to visit.

On delayed transfers of care, there has been a gradual improvement over the past few years. However, there is a lot of improvement to be made—dare I say it—by moving patients from district general hospitals to community hospitals. Sometimes, that is the delayed transfer of care, if someone is in an acute care bed when they should be in a community bed, closer to home. That raises issues, such as whether we need to locate community facilities in rural areas to get people out of the district general hospitals. Sometimes, people are admitted to DGHs because they need specific treatment, which may be in the Abertawe Bro Morgannwg area or as far away as Cardiff, but we must get them home as quickly as possible once they have stabilised and their condition allows them to go home.

Byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr agenda cludiant i gleifion, gan fod pob un o'r cynlluniau peilot yn ceisio gwella ansawdd ac effeithlonrwydd. Rhaglen tair blynedd ydyw, ond byddwn yn ei gwerthuso ar ôl y flwyddyn gyntaf, a bydd yr adroddiad gwerthuso hwnnw ar gael. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y prosiectau peilot, ac mae ffocws Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ar natur wledig ardaloedd wrth ddatblygu gwasanaethau yn allweddol i ategu gwaith Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a sut y mae'n cyflawni rhai o'r agendâu ehangach hynny.

Gwnaethoch gyfeirio hefyd at faterion iechyd meddwl. Mae gennym gynllun dementia, a cheir grŵp gweithredu ar gyfer y cynllun hwnnw, o dan arweiniad Mary Burrows. Bydd yn rhaid i'r grŵp edrych ar y materion mewn ardaloedd gwledig, fel sut mae unigolion yn derbyn gofal, hyd yn oed os mai dim ond yng nghyd-destun gofal seibiant fydd hynny. Mater arall yw a oes yn rhaid inni edrych eto o'r newydd ar ba fath o wasanaeth y mae angen inni ei ddarparu yn yr ardaloedd hynny. Rwyf yn ymwybodol iawn, o'r hyn y mae Aelodau wedi'i nodi wrth ysgrifennu ataf, o rai o'r pellteroedd a deithiwyd a pha mor anodd yw hi i deuluoedd ymweld.

Ynghylch yr oedi wrth drosglwyddo gofal, bu gwelliant graddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wella—os meiddiaf ddweud—drwy symud cleifion o ysbytai dosbarth cyffredinol i ysbytai cymunedol. Weithiau, dyna'r oedi wrth drosglwyddo gofal, os yw rhywun mewn gwely gofal acíwt pan ddylent fod mewn gwely cymunedol, yn nes at gartref. Mae hynny'n codi materion, fel a oes angen inni leoli cyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd gwledig er mwyn cael pobl allan o'r ysbytai dosbarth cyffredinol. Weithiau, bydd pobl yn cael eu hanfon i Ysbytai Dosbarth Cyffredinol oherwydd bod angen triniaeth benodol arnynt, a allai fod yn ardal Abertawe Bro Morgannwg neu mor bell i ffwrdd â Chaerdydd, ond mae'n rhaid inni sicrhau eu bod yn cael mynd adref cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt sefydlogi a bod eu cyflwr yn ddigon da iddynt fynd adref.

On the workforce issues, how we get more medics to come to Wales is a challenge as is how we deal with some of the issues, but they do need to be addressed. We also need to develop a flexible workforce, using the benefits of 'Agenda for Change' to drive up the skills mix so that we can have flexibility. We also need to develop the workforce to enable the delivery of healthcare closer to home. We need to look at the links with what we do in the hospital with healthcare support workers and how they can be jointly trained and moved seamlessly into social care, if necessary. There are many issues to address in that regard.

We also need a bit more vision in our leadership on staffing issues, and we need to attract people who can do that. Of course, it is of concern to me that we are not attracting doctors to west Wales and north-west Wales, and we need to look at what more we need to do with the deanery and the BMA to encourage doctors to come here. The key issue for us is the development of the rural health plan, because we have looked at rural health very differently. We have drawn on a great deal of evidence from other countries, and the first issue is access to services. That is the key. Then there is the better integration of services. Then, there is the whole issue of community cohesion and engagement, using the skills, knowledge and networks in local communities to build up the rural health plan.

I am pleased that Professor Clement has agreed to take on some of these issues. We have the rural health innovation fund of £1 million, which I launched with Elin Jones. We had 32 applications from across Wales, we had 15 projects, and we have used £600,000. Therefore, I think that there is a willingness out there to look at this. I recognise that Hywel Dda and Powys are the two key areas to take the lead on rural service provision, and I have two rural health development sites within this, so I am closely monitoring what is going on. The role of the

O ran materion gweithlu, mae cael mwy o feddygon i ddod i Gymru yn her, felly hefyd sut rydym yn delio â rhai o'r materion, ond mae angen rhoi sylw iddynt. Mae angen inni ddatblygu gweithlu hyblyg hefyd, gan ddefnyddio manteision 'Agenda ar gyfer Newid' i wella'r cymysgedd sgiliau fel bod modd inni gael hyblygrwydd. Hefyd, mae angen inni ddatblygu'r gweithlu er mwyn gallu darparu gofal iechyd yn nes at adref. Mae angen inni edrych ar y cysylltiadau â'r hyn rydym yn ei wneud yn yr ysbyty gyda gweithwyr cymorth gofal iechyd a sut y gallant gael eu hyfforddi ar y cyd a'u symud yn rhwydd i ofal cymdeithasol, os oes angen. Mae llawer o faterion i fynd i'r afael â hwy yn hynny o beth.

Mae angen inni hefyd gael ychydig mwy o weledigaeth o ran ein harweiniad ar faterion staffio, ac mae angen inni ddenu pobl sy'n gallu gwneud hynny. Wrth gwrs, mae'n destun pryder imi nad ydym yn denu meddygon i orllewin a gogledd-orllewin Cymru, ac mae angen inni edrych ar beth arall y mae angen inni ei wneud gyda'r ddeoniaeth a Chymdeithas Feddygol Prydain i annog meddygon i ddod yma. Y mater allweddol inni yw datblygiad y cynllun iechyd gwledig, oherwydd rydym wedi edrych ar iechyd gwledig mewn ffordd wahanol iawn. Rydym wedi defnyddio llawer iawn o dystiolaeth o wledydd eraill, a'r mater cyntaf yw mynediad at wasanaethau. Dyna yw'r allwedd. Yna, mae integreiddio gwasanaethau'n well. Yna, mae'r holl fater o gydlyniant ac ymgysylltu â'r gymuned, gan ddefnyddio'r sgiliau, y wybodaeth a'r rhwydweithiau mewn cymunedau lleol i ddatblygu'r cynllun iechyd gwledig.

Rwyf yn falch bod yr Athro Clement wedi cytuno i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Mae gennym y gronfa arloesi iechyd gwledig o £1 miliwn, a lanswyd gennyf gydag Elin Jones. Cawsom 32 o geisiadau o bob rhan o Gymru, roedd gennym 15 o brosiectau, ac rydym wedi defnyddio £600,000. Felly, rwyf yn meddwl bod parodrwydd i edrych ar hyn. Rwyf yn cydnabod mai bwrdd Hywel Dda a Phowys yw'r ddwy ardal allweddol i gymryd yr awenau ar ddarpariaeth gwasanaeth gwledig, ac mae gennyf ddau safle datblygu iechyd gwledig o fewn hyn, felly rwyf yn

rural health practitioner is also a key issue. We have a task and finish group—although I know that I am accused of always setting those up—which has been established to take forward key pieces of work. The chair is Dr Lyndon Miles, the vice-chair of the Betsi Cadwaladr board, who understands rural health issues. The group has strong membership from the professions, and I am hoping that it will report early in the year.

The Institute of Rural Health has also done a good job of looking at elements of the work that we are undertaking. To underpin the work with academic rigour, I have also been core-funding a Prince of Wales scholar and have gained support for the establishment of a chair in rural health at the University of Wales. That is on the academic agenda. However, I think that we must be more innovative in how we deal with rural health, particularly with an ageing population. Consider the figures that show how few young people will be caring for old people. We really have to look at our service provision. We also have to remember that prevention is better than cure and look at what resources we can put into that.

I welcome very much this discussion of an important issue. I hope that we can maintain a consensus on the development of services in rural areas.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's business to a close.

cadw llygad barcud ar yr hyn sy'n digwydd. Mae rôl yr ymarferydd iechyd gwledig yn fater allweddol hefyd. Mae gennym grŵp gorchwyl a gorffen—er rwyf yn gwybod fy mod yn cael fy nghyhuddo o sefydlu'r rhain drwy'r amser—a sefydlwyd i ddatblygu darnau allweddol o waith. Y cadeirydd yw Dr Lyndon Miles, is-gadeirydd bwrdd Betsi Cadwaladr, sy'n deall materion iechyd gwledig. Mae gan y grŵp aelodaeth gref o'r proffesiynau, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn adrodd yn gynnar yn y flwyddyn.

Mae'r Sefydliad Iechyd Gwledig wedi gwneud gwaith da hefyd o edrych ar elfennau o'r gwaith yr ydym yn ei wneud. Er mwyn ategu'r gwaith â thrylwyredd academiaidd, rwyf hefyd wedi bod yn rhoi arian craidd i ysgolhaig cynllun Tywysog Cymru ac rwyf wedi cael cefnogaeth i sefydlu rôl cadeirydd ym maes iechyd gwledig ym Mhrifysgol Cymru. Mae hynny ar yr agenda academiaidd. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl bod yn rhaid inni fod yn fwy arloesol o ran sut rydym yn ymdrin ag iechyd gwledig, yn enwedig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio. Ystyriwch y ffigurau sy'n dangos cyn lleied o bobl ifanc a fydd yn gofalu am hen bobl. Mae'n rhaid inni edrych ar ein darpariaeth gwasanaeth o ddifrif. Rhaid inni gofio hefyd bod atal yn well na gwella, a bod angen edrych ar ba adnoddau y gallwn ei roi i sicrhau hynny.

Rwyf yn croesawu'r drafodaeth hon ar fater pwysig yn fawr iawn. Gobeithio y gallwn gynnal consensws ar ddatblygu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.08 p.m.*

*The meeting ended at 6.08 p.m.*

#### **Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
 Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)